

WIDENER LIBRARY




HX 15GD %

Celt 4003.12

HARVARD COLLEGE
LIBRARY



THE GIFT OF
FRED NORRIS ROBINSON
Class of 1891
OF CAMBRIDGE



Yours if any favored
to come yet or no

To Mr Hugh Edwards
from H. Wesley Roberts
in memory of
his old friend
Thomas Stone

713.
42-189
3

Nov. 22. 1905

Y B A R D D .

Yr Amwl Fuddingol

AR

BRIF DESTYN EISTEDDFOD MACHRAITH, MON,

1855.

GAN

ROWLAND WILLIAMS.

[HWFA MON.]

DINBYCH:
ARGRAFFWYD GAN THOMAS GEE.

MDCCCLVI.

Celt 4003.12



Gift of
Prof. F. N. Robinson
(10 in 1)

Y FEIRNIADAETH.

GAN Y PARCH. DR. JAMES (DEWI O DDYFED), A'R PARCH.
B. PARRY (GWALCHMAI).

The following condensed report of the adjudication on THE BARD was read by GWALCHMAI, in English, for the benefit of those present who did not understand the Ancient British Language.

“Among the compositions sent in (eight in number), there were some first-rate poems:—RHIGYMR, is deficient in versification. IEUAN DEULWYN, has some nice smooth stanzas, participating of the genuine muse, but deficient. THOMAS GRAY, is an author of peculiar genius. He commences his ode thus—

‘Pwy yw y bardd?—nid pob un
Geir yn mysg gwŷr maes y gân,
Am oes yn amhheu ei hun
Yr haeddai glod prif-fardd glân.

* * * * *
Na'r adyn dianrhydedd
A gân am aur, gwin, a medd,
Glod i anglod, & i englyn—
Y swydd wael o ffalsio i ddyn.’

But he has many faults. Let him proceed, nevertheless; and, ere long, he may probably be found sitting aside of the eminent Gray:—

‘On a rock whose haughty brow
Frowns o'er old Conway's foaming flood.’

HENAFGWR at once introduces his subject:—

‘Y bardd ar unwaith i'r bwrdd arweiniaf—
Mewn mydr, weithion, am hwn mi draethaf?’

and if you want to know him,

‘Nid ei wisgoedd a'i osgo—ydynt
Y nodau sydd arno;’

but—

‘Ei galon deg lawn o dân,
Olynol deimla anian.’

This *awdl* is well planned, and the sentiments good.

AB ANIAN, has an excellent poem descriptive of the *Bard*, whom he maintains must be born as such:—

‘*Poeta nascitur non fit.*’—
‘A wneir y bardd un awr byth,
Gan ddwyllaw dysg yn ddilyth?’

Na— * * * * *
 Ei eni raid, yn ei ryw,
 Yn brydydd—ffaith bur ydyw.'

CERIDWEN's composition is very good, and his language powerful. His allusions to the Welsh poets are particularly happy, such as—

'Ac i Williams Pant y celyn—y rhoent
 Anrhydedd yr *emyn*;
 Meddala deddf meddwl dyn
 I addoli, o'i ddilyn.'

* * * *

Upon the whole, this is an exceedingly good ode.

MADAWG AB GWALLTER. A short composition, but composed of pure gems. As a specimen of his poetic genius, we quote a few lines on the Welsh poets:—

'Pa awdwr fel ein *Pedr Fardd*,
 Yn ei elfen, anwylyfardd?
Dewi, 'r cywyddwr duwiol,
 Brydai waith sydd brid o'i ol;
 Ebrwydded oedd y *Bardd Du*,
 Uwch Eifion yn dyrohafu—
 I enwog wawl äi ar gylch:
 Yntau y *Gwyn*, hyd entyreh
 A oreurodd Eryri;
 A'r awenawg *Oronwy*
 O Fon—ni aned ei fwy.'

We have now arrived at the top of the list, and must finish with TYDAIN. This *awdl* will be an ornament to the *Machraith Eisteddfod*. It is replete with fine flowing poesy, with resplendent gems of true genius sparkling throughout it. The poet's eye, in a fine frenzy rolling, he thus delineates:—

'Yn dawel ymneilldus,
 Dan belydron hionn ha',
 O ystwr a berw 'r byd
 Anfwyn, a'i wagder ynfyd—
 I rodiaw difyr adeg
 Drwy'r gerddi a'r twyni teg.

Toreithiawg ffrwythi y gerddi gwyrddion,
 A'r helaeth feusydd, a'u llenydd llawnion;
 Cribawg fynyddau, a'u cymau ceimion;
 Y glynau rhyfedd, a glanau'r afon;
 Lonant, hyfrydant ei fron—yn ddiddrwyg,
 A chan y golwg, crechwena 'i galon.

* * * *

Agor a wna ei lygaid—i edrych
Drwy belydrau tanbaid,
Ar bethau gorau a gaid— *

Gwaith ei Iôr a agora
A nerth—ei ddysgrifio wna,
Wrth elfen yr awen rydd,
Yn oleu â'i ddarfelydd.

Edrycha hefyd i oruchafion
Y ffurfafenau, * * *

A dengys gysgod angau—â'i olwg
Yn cymylu llwybrau,
A gwedd holl drigolion gau
Y dyrys orthrymderau.'

And leaving earthly objects—

'O'u golwg, e' a gilia—
Hyd y nef, cyfodi wna
Ei lygaid, i wyl agor
Ar fawredd rhyfedd yr Iôr.
* * *

Ei awen gref â hefyd
Pr bythol anfarwol fyd.
* * *

Uffern boeth a ddynoetha—o honi,
Darluniad a rodde.

Egyr ddyfnder ei heigion—a dengys
Dynged annuwiolion,
A phwysau taranau 'r Iôn
Yn ysu truenusion.'

Tydain is deserving of the honour of being chaired according to the rites and privileges of the Bards of the Isle of Britain."

“TYDAIN.”

“Y MAE YR awdl hon yn addurn i Eisteddfod Machraith. Y mae y cynllun yn dda, a'r gwaith yn dda. Y mae yn orlawn o wir farddoniaeth, a gemau yr awen yn dysgleirio drwyddi. Y mae teithi y Bardd yn cael eu darlunio yn deg, yn ngwisgoedd prydfarthaf natur, mewn iaith goethwedd, ac ymadroddion can esmwythed a'r melfed pali; ac ar yr un pryd, yn y cysylltiadau priodol, gwelir y gwreichion tanllyd yn neidio allan rhyngddynt, nes taro pob teimlad i'r byw. Yr ydym yn ystyried yr awdl hon yn union y peth y dylai fod ar y testyn. Nis gallwn ond yn unig ddyfynu cynnifer o linellau ag a rydd fantais i'r cyhoedd weled ffordd rhediad awenydd yr awdwr.

Dyma fel y darlunia 'y Bardd:—

'Yn dawel ymneilldua,
Dan belydron hinon ha',
O ystŵr a berw 'r byd
Anfwyn, a'i wagder ynfyd—
I rodiaw difyr adeg
Drwy 'r gerddi a'r twyni teg.

Toreithiawg ffrwythi y gerddi gwyrddion,
A'r helaeth feusydd, a'u llenydd llawnion;
Cribawg fynyddau, a'u cymau ceimion;
Y glynau rhyfedd, a glanau 'r afon;
Lŷnant, hyfrydant ei fron—yn ddiddrwg,
A chan y golwg, crechwena 'i galon.

* * * * *
Agor a wna ei lygaid—i edrych
Drwy belydrau tanbaid,
Ar bethau gorau a gaid— *

Gwaith ei Iôr a agora
A nerth—ei ddysgrifio wna,
Wrth elfen yr awen rydd,
Yn oleu â'i ddarfelydd.

Edrycha hefyd i oruchafion
Y ffurfafenau, * * *

A dengys gysgod angau—â'i olwg
Yn cymylu llwybrau,
A gwedd holl drigolion gau
'Y dyrys orthrymderau.'

A chan adael gwrthddrychau daiarol, ymgyfyd, ac

'O'u golwg, e' a gilia—
Hyd y nef, cyfodi wna
Ei lygaid, i wyl agor
Ar fawredd rhyfedd yr Iôr.

* * * * *
Ei awen gref â hefyd
I'r bythol anfarwol fyd.

* * * * *
Uffern boeth a ddynoetha—o honi
Darluniad a rodde.

Egyr ddyfnder ei heigion—a dengys
Dynged annuwiolion,
A phwysau taranau 'r Iôn
Yn ysu truenusion.'

Yr ydym yn ystyried fod TYDAIN yn gwir deilyngu y gadair.”

A W D L .

Y BARD D o fore y byd,
Yn raddol wnai gyrhaeddyd
Anrhydedd anniweddawl,
A gwèn myrdd, trwy ganu mawl.

Yn ei barch, dena y byd—i edrych
Ar belydrau hyfryd
A geir o'i ddoniau i gyd,
Yn oleu difrycheulyd.

A theilwng yw etholi—rhyw adeg
Hyfrydawl i sylwi
Ar ei fraint o ddirfawr fri—uchelaf,
A geir hyd eithaf ei gywir deithi.

Ei enw a'i waith dillynaidd—y sydd
Yn llawn swyn nefolaidd;
A'i olwg ddystaw, wylaidd,
Yn ail i bryd angel, braidd.

Symlrwydd, a'i arwydd eirian,
 A ddaw o'i glir ddiwyg lân ;
 Coegwychder—balchder y byd
 Uchelaf, wna ochelyd :
 Y doniau gorau eu gwedd,
 Erioed fu o anrhydedd
 Yn y Bardd o awen bur—
 Un ytyw hoffa natur.

Hoff hamdden i awenu—yn gysson,
 A geisia feddiannu ;
 A'i enwog Iôr, drwy wên gu,
 A'i fawredd i'w ddfyru.

Yn dawel ymneilldua,
 Dan belydron hinon ha',
 O ystŵr a berw 'r byd
 Anfwyn, a'i wagder ynyd—
 I rodiaw difyr adeg,
 Drwy 'r gerddi a'r twyni teg.

Toreithiawg ffrwythi y gerddi gwyrddion,
 A'r helaeth feusydd, a'u llenydd llawnion ;
 Cribawg fynyddau, a'u cymau ceimion ;
 Y glynau rhyfedd, a glanau 'r afon ;
 Lonant, hyfrydant ei fron—yn ddiddrwg ;
 A chan y golwg, crechwena 'i galon.

Fe rodia mewn hyfrydwedd,
 Aml ennyd, mewn hyfryd hedd,
 Dan gangau y llwynau llon,
 A'u dirif addfed aeron—
 I wneyd glân oroian rydd,
 Garedig i'w Greawdydd.

Agor a wna ei lygaid—i edrych
 Drwy belydrau tanbaid,
 Ar bethau gorau a gaid—gan Ddofydd
 Yn fawr lawenydd, anfarwol enaid.

Gwaith ei Iôr a agora
 A nerth—ei ddysgrifio wna,
 Wrth elfen yr awen rydd,
 Yn oleu â'i ddarfelydd.

Dyry ddarluniad eirian—o weddau
 A holl gywreiniau lliwgar anian.

Rhydd ddrych gloewych ei glod,
 O'r iesin ddaiar isod :
 Y glynoedd, a'u tiroedd teg,
 A'u llydain ddolydd lliwdeg ;
 Eu hafaidd ffrwythau hefyd,
 A'u gwedd, a baentia i gyd.

Yr heirdd flodau, y rhosynau swynawl,
 Ardoa ffrithoedd hyfryd a ffrwythawl;
 Y dyrys wigau, a'u llysiâu llesawl,
 Guddia y bryniau â'u gwedd wybrenawl—
 Ddysgrifia 'n bur naturiawl—heb anwedd,
 A holl fawredd ei ddoniau llifeiriawl.

Gwna ddarlunian
 O'r dyffrynau,
 A'i fawr odlau, yn hyfrydlan:
 A'u perllanau,
 Yn eu blodau,
 Dan goronau dengar anian.

Y ffrydiau golau eu gwawr,
 Dirionlif hyd raianlawr,
 A lathraidd loew lithrant
 Drwy y gwydd, yn droiau gant—
 A'i lawn rym, a liwia 'n rhydd,
 Ar finiau yr afonydd.

Swn y cathlau,
 Hwyr a borau,
 O deg lwynau hyd eu glenydd,
 Gwyd sirioldeb,
 A dysgleirdeb,
 Ar ei wyneb, wir awenydd.

Holl odlau y pynciau per,
 Dania ei awen dyner,
 I chwyddaw cerdd y werdd wig,
 A'r adar, yn garedig.

Ei oruchel ddarfelydd—a gryfach
 Ddysgrifia 'r holl fröydd,
 A'r mawrion swynion y sydd
 O ddifai waith ei Ddofydd.

Ehed ei amgyffredion
 Drwy y ddaiar hawddgar hon.

O'r isel fröydd, â'u glenydd gleinion,
 Dros heulawg fryniau, a'u gwenau gwynion :
 Heibio i'r cymylau, doau duon,
 Dyrcha ei olwg hyd yr uchelion ;
 A thyna, mewn iaith union—ddarluniau
 O'r holl fynyddau, a'u gelltau gwylltion.

Ei olwg dreiddia eilwaith,
 Drwy nen y ffurfafen faith ;
 A'i themlau mawr, a'u gwawr gain,
 Agora â'i law gywrain.

Edrycha hefyd i oruchafion
 Y ffurfafenau, a'u lluniau llawnion ;

Noda eu gwalltawg blanedau gwylltion,
 A hwyliu eu gwenawl heuliau gwynion :
 Aneirif ei ddysgrifion—o gylchoedd
 Daiar a nefoedd, a dyfnder neifion.

A holl rywiau
 Ei ddysgrifiau,
 Ar ei dannau hyfryd union,
 Ddengys raddau
 Ei dalentau,
 O ddawn golau, ddena galon.

Holl linellau
 Ei ardebau,
 Drwy eiliadau, dry liwiedydd
 Mwya'i fawrfri
 I'w gyfodi,
 A hir foli ei ddarfelydd.

Er holl swynau
 Yr aml liwiau
 Roir ar lenau yr arlunydd,
 Nid yw'r gweddau
 Ond gwag rithiau,
 I gywreiniau gwir awenydd.

Holl degwch eu harddwch hwy,
 Erioed fu yn llygradwy;
 A'u gwawr o dryliwiawg wedd,
 Arafol wywa 'n rhyfedd—
 Tra gwelir gwawr o fawryd
 Y bardd yn coethi y byd.

Ei awen gref a nefawl—a weddus
 Gynnydda 'n wastadawl;
 A'i doniau hyfryd unawl,
 A geir yn pelydru gwawl.

E dyna ddarlun union—o olwg
 A helynt dynolion,
 Hyd y siriawl freiniawl fron,
 Welir yn mhlith bywiolion.

Hyfrydawl i efrydydd
 Ei wel'd ef, wrth oleu dydd,
 A'i dalent fawr yn dilyn
 Holl freiniau a doniau dyn.

Araf y gwna gyfeiriad—i lesawl
 Ogleisio pob teimlad;
 I fewn i bob mynwes fad,
 E gyrhaedd swyn ei gariad.

Dilyna hyd i lanerch
 Prydferthion a swynion serch,
 I weled gwedd anwylion,
 A llu o wrthddrychau llon—
 Prydweddau golau eu gwawl,
 Heirdd wenau natur ddynawl.

I galon natur gwela—a'i hodiaeth
 Deimladau ddarlunia;
 A holl ddelweddion hon a
 Yn hollol lwyr ddealla.

Egyr ffynnon
 Holl gysuron,
 A difyrion byd, â'i fawredd;
 Dengys wenau
 Ei ddelweddau,
 Yn eu rhadau a'u hanrhydedd.

A gwel elfenau galaeth—a lwythawg
 Letha y ddynoliaeth;
 Trueni y cyni caeth
 A'i dwg i drancedigaeth.

Yn ei ddagrau,
 Rhydd ddysgrifiau
 O drallodau y drylliedig,

Dan arteithiau
Dirfawr boenau
Eu mawr loesau marwol ysig.

A dengys gysgod angau—â'i olwg
Yn cymyla llwybrau,
A gwedd holl drigolion gau
Y dyrys orthrymderau.

Gwel amrywion
Ei gysgodion,
Ar awelon oer marwolaeth,
A'u heffeithion
Ar ddynolion,
Hyd i eigion llygredigaeth.

Edrycha i ddyfnder y blinderion
A ddyry alaeth i ddaiarolion ;
A gwel arteithiau clwyfau y cleifion,
Dan hir ofid, wrth donau yr afon :
A'i odiaeth ddarluniadon—o'u poenau,
A gyrhaedd giliau a gwraidd y galon.

Tywallt ffrydian
O deimladau,
I'w ganiadau teg hynodol ;

A chalonau

Wna yn ddrylliau,

A'i fawr ddoniau, fardd awenol.

E ddyry olwg, drwy dduoer wylaw,
 O'r mawr ryfeloedd a'r ymrafaeliaw;
 Erchyll ystormydd angeu 'n ymchwyddaw,
 A lluaws mawrion drwy wae 'n llesmeiriaw;
 Daiar a nef yn duaw—drwy ochain
 Y gâd yn llefain, a'i gwaed yn llifaw.

Y griddfanau,

A'r och'neidiau,

O wefusau anafusion,

Ac oer wenau

Gwaedlyd ruddiau,

Yn y golau, wana 'i galon.

O'u drych, ymneilldua draw—

Hir adeg, i brudd rodiaw

Rhwng tewion gysgodion gwydd,

I lanerch mynwent lonydd,

I weled yno eilwaith

Erchyldod rhyfeddod faith:

Marwolion gwaelion eu gwedd,

A dewrion yn cydorwedd

Dan bwysau llenau y llwch,

O gyrhaedd pob hawddgarwch.

Wrth eu bedd yr eistedda—yn dawel,
 A'u diwedd ystyria ;
 Ac adgofion dynion da
 Yn anwyl a encinia.

Wyla 'i awen
 Bur ei helfen,
 Dan yr ywen dyner, rywiog,
 Wrth wel'd diwedd
 Rhwysg a mawredd,
 Ac oer annedd cawri enwog.

Gwel'd yr eon
 Hyf ei galon,
 Enwog wron, yn y gweryd—
 Ddwg oferau
 Dwfn o ddagrau
 Ar ei wenau, lawer enyd.

A gweled glân rianod,
 Lawer un o liw yr ôd,
 Fu 'n canu a gwenu gynt,
 Yn hylaw iawn eu helynt,
 A'u llawn hwyl yn llawenhau,
 Yn lwysion engylesau ;
 Gwŷr ifainc hawddgar hefyd,
 Iach eu gwedd, yn serch i gyd,

O'u harddwch yn llwch y llaw—
 Dalaeth anhoff y dulawr—
 A'u dawnus waith o dan sel
 A d'ryswch daiar isel :—
 Dÿn ddagrau, yn llynau llaith,
 O'i ddilon ruddiau eilwaith ;
 A dawn clir daena eu clod,
 I oesau daiar isod.

Dylanwad ei ddarluniadon—addas
 O weddau dynolion,
 Adwaenir yn mysg dynion—am oesau,
 A'i swyn golau a syna y galon.

Ei awen gref ä hefyd
 I'r bythol anfarwol fyd ;
 A rhodia 'mhlith ysbrydion,
 Ar hyd taleithiau 'r Iôn.

Uffern boeth a ddynoetha—o honi,
 Darluniad a rodde ;
 A blwng annoddefol bla
 Hil annwn a ddarlunia.

Egyr ddyfnder ei heigion—a dengys
 Dynged annuwolion,

A phwysau taranau 'r Iôn,
Yn ysu truenusion.

O'u dwysdrwm ddwysdrwm ddystryw,
'E wna y bardd arlun byw.

A'i enaid a ddychryna—o'i waelod,
Pan deilwng ddadlena
Ingoedd erch y llengoedd a
Yfant o lid Iehofa.

O'u golwg, e' a gilia,
Hyd y nef, cyfodi wna
Ei lygaid, i wyl agor
Ar fawredd rhyfedd yr Iôr.

Yma cenfydd
Eang fröydd,
Per lawenydd pur oleuni:
Bythol hafddydd,
Ardal lonydd
Ei Wareddydd, a'i fawrhydi.

Nefawl demlau,
Perlawg furiau,
Ac aur seiliau gwir eu sylwedd;

Gorsedd olau
 Duw y duwiau,
 A'i goronau gwiw o rinwedd.

Dysglaer lengau o olau angelion,
 A'u mwyn delynu, a'u tanau tynion;
 Aneirif seintiau, â'u gynau gwynion,
 Yn eu hurddau, ar seddau heirddion,
 A'u haml rif yn moli'r Iôn—a'u Ceidwad,
 O ddyfal gariad, dan ddwyfol goron.

A theimlad eneniadol—a leinw
 Ei ddarlunwaith swynol;
 A difyr seiniau dwyfol—a grymus,
 Sy ar ei hoffus danau seraphol.

Ei ffrwythlon addfed ddoniau—a lonwych
 Leinw'r Ysgrythyrau;
 A mawredd eu holl rinweddau—odiaeth,
 Sy yn ehelaeth i Sïon olau.

Moesen, y bardd awenawl,
 A'i ddawn fwyn, roddai iawn fawl:
 Ei ddwyfawl Iôr glodforodd,
 Mewn nerthawl ryfeddawl fodd,
 Am fawredd trugaredd gu
 A roed i hwyr waredu

Y rhagorol siriol saint
 O afael blin ddigofaint
 Angerddawl y fradawl ffron
 Reolai Pharaoh greulon.

Ei odlau synai genedloedd—a'i ddawn
 A ddenai fil miloedd ;
 A'i holl gân alluawg oedd
 Yn wresawg drwy yr oesoedd.

Ei holl fawl nefawl i'w Ner—a swynion
 Ei seiniau melysber,
 Trwy donau tympanau per,
 A dania galon dyner.

Awen a swyn y mwyn sant,
 A gynnwys fyw ogoniant ;
 A mwynder ei dyner dôn,
 Anwylir gan ddynolion,
 Dan feichiau o boenau byd,
 A'i afar dyfna' hefyd.

A Job, ar sail ei obaith—o ganol
 Ei gyni a'i artaith,
 Wnai ddwyfol awenol waith,
 O wir gywrain ragorwaith.

Holl amrywion
 Pur gynnyrchion
 Ei fyfyrion ef, a'i fawredd,
 Sydd drysorau
 Gwell na gemau,
 O gywreiniau y gwirionedd.

Ei deilwng weithiau dilyth,
 O fawr barch, a gofir byth.

A Dafydd, mewn gwlad ofer—a'i fawredd,
 O fore ei amser,
 Heb loesau, wrth ei bleser,
 Eiliai salm wrth oleu ser.

Fe rodiai yn hyfrydol—a theilwng,
 Wrth oleu 'r ser nefol,
 Trwy 'r melyn ddyffryn a'r ddol,
 A'u sawrus lwynau siriol.

Ei dalent drwy y dolydd—a gywrain
 Ymagorai beunydd,
 Mewn caniad, ar doriad dydd,
 O ddwyfol wên ei Ddofydd.

Hyd fryniau, rhwng preiddiau prid
 Ei anwyl fro gynhenid,

Canai, 'e bynciai yn ber
 I ogoniant y Gwiw-ner ;
 A chathlau ei salmau sydd,
 O fewn i Sion fynydd,
 Yn donau gorau a gaid
 I loni duwiol enaid.

Israel fwynwedd
 Hoffai sylwedd
 A gwiw nodwedd ei ganiadau ;
 A'i awenydd
 Ddygai ffrwythydd
 A gwin newydd i'w geneuau.

Tardda ffrydiau
 O fendithiau,
 I fyrddiynau, o'i farddoniaeth ;
 A phur wleddoedd
 Dwyfawl rinoedd,
 O iach diroedd iachawdwriaeth.

Dyn diffygiol wywol wedd,
 A welir yn ei waeledd,
 Dan bwysau gwaeau ac aeth,
 Yn wylaw o ddwfn alaeth—
 Ar ei daith, gä wawr a dydd
 Difyr o Salmau Dafydd.

Ei ganeuon
 Lona galon
 Truenusion, tra yn isel ;
 A'i hyfrydlan
 Odlau dyddan,
 O'u gwir yngan, gara angel.

A gwaith Esaiah i gyd,
 A ryfedd fawrheir hefyd.

Dwyfawl buredd,
 Dysglaer fawredd,
 Ei ucheledd ef a chwilir ;
 A holl rinau
 Ei ganiadau,
 Fil o oesau, hwy a flysir.

Ei uchel ddoniau helaeth—a gynnwys
 Ogoniant barddoniaeth ;
 Dyfnderau y ffrydiau ffraeth
 O deilwng ysbrydoliaeth.

Gwenau nefol
 Fardd ysbrydol,
 A'i ddeniadol ddoniau odiaeth,
 Ddyry beunydd
 Hyfryd wawrddydd
 Yn heolydd Sion helaeth.

Ni ellir chwilio allan
 Foreu glod, a llafur glân
 Y bardd drwy oesau y byd,
 A'i ryfedd gamrau hefyd.

Erioed mwyhau yr ydoedd—ei dalent,
 O deilwng alluoedd;
 A hoff wên ei awen oedd
 Yn llusern tywyll oesoedd.

Groeg, yn forau,
 Ga'dd brofiadau
 Pur o olau y per eilydd;
 Rhufain hithau,
 Gafodd freintiau
 Hir o wenau yr awenydd.

O wydd y bardd a'i harddwch—o'u goror,
 Gwasgarai tywyllwch;
 A'i ddoniau, yn fflamau fflwch,
 Ddöi â dydd o ddedwyddwch.

Pan oedd llenau
 Tew gymylau,
 Hyd wên olau Brydain helaeth;

Hithau 'n wywol,
 A theimladol,
 O'i henbydol anwybodaeth :—

Ei lewych hardd oleuad,
 O wir les, a lonai 'r wlad—
 Fel haulwen glaer yn gwenu,
 Mewn harddwch o d'w'llwch du.

Aeth i demlau
 Gwir wybodau,
 Yn ei urddau, a'i iawn harddwch.
 A theleidion
 Dwfn fyfyrion,
 Oedd ei goron a'i hawddgarwch.

A thrwy ei lwydd rhwydd yr aeth
 I gadair prif ddysgeidiaeth ;
 A helaeth wybodaeth bur,
 A ddylifodd o'i lafur.

Athraw ydoedd,
 Trwy yr oesoedd,
 I fyrddiynoedd, a'i fawr ddoniau
 A breninoedd,
 Yn eu llysoedd,
 Garai winoedd gwir ei enau.

Mewn urddas, i'w palasau—arweinig,
 Yr awenydd golau;
 A'u hystafellau o fawl,
 Lonid â'i siriawl wenau.

Ar ei sedd yr eisteddai—
 A gwên hoff, eu dysgu wnai
 Am ddyfnion ddirgelion gau
 Y byd, a'i holl wybodau;
 A'i awen deg ro'i wên dydd
 Ar wyneb yr athronydd.

A golau ei ddysg helaeth—âi'n amlwg,
 Yn nhemlau cerddoriaeth;
 A hyfrydol fywiol faeth—ei emyn,
 O sain y delyn, synai y dalaeth.

Ei alawau,
 Lawen leisiau, lanwai lysoedd;
 A'i soniarus
 Gywair melus, garai miloedd.

Hynod oedd ei delyn deg,
 Yn Mhrydain, am hir adeg;
 A'r cerddorion gwychion gynt,
 Yn foreu a'i clodforynt:

A'u moledd geir hyd heddyw,
I enw y bardd, yn dân byw.

Cymru 'n forau,
Trwy ei weithiau,
O'i gofidiau a gyfodwyd;
A'i phrydferthwch
Mewn gwladgarwch,
Yn fawr elwch, anfarwolwyd.

Holl effeithiau
Dylanwadau
Ei bur eiriau, a'i beroriaeth,
Trwy ddawn eirian,
Ydoedd lydan
Loew darian y wladwriaeth.

Ei wresawg deimlad, a'i egniadau,
O'i ddewr galon, a ddeuai i'r golau,
Drwy fyrdd o elynol restrol rwystrau,
Dros wlad ein mebyd, anwylyd olau;
A'i gariad ydoedd gaerau—o'i chwmpas,
O hyd i luddias pob dialeddau.

A thrwy ei rad, y wlad lwys,
Erioed wnai yn baradwys;

A theilwng waith ei hiaith hi,
 Yn weddus fynai noddi ;
 A gwawr ei odidawg oes,
 Dywynai wedi 'i einioes.

Ond er ei helaeth ragoriaethau
 Dengar, a wenent dan goronau,
 Cododd llidiawg gadau—o elynion,
 I'w loew geinion, a'i heulawg wenau.

Iorwerth¹ a wyllt ymwerthai—i'w erbyn,
 Yn fyrbwyll y rhuthrai ;
 Ei enaid ymgreulonai,
 A'i lid noeth, ymledu wnai.

A thrwy ei fâr a'i gynddaredd—aethus,
 Y chwythai gelanedd ;
 Ysgydwai, gloewai ei gledd,
 A gwanai feirddion Gwynedd.

Ac Ynys Fôn dirionwawr—
 Hen fam Cymru gu ei gwawr—
 Y brif achles gynnes gynt,
 I hylwydd Feirdd a'u helynt—
 Lychwinai, brydiai ei bron,
 A'i hurddas, â gwaed beirddion.

¹ Iorwerth 1.

Gwaelodion ei fawr ddigllonedd—ysol,
 Arllwysai yn rhyfedd,
 Dros holl Gymru gu ei gwedd,
 Yn ddiluw o ddialedd.

Ond er ei ddig genfigen,
 Y bardd ddyrchafai ei ben ;
 A'i enw glân, er miniawg lid,
 A addas anrhydeddid :
 Ei awen danllyd wenai—
 A nerth, ymddysgleirio wnai,
 Ar led drwy eang wledydd,
 Yn ail i deg oleu dydd ;
 A'i hydrwych fyw belydron,
 A ro'i ail wawr fawr i Fôn.

E rodiai beirdd hyfrydawl—ar wyneb
 Yr ynys brydferthawl ;
 Tywynai a gwenai gwawl,
 Trwy eu doniau trydanawl.

Gwir awen o lawen lys,
 A mawredd Lewis Morys,
 Heb ball, lewyrchai allan,
 Yn fawl doeth o nefawl dân.

A seiniau Huw Huws enwog—lawenodd
 Galonau trymlwythog ;
 A'i dyner weithiau doniog—ro'i fawr lwydd,
 I wenau dedwydd awen odidog.

Goronwy, â'i gywreinion,
 Lênydd mawr, a lonodd Môn ;
 A'i gywrain reit heg araul,
 Yn y tir, oedd d'w'niad haul.

A gwawr ei eang fawredd—a dyner
 Ymdaenai dros Wynedd ;
 A thrwy Frydain gain ei gwedd,
 Ai ei firain glodforedd.

Holl elfen eu hawen hwy,
 Ydoedd anniffoddadwy ;
 A'i llewyrch adlewyrcha—
 Tan y nef, tywynu wna :
 A deil goleuni dilyth
 Y bardd i dywynu byth.

Doniau ei danllyd anian—a'i lwyddiant,
 Ni luddia byd cyfan ;
 Ei nefawl brydyddawl dân,
 Drwy wyll belydra allan.

Ni cheir geiriau,
 Rydd ddysgrifiau
 O bur ddoniau y barddonydd :
 Cafodd nerthol
 Awen hudol,
 A gwen ddwyfol gan ei Ddofydd.

Ac elfen ei awenydd,
 Wedi y farn, mewn clod fydd :
 A thrwy foes, ein hoes ni
 Ar unwaith wna 'i goroni ;
 A'i gwenawl dlysau gwynion,
 Addurnant, frithant ei fron.

TYDAIN.

A W D L

AB

“Ioan yn Llys Patmos:”

TESTUN CADAIR EISTEDDFOD LLANDUDNO,

—→ 1864. ←—

G A N A L L T U D,

Sef H. Hughes, (Tegai), Aberdar.

A B E R D A R:

ARGRAFFWYD GAN J. T. JONES, COMMERCIAL-PLACE.

1864.

RHAGDRAITH.

FY NGHYDWLADWYR,—

Wele at eich gwasanaeth fy Awdl ar destun cadair Llandudno—yr unig Awdl a gyfansoddais erioed ar destun y gadair genedlaethol; er i mi fod yn gystadleuydd ar destunau ereill yn lled fynych—weithiau yn llwyddianus, ac weithiau yn aflwyddianus. Ni chyfansoddais linell i eisteddfod leol er ys tuag ugain mlynedd, am nad wyf yn ystyried yn anrhydeddus yn neb ar ol cyrhaedd addfedrwydd oedran ymryson a bechgyn ar eu cynydd.

Y ffaith i mi gael fy analluogi gan ergyd o'r parlys, i gyflawni fy swydd weinidogaethol, a roddes amser i mi gyflawni y dasg farddonol hon. Gorchymynai fy meddyg yn gaeth i mi beidio gwneud dim, na meddwl am ddim ar y pryd. Ond tybiais na fuasai barddoni ychydig yn peri llawer o niwed i'm hymenydd meddal, ac am hyny, ym-efflais yn y gorchwyl hwn. Fel adloniant yn unig yr wyf yn edrych ar farddoniaeth a cherddoriaeth, ac na ddylai neb esgeuluso ei ddyledswyddau gyda'r naill na'r llall.

At eich gwasanaeth chwi, fy nghydwladwyr, y cyfansoddais y gan hon. Fe fydd yn hawdd genych gredu nad ymgynghorais ddim a chwaeth fy Meirniaid pan ddarllenoch yr Awdl; canys yr wyf yn digwydd bod yn dra gwahanol fy marn i Emrys am ddeddfau chwaeth, ac i Nicander am natur yr Eglwys Gristionogol. Honaf hawl i farnu dros of fy hun ar bynciau fel hyn, yn ngwyneb y Beibl noeth.

Credaf mai y chwaeth oreu yw galw pob peth ar ei enw ei hun, pa un bynag ai da ai drwg, ai teg ai hagr a fyddo. Ymddengys mai dyna farn Crist a'i apostolion ar y pwnc. Gwel Math. xxiii. 13—34; Act. xxiii. 3; 2 Pedr ii; Judas; Datguddiad Ioan. Y mae gryn wahaniaeth rhwng y chwaeth uchod a chwaeth hen frawd y soniai y diweddar Christmas Evans am dano, yr hwn a alwai Dic y Diafl yn "Richard Anwyl." Fe welodd Ioan yn Mhatmos bethau nad oedd genyf fi unrhyw enw i'w roddi arnynt, ond yr enw a roddes Ioan ei hun.

Petrusais ychydig pa lwybr a gymerwn i gyfansoddi ar y fath destun. Meddyliais unwaith am sefyll mewn adfyfyrdod uwch ben yr olygfa, yn debyg i'r modd y gwnaeth Eben Fardd uwch ben yr Adgyfodiad, yr hyn a roddasai fantais i *grebwyll*; ond ar ol adystyriaeth, dewisais lwybr tebygi eiddo Ieuan Glan Geirionydd ar yr Adgyfodiad; sef edrych ar ei destun yn ngoleuni yr Ysgrythyrau, er ei fod yn gosod ei awen dan anfantais wrth alleirio llawer.

Y mae y meddylddrych o "alltud" yn feichiog o ddelweddau barddonol. Y mae yr alltud yn Mhatmos "am air Duw, ac am dystiolaeth Iesu Grist," yn llawnach fyth o feddylddrychau barddonol. Ond credwyf na theimlasai y darllenydd Cristionogol y buasai y testun wedi cael dim rhith cyfiawnder heb ddywedyd rhywbeth am yr hyn a welodd ac a glywodd Ioan, yn nhir anial ei alltudiaeth. Ond gwelaf yn y feirniadaeth mai "Awdl ar Ioan yn Ynys Patmos, ac nid duwinydd yn esbonio yr arluniau" oedd i gael ffafwr yn ngolwg y Beirniaid. Rhydd iddynt eu barn, bid sicr; ond mor rhydd i Alltud ei farn a hwythau, ac mor rhydd i tithau, ddarllenydd, dy farn ag yw i'r naill a'r llall o honom. Hefyd, "rhydd i bob barn ei llafar." Ysbryd Pabyddiaeth yw yr ysbryd sydd yn cymeryd arno farnu dros neb, ond drosto ei hun.

Dyma eiriau y feirniadaeth am ragoriaethau yr Awdl hon—"Y mae awdwr Awdl yr Alltud yn ddyn o wybodaeth eang, ac yn gynghaneddwr cryf. Y mae llinellau yn britho'r cyfansoddiad hwn a deilyngant anfarwoldeb yn ystyr *farddonol* y gair. Wrth ddarllen rhai rhanau, yr oeddym yn gweled yr awdwr yn myned ar ei gyfer i gymeryd meddiant o'r llawryf, &c." Os yw yr Awdl yn cyfateb i'r dystiolaeth uchod, o eiddo y Beirniaid, y mae yn gaffaeliad o werth i chwi, fy nghyd genedl. Nid yn fynych y ceir Awdl wedi ei "britho â llinellau a deilyngant anfarwoldeb yn ystyr *farddonol* y gair." Y mae genym amryw awdlau wedi cael y gadair heb gymaint ag un llinell anfarwol ynddynt—corff y farwolaeth ei hun ydynt.

Cwyna y Beirniaid fod y darluniau sydd yma o gydwybod euog, y Butain fawr, cythraul rhyfel, &c., yn cynwys geiriad rhy arw. Gweler nodiadau arnynt yn y diwedd.

ALLTUD, sef TEGAI.

Aberdar, Hydref 9, 1864.

AWDL, &c.

Bhan i.

CYRWYSIAD:—*Ioan yn Mhatmos yn enghraifft o berer-
inion Seion yn yr hen oesau—Gormeswyr yn eu
herlid, a Duw yn eu noddi, &c.*

—o—
Blaenor y dysgybl anwyl—a'i nodded
Mewn annyddan breswyl,
Blaenora mewn blin arwyl,
I urdd y gan, y bardd gwyl.

Y llef glywai ef o'i ol,
Y llef fu'n wyrth—yn llef nerthol,—

A danio'm henaid ynwyf—dylif
Ysbrydoliaeth gaffwyf;
Enyned y llef ywwyf
Ryw ysol fyw nefol nwyf.

Hed awen ar aden rydd—i'r ynys
Lle mae'r hen Dduwinydd,
Ioan Sant—ef yno sydd
Am Air Duw mewn mawr dywydd—
Was teilwng, ac am dystiolaeth
Ei Iesu cu, mae yn was caeth.

Ei ran, er mai Ioan yw,
A garwyd ac a geryw,
Gâ o fyd y gofidion
Ar ei hynt drwy'r ddaiar hon.

Y'nghanol ingau enaid—annyddan
Fynyddau Llewparidiaid—
Anial llwm, a niwl, a llaid,
Ion a wel ei anwyliaid.

Asgre lân gan Ioan oedd—
 Hi a'i Naf fu ei nefoedd.
 Palas hardd—pa les yw o,
 Neu aur i wr fel Nero,
 A gwaed dyn gwedi 'i daenu
 Dros y wlad gan ei drais lu?
 Ie, gwaed goren y gwyr
 Oedd ddeiliaid ac addolwyr
 Y Duw byw, a roed mewn bar,
 I dduo a mwydo'r ddaiar.

Megin y ddraig a ymgynddeiriogedd,
 Ac â'i hanadl uffern a gyneuodd
 Hi ar y ddaiar—ei hawyr a dduodd—
 Yn ei holl hagrwech dirdrais a'i llygrodd ;
 Am y dinystr a ymdaenodd—drosti
 Hi, a'r trueni mawr a'i trywanodd,
 Yn groch anwn grechwenodd—a huan
 Y nef oleulan mewn niwl wylodd !

Rhod rhai mewn duon chwervon garcharau,
 Rhai drengent, braenent ar groesbrenau,
 A bu llafur bwyseill a llifiau
 Yn hollti dynion fel dellt i danau—
 Fe ddaeth erledigaethau—fel corwynt
 A diail oeddynt y dialeddau.

Fel hyn caid anwyliad Ner,
 Dan li gofidion lawer,
 Mewn niwl ac mewn anialwch,
 Cloi eu traed wnai y clai trwch.

Ioan anwyl, ti'n unig—sydd ar gael,
 Wedi dy adael yn alldudiedig.
 Dy frodyr, fel diofrydig—ddyfethwyd,
 Hwyr oll a ddodwyd yn ebyrth lladdedig.

Tydi dy hun yn unig,
 Eto am dro yma drig ;
 Dyna'th le o dan noeth lid,
 Yn gyfaill dreigiau gofid.
 Os Duw, a monwes dawel,
 Da, diau, ddaw, doed a ddel.

Yr euog gydwybod rua—er ei hoch
 Ar waed yr ymbortha ;
 Tywalltodd waed, gwaed byth ga—yn lief gwaed,
 Ie gan ddrygwaed ymgynddeirioga ;
 Fe'i gyrir—fe'i hyrddir hi—at ddiawffgwn,
 A dreigiau anwn, yn ei drygioni !!

O fewn y greulawn fynwes—y rhua
 Yr hen waedlyd arthes ;
 Dyfod mae'r dydd—dydd o dâl,—
 Gwir ddial a'i gorddiwes.

Wele'r cwmwl dwl yn do—a hwnw
 Sydd ar fin ymrwygo,
 Yn arwydd annedwydd nos
 Yn aros uwch ben Nero.

Yr adyn damniol rodia—y'nghanol
 Ei angenion yma ;
 Ysbrydoedd y gwinoedd a ga,
 I gellwair a'i wancus gylla.
 Dygyfor mae digofaint
 Duw, o'i sedd, am waed y saint.

Ioan, moes dy gân heb gel—
 I ti mae enaid tawel ;
 Ie ti, Ioan anwyl,
 Gyda gwen gei gadw gwyl,
 A chanu heb achwymiad
 Fawl rhydd i Dofydd dy Dad,
 A rhoi trem ar y fro trig
 Dy Geidwad bendigedig.
 Er rhoi dy gorff mewn rhwyd gaeth,
 Yn druenus dy driniaeth,
 Pharo, na Nero, ni all,
 Na Herod, na neb arall,
 Er tno, rwymo'r enaid—
 Ei ado'n rhydd-edyn raid.

Ehed, heb ddeifio 'i aden—yn fywiog
 Drwy'r ddifaol elfen ;
 I'w wyllt-daith fel y fellten,
 Heinif â drwy y nef wen.

Awen ber, yn dân y bydd—enyna
 Yn enaid y prydydd ;
 I'r awyr â—her a rydd
 I gerth rwymau'r gorthrymydd.

Un o goeth feibion y gân,
 Diau o Dduw, ydoedd Ioan ;
 Awen ddyd ei gwen i'w ddal
 Yn yr ynys oer anial.

Yno ysbrydion anian—yn siriol
 A gysurent Ioan ;
 Hwnt o wyll deuent allan—
 O'r gwynt, o'r môr, a phob man.
 Yn gwau mae ysbryd y gwynt,
 A chwareu gyda chorwynt.

Ysbrydion y nwyon pan ânt—i frwydr
 Fath fradwaith gyflawnant !
 Troi Patmos mewn un nos wnant
 Yn for o danlifeiriant.

Uwch ben yn yr wybrenau,
 Ysbrydion gwylltien sy'n gwau ;
 Ar edyn tân rhai hedant,
 Euro'n wych y nwyfre wnant ;
 Ereill gant edyn arian
 Lloer, ser, yn eu gloewder glân.

Dyna gyfeilhon doniol—o urddas
 I'r bardd awenyddol !
 Os trig mewn cell unigol—pell o'i fro,
 Ca ei hunan yno yn eu canol.

Awel ysbrydion o'r ðail sibrydant,
 Yma ei wely llwm hwy a wiliant,
 Yn hynaws hwy i'w huno y suant—
 Murmurawg donau'r mor mawr gydunant.
 Idd ei gysuro ef heb ddig sorian,
 Ysbrydion mwynion y nos ymunant,
 A'u cwsg edyn cysgodant—yn ffyddlon,
 Was eu Hion tirion, wrtho tosturiant.

Fe gaiff gan anian hynaws—wiw roddien,
 Na rydd ei frawd drygnaws ;
 Ow Domitian anhynaws !
 Gwridai'r tru greadur traws.

Daeth durturod, colomenod,
 Oll i'w wyddfod yn llu addfwyn ;
 Yn ei drallod gan gwningod
 A giachod e gai echwyn :

Ond ei gyd-ddyn, adyn hyll,
 Ai'n waethaf hyllaf ellyll ;
 Bwriai ei lidiog boeredd
 Ar was Ion, oddiar ei sedd.

Ond ha ! y mae genyt ti Ioan—fwy
 Nag a fedd beirdd anian ;
 Ac hefyd mae y cyfan
 Uwch asur glir—uwch ser glan !

Gwir ras dy hawddgar Iesu—
 Dylanwad y cariad cu—
 Cefaiast, apostol cyfiawn ;
 Gwel dy Dduw—gloewa dy ddawn.
 Dan dy dirion fron ddi frad
 Y cura calon cariad.

Ar fonwes gynnes y gwr
 A roed it' yn Waredwr,
 Bu yn gorphwys bwys dy ben—
 Oni fag hyn genfigen
 Y brodyr pur ysbrydawl
 Sydd o gylch gerseddau gwawl !

Gwawl a gwres cariad Iesu—yn y fan
 A fu yn ffoddgraffu
 Llun, ar dy fron, *galon* gu
 Y gwr sydd yn dy garu.

Hwn ynot sy'n enynu—dy fonwes
 Di a fyn gynhesu,
 A throddad y cariad cu
 Mal aden sy'n ymledu.

Ioan gu, os unig wyt
 Ti, dedwydd alltud ydwyt,
 Yn y ddunos achosion
 I ganu roes gwen yr Ion.

Yn nghanol ing fel yna—y melir
 Miloedd o blant Adda ;
 Colyn pob gelyn ga—teulu'r ffydd,
 Y rhai sy'n ufydd wir weision Iehofa.

O ffau o lid, phiol lawn
 A gafodd Abel gyfiawn ;
 Gwawd a llid fu'n erlid No,
 Er hyn nawdd fu'r Ion iddo ;
 Abr'am, Isaac, a Jacob,
 A'r un sut yr hynaws Ioh :

I boeredd y tanbeiriau—hwy fwriwyd,
 Hen anfarwøl seintiau ;
 Ond allan daethant hwythau—yn nerth ffydd,
 Oll o'u da dywydd yn llaw Duw y duwiau.

Yn hanes Moses y mae mwy
 O Dduwdod yn ganfyddadwy ;
 Gallu Duw a fu'n gollwng
 Ei braidd o safn y blaidd blwng,
 Sef Pharo gas offeryn—
 Fe heriai ef Ior ei hun—
 O bair dig fe boerai dân
 Mewn malais, a thrais, a thrin.

Ond er holl reibiol orwanc—y ffyrnig,
 A'r uffernol ddiaflgranc—
 Pharo hyf, gryf ei grafanc,
 Ior a'i troes i ddyfnder tranc !

Offer Naf, er Pharo a'i nerth,
 Fyn yr Oen o safn yr arth ;
 Os llesg—byw, nis llysg y berth,
 Duw gwyd i symud y gwarth.
 Yn ei law anwyl ef—y daw o'r llaid
 Ei deulu gweiniaid i oleu gwiwnef.

O'r Aifft i Ganaan yr oedd
 Yn ei law'n dwyn ei luoedd ;
Haul y dydd wnai'n gwml du
 O d'wyllwch i'w mantellu,
 A'r *cwmwl duddwl* âi 'n dân—
 Y *niwl* aeth yn *haul* weithian !

Tân Ior sydd eto'n aros—yn golofn
 O deg wawl uwch Patmos ;
 Daw y dydd yn do diddos,
 Ac yn haul ceindeg y nos.

Yn glaerdan mewn dysgleirdeb—tywyna
 Yn der Seceina, pur, dros ei gwyneb.

Wyt, Ioan, yn ei chanol—yn gwenu,
 Mewn gogoniant dwyfol ;
 Dorau y byd daiarol,
 Gyda thwrf, gauwyd o'th ol.
 Daw o law Duw Elias,
 Oddi fry, i ti wledd fras :—

Manna'n hael i Israel oedd,
 Roi Naf fel gwlaw o'r nefoedd.
 Daw manna mwy dymunol
 Yma, a nerth—mae mwy'n ol.
Y goreu'n ol geir yn Nuw,
 Yw arwyddair y Gwirdduw.

Yn Horeb wele graig eres—rhyw graig
 Rhy gref i fydd Moses,
 Wnai brawf o haiarn neu bres,
 Oedd hono, medd ei hanes.

Rhoes Duw ei lef, a'r gref graig—
 Y gelltawg graig a holltodd,
 Ac yna dwfr—gloeddwr glân
 Yn bost allan bistyllodd !
 Gwnai'r tir cras yn wyrddlas wawr—
 Y genedl fawr ddigonwyd,
 Yna'r Ion am wen ei ras
 Yn addas ogoneddwyd.

I'r alltud trist Crist yw'r Graig gref—ddylyn
 Ei holl ddeiliaid adref ;
 Ioan gân am wen gwiwnef,
 A nawdd ei Ion iddo ef.

Mae fel Dafydd sydd yn son
 Yr yfai ddwr o'r afon :
 Mae afon yma hefyd—
 Ffrydiau'n llawenhau o hyd
 Ddinas Duw—'n ddaionus dyd
 I weinion nerth bob enyd,
 Fy enaid yf o honi—
 Afon dy Ion ydyw hi.

Yn ei sŷ hi Essay aeth—yn ddwyfol,
 A byw arddunol Dad Barddoniaeth.
 Yn ei waeledd yn helaeth—yr yfai,
 A hi a'i daliai mewn ysbrydoliaeth.

I afael blwng deifiol bla,
 Rym mawr, âi Jeremia—
 Eneidiol alarnadu
 Bob dydd yn ei dywydd du
 Wnai, gan frad gnoai ei fron,
 Ac wylai waed ei galon !

Ei fwyd a'i ddiod ef oedd—och'neidion
 Holltai ei ddwyfron gyda'i heillt ddyfroedd.
 Er ei adwyth yr ydoedd—yn canfod
 I wan yn barod win yn aberoedd.

Eseciel, Daniel un dydd,
 Rwymid gan y gortharymydd.
 Marw neu ymgrymu a raid
 I Luniau'r Babiloniaid :
 Ond yna ni phalla ffydd—
 Cryfion yw breichiau crefydd—
 Un grefach na theyrn grafanc
 Tra llem ! oedd ffydd y Tri Llanc—
 Ei phuro'n deg wnai'r ffwrn dân—
 Hi yno brofai 'i hanian.
 A Duw Ion a adwaenodd
 Ei weision—rhyddion fe'u rhodd.

Llawer enyd llwyr weinion—yn mhob oes,
 Rhanu y dduloes bu'r hen dduwiolion ;
 Ac erys eu plant gwirion—yn ofnog
 Yn y tir lleidiog dan eu trallodion,
 Bron, bron a digaloni—yn mhob modd,
 Och a'u trywanodd ag awch trueni !
 Pan wisgai'r nen ei nosleni—llydain
 Ar ruddiau'r dwyrain gwawr oedd ar dori.


Hael y d'ai angel y dydd
 I daenu 'i wawl adenydd,
 Ac i wych oreurog wau
 Ymylon y cymylau.

Os daw yn wlaw haul o'i lys—goleuwawr,
 Yn gawr eonfawr e grea enfys ;
 Mad arwydd cyfamod erys—Sant cu,
 O Dduw, ei allu, a'i dda ewyllys.
 Sa'i hwn uwch Patmos Ynys—Duw a dwng
 Na fu mwy teilwng gyfamod dilys.

Gwel, Io an, fry dy dy dad !
 Mae sail am ail ymweliad :
 O'r geinfro daw eto stad—Ymwelydd,
 Na ddaw un eilydd iddo'n ei alwad.

Bhan ii.

CYNWYSIAD: — *Ioan yn gwled Iesu meron gwahanol
agweddu — yn amddiffyn ei eghoys, &c.*



Ioan gu, cwyd o'th hun gëll
I gyfyng ddrws dy gafell,
Er bod heb adnabod neb
I wenu yn dy wyneb,
Gwel, gwel! Dacw angel Ion
Ar ei chwyf drwy'r uwchafion,
A'i adenydd sidanawl
Yn decach—gwyachach nâ'r gwawl!
Lliwiau'r nen fawr a'r enfys—
Lliwiau o'r llawr oll i'r llys,
A welir yn yswilio—
Duo'r haul wna'i geinder o!
Un o weision dewisawl
Iesu gwiw o deyrnas gwawl,
Ydyw ef—wele dyfod,
Yn deg, atat ti mae'n d'od.
O hynaws wedd! Mae'n nesau,
A rhyw lèn fawr o *luniau*.
Trefniadau, bwriadau'r Ion,
Ynt i gynal saint gweinion
Yn y glyn a'r dyffryn du—
Hir nos—cyn cael teyrnasu.

Yn awr, Ioan Aur enau—myn weled
Manylion y *luniau* ;
Rho gymhorth i godi'r gemau—'n amlwg,
A'u dwyn i'r golwg o dan argelïau.

Ti dirion ferch Seion saf
Yn agos, a mynegaf ;
Ac os wyt am agosau,
Diosg, gad dy esgidïau,
Canys noeth ynys yw hon
Briodwyd gan ysbrydion
Eres y nefol oror,
Ac hefyd gan ysbryd Ior.

Yn yr ysbryd hyfryd hwn
 Ar addas ddydd Duw'r oeddwn :
 O'r fath *ddydd!* hafddydd oedd o,
 A gaf am byth ei gofio.
 Galar o'm monwes giliodd—
 Hoff awr ! a'm gofid a ffodd,
 A daeth gwllith bendith di baid
 Fy Ion i lenwi f' enaid.
 Myfi yn nef y nefoedd,
 A nef ei hun ynof oedd ;
 Fi yn Ner byth i'w fwynhau—
 Naf fy Ion ynof finau ;
 Ac o'm hol rhyw geuol gorn
 Hynodgawr, fel sain udgorn,
 A glywais—synais—rhoes ef
 Ebrwydd eilwaith ber ddolef,
 A dywedai, “ Duw ydwyf,
 Alpha ac Omega wyf.”
 Tyst ffyddlawn ac uniawn yw,
 Un adwaen Seion ydyw.
 Bu yn isel, isel wr,
 Ond heddyw wele'n Ddyddiwr,
 Yn Alpha, 'n Omega mwy,
 A roed i lenwi'r adwy.

Canolwr, acw yn ei alwad—oedd ef,
 Rhwing *diddym* a'r *cread* ;
 Canolwr mewn cynaliad—ydyw ef,
 Ei Dad a addef, nes daw diweddiad ;
 A chloadwy fachludiad
 Haul y dydd ola'—ei dad.
 Eilwaith bu'n ganolwr—yn ei ing dwfn,
 Rhwing dau ddrwgweithredwr !
 I'r adwy'n Waredwr—rhwing dyn a'i Dad,
 Yn ei wir alwad daeth yn Eiriolwr.
 Canolwr ni a'i cawn eilwaith—yn bur,
 Man y bo ar ymdaith
 Dau neu dri : dyna a draith—un bob dydd
 Glyw eu lleferydd, gwel eu llafurwaith.

Ef oedd cyn bod rhod yr haul,
 Asur eirian ser araul ;
 Cyn cau â dorau dyrym
 Y môr â'i roch mawr ei rym ;

Ie cyn per acenion
 Y bore ser, burweis Ion.
 Un oedd mewn gogoneddiad,
 Hyfrydwch, tegwch y Tad.
 Yr Hwn a'n carodd yn rhad
 O dan gur—Duw'n ei gariad !
 Tair nos ein tirion Iesu
 Yn y bedd yn huno bu ;
 Ond wele byw ydyw ef,
 Ar ganaid sedd aur gwiwnef.
 E roed holl agoriadau
 Oerion bedd ac uffern bau,
 Ac allweddau'r nef hefyd
 Iddo—maent ganddo i gyd.
 Chwery gwawr Dwyfol fawredd
 Ar ei wisg ac ar ei wedd :
 Daiar Edom a droediai,
 A'r un wedd drwy Bozra'r âi.
 Beiddiai ei hunan allu'r byddinoedd,
 Y gad a lanwai ef â gwaedlynoedd,
 Toai y nifwl hyd gant y nefoedd,
 Yn ia oer ingau dros yr holl rengoedd,
 A'i darian o'r pellderoedd—a chwarddai,
 Heriai a gwawdiai rym y mawr gadoedd.

O'i enau dig afon o dân—a fwria
 Yn llifeiriant allan ;
 A gwaed yf ei gleddyf glan,
 Newynog yn ei anian.

Gwroldeb yn burdeb byw
 Lywia 'i rodiad diledryw,
 Yn ei daith yr enyd hon
 Ysiga dywysogion.
 Mae'n Arglwydd yr arglwyddi—
 Brenin pob brenin mewn bri.
 Ydyw, a Duw y duwiau,
 A byw Ior byth i barhau.
 Gwel, o'i olwg goleulan
 Ymsaetha, melltena tân !
 Ie golwg mwy gwiwlym
 Na'r haul yn mhaoethder ei rym !
 Efe a wna'r nos ddua'n ddydd
 I'r duwiol mewn mawr dywydd.

Ei draed oedd bres coeth, neu drydan—yr oedd
 Yn gwefreiddio'r cyfan
 Ei droed ef darawai dân
 O wyneb dyfrllyd anian!

O'i enau deufin gledd sydd yn dyfod
 Allan, a hwnw'n ei allu'n hynod—
 Y tân dwyfol felltena o'i dafod,
 Yn llym eiriau—arfau anorfod—
 Mae Iesu yn ymosod—â'i lym gledd
 Ar iaith, a buchedd—pob rhith o bechod.
 Fel dyfroedd yr oedd ei ru—pan chwyddant,
 Eigionau ferwant, gan ymgynhyrfu—
 Murmur—swn môr mawr a'i su—wna ruad,
 A'i gadymwriad nid yw i'w gydmaru!

Yn null *Llew* eon allan—y waith hon
 Daeth i glwyfo Satan:
 Nesa yn hyf, Sion wan,
 Yn ei iaith mae'n *Oen* weithian.

Wele ei wisg, harddwisg ef
 O ganaid nwyddau gwiwnef,
 Ac eurog wregys gorwiw
 O gylch ei fron, fu'n *fron friw*!
 Ond gwen hardd seren siriawl,
 Lle dawnsia, lle gwea gwawl,
 Sy ar ei wregys eirian,
 Yn glod i fy *Mhrynwr* glân.
 Llithraw yn dônau llathrwyn
 Wna y gwallt dros ei ben gwyn,
 Uwch ei fraint, gwynach ei frig
 Nag ôd ar frig y goedwig.
 Ei orwych wyneb araul
 Oedd o rym dduai yr haul:
 Gormod o *Dduwde* im' ddâl—
 Gwenau nas gallwn gynal.
 Yn llwythog drwm a'm llethynt—
 Cofiais am gais *Moses* gynt—
 Gwaeddais am le i ymguddiaw,
 Gan y drem, mewn agen draw.
 Synais, gwelwais i gyd—
 Marw hunais am ryw enyd.
 Gadael y corff gwywedig—a wnaethym
 Mewn noeth wlad bellenig,

Yn grud i'r hen lygredig—ddrwg anian,
 I siglo 'i hunan yn ei chwsgle unig.
 A'm henaid âi am unwaith
 Fel y dydd i'w nefol daith ;
 Hwnt Mercher, Gwener, ac Iau—chedais,
 Mawrth, Sadwrn a'i gylchau,
 Ac o'm hol, mewn cymylau—gadewais .
 Ser, a hedais o'u rhodau.

I ail nefoedd oleu y nofiais,
 Yma gwed'yn yr ail ymgodais,
 Ar hoff aden seraph ehedais,
 Ac O! olwg fawreddog a welais !
 Ac yn y fan y gofynais—Ai dacw
 Yr *aur ddelew* o'r Ior a addolais ?
 Ar hyn rhoes fy arweinydd—a'm hynad,
 Yma o gariad i mi ei gerydd.
 Efe ofynai, " Pwy fydd—y mawrddoeth
 A thradoeth weithredydd,
 Eill lunio Duw'n allanol—o fwn
 Neu feini daiarol ?
 Ai dyna ffaith, adyn ffol ?
 O ynfydrwydd anfeidrol !
 Ba *ddelew* na bai *ddiwm*,
 Wneir o'r *haul*, ond haul ei *kun* ?
 Pa *ddelew* o Dduw ? (Mae Duw'n dân,
 A'i haniad ynddo'i hunan).
 Ai *delw* oer fal *delw* ar *fedd*
 Yw *delw* *Anfeidroledd* ?"

I wylltdaith fel y fellten,
 Heinif wych, i borth nef wen,
 Dygwyd fi'n waredigol—ac yna
 Rhoes y genad nefol
 Ei aden yn gysgodol—dros fy mhen—
 Duw Ion heb aden sy'n rhy danbeidiol !

O gafell bell mi gefais
 Wel'd y llu a chlywed llais ;
 A gefais byth a gofiat,
 Yn wyl adroddiad a wnafl :—

Gwelais orsedd orddysglaerwedd—
 Ia y Mawredd yma erys—
 Dyma drigfod glaer y Duwdod
 Yn ei hanfod o fewn enfys—

A gemau na ddygymydd
 Aur dilyn na Sardin sydd
 Yn ei goron—euron ynt,
 A ser yn dawnsio arnynt.
 Nid ellir gan dywyllwch
 Wel'd dynion llymion y llwch,
 Ac Ion ni welir gan wawl
 Yn y fodrwy anfeidrawl :
 Ail enfys wawl eonfawr
 Sydd o faes i'r orsedd fawr ;

A rhyw ryfedd orseddau—gaed yn hon,
 Ac i gyd yn heuliau,
 Ar edyn eu troadau
 O gylch y brif *sedd* yn gwau.

Fflamfelt, lleisiau, taranau terwynion,
 Lliwiau a lluniau o gymysg ddillynion,
 Yn hyf eiliant eu mawl â'r nefolion—
 Pedwar henuriaid ar hugain cainion
 Oedd yno i weini â'u gwisgoedd yn wynion,
 Y rhai a garient bob un aur goron—
 Llosgent, goleuent eu lampau gloewon,
 Yma i ni weled y manylion,
 Ac hefyd saith Ysbryd Ion—ymddyrchant—
 Hwy yno wylant dros eu hanwylion.

Rhan iii.

CYNWYSIAD:—*Gwledigaeth Rhagluniaeth—Y Pedwair
 gwyneb, &c.*

—o—

Ar wydr yn ymrodio,
 Heinif eu rhawd drwy y nef fro,
 Ar g'oedd rhyw luoedd lawer,
 A welais i fel y ser—
 Gwelais hwy'n gwau drwy'u gilydd—
 Rhai'n cwympo, rhai'n rhodio'n rhydd.

Cenadon cain ehedant—i'r ddaiar

Ac ar ddyn y sylwant ;
Llun ych, oen, dyn, llew a wnant,
 A'r *lluniau*'n gywir llanwant.

I deyrnas Llew cadarnwych
 Yr ant, a theyrnas yr ych ;
 Y llo gwan na eill gynal
 Ei hun, e ddaw un i'w ddal.
 Edn bach gwan o dan y berth
 A gofia Naf—caiff gyfnerth.

Darbodaeth Duw i'r bydoedd—a'i weision
 Dewisol, fil miloedd,
 I gludaw eu goludoedd
 A'u mwyhau hwy yma oedd.

Nid â anifail na dyn—o'u golwg—
 Gwyliant bob pysgodyn ;
 O deora aderyn—hwy ddeuant—
 Gwyliant ef rhag gelyn ;
 Ond dyn yw'r uchel bwynt hynod—i ddal
 Gwir ddelw y Duwdod.

Er oesi am dymor isod—yma,
 Diwedd ei yrfa nid yw i ddarfod !

Rhyw farwol anfarwol fod—a'i ddoniau
 Iddo'i hun yn syndod,
 Yw dyn yn wir—mae dan nod—
 I'w Ior fydd yn rhyfeddod.

Teyrnwialen o law ei Naf a gafodd,
 Ac yn dywysog Ion a'i dewisodd
 Yma isod, ac ef a'i cymhwysodd
 I lenwi'r orsedd lle yr eisteddodd—
 Ei radau ymddiriedodd—Duw i'w ran—
 Ior ei hunan yn ben a'i coronodd.

I ddyn yr heirdd awenau—i ddifeth
 Ddofi yr elfenau
 A roed, a'r agoriadau
 Gorwych, er agor a chau.

Pwyso'r awyr mewn clorian—a llywie
 Eill ef luoedd anian,
 Daiar a'i thwf, dwr a than,
 A throedio gyda thrydan !

Ei farch tanllyd rochlyd ru,
 Gawr aruthr, sy'n gweryru,
 Yfwr dwr o ferw dig—
 Tân y ffwrn fwyty'n ffyrnig.
 Yma rhed mor rhuadwyllt
 A'r daran o'r gwefrdan gwyllt !

Ei fawr wybodaeth a rifa'r bydoedd—
 Anturia'n hyf i rychwantu'r nefoedd—
 O gynnes fonwes anian dyg fwnoedd—
 Treidda i mewn iddi at wraidd mynyddoedd
 Chwilia gellau muriau moroedd—mawrion,
 Ac o'u gwaelodion dyg eu goludoedd.

Y graig fawr uchelgrog fu
 Er oes Adda'n gorseddu,
 A dal rhuthriadau'r dyli
 Yn eitha' hawdd a wnaeth hi.
 Y daran groch, graagroch, gref,
 A'r ddaiargryn fawr ddirgref.
 Hi ddaliai eto'n ddilwrf
 Rym anian y tan a'r twrf.
 Ond er ei her feiddgar hi,
 Ymherodres mawrhedri,
 Mae "gwyneb dyn"—dyn sy'n dod,—
 Rymuswr i ymosod ;
 Ac yn awr y graig fawr gref
 A addef nas gwiw iddi
 Herio llid dyn er ei llwydd,
 A rhwydd y mae'n ymroddi.

Yntau'n awr a â ati'n eon,
 A thyr i'w seiliau â throsolion,
 Wrth ei alwad, gyrdd a morthwylion
 Fyn i guraw'n ddiiofnog wron—

Bellach daw a'i ebillion—i dreiddio
 At wraidd dyfna'i chalon,
 A daw a'i hadau duon,
 Sef pylor i agor hon.

Yn grugion chwal dyn greigydd,
 A rhwyg eu gwregys yn rhydd.

Dyna y "gwyneb dynol"—a welwyd
 Yn ail i'r Anfeidrol !
 Unben yw—pawb yn ei ol
 Yn ufudd, ond Ior nefol !

Yr eryr cryf arwrol—a nofia
 Yn y nef awyrol—

Brenin y llu wybrenol—wrth draed dyn,
 Wele, disgyn i waelod ei ysgol.

Rhuadau'r llew mawr wed'yn—a leinw

Lu anian â dychryn—

Wele hwnw fal oenyn

A ddaw â'i deyrnged i ddyn—

Ail llo y daw, a llaw dyn

A gydia yn ei gadwyn.

Ti'r ych mawr, mae trech a mwy

I'th aros—dyna'th aerwy;

Nid ydwyt anghredadyn—

Ymgrymi, addoli ddyn.

Un fath y Lefiathan—a rwygir

O'r eigion dwfn allan;

A bach, ei lywydd bychan,

Er ei lid, a'i myn i'r lan!

Ond mae *Dduw* sy'n *Dduw* ar ddyn,

A'i Dduw ef ddaw i'w ofyn,

Am yn ei oes yma wnaeth,

A'i radol ymddiriedaeth.

Rhagluniaeth helaeth ei Ion

A ddyg i ddyn ei ddigon:

Annoeth ragluniaeth dynion—sy'n nychu

A gwanu y gweinion.

Y naill wr enill arall

I ymlid mewn ffid y llall.

Troedio'r un modd mas'r trydydd—ac eilwaith

Caled yw'r pedwarydd;

Pumed, chweched, seithfed sydd

Yn galed fel eu gilydd.

Er adwyth a chwymp mawr Eden—yn dâl

Mae dyn y deyrnwialen.

Ei swydd, a'i barch—ef sydd ben—yn y llys

A llyw dyrys chwyrn droellau daiaren.

Pa'm, Gristion, y digalonî?—Wele

Y wael a'r wan lili,

Dy Ion ofala am dani—hi, a'r

Dyrfa o adar mân dirifedi.

Un ni syrthia o honynt

Yn gaeth mewn tymbestlog wynt,

Heb i'r Ion mad, dy Dad di,

Yn nydd a nos ei noddi.

Ond O! pa faint gwell yw dyn
 Na dirym wael aderyn!
 Y Cristion a hed wed'yn
 Yn ei daith yn uwch na dyn.

I dir ing y daw'r angel—a luniai
 Olwynion Ezeciel;
 Daw, daw, a thydi i dir
 A ddygir yn ddiogel.

Darbodaeth helaeth!—Pob olwyn—a welir
 Yn hwylus gyd-ddirwyn;
 Tangnefedd a hedd o hyd
 O'r ddeufyd rydd *Ja hyfwyn*.

O ganol y gogoniant
 Mwyn yw swm emynu—"Sant,
 Sant, Sant," yw yr adsain sydd
 Yn gyru drwy'r nef gaerydd,
 Wrth we'd cludau rhadau'r Ion
 Yn rhwygo'r crychfawr eigion,
 Rhwng byd a byd heb oedi,
 Dan roddion ein Ion i ni.

Awyr longau a welir lengoedd
 Annifeiriol yn y nef-foroedd;
 Yn llu bwriant i'n holl aberoedd
 Ni, o nwyfau penaf y nefoedd.

Bydoedd o dân-gerbydau,
 Ryw filoedd ar g'oedd sy'n gwau,
 Gan ddwyn i'r anhaeddianawl
 O eiddo Duw yn ddidawl.

B h a n i b.

CYNWYSIAD:—*Can Moses a chan yr Oen*—"A chanu
 y maent gan Moses a chan yr Oen," &c., *Dad.* xv. 3.

Os ydoedd cân glân ragluniaeth—a'i lles,
 Mor llawn o beroriaeth,
 A'r iolwch mor ehelaeth
 I Dduw yn ffrwd o ddawn ffraeth,

Beth yw y swm byth a seinia—i'r iawn

A roed ar Galfaria,

Ac am waed a'n cymoda,

O herwydd hyn a'n rhyddha !

Oen addfwyn yn y lladdfa—a welwyd

Drwy'r niwl gan Esaiah ;

Oen addfwyn mewn bedyddfa—a welodd

Ioan, a seiniodd â mwyn Hosannah ;

Dywedodd, “Oen Duw ydyw

Duw yn ei Fab—caiff dyn fyw !

Oen yw ef a ddyg hefyd

Holl feichiau—beiau y byd.”

Oen ydyw, sylwer, gyfyd y seliau

Sydd ar ddyfnion orfeithion arfaethau :

Efe wel lengoedd o nefol longau

Gras a rhagluniaeth, dan helaeth hwyliau :

Oen yw gyflawna'r uniawn goflenau—

Cloedig ieithoedd, celedigaethau

Orlanwyd o arluniau—gan ei Dad,

A'u dwfn argeliad a fyn i'r golau.

Yn glau yr hyn a glywodd—i ninau

Yn union mynegodd—

Lles dyn o'i ewyllys da

A heddwch a gyhoeddodd.

Fel Oen ca rhyw filiynau—ei weled

Ef yn ngoleu'r fflamiau ;

Gwrthodwyr a gwawdwyr gau

Yr Oen a'i aml riniau

Oen Duw o dan ei wên deg—â'i lewyrch

Oleua deml hardd-deg

O aur claer, dan belydr clod

Y *Bod* sy'r un bob adeg.

Yma hardd unwyd gan fyrdd myrddiynau

O Saint—o engyl sy hwnt i angau,

Fawl i'r Oen a'i ddwyfol riniau—Clod, clod!

Llefai'r llu isod—llafar eu lleisiau.

Ser y bore chwaraëynt

Eurdanau'r hen ganau gynt,

Pan ydoedd y bydoedd ban

O wyll yn neidio allan—

Ser a heuliau siriolwedd

Yn dod i fod fel e fedd !

Geiriau Duw yn Gread oedd
O fodau ac o fydoedd,
 A'r oll o'r dirfawr Allu
 Drwy'r Oen yn ddiboen y bu.

Yna i weini daeth rhai gwahanol,
 Eu henw a'u hiaith yn wahaniaethol,
 Ac i'r Oen rhanent eu cân yn gywreiniol,
 Hoewon y rhodiant yn wahanredol;
 Er hyny yn dra unol—cydseinient—
 Hwy oll a fwrient ber fawl liffeiriol.

Un côr yn ber glodforydd
 A'i holl serch i'w "Allu" sydd—
 Ei "Gyfoeth" mawr a gyfarch
 Y nesaf drwy buraf barch—
 "Doethineb" mewn gwiwdeb ga
 Berseiniawl bur Hosannah!
 I deyrnas ei "Cadernyd"
 Wele gôr yn fawl i gyd—
 Côr arall yn gydgor gânt
 Ag yni i'w "Ogoniant;"
 Arwyrain y cor arall
 Fydd "Bendith," "Bendith" ddi ball;
 Yna i'w Ner plygu wnant—
 Ar ddeulin yr addolant.

Unant, hwy ganant ar g'oedd—heb ballu
 I'w hynaws Iesu fawl yn oesoedd—
 Mawl, mawl, mawl! yn fil miloedd—daranant
 I'w Ior â nwyfiant, a sigla'r nefoedd.

Aroswech, mae i chwi roesaw—
 Ewch i dref sy bellach draw,
 Hyd balmant arian Ty Ior—
 Ewch i fewn—a gwych fynor—
 Maen ar faen—pob maen yn fur;
 Pob mur yn gaerfur gorfau—
 Y canwyllau oll yn lampau—
 Lampau'n heuliau goleu gwiwlan;
 Ac mae cyhoedd lampau'r nefoedd
 Yn orfydoedd dirifedi!
 O! gylch nefol! a'r Oen dwyfol
 Yn ei ganol sydd yn gweini!
 Marmor gwyn, aur melyn mad,
 Yw meini'r wlad ddymunol—
 T'wynnai'r aur fel tân ar ôd,
 Hyn yw defod tân dwyfol.

Y mae'r aur a'r myrierid
 Yn eu greddf o dan eu gwrid—
 Gwelwch y saint o gylch sedd
 O rwydwaith aur cyfrodedd—
 Y pur arogldarth peraidd
 Yn ei dro i bob man draidd—
 Cwmwl na fu un cymaint,
 A'i swydd yw gweini i'r saint.
 Taer eirchion merch Sïon sy
 O'i fewn yn myn'd i fyny—
 Offeiriaid, Lefiaid, hardd lu,
 Yn addas sy'n gweinyddu.
 O'r phiolau rhyw fwgdorchau
 Eurfyg dyrchant ;
 Telynorion pur eu swynion,
 Per y seiniant.

Y côr a gân ragoraf—acw i'r Oen,
 Yw y côr ieuengaf ;
 Mewn per fawl i'w nefawl Naf,
 Eileisiau sy felusaf.

Mae sail yr holl adailad—ar rinwedd
 Yr unig wir Geidwad ;
 Ie'r sail yw'r croeshoeliad,
 Y Duwddyn rhwng dyn a'i Dad.

Yn nos ei lafur ein Iesu a lefodd—
 "Gorphenwyd!" Gorphenwyd yw'r gair a ffynodd
 I roi yn fanwl yr hyn a ofynodd
 Y gyfiawn gyfraith—digon a gafodd—
 Gwir heddwch a gyrhaeddodd—hil Adda—
 Rhyw ber Hosannah drwy'r wybr a seiniodd.

Swyddog gras ar sedd ddi gryn,
 Goleufryn y gwawl hyfryd,
 Yw'r Oen mwy dan goron mawl,
 Y didawl gor sy'n d'wedyd—
 "Teilwng yw'r Oen ei boen a ddybenwyd,
 Agorodd ffynon, ac yno'n cânwyd,
 Yn hon eilchwyl ein gynau a olchwyd,
 Ni gaethion yn rhyddion roddwyd—canwn—
 Ni a ail waeddwn, Clod i'r Oen laddwyd!"

Unwch, seintiau, mewn canau ceinion,
 I fyg urddas y lawryf gwyrddio ,
 Yna i seddau y dinasyddion,
 I urddau rhyfedd y gerddi a'r afon

Sy a'i glanau'n bwysiau gleinion,
 Pur o liwiau, a'r per awelon,
 Y rhai a gludant yr arogl-hedion—
 Bywiol ledant o'r dail a'r blodion,
 Y cwrel a'r meini coron—dysglauer
 Eurdyrau'r gaer—diri' ragorion !

Na, na'r Oen fu yn y poenau—ei hun
 Gaiff yr holl fawleddau ;
 Ef ei hun i'n cyfiawnhau,
 A fedodd y gofidiau.
 Efe yn wir ym ni'n fwynhau—yn fwy
 Na'r nef a'i gorseddau ;
 “Iddo Ef” bydd ein llefau.
 Heb yr Oen byth i barhau

Ni byddai'r nef yn nefoedd : heb yr Oen—
 Bwriai'r haul ei gylchoedd :
 Heb yr Oen ai'n hwybrenoedd—yn gellau
 Duon i angau daenu ei ingoedd !

Moeswch gyfran o'ch caniad—diosteg
 I dystion eich Ceidwad ;
 Yr un modd i'r merthyron mad—rhowch fawl
 Hedd luon gwrawl oedd lawm o gariad.

Nodwch i'r gwir genaden,
 Yn fawl dwys, un nefol dôn ;

I Carey rhowch un carol—a Heber,
 Hybarch esgob duwiol—
 Rhowch dôn i Martin ddoniol—fu yn hau
 Bywyd a rhiniau drwy'r byd dwyreiniol.

Oni chaiff China'i choffâu,
 A Morrison mawr rasau ?
 I For y De rhowch fer dôn,
 A'i seiniau'n llawn o swynion—
 Yma son am Williams sydd—
 A'i ddirfawr barch ni dderfydd.
 Rhoddwch fawl, gôr gwawl i gyd
 I Davies a Nott hefyd ;
 Teilwng yw Moffat eilwaith
 O un gân am enwog waith.
 O fron frwd rhowch gân o fri
 I'r Diwygwyr diwegi.

O'r gofres rhowch ryw gyfran—i enwau
 Anwyl Salsbri a Morgan;
 Yn gu i'r "Hen Charles" rhowch gân
 Ail seinir gan lais anian!

Gwelwyd cenadon Gwalia—yn nofio
 Yn hyf i'r ddwy India,
 Amerig ac Affrig a
 Geisient, a Bryniau Gasia.

Ysgwyd plant Madagascar—o'u camrwysg
 Wnaeth y Cymry gweithgar;
 A dynion hynod anwar
 Yno gynt wnaed yn rhai gwâr.

Onid teilwng yw talu
 Mawl, â chyfran o'r gân gu—
 Rhyw arwest ber o orhoen
 I'r rhai fu'n dylun yr Oen,
 A dal, er gwaethaf duloes,
 Ar y graig faner y groes?

Neb nid oes—cerub na dyn—am ei ran,
 Nac am roi i undyn
 Enw yr Oen a enyn—y moliant—
 Iddo addoliant drwy'r oesoedd a ddylun.

Luther, Calfin, Arminus—emynant,
 A Menno lafurus—
 I roi'r mawl i'r seddawl "Sant"
 Yr unant â'r côr hoenus.

Y rhai hyn isod ranasant—yr Oen,
 A'i rinwedd dolasant;
 Mwy iddo am ei haeddiant,
 Yn y nef cyduno wnant.

Doctor Coke, y Cymro cu,
 I gaethion fu'n pregethu,
 Una â Wesley hynod,
 Yn glir, a Whitfield fawr glod.
 Hwyl a'u brodyr ysbrydawl,
 I'r Oen mwy yn rhoi un mawl.

Mae'r un gerdd am yr un gwaed—
 Un llun, lliw, iaith, gwaith ac oed;
 Un Oen i ni yn iawn wnaed—
 I'r Oen byth yr enw boed.

Mae'r duon a'r gwynion i gyd
 Yn nelw eu hardd Anwyllyd;
 Yna hawdd canu iddo
 Yn un fryd anian y fro!
 I Moses rhowch gynnes gân—
 Tynnerwch tanau arian.
 Moses! Beth, Moses gael mawl!!
 Moses, er mor rymusawl
 Nid oedd Dduw—nid haedda ef
 Ganiad gan feibion gwiwnef,
 Er ei fod yn gysgod gwan
 O'r Oen a'i dyner anian.
 Rhoi wnai Moses yn rhwydd
 Oreuglod i'w Benarglwydd:
 Mawl Moses oedd gynnes gân
 O'i enau ef ei hunan,
 Ar Balsephon i'w Ion am
 Agor y mor—Cansi Miriam
 Ei *thympan* i gân byw gôr,
 Am i'r eigion mawr agor.
 Gwedi i Israel gael gwyled
 Eu gelyn yn y gwaelod,
 I'w gwiw lor am eu gwared
 Hwylt hwy glir ganent ei glod.
 Moses ar hirach mesur,
 I'r Oen a'i boen rydd gân bur,
 Am ffordd rydd newydd a wnaed—
 Am yr Iawn mwya' erioed—
 Am aberth a gwerth y gwaed,
 I'r Oen y mawl bythawl boed.
 Hosannah! Hosannah sydd
 I'r Oen ar ber awenydd,
 Ys ef yw Frenin y saint—
 Yn ei gur gwnaeth hwy'n geraint;
 I agoryd nef gaerydd,
 Iawn a roes—mae'r ffordd yn rhydd.
 Lledwch, agorwch i gyd
 Yn awr, geinfawr byrth gwynfyd;
 Gwir uner i goroni
 Yn y nef, ein Brenin ni;
 Cenwch ei fawl byfawl ef,
 Gywreinwch gôr y wiwnef.
 Ac ar hyn y côr unawl
 Iddo Ef a roddai fawl—

Iddo Ef nef y nefoedd
 Weithian a gydgân ar g'oedd—
 Iddo Ef una hefyd
 A'r gân y ddaiar i gyd!
 Iddo—Iddo—Iddo Ef!
 Iddo eilwaith yw'r ddolef!!

~~~~~

## B h a n . b .

CYNWYSIAD :—*Helynt yr Eglwys a'i Hadfeiliad, &c.*

—o—

Yn awr, O forwyn eres!  
 Trwy dy Naf tyred yn nes—  
 Sylwa, dadgloa dy glust,  
 Yn ddiglo bo dy ddwyglust—  
 Oddi fry—o dy dy Dad  
 Gyrir it' air o gariad;  
 Ac os cerydd rydd yr Ion,  
 Ceir addysg o'r ceryddon.  
 O Ynys Patmos anerch,  
 Mewn cryfion ansoddion serch,  
 Yn gywir a yrir it.  
 Dir addurn daiar oeddit;  
 Mae dy fad haniad uniawn,  
 A'th âch o lwyth uchel iawn;  
 Hynodwyd dy genadon  
 A doniau rhad rasau'r Ion,  
 Ac aeth eu clod hynod hwy  
 Ar adenydd trydanwy;  
 Eu gwisg hwy oedd nerthoedd Naf—  
 Gleiniau o'r urddau harddaf—  
 Angelion hoewon eu hynt—  
 Addas gerubiaid oeddynt.  
 Hen Satan o'i guddfan gaeth  
 Ymdaga â siomedigaeth,  
 Mewn cyffraw a braw ger bron  
 Y teilwng apostolion.  
 Angeu hy yn ei ing aeth  
 I wylu 'n mhorth marwolaeth,  
 Wrth weled y nerthol-lu  
 Yn agor dor y bedd du!

Y cloff yn ddisgloff a ddaeth,  
 A doniwyd plant mudaniaeth ;  
 I'r dall a'r byddar deilliodd  
 Adferion rhwyddion yn rhodd.  
 Gwnaed dynion yn dystion Duw—  
*Gwirionedd gurai annuw.*

Ar eu holau gwyr eilwaith  
 A gaed yn gymwys i'r gwaith ;  
 Hwyt yn llu aent yn llawen  
 I'r byd drwg er gwg a gwen ;  
 Ac Ior oedd i'r gwyr eiddil  
 Yn rhan—gwnai'r fechan yn fil ;  
 Y gwael yn ddiffael ei ffydd,  
 A'r gwan yn fawr ei gynydd,  
 A mawl o enau miloedd ;  
 Am y nerth " Amenau " oedd.  
 Ond clyw, Sion, mae'r doniau  
 Mwy a' erioed yn marwhau ;

Rhyw wreichion gweinion yn gwau—yn y tir  
 O dyweirch gwelir—nid fflamdyreh golau.

Llesgâ ac oera cariad—a gwywder  
 A gwyd yn y teimlad ;  
 Cynhenau, ac anynad—grefyddwyr,  
 Frwdoferwyr yn llawn o fradfwriad !

A daw cyn hir adwyon—yn y mur,  
 Yna marwol nwyon  
 A fyw lifant fel afon  
 Las o haint i eglwys Ion !

Wrth ofyn " Pwy fydd fwyaf "—y rhwyfant  
 Yn y rhyfyg gwaethaf ;  
 Ymwithiant am eu heithaf  
 I swyddi'n uwch na sedd Naf !

Cael arian a'u coluro—ac eilwaith  
 Cael eu haner *duwio* ;  
 A chael o fryn uchel fro  
 Addoliad, doed a ddelo !  
 Hyn yw eu nod—" Aed eneidiau  
 I'r bythol uffernol ffau ! !"

A daw un arall dan haeru—ei fod  
 Yn *fab o'r gwir deulu* ;  
 Ond o Satan mae'n hanu—  
 Glan yw ei ddawn, *galon ddu* !

Cof-faen yw rhagrith er cyfarch—yr un  
 A roed mewn bedd dibarch ;  
 Eurblad ar gauad teg arch—  
 Dyma wneud gwawd o amharch !  
 Cloi ereill mae clauaredd  
 Chwydlyd rhwng bywyd a bedd.

A gau Gristiau o grasdir—Iuddewaeth,  
 Llawn o elyniaeth lle Ion a lenwir ;  
 Ar unwaith â yr anwir—Nicholiaeth  
 Yn llanw helaeth i'r lle oni wilir ;  
 Godineb a gwae daenir—os llwydda,  
 Ei haul lewyga, a'r deml halogir !

Ysbeilir gan Isebeliaeth—â'i gwên,  
 Ogoniant Crist'nogaeth ;  
 Benywod y gôd yn gaeth  
 Dygant y weinidogaeth !

Hwy a ranant rhwng rhinwedd—dwyfol  
 A dyfais plant gwagedd ;  
 O un law ca'r eilun wledd,  
 A'i offeiriaid gaiff fawredd.

Llai a yrir o'r llaw arall—i'r hwn  
 A fu'n rhanu'n ddiball  
 Air Duw'n agoriad deall  
 I'r dyn sy'n bechadur dall.

Ac unir heb ddim gwahaniaeth—fel hyn  
 Fawl Ior a phaganiaeth ;  
 Delwau ac ysbrydoliaeth  
 Ieuir—a gydir yn gaeth !

Balamiaeth ni bydd heb luman—helaeth,  
 Ei hyll ddewiniaeth a'i thwyll ddu anian !  
 Rhwygo y gwir—rhegu y gwan—a wna  
 Hi a ymyra'n ddiball am arian.

Troir Crist'nogaeth yn "blwyfoliaeth,"  
 A'r fywiolaeth a orfaelir ;  
 Du Simoniaeth fag anffyddiaeth,  
 Y "fugeiliaeth" a fygyllir.

I hau efrau er difrod—i'r gwenith  
 Pur gwyn daw'r "dyn pechod"—  
 Dan fantell dywell mae'n dod,  
 Heb neb yn ei adnabod.

Yn ddawnus dysgeidiaeth ddynol—a wneir  
     Yn un â'r Gair dwyfol ;  
 I'r ffydd daw " cyfrinwyr " ffol,  
 A " brudwyr " ffug ysbrydol.  
 " Platoniaeth " gan hy blaid daenir—enwau  
     Gwroniaid glodforir !  
 Gan fawrion—dewrion ar dir,  
 Addoliad a arddelwir !  
 Yna amlhau yn nheml Ion  
 Wna delwau a hudolion.  
 Gau gred a ddaw am fedydd—a *dynion*  
     Yn *adeni*'u gilydd !  
 Daw defod ddall a phall ffydd  
 Yn gryfach na gwir grefydd.  
 Y gwenwynawl *ganonau*—Och, codir  
     Uwch cedyrn *oraclau* !  
 Yn lle'r gwir yr allor gau  
 Borthir â ffug aberthau.  
 Cwerthir i wneud ffug wyrthiau—wisgoedd  
     Ac esgyrn hen seintiau ;  
 Haint a chur a wnant iachau  
 Ag offeiriaid gyffyrïau !  
 Bu unwaith "*Air Duw'n bena*"—ond hynod  
     Yw doniau'r "*Gymanfa*!"  
 Yn ol eu greddf gwnant *ddeddf dda*  
 I osod *Gair Duw'n isa* !  
 Delwau, creiriau, llun crog,  
 A roir rhwng Duw a'r euog,  
 A Mair y fwyn Forwyn fydd  
 Yn yr adwy'n Waredydd !  
 Enw a pharch i'r Ion a ffy,  
 A'i wiwdeb a ymedy !  
 Hudir, a denir â swynion dynol  
 Di i briodi, Forwyn ysbrydol,  
 Wych hoew dirion, ag âch daiarol,  
 Dynion o linach Cystenyn olynol,  
 A'u hoffeiriadau—dwyll offer hudol,  
 Ag uchelgais o ben dyfais diafol,  
 I gleidir y gallu gwladol—y'th suddant,  
 Ac yma adawant yn gam dwyol.  
     Ow ! dy goll, ar adeg wan  
     Y ceraist rwysg ac arian.

Delw, heb ysbrydoliaeth—a lusgir  
 Wrth losgwrn gwladwriaeth,  
 A'i sedd fydd Eglwysyddiaeth,  
 Yr hon geir yn forwyn gaeth!

Dinas Ion â'n gas ei gwedd—  
 Hyll hagrir hi â llygredd,  
 I'w bron fu'n dirion y dyd  
 Gelyniaeth hyd gelanedd!

Yna daw llu andwyol—at alwad  
 O'r teulu Pab-dreisiol,  
 I gadw'r ffydd—y ffydd ffol,  
 O dan eu harfau dynol!

Lladinwyr, Groegwyr grugiant—ar enw  
 Yr Oea pur bob ffugiant,  
 Ac yn eu nwyf pesgi a wnant  
 Eu hunain, a'u praidd newynant!

Tywyllwch du fantella—y Dwyrain  
 A holl dir Europa;  
 Hyd Ogledd-fyd â'n gladdfa  
 I fyw ddyag a chrefydd dda!

A monached mynychir  
 Yn heidiau y Deau dir;  
 I bob man dan awyr do  
 Ant, neu methant ymwithio;  
 I hau yn dew eu had ant—  
 Yn ofidiau hwn fedant.

Taniant â'u pentewynion—hoff lysoedd  
 A phalasaau mawrion!  
*Iesuitiaid* yw'r haid hon?  
 Llu o allu ellyllon!

Daw y flin gad flaen ac ol,  
 I ysu fel pla oesol;  
 "Y wraig" gaid mewn llaid a llwch  
 Yn nhyle llwm anialwch—  
 Wele fan ei gorwael fedd!  
 Ow fonwent anghyfanedd!

Am hyny mae Duw'n myned—o'i chafell  
 Sydd yn ddugell dywell, fel y dywed!  
 Os â'r Ion o'r ddinas, rhed—dialydd  
 Iddi'n gerydd—a pha ddyn a'i gwared!

## Bhan bi.

CYNWYSIAD:—*Tywalltiad y Phiolau—Erlidigaethau yr Eglwys gan Iuddewon, Paganiaid, a gam-Gristionogion.*

---

Yn addysg i ni heddyw,  
Y'mha fodd y dylem fyw,  
Mae chwedl yr hen genedl gynt,  
A'r rhan oedd yr Ion iddynt,  
Pan o dan ei adenydd,  
Hynaws Dad, bob nos a dydd.

A hwythau gwedi 'u hethol—i droedio  
Wrth ei dradoeth reol,  
Ni adewid un duwiol,  
Y gwanaf, gan Naf yn ol.  
Yn wylaw Israel welid,  
Ac yn gruddfan dan y did;  
Gwywai 'i nerth ac âi yn wael,  
Gwedi i Dduw ei gadael;  
Am bechod dyrnod arni,  
Pan gyffroes, a roes ei Rhi:  
Da gofyn hyn i annuw—  
“Pa ddial fel dial Duw?”  
Rhybudd ar rybudd a roes  
Ion hygled i'w Hen Eglwys,  
Ond heb un braw draw fe droes  
Hi glust fyddar ar yr wys.  
Am hyny rhaid oedd myned  
Atraith, a chyfraith, a chad;  
Y nef ni oddef o hyd—  
Y mae dydd barnydd yn bod—  
Mawr ddydd Penbarnydd y byd;  
Am y baich trwm o bechod,  
Dydd tâl—dydd dial sy'n dod.

Hoff farch Ion yw'r gwynfarch gwâr,  
Heddgu, â'i wên yn hawddgar.

Deffro blodau y dyffryn  
A'i anadliad yn fad fyn:  
Ei enwog farchog a fydd  
I heddwch yn gyhoeddydd—



Wele'n lwys o flaen ei lu  
 Y faner wen i fynu !  
 Mor wych yw gwedd y "March Gwyn,"  
 A'i geinlu yn ei ganlyn !

Oni lwydda ni luddir—erch ingol  
 Feirch angeu.—Gollyngir  
 Hwyl'n rhyddion ; yna rhoddir  
 Yn rhan y tânrawn y tir.

Ar *farch dugoch* y deuai rhyw ochion  
 I Judea dan Ffelics yn doion !  
 Gweis Baal oeddynt, yn ddig ysbeilyddion !  
 Am ddiangfa y gwaedda y gweddwon,  
 Hefyd y gwryfon—am arbediant,  
 Oll ofer waeddant ar y llofruddion !

Mwy erch y del y *march du*—i'w cludo  
 Dan Claudius i'w sathru ;  
 Anian hwn ydyw newynu  
 Hen a gwan a'r rhian gu.

Ar gwr mynydd-dir garw—heb wybod,  
 Wele'r baban gwelw  
 Yn sugno, wrth wywo, waed—  
 Yf oerwad o'r fron farw !!

Dylun hyd borth dialedd—y newyn  
 A wna y pla ffromwedd ;  
 Ar *farch gwelwlas* â glas gledd  
 Y gyr yn ddidrugaredd.

Y *newyn* a'r *cledd* sy'n unol  
 Yn hudo'r haint ar eu hol.  
 Eryron ato'n llu ant,  
 Adar nos a deyrnasant.

Ysa soriant holl wyr Cesarea—  
 Cestius Galus sy'n ail i gi hela !  
 Y cenaw sarug sydd yn cnoi Syria,—  
 Ei gledd ar waed a chnawd sydd yn gwledda ;  
 Dirybudd hyd Arabia—erlidir—  
 Un ni adewir yn ngwlad Iudea.

Ys hysiyd y chwe Cesar—abl iddynt,  
 Megys bleiddiau beiddgar,  
 A'u holynydd beunydd bâr  
 Ofid ac erchyll afar.

Cethin fu Galba ac Otho—Vitellius,—  
 A'u llu arw wguſ fu'n eu llwyr rwygo.  
 Y bwystfil hwn a ddyg anwn enwau—  
 Lladd yw ei anian—llewaidd ei enau—  
 Corff llewpardaidd a faidd bob herfeiddiau,  
 A'i draed arthaidd efe & drwy draethau—  
 Ol oedd ei ddialeddau—brad a llid—  
 Y wlad a lenwid o waedlyd lynau !

O ddydd i ddydd, dydd sy'n dod,  
 I ddarlarnio & thrwm ddyrnod  
 Y genedl fu'n ogoniant  
 I sedd ac allor y Sant !

Am ei wrthod gwrthododd—Ior hithau,  
 Ac i warth fe'i suddodd ;  
 Dinystr drosti ymdaenodd—  
 A diluw Duw a'i hamdôdd !

Gwae ar wae ! Och gwewyr rua—o fewn  
 I fol Palestina ;  
 Yr eigion mawr ymrwyga,  
 Ac â nerth ei llyncu wna.

O'r nen pob seren siriol—eheda!—  
 Yn waed â'r lloer swynol !  
 Ac i'r ddunos arosol,  
 Ei heulwen hi gilia'n ol !

Cyflymaist, teithiaist tithau—O Seion !  
 Yr un sathrlwybrau ;  
 Pa wedd nad yr un beddau  
 A'ch derbyn yn dyn eich dau ?

O'r Eglwys peraroglau—symudir,  
 Os ymedy 'i grasau,  
 A'r un modd y gyr Ion mau  
 Y breiniol ganwyllbrenau !

Erlidiau a orledant  
 I blith yr anufudd blant.

Ar ol yr Apostolion—wele deg  
 Erlidigaeth greulon  
 A fedant drwy ofidion,  
 Loew saint o eglwys Ion !

Wele i beiriau o olew bwriwyd  
 Rhai, ac oreill yn friwiau agorwyd ;

Rhai merthyron yn greision graswyd—  
 Ar galchodynau rhai o gylch daenwyd !  
 A'r saeth a'r gyllell picellwyd—y naill—  
 Lluoedd da ereill i'r lladd-dy yrwyd !

Du ffau o lid—phiol lawn—  
 Graulyd oedd Rhufain greulawn !

Darllawdy hir a llydan—Och ! yrai  
 O'i cherwyn i bobman ;  
 Win ei dig yn afon dân  
 O'i thwyll a'i llid daeth allan !

Distryw a dinystr drwy doster daena—  
 Gyrwyd erch arswyd ar saint yn Persia—  
 Rhwygodd a mynodd ladd yn Armenia—  
 Cas anhydraith y bu'n Alecsandria—  
 Ac O ! mwydwyd holl dir Nieomedia  
 A gwaed. Disaib fu'i rhaib yn Arabia—  
 A phoenau ysol clwyfwyd Phenicia,  
 A thaenwyd dunos dros Capadocia !  
 Tymor du Mesopotamia—a ddenodd,  
 A'i hoffer rwygodd fawr gaerau Phrygia.

Edrych sy dasg anhydraidd—i ryfyg  
 Mawr Rhufain baganaidd ;  
 Prysurwn, treiddiwn at wraidd,  
 (Heb obaith gwell) y Babaidd,

I weled y phiolau—a'r llynoedd  
 Gorllawnion o bläau ;  
 Seirff creulon, ysgorpionau,  
 Drwy'r llynoedd ganoedd sy'n gwau.

O tan y Mawr Gystenyn—hir ledodd  
 Rhyw erlidiau cyndyn ;  
 Eu hanes sydd yn enyn  
 Briw monwes at hanes dyn.

Coluddion dynion allan a dynwyd  
 A hwy'n fyw ! wed'yn moch gwancus fwydwyd !  
 A hyf law angau rhai'n fyw a flingwyd !  
 Gan wenwyn gwenyn cnawd rhai a gwnwyd !  
 Ac ereill greulon gurwyd—yn noethion !  
 A haiarn efeilion rhai yno falwyd !

Rhyw gethin wyr fu'r Gothiaid—galanas  
 Wnai'r gelynol Bersiaid ;  
 Ac nid gwell a fu'r hell haid  
 O dylwyth y Fandaliaid.

Och, wele'r durfing flingwr!—gawr y llu—

A gerllaw daw'r crogwr—

A dyna y dirdynwr,

A gwedd hell—Ow giaidd wr!

At hyn Mahometaniaeth—siddigus

Ddygodd erledigaeth;

Yn dân byw dystryw y daeth

Tón wgus dros Grist'nogaeth!

Dinas gadarn Damascus—a welwyd

Yn wylo'n druenus;

Crist'nogion yno'n fanus

A gaed, a gwaelach nag us.

Tir Asia Leia' o waed liwiwyd—a'r oll

O'r Aifft a Groeg gwymmpwyd;

Morocco, Affrig 'sigwyd—

Yspañ fu i'r asp yn fwyd!

Mawr luman Othman a â

Heb arswyd i lys Persia.

Teyrnasoedd luoedd lawer—yn Ewrop

Hanerai'n ysgeler,

A ffyddlon anwylion Ner

A fynai dan ei faner.

Rhyw ddylif o orddialedd—'sgubai

Esgobion i'r dufedd;

Yn grugiau plant a gwragedd—

Yr hen a'r wan yr un wedd.

O ddu ffau deddyw phiol—a welwyd

Yn hylif dinystriol,

Ac ar y byd enbyd ol

Osodai yn arswydol.

O bawb, hen Rufain Babaidd,

Llawnaf lid fel llew neu flaidd,

A fu benaf i boeni—duwiolion

Diail oedd ei brynti;

Erchyllwaith ei hartaithe hi—y dydd hwn

Droai annwn yn fwy o drueni!

Rhyw phiol ysol o loesion—a gai

Saint Isgoed Celyddon;

Mawr dwr o Gymry dewrion

Gurai hi o'r Fangor hon.

Arwydd roes ei banerau—i roi'r ffrwyn  
 Ar war Ffrainc a'r Alpau,  
 Hyd dir Piedmont i hau  
 Ingoedd yn ngherbyd angau.

Albigensiaid, goethblaid gu—  
 Waldensiaid goed yn gwaedn.

Gwenwynol phiol goffa—fyw lifiant  
 Cyflafan Calabria;  
 Waldeniaid welwyd yna  
 Tan wg blin y tonog bla.

Wylent o dan awch dur hoethion—cyllyll,  
 A phicellau llymion;  
 Cawri o fri—cywir fron,  
 I dân wthid yn noethion!

Awch loesion y Chwil-lysoedd—a welwyd  
 Yn hualu miloedd;  
 Adeg Dominic ydoedd—  
 Blaenaf wr, a'r blinaf oedd!

Cynfab y butain Babaid,  
 Gwr digllawn creulawn i'r craidd,—  
 Torodd ar 'Spaen, wlad diriawn,  
 Ei phiol elynol lawn.

Yspaen yn echrys boenwyd—a dynion  
 Daw yno gigyddiwyd;  
 Canoedd o filoedd falwyd  
 Yn fan, i'r Chwil-lys yn fwyd!

Dydd erchyll dywyll a du  
 Anurddodd Ffrainc—si'n orddu!  
 A "Dydd Du" fydd hyd y farn  
 Yn nhrigfa brad a rhagfarn,  
 Mewn cof, a mynag hefyd,  
 Ar lechres hanes o' hyd,  
 Yn nod ar y bwystfil wnaeth  
 Agwedd ar erlidigaeth,  
 Nad aeth i galon un dyn  
 Ei hail ond Pabaid elyn!  
 Ie dydd yw y "Dydd Du"  
 Nas arddel ond nos orddu,  
 A'r hen butain Rufainig,  
 Enynai dân yn ei dig!  
 O ochain mawr! *Tri chan mil*  
 A bost fawr larpiai'r bwystfil!

Hyn oll a wnaed dan luman hedd—Iesu  
 Tywysog tangnefedd!  
 Ion da, beth yn y diwedd  
 Haeddai gloes y meddw gledd?

O Dduw! y fath phiol a ddaeth—allan  
 O wyllwch Pabyddiaeth!  
*Gwynach yw du baganiaeth*  
 Na'r ddraig hon! Cynddeiriog aeth!

Delw y *ddu Audoliaeth*—hon welir  
 Drwy niwl erlidigaeth,  
 Yn tynu Protestaniaeth  
 I'r un gors yn forwyn gaeth.

A'i chleddyf yn hyf iawn aeth—allan  
 Yn ei holl *farbariaeth*;  
 Ei sych ffagodion a'i saeth  
 Sy gleifion am ysglyfaeth!!

Newidiai'r "Eglwys Iwys Iân"  
 Ei henw—nid ei hanian!

Hyd y nefoedd yn eofn golofnau,  
 Hon a orledodd yn dân erlidiau!  
 Ei holew borthiant—dynol aberthau,  
 Heb ball ar Ewrop, a'i holl ororau!  
 Dynoethodd Prydain hithau—ei chledd hyll,  
 Ei bywiog gyllyll a'i llym bicellau!

A llawer o Lutheriaid  
 Yn erlidwyr, gwaedwyr gaid!

Hyll doion o Ymneilldauwyr—droisant  
 Yn dreisiol erlidwyr!  
 Er ffei i wlad bell nid gwell gwyr—yn yr bynt  
 Hono oeddynt na'u hen ddiennyddwyr!

Wele ran o'r welw res—a falwyd  
 Gan efeillion gormes;  
 Hir enyd bydd yr hanes,  
 Yn brawf ar golofn o bres!  
 O'r niwaid a gaid o gôl  
 Y lidiog *grefydd wladol*!!

## Bhan vii.

CYNWYSIAD:—*Y Milfwyddiant.*



Clod! clod! yn dyfod mae'r dydd  
Hwnw, pan byddo "Mynydd  
Ty'r Arglwydd," gan ei lwyddiant,  
Yn sedd y "cyfiawn"—y "sant."

O mor dirion ar y tramawr dyrau—  
Benau eurog, a fydd y banerau,  
Yn awel cariad—yn hwyl y corau!  
Ar wychaf edyn ceir eu chwyfiadau  
"I Ion gogoniant"—nid i goeg enwau;  
"A thirionweb" mewn aur lythyrenau—  
"Hedd," "Cariad," yn gerfiadau--arnynt fydd,  
A gwen y Llywydd—gwea'n y lliwiau!

Hen elyn mawr dynoliaeth—a rwymair  
Er ei rym a'i fariaeth;  
*Bromstan-lyn* wrth gadwyn gaeth  
A fydd ei etifeddiaeth!

Duw a ddaw i doi y ddaiar—â gwên  
Ei ogoniant hawddgar;  
A'r pryd hyn y gelyn gâr  
Gyrchu i'w dywyll garchar.

Cydfydd yn well a'i gell gau  
Yn ei dynion gadwynau,  
Na thwylo dan rodio'n rhydd  
Yn awyr "Daiar Newydd,"  
Lle bydd dihefelydd fawl  
I'r Iesu yn arosawl.

Fry i lys y nwyfre lân—y swyddfa  
Fu'n orseddfaine Satan,  
Trwy ddeheuig hwyl y traidd cân  
Dry bob hyll ellyll allan!

T'wysog awyrog oror—yna fu,  
Ond ni fydd yn rhagor,  
Mae eigion gwae'n ymagor—i'w dderbyn,  
Er mor gyndyn yw, i'r "Mawr agender!"

Ac at hen orsedd Satan  
 Yn llafar esgyna'r gân,  
 I'n Duw ni—a hi dyn nerth  
 I'w hedyn o'r priodwerth,  
 Y cur dwys a'r cariad a  
 Lifeiriodd ar Galfaria.

Yna rhyw angel enwog—a daena'i  
 Adenydd sidanog,  
 I'w chipio a'i chydio â chôr  
 Yr oror bur oreurog.

Y nef a'r ddaiar a ddaw  
 I deilwng guro'u dwylaw,  
 A chanu'n gytun a gân  
 Felus drag'wyddol foliant.

Babel fawr â lawr i lyn—o ufel  
 I ofid diderfyn;  
 Ei du deulu a'i dylyn—i wae hir!  
 Gwae! gwae a gydir! a gwae! gwae gwed'yn!

Rhes ar res o deulu'r Oen  
 A gawriant oll mewn gorhoen.  
 Aleliwia—Aleliwia—  
 Aleliwia ail alawir;  
 Aleliwia—Aleliwia—  
 A Hosannah ber a seinir.

Aleliwia! Ha! ha! hed  
 I gyrhaedd saint nef gaered!  
 Mae clod yn dod o'r holl dir—  
 Amenau a emynir!

Twrf taranau, croch raiadrau,  
 Mor ruadau, dyrfaeu dirfawr,  
 Oll gydunant mewn per foliant,  
 Bawb a gawriant drwy bob gorawr.  
 Llawenychwn, gorfoleddwn,  
 Canwn, canwn filiwn foliant,  
 I'r hwn eistedd yn ddiddiwedd  
 Ar ei orsedd fawr o risiant,

Am iddo suddo aur sedd—“ Babilon  
 Fawr ” a'i du olion i for dialedd.  
 Yna daw i'r un diwedd—farsiandwyr  
 Hon a'i charwyr, bob un i'r un chwerwedd.

Breninoedd niferoedd fu  
 Idd ei lliwdeg dhilladu.



Hi ag ariant pob goror—ag eurliw,  
 Ysgarlad a phorphor,  
 Wisgwyd—a mynwyd o'r mor  
 Anrhegion iddi'n rhagor.

Ei henw yw "Mam Puteiniaid,"  
 A'i chariadon, hyfion haid,  
 Fel hithau yn fol-lwythawg  
 O waed gaed yn ei du gawg!

Gwaed a fu iddi, â gwaed hi a feddwir—  
 Gwaed dyn a fynai—gwaed a ofynir  
 O'i llaw ruddiog—yn ol i'w llaw rhoddir—  
 Er yfed ac yfed gwaed ni arafir—  
 Wedi yfed nis dofir—ei rheibwyn,  
 O waed a gwenwyn hi byth nis digonir!

Pa ryfedd i'r pair ofid  
 Ei gor-rwygaw â llaw llid?  
 E dawdd y marchnadyddion  
 Oll ymaith yn anrhaith hon.  
 Rhai buteiniant a alarant,  
 A chynudant ocheneidion.  
 Am hyn mae'r llef grochlef gras,  
 Megys swm udgwn adgas :—  
 "Hi syrthiodd! syrthiodd dros serth  
 Nenfawr glogwyni anferth!  
 O fawredd y neforor  
 I'w dyfnfedd yn mherfedd môr!"  
 Marwol lē! môr mawr o laid!  
 A thrylawn o gythreuliaid!  
 Iē trigfan aflan hīl  
 Bostfawr y Ddraig a'r Bwystfil.  
 Yr oedd rhyw ragarwyddion  
 Byw o lid at Babilon—  
 Lleisiau—taranau trinoedd—  
 A llid Duw yn y mellt oedd—  
 Daiargryn fawrgryn a fu,  
 Dirfawr grochlefau—"Darfu"!  
 Mynyddoedd, ynsoedd ant  
 Ymaith, a gwyllt y llamant.  
 Dig genllyg fel cerig ac ia  
 Yn farn ar ddynion a fu,  
 Drycin a blin farwol bla  
 A amdoa'r ddaiar ddu.  
 Duw eilw y duwiolion  
 O'i thy hi yn yr iaith hon :—

“ Deuwch allan o'i chanol—i danau  
 A dinystr bythol,  
 Gadewch hi mewn gwaed o'ch ôl,  
 Yn ei duwch andwyol !

Yn Salem mwy preswylwch—ac yno  
 Mewn gogoniant trigwch,  
 Dan noddod Ion a'i heddwch—i byncio,  
 A hoewaf rodio byth mewn hyfrydwch :

Yn hedd y Mil Blynyddau  
 Yn bur o hyd i barhau.”

Ni newid Ion y wiwnef,  
 Ddoe a heddyw un yw ef.  
 Diffoddodd—duodd Duw dân  
 Sinai â'i lais ei hunan ;  
 A'r Ien mad yr un modd  
 Lesteiriodd lais y daran.  
 Y fflamfellt hoewfellt hyfion,  
 A'i fawr rym, ddofai yr Ion.  
 Yn lle Sinai wele wawl,  
 Lle nofia y llu nefawl.  
 Hedd sy yn mynydd Seion—  
 Mawl a hedd yn nhemlau Ion.  
 Duw wna gyfamod newydd  
 Yn ei Fab, a ffyddlawn fydd.

Siomedig a symudol—yw dynion,  
 Er eu doniau nerthol ;  
 Asia sydd yn dyst oesol  
 O Dduw'n Un—o ddyn yn ol.

*Enw* eglwysi'n unig—a erys  
 Ar furiau drylliedig—  
 Dall a hudol dwylledig—Grist'nogaeth,  
 Fel llongddrylliaeth ar draeth Asia a drig.

O dan 'winedd Mahomedaniaeth,  
 Gwyro i ddelwi mae gwir addoliaeth,  
 Yn Asia Leiaf mewn nos o alaeth,  
 Yn wan ei hagwedd mae Cristionogaeth.

Er cryfed yw twr crefydd—Mahomet,  
 Mae yma ddinystrydd ;  
 Ei hadgyfodiad a fydd,  
 A'r Seilo yn breswlydd.

Yn heidiau'r hen genadon—ehedent

Megys adar gwylltion ;  
Ond un o hyd yw ein Ion,  
A'i ddiwâd addewidion.

Y Duw byw sy Dduw diball—  
Nid *erys* un duw arall.

Yn y nen canwyllbreni  
Grogant—hwy fraenant heb fri:  
Gwelw hedodd goleuadau  
Lu i "dir machlud haul."  
Och! eu lle, wele yn wael,  
Gwedi i bawb eu gadael.  
Na, mae'n Ior yma'n aros,  
Yn rhei ei nawdd haner nos.

Ie yna yn nghanol—y breiniol

Ganwyllbrenau ysol,  
Ion tirion sydd eto'n ol,  
Yn ei ras yn arosol.

Y *Coran*, er pob caerydd,  
Yn fuan, fuan a fydd,  
Er ei fraint yn awr a'i fri,  
Yn y gilfach hen gelfi!  
Y dirion iachawdwriaeth  
I'r Twrc ffol rydd fywiol faeth:  
Y trueiniaid tra annoeth  
Hyn, a ddaw eto yn ddoeth.  
Eu daiar brid fydd dir bras—  
Hon erddir i'w hen urddas,  
A bydd yr arddwr gwrawl  
Dan aru'n emynu mawl.  
A dwyn bydd ei "*Feirch ffrwyni*  
*Santeiddrwydd i'n Harglwydd ni.*"  
"*Rhyfel y Groes*"—fe roes traw hir—  
Yn hollol pryd hyn enillir.

A hen arfau anorfod—â yr Ion

I drywanu pechod ;  
Gair nerthol Dwyfol dafod  
Rydd nerth a gyrhaedd y nod.

Y *Faner wen* fu unwaith—yn chwifio,

A dderchefir eilwaith ;  
Nid hir y gwelir y gwaith  
Heb ei orphen yn berffaith.

Y dydd i wlad Judea—ofidus  
 Gyfodi o'i chladdfa  
 Cyn pen nemawr a wawria—ei holl blant  
 Yn gôr a seiniant eu gwir Hosannah !

Daw Moab ac Arabia,  
 Ac Edom lom a amlha ;  
 Ei chynyrch—yna'i chaniad—  
 I'w Hion a el, heb wanhad.  
 O'r Aipht i Ganaan yn rhydd  
 Agorir yr holl gaerydd.  
 Ceir y môr yn agored,  
 Felly bydd yn rhydd a rhad,  
 Y fan i'r teuluoedd fyned  
 Drwyddo i glir diroedd eu gwlad.

“ Gwraig yr Oen ” a ddaw'n hoenwych  
 O dy gwael i'w llysyd gwyach.

Yn nelw ei Hanwlyd—i fyny  
 Daw y fanon lanbryd  
 O'r anial ar fyr enyd,  
 Yn dorchau a gemau i gyd.

Y Briodferch lanferch lon  
 A sai' ar Fynydd Seion ;  
 Ei gwisg fydd haul araul Ion—  
 A'i harianaidd forwynion  
 Fydd ser y nefoedd siriawl,  
 A'r prif ser dan geinder gwawl  
 Geir yn belydrawl goron  
 O aur y gwawl i'r wraig hon.  
 O dan ei thraed caed gwraig gu—  
 Y ganaid loer yn gewini !  
 Mae priodfab mwy prydferth  
 Yn rhoi ei hun i'r fun ferth—

Y priodfab fu'n aberth—roes ei waed—  
 Ei briodwaed ei hun drosti'n bridwerth !

Gweler, hi a gafodd galon—ei Gwr  
 A garodd yn ffyddlon,  
 Ei ddiwad addewidion  
 Gwir sydd fel gorseddfa Ion !

Pa ryfedd i *wledd* nef lân  
 Esgor ar briodasgan,  
 Am weled mewn *gem-eilun* ..  
 Y nef a'r *ddaiar* yn un !!

Wele araith hael wron'  
 Iuddewig mewn bri ger bron ;  
 Bugail oedd—ei gail deg wedd  
 A yrai draw i orwedd.  
 Gyda'r allt a'i wallt yn wyn  
 Y gwyr'ai'n foel ei goryn.  
 Ei laswen farf a laesai—  
 Yn rhydd dros ei fron yr âi.  
 Os hen, ei awen a'i synwyr  
 Iddo yn rhan oedd yn yr hwyr—  
 A mwy, yr oedd yn mawrhau,  
 Wr didwyll—Ior ei dadau ;  
 Ac fel hyn ei deg fawl oedd  
 Yn llawen i Dduw'r lluoedd :—  
 " Hen Iuddew wyf anhaeddol,  
 O ras y nef, droes yn ol ;  
 Duw Abra'm, Isaac, Jacob—  
 Y Duw pur—ie, Duw pob  
 Man, a Duw da i minau,  
 Fy Ion wyt sy'n cyfiawnhau.  
 Rhyw Iuddewaidd lwydaidd laid  
 Fu unwaith yn fy enaid—  
 Gwadu fy unig Geidwad,  
 Yr hwn a'm carodd yn rhad,  
 Wnaethym, ond daethym at Ior  
 Eill agor tywyll lygad.  
 Pan welais, rhyfeddais fod  
 Y baban bach heb wybod  
 Mai Iesu ein Messia oedd  
 Iesu, proffwydi yr oesoedd !  
 Boed it, ' fy Ior, agoryd  
 Ein gwael olygon i gyd ;  
 Heb wad yn gweled y b'om  
 Hael Iesu groeshoeliasom."

Esaiah a groesawodd, —yn siriol,  
 Amserau addawodd  
 Duw—adeg y dywedodd  
 Araith a fu wrth ei fodd.

" I gyrau'r ddaiar, gorhoen  
 Heddyw red—y blaidd a'r oen  
 Heb arwydd dig gydborant—  
 Cydorwedd mewn hedd a wnant.  
 E lyf yr ych balf yr arth—  
 Llew bawr gerllaw y buarth—

Y baban gwan rydd goeg her  
 O'i gab i asp a gwiber ;  
 Yna hwythau wenieithant,  
 Heb lid, i'r diniwed blant.  
 Hen ddreigiau mwy ni ddrygant—  
 Hedd sydd yn mynydd y Sant."  
 Dyna'r bwystfilod enwir,  
 Ond creulon ddynion yn ddir—  
 Plant anghall y fall, hyf haid,  
 Ei ddeiliaid, a feddylir.  
 O, orfilain ryfelwr !  
 Ai dyn—ai gwarddyn yw'r gwr ?

Ei gleddyf yn hyf gladd hefyd—i fron  
 Ei frawd—yf ei ysbryd—  
 Gwledda ar waedfa adfyd,  
 Yn ei far, yw ei wyn fyd !

Pa ddiawl ddaw, ond y diaffiddyn,  
 O anwn noeth a wna hyn !  
 Ond cyn hir dofir y dyn—  
 Hynaws y daw fel oenyn—  
 Dyn i ddyn a dyn i Dduw—  
 Hardd gerdd yn ffyrdd y gwirdduw.  
 Yr arddwr mawr ei urddas  
 A ara fron daiar fras,  
 Ac yna'n fuan cwnir  
 Rhyw fawr ffrwyth—tewlwyth o'r tir.  
 Troir mieri, drysi, a drain,  
 Ffynadwy'n gain ffynidwydd ;  
 Mewn anialdir—grasdir gro—  
 Mawr eto ceir y myrtwydd.

Wele ben glas Lebanon—fu oer-le,  
 Dan fawrlwyth o aeron ;  
 Carmel hawddgar a Saron—  
 Lwyni teg—a folant Ion.

Y falch balmwydden a fydd  
 Yn gweini dan y gwinwydd.  
 Assyria, Ethiopia, a thir  
 Elam a Hamath welir  
 Yn ffrithoedd llawn o ffrwythau !  
 Yna hedd geir i'w mwynhau.

I Pathros yr eos ber â—llinos  
 Yn y llwyni byncia—  
 Yn Sinar y mwyn seinia—y gân ber—  
 Hoffder Gwiwner—a'r Aipht gydgana.

Y cras fynydd, dan gawodydd,  
 Fwrw ffrwythydd glaswydd glwysion;  
 Gwyrir brynïau, codir pantïau,  
 Erddir llethrau cymau ceimion.  
 Rhwng perllanau ceir palasau,  
 Ar wych aelïau'r iach awelon.

Arabia ddiarebir  
 Am ei bod yn dywod dir,  
 Craslyd, creiglyd le crin,  
 A lle noeth yn llawn eithin.

Yn hwn fe dyr ffynonydd—a llynau  
 Llawnion ac afonydd  
 Allan, a buan bydd  
 Y lle'n ffraeth a llawn ffrwythydd.

Ar finion yr afonydd—y cwnir  
 Y ceinion breiff gedrwydd;  
 A'r gwenith dan fendith fydd  
 Yn gwenu'n mysg y gwinwydd.—

Fe rydd y gwych, braffwych bren,  
 Roesaw i'r ych a'r asen  
 O dan ei deg adenydd,  
 I fwynhau'r haf—i fyw'n rhydd.

Haul Ion, gan ei lawenydd,  
 Nes y daw bob nos a dydd;  
 Y lloer wen oer, lleuer nos,  
 Yn eirian fydd yn aros,  
 I weini yn y wiwnef  
 I ffyddlon anwylion nef.  
 Y siriolwych ser eilwaith.  
 Yna i gyd fydd yn eu gwaith.  
 Pob coedwig yn ddididig ddaw,  
 A'r dail i guro dwylaw.  
 Hy floeddir am "Fil fwyddiant"  
 Mewn mawl i'r gorseddawl Sant.  
 Teyrnasoedd—holl luoedd y llawr—  
 I Dduw oll aeth yn eiddo llwyr;  
 Anïan a fydd yn delyn fawr,  
 I fawrhau Ion fore a hwyr.

Fob mainc—pob swyddfainc is ser,  
 I undeb a chyfiawnder  
 Gysegrir—a hoeddir hedd  
 Yn hyf gan feib tangnefedd.  
 Gorthrymwr a'r trefhwr traws  
 Arweinir gan rai hynaws.  
 Maesydd, brynian, benau ban,  
 Ledir yn allor lydan,  
 I ddal y Pur Addoliant—  
 I byrth lor yn ebyrth ant.

Fe anir pedrolfeni—â delwau,  
 Fel diles hen gelfi;  
 Y llanc a'r fwyall a'r lli'  
 Ddel i'w gwawd addoli.

Y meini mawmion mewn muriau—a' roir,  
 A rhai'n byst lliardiadau;  
 Ac ereill, fel bo gorau,—yn bontydd  
 Dros afonydd yn y dyrys fanau.

Tân a ddel â'r mwnddelwau—i well trefn—  
 Fe all eu troi'n arfau—  
 Unpeth—pobpeth drwy'n pan.  
 Dawel, yn well na *duwiau*.

Gwneler nen ganwyllbrenau—o ddelwau—  
 Hwy ddaliant fwy golau;  
 Yn mhob cell gwell fydd eu gwaith  
 Ddwywaith na phan yn *dduwiau*.

Mahometiaeth a Phabyddiaeth,  
 A gaudduwiaeth, a gyhuddir  
 O fradwriaeth, a chamdwyiaeth,—  
 I ddu alaeth hwy ddeolir.  
 Yn lle'r delwau gau i gyd,  
 Lor anwyl, ar fyr enyd,  
 Ti gei ddal teg addoliad  
 A haeddi, mwy, O Dduw mad!  
 Pob balchedd, gwagedd, a gwyn,  
 A gedwir mewn ten gadwyn.

Llemwch, gloffon,—cenwch, fudion—  
 Clywch, fyddarion, dynion dânau  
 Addewidion Brenin Seion †  
 Gwelwch, ddeillion, loewon liwiau †




Y lluoer oll sy'n llawenhau  
 Yn hedd y Milfynyddau!  
 Ysbryd o fywyd a fydd  
 Yn awen y dyn newydd;  
 Ail i afon ddylif-fawr,  
 Neu'r tonau dan wenau'r wawr,  
 Yw heddwch, mewn iawn haeddiast,  
 Y gwr sydd yn gywir Sant.  
 Chwyrndeithio heb beidio bydd  
 Olwynion ei lawenydd,  
 Trwy ryfedd rinwedd yr iawn  
 A'r uniawn wir Arweinydd.  
 Ior hael, O bwrw eilwaith  
 Dy law, a daw o'r bell daith  
 Weddill dy blant yn addwyn  
 I'th dy—gelli di eu dwyn.  
 O'r Aipht hed y gwybedyn  
 I'w hen fro—i Seion fryn.  
 Yn ol daw'r wenynen a  
 Sorodd yn nhir Assyria.

Dy fawl, Ior, a ddaw o'r moroedd!—allan,  
 Ac o gellau'r mwneedd;  
 Ehed, ac fe led y floedd  
 Yn hyfawl hyd y nefoedd.

**ALLTUD.**

# ATTODIAD.



Nid yw y darllenydd cyfarwydd mewn Hanesiaeth Ysgrythyrol, Hanes Dinystr Jerusalem a gwasgariad yr Iuddewon gan Josephus, Hanes yr Eglwys Gristionogol, yn enwedig Hanes y Merthyron, mewn angen am nodiadau ar yr Awdl hon; ond nid yw pob darllenydd felly, am hyny cyflwynir y nodiadau canlynol i sylw y rhai sy mewn angen am danynt.

O barth gweledigaethau Ioan yn Mhatmos, fe gyfyd dadl yn y lle cyntaf am yr amser, sef pa un ai cyn ai gwedi dinystr Jerusalem y gwelodd Ioan y rhyfeddodau a gofrestrir yn Llyfr y Dadguddiad. Ymddengys yn lled eglur mai rhagddywediadau am bethau i dd, fod yw cynwysiad y Dadguddiad, os ysgrifenydd ef *cyn* dinystr Jerusalem a gwasgariad yr Iuddewon; cymerir yn ganiataol mai y trychineb dial hwnw yw y nod. Haerir fod y mynegiad, " Rhaid i'r pethau hyn fod ar fyrder," yn gefnogol i'r dyb hon. Yr awdwr mwyaf cyhoeddus, pleidiol i'r golygiad hwn yw Wetstein, ac ar yr egwyddorion hyn y deongla y Dadguddiad.

Tybia Eithorn mai *drama*, sef chware dynwarddol, yw y Dadguddiad, yn cynwys y rhagosteg (*prologue*), yn ddarpariaeth addurnedig i'r arddangosfa; yna y chwareuon.

1. Cristionogaeth yn gorchfygu Iuddewaeth.
2. Chware, Cristionogaeth yn gorchfygu Rhufain Baganaid.

3. Chware, Jerusalem newydd yn disgyn o'r nef.

Tyb rhai yw mai rhagfynegiad yw y Dadguddiad am erlidigaeth y Cristionogion gan Rhufain Baganaid, hyd amser Cystenyn Fawr, a dedwyddwch yr Eglwys oddiyno yn mlaen. Haera plaid arall mai at yr erlidigaeth gan Rhufain Babaid, a chwymp Pabyddiaeth y cyfeirir yn y Dadguddiad.

Haera y Pabyddion wrth gwrs, mai dinystr Protestaniaeth a olygir yma. Y mae y naill a'r llall o'r esbonwyr hyn o angenrheidrwydd yn tybio mai ar ol dinystr Jerusalem yr ysgrifenydd y Dadguddiad. Nid gorchwyl y bardd yw esbonio, ond portreïadu. Dyry awdwr yr Awdl hon yr holl

erlidwyr yn yr un genfaint, gan gymeryd yn ganiataol nad oedd gan Cystenyn, a'r gwahanol bleidiau a elwir yn Brotestanaidd, ddim mwy o hawl i erlid neb am ei grefydd, nag oedd gan yr Iuddew, y Pagan, y Twrc, neu y Pabydd.

Y mae dadl yn mysg esbonwyr pa Ioan oedd yn Mhatmos. Cymerir yn ganiataol yma mai yr apostol Ioan oedd yr Alltud.

Y mae Ynys Patmos yn gorwedd yn Mor Aegea, yn agos i Miletus. Gelwir hi yn bresenol *Vactino*, neu *Patmol*, neu *Patmosa*. Derbyniodd ei holl hynodrwydd fel alltudfan Ioan. Y mae ynddi fynachlog amgaerog, gyflwynedig i Ioan. Ynys dra diffrwyth ydyw, ond yn llawn o soffieir, turturod, colomenod, giachod, cwningod, &c. Y mae iddi amryw borthladdoedd da, a blinir hi gan forladron. Ei mesur yw 30 milldir o gylchfeaur. Tudal. 5. Cyfeirir tudal. 8 at Domitian, am y tybia rhai haneswyr mai efe a alltudiodd Ioan i Ynys Patmos. Tybia ereill mai Claudius; ond Nero a dybir yn fwyaf cyffredin oedd alltudiwr Ioan, tudal. 6 Tudal. 16 a gynwys adfyfyrdod ar Dad. i. Cymerir yn ganiataol mai Rhagluniaeth a olygir wrth y *Pedwar anifail*, Dad. iv; tudal. 18. Cyfeirir tudal. 31, at eglwysi Asia, Dad. ii. iii. Dylunir â chyfeiriadau at hanes llygredigaethau yr eglwys cyn diwedd yr ail ganrif. Hynodai y Platonïaid eu hunain â phenydiau, ymprydïau, a gwisgiadau hynod, yr hyn a chwaneagai eu dylanwad gyda'r bobl, ac a roddai fantais iddynt uno eu hathroniaeth amheus â Christionogaeth. Yr uchelddysg Germanaidd yw y debycaf i Blatonïaeth yn ein dyddiau ni. Y "Cyfrinolwyr" (*Mystics*) a roddent ystyr gyfriniol o'r eiddynt eu hunain, i'r Ysgrythrau, gan ymwrthod a'r ystyr eiryddol neu Ramadegol. Yr oedd llawer o olynwyr y rhai hyn yn mysg yr hen Britaniaid; ac y mae llawer eto yn mysg hyd yn nod Ymneillduwyr Protestanaidd. Fe roddes y diweddar Barch. John Williams, gweinidog y Bedyddwyr yn y Drefnewydd, ergyd trwm i'r goeg-dyb gyfriniol. [Yn mha le y mae gweithiau y dym mawr hwn?] Tudal. 32. Fe ddaeth gau gred am fedydd i'r eglwys yn dra bore, sef dynion yn adeni eu gilydd; ac y mae y gelfyddyd hon yn ei gogoniant y dydd heddyw, a gobaith ei helw yn lled addawol; tudal. 32. Dywed Mosheim, nad oedd y pethau a elwir genym ni yn gymanfaoedd yn yr eglwys am yn agos i ddau gant o flynyddau; ond y maent wedi cynyddu cymaint erbyn hyn, nes y maent wedi dyfod yn bethau cyffredin yn mysg hyd yn nod y Bedyddwyr a'r Annibynwyr, y rhai a fu yn gwawdio mwyaf arnynt. Eu dyben oedd lleihau hawliau

y bobl, a chwanegu awdurdod yr esgobion. "Megys yr oeddynt yn y dechreu y maent yr awr hon" yn mysg Eglwyswyr ac Ymneillduwyr, tudal. 32. Os oedd un o'r crefftwyr hyn yn beirniadu, yr oedd digon o ffordd rhwng *Alltud a'r llawryf.*

Nid heb reswm cryf y tybir mai cyn dinystr Jerusalem yr ysgrifenydd y Dadguddiad. Fel y canlyn y dywedir, "Y mae'r amser yn agos." "Rhaid i'r pethau hyn fod ar fyrder." Y mae lle i ddadlu mai "yr amser yn agos i'r pethau hyn" ddechreu a olygir, ond rhaid i'r pethau hyn *fod yw* yr ystyr mwyaf naturiol. Defnyddiodd Crist, yn ei broffwydoliaeth am ddinystr Jerusalem, yn Math. xxiv, ymadroddion mor nerthol am syrthiad y ser, duwch y lloer, a thywyllwch yr haul, ag a ddefnyddir yn y Dadguddiad. Ar ol y dinystr ofnadwy hwn, dyna y maes yn rhydd i'r "March gwyn," sef y mil blynnydoedd, neu oruchwyliaeth yr efengyl, neu ryw enw a ddewiser ar y dyddiau diweddfaf hyn, yn y rhai y rhwymir Satan, ac y llefara Duw wrthym ni ya ei Fab: ond os oes rhyw oruchwyliaeth a elwir Milfwyddiant eto yn ol, hono, ac nid hon yw y ddiweddfaf; ac erys yn waith caled i unrhyw esboniwr egluro drwy bwy y bydd Duw yn llefara yn y Milfwyddiant dychymybol. Tybia y syniad hefyd fod rhywbeth yn aumherffaith yn efengyl y dyddiau hyn, a dysg y bobl i rwnach yn erbyn trefn gras, fel y mae hi yn bresenol, ac i ddysgwyl am ryw beth gwell a mwy nag sy genym ni. A ydym i ddysgwyl am well Aberth, neu well Argyhoeddydd, neu well Beibl, ryw bryd nag sy genym yn bresenol? Crybwyllir hyn er prawf nad heb lawer o debygrwydd, a dyweyd y lleiaf, mai y pethau oedd i fod ar fyrder oedd amgylchiad dinystr y Ddinas Santaidd, a gwasgariad yr ychydig a weddillwyd gan gleddyf Rhufain o'r genedl a etholodd yr Arglwydd iddo ei hun. Pa fodd bynag, y mae y bardd wedi cymeryd yr olwg eangaf ar y Dadguddiad, ac wedi cymeryd yn ganiataol mai helynt yr Eglwys Gristionogol a olygir yn benaf yn ngweledigaethau Ioan yn Ynys Patmos. Ond ni chaniata y terfynau hyn le i sylwadau mor helaeth ag a fuasai yn ddymunol ar yr Awdl hon.

Cystenyn oedd yr ymerawdwr Cristionogol cyntaf, ac efe hefyd oedd y cyntaf a gyhoeddodd Freinlen rhyddid crefyddol; ond gosododd ei hun yn fuan yn ben yr eglwys; ac ar ol cael blas ar ei swydd, efe a droes yn erlidiwr tra gwaedlyd ar bwy bynag a wrthodai ei eglwys gyffredinol ef. Credaf mai dyma'r anffawd benaf a gyfarfu yr eglwys erioed; am mai fel hyn y credais fel hyn y llefarais, heb ofalu i ba le yr elai cadair Llandudno. Ni chaf le i ymhelsethu,

nae i gyffwrdd braidd a phob peth y cyfeirir ato yn yr Awdl, yn ngraddau llygredigaeth yr eglwys; ond crybwyllaf am rai o'i phrif erlidigaethau, sef y phiolau tywalltedig, fel y tybiaf, a welodd Ioan. Cyfeirir tudal. 36 at phiolau a dywalltwyd gan y Rhufeiniaid ar yr Luddewon, cyn dinystr Jerusalem, yn nghyd a'r dinystr ei hun. Gwel Josephus. Am hanes yr arteithiau ofnadwy y cyfeirir yn tudal. 37—40, gwel Hanes y Merthyron. Pwy bynag a ddarlleno yr hanesion hyn a wel nad yw Alltud wedi defnyddio geiriau cryfach, na garwach, nag a ddefnyddir gan yr hanesydd. Na fydded i'r Beirniaid ddal y bardd yn gyfrifol am gronico ffeithiau hanes, tra y mae efe fel hyn yn rhoddi ei awdurdod i fyny. Bydded rhwng "cylla" y boneddigion a'r achos. "Nis gall y bardd ddim yn erbyn y gwirionedd, ond dros y gwirionedd," 2 Cor. xiii. 8. Teimlai y bardd wallt ei ben yn setyll wrth alleirio y ffeithiau ofnadwy hyn; ond dywed eto wrth ei feirniaid na ddylasent ar un cyfrif ei ddal ef yn gyfrifol am danynt, mwy nag am "y gwaed" a "welodd" Ioan, ac a gronielodd yn y Dadguddiad. Derbyniodd y bardd gan Ioan, derbyniodd Ioan gan yr "angel;" derbyniodd yr "angel" gan "Iesu Grist;" a derbyniodd "Iesu Grist" gan "Dduw." Gwel yr adnod gyntaf yn Llyfr y Dadguddiad. Dyma y bardd yn rhoddi yr awdurdod hon eto i fyny, a bydded rhwng "cylla" y Beirniaid a'r achos. Fel y canlyn y ceir yr amddiffyniad yn y *Faner*:—

Gwaedlyd ofnadwy yn wir! Dychrynlyd o waedlyd!  
 Digon i godi bwrn ar lai o foneddwyr na'r ddau feirniad.  
 Ond y gefyniad y dymuna *Alltud* gael atebiad teg iddo yw,  
 A oes yma fwy o waed nag sydd yn Llyfr Gweledigaethau  
 Ioan yn Ynys Patmos? Pen. xvi. "Ac efe a aeth fel gwaed  
 dyn marw;" "A hwy (yr afonydd) a aethant yn waed."  
 "Oblegyd gwaed saint a phroffwydi a dywalltasant hwy, a  
 gwaed a roddaist iddynt i'w yfed; canys y maent yn ei  
 haeddu," pen. xvii. "Ac mi a welais y wraig yn feddw  
 gan waed y saint, a chan waed merthyron Iesu," pen. xviii.  
 "Yn y cwpan a lanwodd hi, Henwch iddi yn ddau ddyblyg."  
 "Ac ynddi y caed gwaed proffwydi a saint, a phawb ar a  
 laddwyd ar y ddaear," pen. xix. "Gwisg wedi ei throchi  
 mewn gwaed."

Fe fyddai yn ormod o ddarostyngiad ar y ddau wr boneddig a alwyd i feirniadu ar weledigaethau Ioan yn Mhatmos, i sylwi ar ymadroddion "anghoeth" yr alltud o Patmos yn ddiau. Wele rai o honynt:—"O herwydd eu cornwydydd." "Tri ysbryd aflan tebyg i lyffaint, yn dyfod allan o safn y ddaear," &c. "Y butain gyda'r hon y put-

einiodd breninoedd y ddaear, ac y meddwyd y rhai sydd yn trigo ar y ddaear gan win ei phuteindra hi." "Cwpan yn ei llaw yn llawn ffeidd-dra ac aflendid ei phuteindra." "Lle mae'r butain yn eistedd." "Gwnant hi yn unig ac yn noeth; a'i chnawd hi (y butain) a fwytant hwy." "Syrthiodd Babilon; aeth yn drigfa cythreuliaid, ac yn gadwraeth pob ysbryd aflan, ac yn gadwraeth pob aderyn aflan ac adgas." "Cenhedloedd a yfasant o win digofaint ei godineb hi," &c. Fe wyr pob dyn nad yw yn meddu chwaeth rhy goethedig i ddarllen Llyfr y Dadguddiad, ei fod yn llawn o'r peth a eilw Nicander ac Emrys yn "ysbrydoliaeth Porth Beli, yn gras, yn affednais, cethin, an-syber, afrywiog, isel, yn ddigon i godi bwrn ar gylla estrys."

Yn awr, feirdd a llenorion, y mae *Alltud* yn eich gwahodd i farnu rhyngddo ef a'i feirniaid. Dyna yr holl achos yn deg ger eich bron, yn cynwys y llinellau y cyfeiriodd y beirniaid atynt yn union fel yr oeddynt yn y copi oeddynt hwy yn ei feirniadu. A ellwch chwi nodi un linell a feiwyd gan y Beirniaid yn cynwys geiriau nad yw y Beibl yn defnyddio eu cyffelyb mewn cyffelyb achosion? Ie, a llawer cryfach? Os gwelwch rywbeth yn y llinellau a nodwyd yn sefyll rhwng *Alltud* a'r llawryf, y rhai y buasai wedi cymeryd meddiant o honynt oni buasai y cyfryw linellau, traethwch eich llen.

Dymuna yr Alltud grybwyll mai ereill sydd yn gyfrifol yn benaf am yr orgraff, yr Italig, a'r atalnodiad.



A W D L

AR YR

APOSTOL PAUL.





A W D L

AR YR

APOSTOL PAUL.

*(Festun Eisteddfod Senedlaethol, 1865.)*

GAN

JOHN EMLYN JONES,

MERTHYR TYDFIL.

---

MERTHYR TYDFIL:

ARGRAFFWYD GAN PETER WILLIAMS, SWYDDFA'R "TELEGRAPH."



## RHAG-SYLW.

---

ARGRAFFIR YR Awdl hon ar gais amryw gyfeillion barddonol. Dyma ddywed y Beirniaid am dani :—

“Yr oedd Awdl gref gan *Julius*. Yr oedd Paul yn ei wahanol ragoriaethau yn cael ei nodi gan y bardd, oddieithr y Paul ymarferol. Yr oedd hefyd wedi gadael allan gryn lawer o bethau yn hanes Paul.”

Nid ydym am ddadleu wedi barn, nac am gadw twrw ; ond goddefer i ni ddywedyd mai nid “y Paul ymarferol” oeddem ni yn amcanu i’w ddarlunio, ond y *Paul barddenol* ; am yr un rheswm gadawsom allan “gryn lawer o bethau yn hanes Paul,” ac nid *Hanes bywyd yr Apostol* oedd ein pwnc eithr *Awdl*. Amcanasom hefyd i wneuthur yr Awdl mor fêr ag y medrem. Am y graddau i ba rai yr ydym wedi llwyddo i gyrhaedd yr amcanion yma, gadewir hyny i farn y darllenydd.

Gobeithio na fydd Pwyllgorau ond hyny yn gofyn am i ereill ysgrifenu y cyfansoddiadau, canys y mae’n anhawdd iawn cael neb arall i ysgrifenu gwaith dŷn yn gywir, ac y mae llythyren o’i lle yn anurddo y gynghanedd, fel y gwyddis.

J. EMLYN JONES.



# PAUL.

## Y CYNNWYSIAD.

(Braslun.)

AGORIAD y testun—Gelyniaeth had y sarff tuag at Had y Wraig—Darlun o Erlidigaeth—Trem ar hen erlidwyr—Oferedd erlidigaeth, gan y medr Duw droi rhai fel Saul—Trem ar ei fywyd yn Tarsus—Ei ddysgeidiaeth—Ei ddyfodiad i Jerusalem—Ei ymlyniad manol wrth y ddeddf—Ei barch gyda'r gonedl a'i ragolygon—Marwolaeth Stephan—Saul yn erlid—Ei daith i Ddamascus—Gogoniant y wlad—Ei galon yn curo yn ngolwg Damascus—Y tra rhagorol ogoniant—Ennill Saul—Effaith hyn ar Satan, ar y nefoedd, ar Stephan, ar yr eglwys yn Damascus, ar yr arch-offeiriaid, ac ar yr eglwys yn Jerusalem—Saul yn Arabia—Ei gipio i'r drydedd nef—Gogoniant y lle sanctaidd—FFYDD, GOBAITH, a CHARIAD Paul—Tri gras gwreiddiol pob gras arall—Paul yn debyg i Ioan—Sylfanau ei gariad ef—Ei safle yn mhlith yr apostolion—Paul fel llafurwr—Effeithiau ei siarad ef—Ffelix, Athen, &c.—Effeithiau ei lythyrau—Ei ddi-oddefiadau ef—Yr ystorm—Ei ymddygiad canmoladwy yn y llongdrylliad—Paul yn Milita—Ei ymadawiad—Darlun o foreu haf—Paul yn Rhufain—A fuodd efe yn Mhrydain—Ffyrdd dyfnion Duw—Dylanwad Paul yn ennill mawrion y Llys—Digofaint Nero—Traddodi yr apostol i angeu—Angelion yn myned gartref âg ef i'r nefoedd—Iesu yn ei goroni—Parhad ei dylanwad ef yn y byd.

I PAUL fawr, mawr yn mhob modd,  
A'r daioni råd weinodd,  
Eilia wŷn fawl awen fâd  
Mewn geiriau mwyn o gâriad.

Dros y gwir drws agored—a geisiai,  
Er ei gyson ludded ;  
Ac, ŵr hael, carai weled  
Ein byd crŵn yn nabod cred.

Miloedd gau am ladd y gwir,—a'i hurddo

Trwy wledydd tost erlidir  
Ei weis ef er's oesau hir.

Gelyniaeth dân friglwyni—puredig  
Paradwys wnaeth godi ;  
A dynoliaeth dân weli  
Yn ddau had wahanodd hi.

Had y sarff yn ddibaid sydd—yn ceisio  
Dwyn cysur ein crefydd ;  
Aethiadau, lym frathiedydd,  
I Had y Wraig o hyd rydd.

20

O hyn gânwyd yn gynar—elynes  
I lawenydd daear ;  
Ei golwg sy'n dwyn galar,—ferch annwn,  
Gyda'i helgwn dig a dialgar.

Yn enw Duw mae hon yn do'd  
A hufen ar ei thafod ;  
Ond mileinig eiddigedd  
Yn sarug iawn sura'i gwedd :  
Y mae ei gwallt, craswallt crych,  
Ail nadroedd fil yn edrych,  
Tân sarffog golynog wau  
Trawsguddiant yr ysgwyddau ;  
Eiriasawr lygaid croesion  
Ydyw llygaid tanbaid hon ;  
Ymollwng fflamiau allan  
A thrwm dwrf wna ei threm dân :  
Llymion 'winedd, dannedd<sup>o</sup>dur,—  
Dwrn o bres dery'n brysur,—  
A thraed ha'rn cadarn cydwedd,—  
Oll o faint erchyll a fedd :  
Heb unffurflaeth helaeth, hir,  
Ei genau ni ddigonir ;  
Hyd ei gwefus mewn dygyfor—  
Yf fwy o waed, ped yfai fôr.

30

40

Dyga yr enw cas—*Erlidigaeth*,  
 A'i rhysarf ydyw traws-orfodaeth ;  
 Ni w'yr hon a'i chamdriniaeth—ein heisiau—  
 Ni wnaiff arfau blanu unfurfaeth.

Gyru i chwerwon ac egr garcharau  
 A'u marwol niweidiol ddirdyniadau ; 60  
 Er taw i'r llafar tori â llifau,  
 Yn dra didawl wnaï blin awdurdodau ;  
 Difedur fu dyfeisiau,—ac ingoedd  
 Y dreiglaid-lysoedd drwy gydol oesau.

Pa sawl Abel yn gelain  
 O ddydd y cwmp laddodd Cain ?  
 A fu'r cuchiog fôr cochwawr  
 Yn oer fedd i Pharaoh fawr ?  
 A regodd, a gecrodd Gath  
 Lawer 'nol dydd Goliath ? 60  
 Fu Sanbalat neu Datnai  
 Droion rif wedi'r hen rai ?—  
 Do, er gwarth gwelwyd i'r gwŷr  
 Eilwalth eu cynddrychiolwyr :  
 Rhyw Gain yn awr gawn o Nod,  
 Awr arall cawn rhyw Herod ;  
 Daw rhai mal Tatnai i'n tir,  
 Pharaoh'n Nero i'n yrir ;  
 Rhyw greulawn Saul ar Saul sydd  
 Yn dyfod am ladd Dafydd ; 70  
 Hyn welwn nes syn-holi—  
 A dry'n ol i'n daear ni  
 Y gwawdwyr, ac a ydyw  
 Annuwiol feib yn ail fyw ?—

Er dreigiau mawr eu drygedd,—a'u rhyssiant  
 Ar weision tangnefedd ;  
 Ni ddorid eu cynddaredd—dialgar,

Ion ddodai i'r ddiadell—rhag erlid  
 Rhyw gorlan annghysbell ; 80  
 O wydd pawb ynnysoedd pell—  
 Ogofau wnai yn gafell.

Drwy ethol a goruwch-lywodraethu,  
 Y gelyn a'i drachwant ga'i lân drechu ;  
 Cynghor cyfrwys euogddwys y fagddu  
 Yn nydd ei rwysedd wna'r Ion ddyrysu ;  
 Yn wâr weision i'r Iesu—galluoedd  
 Draw o fyddinoedd fedra ef ddenu.

Estron i ffynnon y ffydd—a droes Ef  
 O dir sych at grefydd ; 90  
 Ei law dda wnaeth ganol ddydd  
 O erlidiwr wyliedydd.

Ei eni yn Rufeiniwr  
 O uchel radd ga'dd y gŵr,  
 Er hyny a'i feithriniad,  
 Carai les cywir ei wlad ;  
 SAUL ydoedd gynhes wladwr  
 Er yn llanc ac ieuanc ŵr,  
 O waed Hebrëwr ydoedd,  
 A gŵr o ddysg euraidd oedd. 100

Nis gwelwyd yn ysgolion—Tarsus fawr  
 Tros oes fwy o wron ;  
 Ei goleg o un galon,—fel ei wlad,  
 Edmygai ffrydiad ei amgyffredion.

O dân wawr y goeden werdd,  
 Wrth ffynnon Helicon hardd ;  
 Yfai yn gawr drwy'r fwyn gerdd  
 Y dŵ'r byw—neithdar y bardd. Digitized by Google

Cerdd Aratus felus fant,



Méander dyner ei dôn,  
 A'i wych rywiawg chwareüon ;  
 Nodau Epimonides  
 Yn ei gryf delynog wros ;  
 Ac Homer gerddber ei gân  
 A'i lu arwyr liw-eirian ;  
 Yn oestadawl astudiodd  
 A thynu nerth wnai o'u nodd  
 Aruchel feddylddrychau  
 O'i fewn oedd yn dyfnhau—  
 A'i afaelawg ddarfelydd  
 Yn uwch uwch âi—rhedai'n rhydd.

120

Tân areithwyr, celf gwyddonwyr,  
 Prawf athronwyr pur feithrinodd ;  
 Ai deddfroddwyr, llywodraethwyr,  
 Neu foeseirwyr,—rhai'n fesurodd.

Groeg wèn a'i Hathen ethol,—ei llwyni  
 A'i llenyrc'h clasurol,  
 Allai i SAUL ennill sedd  
 A mawredd yn dymhorol.

130

Ond awen lân Judëa—a'i brwydwaith  
 Ysbrydol ragora ;  
 Os teilwng yw Castalia—a'i llawrwydd,  
 Is olew-wydd gwell yw Silöa.

Hynawsach nâ Pharnassus,—a glânach  
 Nâ glenydd heirdd Cydnus ;  
 Mwy têr nâ thrumau Taurus—iddo fydd  
 A'i di-ail binwydd hoff wlad Libanus.

Yn ei fryd 'roedd y wèn fro—yn hafal ed by Google  
 I nefoedd deg iddo

140

Wrth draed Gamaliel uchel ei achau,  
 Rabbi o awdwr mawr ei wybodau ;  
 Treiddiai i dudoedd y traddodiadau  
 Y'mawredd ei fedr, a'r amryw ddefodau :  
 A dysgodd, gwelodd mewn golau—newydd  
 Ei rawd annedwydd heb ordeiniadau.

Ei gysur yn awr geisiodd—yn y ddeddf,  
 Ac yn ddŷn fe weithiodd :  
 O hyn i maes, yn y modd—manylaf,  
 Ef Sina i'w eithaf wasanaethodd.

150

Mesur ei hun wrth Moesen—wnai beunydd  
 Dàn boenau anorphen ;  
 Am y byd—mwy, am ei ben  
 Ni thorai y llythyren.

Moli ysgolor Gamaliel—wnai pawb  
 Mewn parch safai'n uchel ;  
 Ymroddus ŵr, mawr oedd ei sêl—a'i chwant  
 Tros ogoniant eres i'w genel.

160

Lleni hanfod y du ddyfodiant  
 Rwygai'i oludog ragwelediant,  
 Daliai eirian, ysbrydol warant,  
 Y dewisol feirdd broffwydasant,  
 Yn resymau na ŷrai siomiant  
 Weis i luddiaw y melus lwyddiant ;  
 Hebron a phob bryn a phant,—ddeleant 'nol  
 Dàn eu rhosynol, dyner, swyniant :  
 Llu Rhufain â'i holl rwyfiant,—ymgiliai  
 Ior ymwelai â'i bobl er moliant.  
 Ai i'w byrth fŵg aberthiant—yn seiniau  
 Llef organau a llafar ogoniant.—

170

A faed dai wirio fodd arall

Ennynu wnai ei hunan,—yn fawrwyllt  
 Wrth hyf araeth Stephan ;  
 A'i lid ef màl ysol dân  
 Drwy ddellau dorodd allan.

Dig unodd gydag anian—arwyddol  
 Yn llofruddiaeth Stephan ; 180  
 Llai nis gall o hyn allan  
 Nâ cheisio gwaed achos gwan.

Rho'i Seion wnai Pharisäaeth—yn drist  
 Dàn draed du elyniaeth :  
 SAUL yn uwch ei sêl a wnaeth  
 Fwy o rwydawl ddifrodaeth.

Y llew beiddiawl, llabuddio  
 Ydoedd ei waith dodwydd o,  
 A llusgo gwŷr a gwragedd  
 Yn hir fu i gynar fedd ; 190  
 Oruchwyliwr archelyn,  
 Ofnid ef yn fwy nâ dŷn ;  
 Erlidiwr marwol ydoedd,  
 A'i enw ef yn ddychryn oedd.

Y rhai o'i ddwylaw yn rhydd a welodd  
 I fânau eraill mewn ofnau yrodd ;  
 Ei elyneiddiwch hyn ni lonyddodd,  
 Ar eu hol wedi'n dibaid erlidiodd,  
 Mewn blys i'w chwil-lys dychwelodd—lawer—  
 Pwy rif y nifer heb brawf anafodd !— 200

Un boreu 'n ddigon barus—try i'w hynt  
 A'i warantoedd rheibus ;  
 Yn ei ffull arweinia ffordd  
 Ei osgordd i Ddamascus.—

Wele ddydd ! a'r haul o'i ddôr—ddaw allan  
 Yn ei ddillad porphor ;

Tebyg i aur yw Tabor—gan ei wedd,  
O'i dywyn mawredd daena am oror.

Siaw drwy heulawg fro Esdräelon  
Yn bur hwylus wna bore-awelon ; 210  
I'r wig cynniwair i ro'i caneuon  
Mae'r adar a'u hadlais meinllais mwynllon ;  
Melus redeg wna sain bugcilegion  
Mal sain dwsmel o Garmel ac Hermon ;  
Swynawl o blethawl gyda'r dâ blithion  
Yw cerddi yr ifaine heirdd wryfon ;  
Daw sŵn o lifiad y swynol afon,—  
O'r môr a'i yndid murmur y wendon ;  
Uwch i Dduw'r dydd chwydda'r dôn—nâ chribau  
Aruchel benau gorwych Lebanon. 220

O enwog Balestina,—ni welwyd  
Anwylach golygfa ;  
Ar hon SAUL 'nawr ni sylwa,—y mae'n gaeth  
Yn nwyf ei fariaeth—synfyfyria :  
Ni rydd drem ar Gadara—a'i gwychder,  
Ac hwyliau lawer Môr Galilea :  
Cân y dorf fel perorfa—uchelwyl,  
Llain na phreswyl, dim oll ni phryisia !

O'r fonwes sy'n gartref hunan—fawredd  
Pob da fwir allan :— 230  
Ni chlyw gord yr uchel gân,  
Amlenwa demlau anian.

Damascus yn foddus draw ganfyddodd  
Yn ei glân gaerau, a'i galon gurodd ;  
Bryisiai a bryisiai, ac heb—arosodd—  
Hyd ei enaid goleuni dywynodd ;  
Yn oleu warchae sydyn lewyrchodd,  
Y gwawl uwch anian a'i amgylchynodd ;  
I gael diengyd fe galed wingodd ;  
Ymroes i'r eithaf ond fel marw syrthiodd ; 240

Yn y goleu hwn gwelodd—ei anaf,  
Y gwaeau dyfnaf i gyd a ofnodd.

Y cyd-deithwyr caed hwythau,—yn y llwch  
Yn llawn dychryniadau ;  
Y llaw goch 'nawr ni all gau  
Yn y clawdd am garn cleddau.

Goleu Duw mewn galwad oedd,  
A gwres awdwr gras ydoedd ;  
Mawr ei lif, môr o leufer,  
I wres hwn ymdodda'r ser ;  
O'i flaen ef diflana haul,  
A chudd orwych wedd araul.

250

Llafar Iesu o'r lleufer wysiodd  
SAUL ei elyn, dewisol holodd  
Paham i'w ragod ef y cododd—  
O wlad i wlad pa'm ei erlidiodd !  
SAUL wnai ollwng, rhoi sail ni allodd,  
Yn y llais mawrwerth bron llesmeiriodd  
Crist a'i hawl Ddwyfawl gyfaddefodd,  
A'i hun euogawl yn was gynnygiodd.

260

Ni welwyd buddugoliaeth,—mwy pwysig  
Gampuswaith Crist'nogaeth :  
Y llew 'n oen diddichell wnaeth  
Rhyglyddawl benarglwyddiaeth.

Ysgolor mawr nas gwelwyd—eto'i well  
At waith Duw a dröwyd ;  
O goleg Moses galwyd—y doniau,  
A'r gŵr oedd eisiau i'r gwir addaswyd.

Gwyllt ysgyrnyga Satan ei ddannedd,  
Ac yn ei wenwyn cnöa'i ewinedd ;  
Cuchia yn ffyrnig, cocha'n uffernwedd,  
Ymrwyga'n ddyrys mewn mawr gynddaredd ;

270

Yn warsyth heria'r orsedd,—pe gallai  
Iesu fwriai o'i deyrnas a'i fawredd.

Fry o'n hawyr i'r nef â'r newydd  
A sidanawl hwylus adenydd,  
Yna heda at bob caniadydd  
I'r orielau o'r aur hëolydd ;  
Ac yn nef deg ni fu dydd—mwy ei fawl  
Gan lu unawl gwÿn ei lawenydd.

280

Enaid Stephan a daniwyd—diliau nef  
O'i delyn aur dynwyd :  
A'i dêr awen, pan dröwyd—at yr Iox  
Un o'i lofruddion, gan hwyl wefreiddiwyd.

Ananias gan y newydd—nofiai  
Mewn nefol lawenydd  
Yn mhlaidd fföaduriaid ffydd  
Ni fu hwyliau'n hefolydd.

“Ein Duw,” meddynt, “wrandawodd—ein galar,  
“A'n gelyn ennillodd ;  
“Y mentyll tywyll a'n tôdd  
“Yn ail diddim niwl doddodd.

290

“Lew annuwiol, calon newydd—gafodd,  
“Mae'n gyfaill i grefydd :  
“Onid efe'n genad fydd  
“Ei phenaf amddiffynydd.”

Heb un braw neu boenau bron  
Hwy dÿrant at SAUL dirion,  
Ac wrth weled ei fedydd,  
A melus iaith, moli sydd ;  
Moli Duw am weled un  
A'u gwaedai 'nawr yn gydun.  
Daeth y gŵr fu'n felldith gynt  
A'i frôd aedd yn frawd iddynt—

300

Baban eu y teulu tēg  
Ydoedd ar hyn o adeg.

Wedi dychweliad y cenadon,  
I anneddau'r ysgrifenyddion,  
I roi eu hanes, mal terwynion  
Trwy'r neuaddau trawai'r newyddion; 310  
Acw'n ddyrwygawl, mal cynddeiriogion,  
Ai dig offeiriaid o gyff Aaron:  
O'u tymherau gwylltiai y mawrion,  
Rhegu Iesu a Saul wnaï'r gweision;  
Er dial gwnaeth ei alon—ar bob llaw  
I'w ddieneidiau addunedion.

Yma yn Salem yn min iselu  
Yn ei lloches mae'r eglwys yn llechu  
A hi yn llwm swm ei hymresymu  
'N fin iawn a diflas fel hyn wnaï dafu:— 320  
“Am Saul greidiauwl does dim sail i gredu  
“I'w lid ystigawl ado'i ostegu;  
“Ail ffwrn ei agwedd ar ol ffyrnygu—  
“Tân ei enaid wna orwyllt ennynu  
“A'i hallt waniad pan fyddo'n melltenu  
“O gwr ei lygad wna i gawr lwgu.”—  
Frodyr, aroswech, i'r frwydr âi'r Iesu,  
Loyw un teilwng, mae SAUL yn y tylu.”

Coeth rinau, a dysg athronydd—cawraidd,  
A'r cywrain resymydd, 330  
Symlwrwydd nef 'nawr a chrefydd  
Yn nghalon SAUL yn nglŷn sydd.

Y gwngus synagogau—a rwymodd  
Gyda'i rymus eiriau;  
Drwy y gwir e fedrai gau  
Annuiol ddrwg enaïau.—

Aeth i'w ryfedd athrofa—yn ol hyn  
 I lwyni Arabia ;  
 I gael dysg mewn goleu da  
 O leuferoedd Calfaria.

240

Y gras hidla o'r Groes waedlyd—ydoedd  
 Symudai ei fywyd ;  
 A rhifai 'nol myfr hefyd  
 Y Groes ar ben grasau'r byd.

Dysgodd, iawn ddysgodd oni ddaeth—efe  
 Yn fawr mewn Crist'nogaeth :  
 Er mwyn hon a'i hathroniaeth  
 I glàs uwch o'r eglwys aeth.

Engyl Duw yn ngoleu dydd,  
 O'r breiniawl glaer wybrenydd,  
 Weinyddent yn ei haddef  
 I'w ddwyn o i'r drydedd nef.

350

Gyrai y beidiawg danllyd gerbydau  
 Rhwng dirif fydoedd yr äangderau ;  
 Hÿf olwynent drwy gydser filiynau,  
 Haulwen ar haulwen oedd draw o'u holau ;  
 Goruwch haul-diroedd ger uchelderau  
 Y ddinas welir a'i heirddion seiliau ;  
 O deg Baradwys y paradwysau,  
 Ei llun gorwych sydd uwch gallu'n geiriau ;  
 Ha ! gymmaint yw ei gemau,—a wnaed hon  
 I ddaearolion â'i heirdd orielau.

360

Hyd wely aur llyfndeg rhedeg wna rhydiau  
 Afon y bywyd i'r rhai fu'n ei beiau ;  
 Clywir melusfawl adlonawl delynau  
 Lluosawg hynodol a llwys ganiadau ;  
 Ymchwydda'r cordeddog luosog leisiau  
 Yn ail i fôr swynol o lafar-seiniau,



Y rhai a gludir mewn per aroglïadau  
I ro'i gwiw fwyniant i'r oesol drigfanau. 370

Yn ei fawredd goruwch y gorseddau  
Mae'r gŵr a wânwyd is mîr goronau,  
Hwnw foliennir, a'i nefawl wenaau,  
O fy anwylyd, wna'r nef yn olan ;  
Rhyw newyddion rinweddau—fyth a ddwg—  
Mwy hardd ei olwg nâ myrdd o heulïau.

Ei was hoff, er tanio'i sêl,  
Hebryngodd heibio'r angel ;—  
Aethant hyd lwybrau'r ethol  
Drwy y nef draw, draw, yn ol— 380  
Lawr i fythol arfaethau  
Orweddant mewn cuddiant cau—  
I olwg y dirgelion  
Hyny sydd yn monwes ION,  
Na welodd yr anwylaf  
O'i gedyrn wŷr gyda'r Naf—  
Gan ei gorfflŵch degwch dall  
A'i seraff neu was arall.

Yr olwg fawr a welwyd,—a'r geirian  
Rhagorol a glywyd ; 390  
Yn gydol gan PAUL gadwyd ;—y swynion  
Yn ei ddewr galon ei hyn ddirgelwyd.

Y'mhen hir adeg mynegodd—hyn o ffaith,  
Er mwyn ffydd bu'r adrodd ;  
Am dani nis balchiodd,—ond mewn sêl  
Yma'n wr isel a mwyn arosodd.—

Ei ddonïau o'ent feddiannol—ar y grym  
Ry'r tri gras hanfodol ;  
A'r rhai hyny'n dri unol—oedd nwyfiant,  
Naws a brwdiant ei ŷni ysbrydol. 400

FfYDD gadarn unfarn am hanfod—moddawl  
 Y maddeu a'r cymmod  
 Feddai ef—fe wyddai werth  
 Gwaed aberth ar gydwybod.

Ymchwiliwr fforddiwr i *ffydd*—Duw ydoedd  
 A'i didwyll eglurydd:  
 Rho'es i ni wersi newydd  
 Wnelai'r dawn fel goleu'r dydd.

*Ffydd* isel, hoffaid, Iesu,—oedd yr un  
 Yn rhodd råd wnai garu 410  
 Nid y dawn wnaed i'w dynu—mal â bys  
 Yn ol ewyllys a dynawl allu.

Gwyn, sawrus, blanhigyn siriol—oedd hardd  
*Ffydd* hwn yn wastadol:  
 Tyfai er brad diafol—ac amlhau  
 'N deg wnai y blodau gwynebledol.

Yn ei Grëawdwr uniawn gredodd,  
 A'i holl fawryd wedi'n llefarodd,  
 Llid na safnau llewod nis ofnodd—  
 Yn ei OBAITH arnynt gwynebodd. 420

Ha, *Obaith*, at gerubiaid—o'r anial  
 Arweinia hi'r enaid;  
 O dwyni byd clyw'r dôn bêr  
 Sy ar offer seraffiaid.

Rhy drysor rhad i'r isel,—rhy gyfoeth  
 O'r gafell oruchel;  
 Ei llaw fwyn ddistylla fêl,  
 A dŷr ing, o dir angel.

I PAUL ar daith er pla'r dig  
 Hon ydoedd “wynfydedig;” 430  
 Er llid dŷn a'r gelyn gau  
 Hyf ddaliodd ei feddyliau.

Braw'n ei enaid ni roddai breninoedd,  
*Gobaith* a'i lliwiau o raib galluoedd :  
 Drwy y bradrwysg tra enbyd a'r brwydroedd,  
 A'u talm o adwyth onid helm ydoedd ;  
 Uffern ddiffin a'i chyfrwys fyddinoedd,  
 A'i chawri lawer ddyrch awyr-leoedd,  
 Ië, angeu nid ofnai na'i ingoedd  
 Dygai fywyd o'r du ogofaoedd ;— 440  
 Ni ddaw'r y boreu mawr lleibir moroedd  
 Yn ei heillt feiliau gan y mellt filoedd ;  
 Yn nymchweliad—yn nhoddiad mynyddoedd,  
 A nos arloesiad y glân ser-lysoedd,  
 Pan fo holl anian gan eirias-danoedd  
 Yn y dyryswch yn mhen draw oesoedd,  
 Drwy *obaith* eilwaith ardaloedd—fry wêl,  
 Na thania ufel,—dyna'i fyth nefoedd.

Yndid y glân gyfiawnder—ddaw o ffydd  
 Ddiffoddai ei falchder ; 450  
 Pe llenwid swyddi dân sêr—er mawr fudd,  
 Yn ddyn ufudd, heb ffydd byddai'n ofer.

Gras chwythodd,—gyrodd y gwyll  
 A'r gaddug oer guddiai'i gell,  
 Ynteu ar ffordd hwnt i'r ffyll  
 Byth a gân am “*obaith gwell.*”

Agorodd hyn i GARIAD,  
 Llawn o wres, ei fynwes fâd ;  
 Llem ei greddf, mwy'r ddeddf ni ddaw  
 Yn aflonydd i'w flinaw ; 460  
 Rheithiau cred yw “*cyfraith Crist,*”  
 A'i hedryd wna yn ddidrist,  
 A didwyll *gariad* ydyw  
 Yr iawn sêl, a'i choron syw.

PAUL fyg sy'n debyg ei dân  
 I'r duwiol hen frawd Ioan ;

Egwyddor Blaenor y blaid  
Wna'i enaid o'r un anian.

Yr oedd Ioan mor dduwiol—a'i wenau

Mor anwyl a siriol;

Rhyw sant fel mwyn angel oedd,

A'i ddawn ydoedd ddeniadol.

470

Ar fonwes dyner Iesu—y gwelwyd

Ef yn gwylaidd blygu,

Nes i'w fron a'i galon gu,

Gan ei hiasedd gynhesu.

Mal ei Waredwr rhyw syml ŵr ydoedd,

A'i iaith yn hafal i wlith y nefoedd;

Y mîr sylwadau am ras-oludoedd

Wnai ddystaw ollwng yn fwyn ddistylloedd;

Pibell aur mewn pob lle oedd—rhwng anial

A dŵr croyw grisial—dŵr Craig yr oesoedd.

480

Eiddunai ef, ddyddanwr,

Heb goll i weled pob gŵr

Yn caru'r Iesu grasol,

Yr hwn all garu yn ol;

*Cerwch*, O *cerwch* oedd cân

Ei lythyrol iaith eirian,

A'r mawr bwnc oedd rhwymo'r byd

Hwn eilwaith wrth Anwlyd,—

Wel, onid yw PAUL yn dâl

Yn hafal i hyn hefyd.

490

Cywrain addurnion *cariad*—yw miriant

Ei dymherus deimlad;

Rhinau hwn rydd gadarnhad

A mawredd i'w gymmeriad.

Hel ei arogl i'w eiriau—pureddol.

Nes pereiddiant oesau;

Iaith ei serch sy'n chwaethus wau—fel seirian  
Wythi arian drwy ei lythrau. 590

Wylo ydoedd am galedwch—brodyr  
A brydiai mewn tristwch ;  
Er eu lles a'u cael o'r llwch—beth na wnai—  
Oni farwai dros eu hedifeirwch ?

Anadlai ar genedloedd—yn gynhes  
Fel gwanwyn ar ffrithoedd ;  
Dywedent mai duw ydoedd—gan mor ddwys  
Ei wych, uthradwy serch-weithredoedd.

Carai'i enwog gyd-weinidogion  
Heb eiddigedd, olwedd gwehilion ; 510  
Rhag y brad sy'n rhwygo bron—byth-wyliai,  
Da ymogelai ei dwym galon :  
Yn eu llwydd yr oedd yn llon,—a'i rudd lwyd  
Yn wlyb welwyd am eu helbulon.

Wylo wnai gyda phobl Naf,  
Wylo gyda'r iselaf ;  
A'i afael am bawb hefyd,  
Heb air bach am neb o'r byd ;  
Diliau ei serch, beth dâl sôn,  
Hael weiniau i'w elynion ; 520  
'Rhwn fu'n uchel, isel yw,  
Gwir sawdiwr i'r groes ydyw,  
Câr y saint mewn cywir serch,  
Trostynt mae'n teimlo traserch,  
Ynteu a wir garent hwy—  
Yr ydoedd mor garadwy.

I'w odidog gariad-adail,—ar graig  
Na fedrai grym ddadfail,  
E dorais ef bedair sail,—a'r ffyddlon  
Iesu yn wron sy'n eu harail. 530

Y mae'r gorau sciliau sad  
 I'w ragorol fawr gariad—  
 Yn yml hwn er tra amlhau  
 Yni dyrus flinderau,  
 Dyhudda mewn *dioddef*,  
 A sa'n wych dros ei onw ef:—  
 Yma hoewed amheuon  
 I guraw a briwiaw bron,  
 Nis gallant er coethiant caeth  
 Guro dân ei *grediniaeth*:—  
 Er gwyrngam rawd pengamrwydd,  
 A'r cas am luddias ei lwydd,  
 Ac Israel anhael unwedd  
 Yn gwrthod yr hynod hedd,  
 Yn dwym ei waed y mae o  
 Yn eu bath yn *gobeithio*:—  
 Trwy'r wlad os try erlidwyr  
 Aml o nerth a milain wŷr  
 Er eu ffwyr ni ddaw i'r ffos,  
 Mewn mawredd mac'n *ymaros*.

540

550

Fe glyw FFYDD lef dydd olaf daith—ei hun

A'i hanwyl chwaer GOBAITH;  
 Ni wel CARIAD gyriad gwaith,  
 Ac mae *pa'm* nas cwmp ymaith.

O'r swynol tri gras yna,—rai siriol,

Pob gras arall dardda;  
 Pob un oll fel pe bai'n ha'  
 Yn muchedd PAUL ymwycha.

Ys talach nâ'r apostolion—ereill

Yw'n harwr o ddigon;  
 Ni welir gan angylion  
 Ail y sant yn eglwys Iox.

560

Yn ei deithiau bendithiol,—ei ystig  
 Orchestion cenadol,

A'r holl fawrwaith llafuriol—dros ei Naf,  
Efe sy'n benaf, was annibynol.

Coll R

Mawr enw Iesu mewn amryw ynisoedd,  
A'i iachawdwriaeth drwy orwych diroedd  
Bregethai, nawsai anwar ddinasoedd  
A'i etholedig a'i goeth oludoedd, 570  
Ni laeswyd hwn gan lysoedd—cynddeiriog—  
Gwynebai'r un enwog gwyn breninoedd.

Hynodol wron, ei hyawdl eiriau,  
A'i eneidawl deg amddiffyniadau  
Oll gyrhaeddent, lynnent yn nghalonau  
Yr uchel swyddwyr a'r wychol seddau;  
Ffelix, wr anllad, i ddychryniadau  
A ddewr symudodd â'i resymyadau;  
I'r pwynt ennillodd Agrippa yntau  
Fewn ychydig â'i hyf annerchiadau; 580  
Ffestus a'i falchder a'i wyllt dymherau  
A wfreiddiodd gyda'i hynaws froddau;—  
Er eu siom ffug-resymau—ni thicient,  
Ac er y ceisient, ni thiciai'r cwysau;  
Maeddodd, mewn llawer moddau,—elynion  
Ei frwd helyntion â'i fawr dalentau.

Coll

I wŷr Athen arcithiodd—gyda grym,  
“Llygad Groeg” a swynodd;  
Er doethion dyfnion nid ofnodd—rhagddynt  
Yn wresog iddynt trefn gras gyhoeddodd. 590

Y Duw hwnw nad adwaenent—hoeddodd  
Yn addas o'i dalent;  
Mor ddistaw y gwrandaewent—yr awrhon,  
Ar ei newyddion, er yr hyn wyddent.

Gras ac anian yn eu holl sylfanau  
Da agorodd ar ychydig eiriau,

Pob gair, er hyny, sy'n em o'r gemau,  
 O ba rai gweithid ei holl bregethau ;  
 Er ei chlod, ei gwybodau,—a'i hawen,  
 Ni bu Athen yn sw'n y fath bethau.

600

'Rydoedd yn brif siaradwr—ac hefyd  
 Yn ogyfuch awdwr ;  
 A fu un ysgrifenydd,  
 Yn ei gylch, cyfuch a'n gŵr ?

Gwleddoedd fel rhyw fwngloddiau—diwaelod  
 A hulia'i lythyrau ;  
 O hyd ac o hyd parhau—wna helaeth  
 A difau doraeth eu dyfnderau.

Holl graffder a dyfnder dysg  
 Y meddwl llym a hyddysg,  
 I'r uchelion er chwiliaw  
 Yn ei drefn ni wel ben draw ;  
 I'r goleu rhyw ddirgelion,  
 Rhyw fyth werth yn arfaeth Ion,  
 Nefol adnewyddol wedd  
 Ar yr Iawn mawr a'i rinwedd  
 Ganfyddir mewn gwyn foddau,  
 Oll yn hwn i'n llawenhau ;  
 Fflachiant, tywynant mal tân,  
 Neu mal sêr am haul seirian :—  
 Ser-eiriau yn dadau dydd  
 Fel o'i bin dafia beunydd.

610

620

Un dŷn yn sŷnu doniau—yr oesoedd  
 A'i rasol lythyrau,  
 Ydyw hwn, mae gwedi hau  
 Y byd â'i nef-wybodau.

Hyn oll hefyd mewn llafur,—a bawlyd  
 Helbulon difesur



A wnaeth, bu yn gaeth dân gur,  
Eisiau a mawr anngghysur.

630

Y gwron a fynych gurwyd,—a'i gorff  
Mewn dwys gur labyddiwyd :  
Yn agos ni fynegwyd—y gwarthau  
Na'r holl loesau arno arllwyswyd.

Ei eiriau fel carcharor  
Yn rhuthriad, yn merwad môr,  
Y gloyw sant, ddangosant ddŷn  
O uwchraddol wych wreiddyn.

A'r llachar fel yn aros—syn-wyliai  
Swynolion y cyfnos ;  
A'u pur nwy holl lampau'r nos  
Oedd i wingawl ymddangos.

640

Hyn ni ddaw, gwna'r nèn ddüo,—y mae'r haul  
I'r môr-wely'n brysio,  
Yn dewach tewach â tô  
Y morwynoedd mawr heno.

O dywyllwch naid allan  
Rydd sarffog adeiniog dân—  
Mae'r nef lwg â mawr iawn floedd  
Yn bwrw tân-wiberoedd,  
Aruthrol mal syrthiol sêr  
O'r nefoedd ydyw'r nifer,  
Gyda gwefrawl siawl sain  
Nis peidiant ddiaspedain ;  
Cnulfa sydd uwch Canolfor,  
A llu'r mellt sy'n lliwiaw'r môr :—  
Lliw tân oll yw tônau hwn,—ail yw o  
A'i draethau heno i drothwy annwn.

650

Agor ac ysgyrnygu—wna y môr,  
A marwol ewynu ;

Mae colloedd dyfnderoedd du  
Am danynt yn ymdynu.

Môr dawel drwy'r mawr dywydd—y mae PAUL  
Tra mae pawb mewn awydd;  
Ar y lle fe yw'r llywydd,  
A'i lais ef yn wrol sydd.

Eiddo Duw ydoedd y dŷn,—Duw y mellt,  
Duw y môr trochionwyn;  
Gyred ei donau gorwyn—mal fyno,  
Iach ne' iddo sydd uwch anoddyn. 670

Ei ciriau a'i dynnerwch—arcilus  
Siriolai'r tywyllwch;  
Mae ei waith drwy'r hirdaith hon  
Yn goron i'w ddyngarwch.

Arweiniodd hwynt oll i'r union—gilfach  
Drwy'r ddig elfen greulon;  
Ni cha'dd dŵ'r na chwydd y don  
I'w dannedd *uu* o'r dynion.

Hynawsion fu'r ynyswyr—i'r llwydion  
Longddrylliedig forwyr; 680  
Mynwesol gymwynaswyr  
Yn fyw i'w gwaith fu y gwŷr.

Tâliad canpwyth gawsant hwythau—drachefn,  
Dyrchafwyd eu breintiau,  
Niweidiol haint a nodau  
Yrodd PAUL i ffwrdd o'u pau.

Yn y llanerch hon llonydd—a gaffai,  
Ac hoffus barch beunydd;  
Urddas fel cymwynasydd  
I BAUL ro'id ar barabl rhydd.

Er hyny a'u tirionwch—am Rufain  
 Ymrwyfai mewn tristwch ;  
 Rho'i llaw wnai i'w chael o'r llwch,  
 Hyd i gyrau brawdgarwch.

Er ei hedd o'r diwedd daeth  
 Haf-adeg yr ymfudiaeth ;  
 Y wawr dlôs yn agos oedd,  
 Cànedig o wÿn ydoedd ;  
 Mirain ei dull, morwyn dydd—

Duwies planed ysblenydd ;  
 Y mae cadr baladr yn ben  
 I'w heulawg deyrnwialen,—  
 A'i choron, fanon fwynawl,  
 Ydyw seron wèn o wawl,—  
 Llèn borphor sy i'w gorsedd,  
 A rhidens aur dàn ei sedd.

Moliannu ei melynaur,  
 A gwylltio wrth eu gwallt aur,  
 A'i harddwch, wna beirdd urddawl,  
 Genades gynnes y gwawl.

700

710

Gwenau pur a gwyneb hon—yn ei hynt

Lawenha borthorion  
 Drws y dydd, draw, draw dros dòn—dyrchafa'r  
 Haul i'w wanar ar ei olwynion.

O'r ynys yn aur-wenau—yr heulwen

Yr hwyliodd ben borau ;  
 Arwyddion oedd ar ruddiau—fod galaeth  
 A mawr hiraeth am ŵr o'i eiriau.

Wedi dyddiau o deithiau bendithiol  
 Efe wnai gyrhaedd hyd Rufain gaerol ;  
 Er mawrhydri'r porphor amherodrol,  
 Fyny â'i arwydd bu ef yn wrol—

720

Gwaed y groes gyda grasol—wasanaeth  
Argoethai ei araeth bregethwrol.

Nid ofnai feib dwfn y fall—  
Nero nac undyn arall.

Am elyniaeth y mileiniaf—oedd hwn,  
Flaidd hallt o'r rhyw gwaethaf ;  
Archollai yn erchyllaf,—hwn a'i fâr  
O'r deuddeg Cæsar ydoedd y casaf.

730

Er Iuddewon a gorfawr audduwiaeth  
Henoosedig y brif ddinas odiaeth ;  
At ei nheges yr âi Cristionogaeth—  
Teg weis a unent at ei gwasanaeth ;  
Hyfion wŷr o Rufain aeth,—oll o'i phlaid,  
A llu o'i deiliaid i aml bell dalaeth.

Oni ollyngwyd yn un â'i llengoedd  
Air iachawdwriaeth hyd lenyrch-diroedd,  
Drysau fwriai yn agor dros foroedd  
At genedlaethau, llwythau pell ieithoedd :  
Onid awr hynod oedd—i Grist'nogaeth—  
A choeth awr odiaeth goruwch-weithredoedd.

740

Fel yna PAUL fu'n flaenor,—yn Rhufain,  
I arwain pob goror,  
Trwy ffydd, o fynydd hyd fôr,  
O dir eisiau at drysor.

O ein tad, canolbwynt oedd,—arweiniwr  
I wanaidd Genedloedd :  
A thadmaeth odiaeth ydoedd—i noddi  
Yr hen eglwysi sydd 'nawr yn glasoedd.

750

Rhifwn ein harwr hefyd  
Yn ben apostol ein hyd ;

Ai â'r hyfedr Bedr, neu bwy,  
Hynodol mae'n rhanadwy ?

Ei ryfodd daith o Rufain—drwy ocsocdd  
Sy'n dyrysu'r cywrain ;  
Fu o'n deithydd cymydd cain  
Ein brodir, y wèn Brydain ?

Adwaenai rif o'n dynion,—yn Rhufain,  
Rhai hefyd o'ent fawrion ; 760  
E allent wneud crybwyllion,— rhyw nos Sul,  
Am ein helbul yma yn Albion.

Hwyrach mai drwy rhyw ciriau—cfelly,  
Yn nghyfeillach seintiau,  
Y daeth i wlad cin tadau,—er cin maeth,  
A'i doeth araeth, y fendith orau.

Ffyrdd Duw i hyfforddi dŷn,—allan oll  
Ni all neb eu dilyn ;  
Helaethach, llawnach nâ llinyn—pellfawr  
Ei rawdiau dirfawr a diderfyn. 770

T'lawd estron, er ei dŷnion gadwynau,  
O auaddoliaeth ryddha feddyliau :  
Ofni'i dalent mac Rhufain a'i delwau,  
Ei urdd a deimlir yn ei heirdd demlau ;  
Synwyrol sw'n ei eiriau—a glywant,  
Lawr y deuant—dymchwelir ei duwiau.

Ei addysg i'r llys gyrhaeddodd—amhuredd  
Ei gymmeriad olchodd ;  
Ugeiniau o'u drygau drôdd,  
A rhyw lawer oleuodd. 780

Nerth y sant oddiwrth y sedd  
Arweiniai fun at rinwedd,

I dduwiol ffyrdd o'i helw ffôl  
Adennillwyd hi'n hollol.

Yn annhriaw'n âi Nero,—dylanwai  
Du clyniaeth drwyddo ;  
Ein PAUL fawr 'nawr drwy ei nwyd  
A roddwyd i'w lofruddio.

Rhodiai mal amherawdwr  
A'i ddewr gam at gleddau'r gŵr ;  
Ei waed bob dafn ga llafn llôg  
Gorfiniog y Rhufeiniwr.

790

Angylion gwynion ugeiniau—wylient  
Ei olaf fynyddau ;  
Aeth i'r nen tân lawenhau,  
O'r byd yn eu cerbydau.

Y goron môr fawr garodd,—am yr hon  
Môr enwog ymdrechodd,  
Wedi'r gofid hir, gafodd—yn Nhganaan,  
Y "Cywir" ei hunan a'i coronodd.

800

Er hyny mae'n arweinydd  
Dàn ei Dduw hyd hyn o ddydd.

Saif ei ddilyth rymus feddyliau  
A'i amledawl nerthol deimladau,  
Fel ei araeth a'i ddwyfol eiriau,  
Yn holl urddas addas ddelweddau,  
Yn lyfnion golofnau—o fawredd  
Diail rwysedd tra dalio'r ocsau.

JULIUS.

AWDL

AR

SANT PAUL:

GAN NICANDER.

---

TESTYN Y GADAIR YN EISTEDDFOD ABERYSWYTH, 1865

---

TREMADOG :

CYHOEDDEDIG AC ARGRAFFEDIG GAN ROBERT ISAAC JONES.

1865.

Digitized by Google





## AT Y CYMRY.

FY SERCHOG GYDWLADWYR,—Anfonais yr Awdl hon, dan yr enw *Crescens*, i'r ymgystadleuaeth am Gadair Eisteddfod Aberystwyth, yr hon a gynhaliwyd y flwyddyn bresennol. Er darfod ei barnu YN OREU O'R SAITH AWDL ag oedd yn cydymgystadlu â hi, etto attaliwyd y Gadair oddi wrth yr Awdwr, ar y dyfarniad nad oedd hi ddim yn deilwng o honi.

Wrth i mi ystyried safon rhagoroldeb Awdlau Cadeiriol yn gyffredin, megis, er esiampl, yr Awdl fuddugol yn Eisteddfod Beaumaris ar y *Rothsay Castle*, a rhai Awdlau y barnodd awdwr yr Awdl honno hwynt yn deilwng o'r Gadair amryw weithiau ar ol hynny; ni's gallaf lai na meddwl fod yr Awdl ganlynol, o ran cyrhaeddiad uchelder y safon hwnnw, yn haeddiannol o Gadair Aberystwyth.

O leiaf, dyma fi yn ostyngedig yn gosod yr Awdl ger eich bronnau chwi. Bernwch hi drosoch eich hunain. Mae gennyf hollol ymddiried yn eich galluoedd a'ch tegwch beirniadol, gannoedd o honoch ag sy'n Feirdd a Llenorion.

Argraphwyd yr Awdl o'r copi a yrrwyd i'r Beirniaid: mae'r ychydig gyfnewidiadau a wnaed ynddi wedi cael eu nodi ar waelod y ddalen. Newidiwyd yr orgraph hefyd.

Ydwyf,

Fy nghydwladwyr mwynion,

Yr eiddoch yn gywiraf,

NICANDER.

*Llanrhyddlad, Mon, Hydref 12, 1865.*



# SANT PAUL.

---

## Y RHAN GYNTAF.

Rhagymadrodd. Tellyngdod y testyn rhagor amryw o destynau arwrol eraill.

GWNAED eraill gân a dyri,  
Pêr gerdd, hyfrydgerdd o fri,  
Eurwawr gain arwr-ganjad,  
Awdl fwyn, ehediadol, fad,  
Neu Gywydd enwog Awen,  
Dianaf waith dawn nef wên,  
I frenhinoedd oedd eiddym,  
Rhyfelwyr, arwyr o rym,—  
Ein Harthur gryf, ddewrgryf ddyn,  
Neu well hawl ein Llywelyn ;—  
I athronwyr uthr anian ;—  
I goeth feistradoedd y Gân ;—  
I gelfwyr, gwŷr o gywraint  
Fedrusder, o brifder braint ;—

Digitized by Google

I haeddiannol wyddonwŷr,  
 Arbennig ddysgedig wŷr ;—  
 Canaf fi, (ac na feier,)  
 Apostol iawn-urddol Ner.

Mawrion fu gweision gwawr—bore crefydd,  
 Bu rai cryfion, tramawr,  
 Aur dorf o weithwŷr dirfawr ;—  
 Dau mwy y Ciliciad mawr.

I swydd y gwaith, Cephas oedd gawr ;—am waith,  
 Matthew, Luc, oedd haeddfawr ;  
 Anorfod Ioan erfawr ;—  
 Dau mwy y Ciliciad mawr.



## YR ALL RAN.

Paul yn Iuddew o genedl, ac yn Rhufeiniad o fraint. Mae yn ysgol Tarsus yn dysgu Groeg, yr hyn a'i cyfaddasai i gyflawni ei waith fel Efangylwr. Ar ol gadael yr ysgol, mae'n dysgu crefft gwneuthuriad pebyll.

Yn ninas nid anenwog—Tarsus hen  
 Ganwyd e'n blygeiniog :  
 Trwy'r byd treuliodd yn foddio  
 Ei ddydd dros Grefydd y Grog.

Fe anwyd yn Rhufeiniwr,  
 (Hawl gu,) yn freiniol, y gwr ;

Rhifwyd e' i ddinas Rhufain  
 Trwy urddasawl friawl fraint ;  
 Braint Augustus wefus wâr,—lyw breintiol,  
 A braint Drusus \* wladgar,  
 Addwyn wr, ac urdd Nero 'i gâr,\*  
 Urdd Cassius, a'r eiddo Cesar.\*

Oedd o lwyth Iuddew o lin,—ac o hil  
 Gwehelyth Ben-Iamin,  
 O enw a gradd enwog rin—llinachol,  
 Oesol† a breiniol Saul y brenhin.

Accw yn ieuange o nawoed  
 (Waith gwych) hyd yn bymtheg oed,  
 Ys gwelwn e'n ysgolawr  
 O fewn yr ysgolfa fawr.

Saul bach yn isel y bu,—(dir ei fod,)  
 Ar y fainge yn dysgu,  
 A dyfnion 'sgolheigion lu,  
 Hyf iawn, yn uwch i fynu.

---

\* Yr oedd amryw gadfridogion enwog o'r enwau Drusus a Nero tu ag amser Augustus, ac yn geraint iddo. Cesar oedd enw cyffredin y tywysogion ymerodrol cyn esgyn yr orsedd.

† Ymddengys fod dynion llwyth Benjamin yn falch o'r enw Saul, er mwyn y brenhin cyntaf o'r enw ar Israel; a'i fod yn cael ei arferyd, o ran anrhydedd, o oes i oes.

Eithr o dan ei athraw dysg,  
 Chwe rhwyddach ei wir addysg  
 Efe 'n wych a yfai na  
 Ther rif yr holl Athrofa.  
 Hy athrylith oreulawn  
 Ei feddwl, a'i ddigwl ddawn,  
 Ei gyflymder hyderus,  
 A'i ddewr wêch dymmer ddi-rus,  
 A ddyrchent yn ardderchawl  
 Y bachgen hylen ei hawl  
 O radd i uwch gradd'mewn addysg,  
 Maenclo dawn, hyd ym mhinacl dysg.

Gwiriwn mai dewr oedd a gwrol—ein Pawl,—  
 Napôleon ei ysgol ;\*  
 Am gamp, heb fod i un wyneb yn ol ;  
 A diau am wir yn anghydmorol.

Ef y Roeg a brif fawrygai,  
 Blaena' ddisgybl, hon a ddysgai ;  
 Ei gwers hygar a'i gwresogai ;  
 I fewn ei goludog fwnai,  
 (Ei dasg anwyl,) y disgynai ;  
 Ei thegwch a gyfoethogai

---

\* Cyfeiriad at yr hyn a ddywed hanesyddion am Napoleon Bonaparte pan yn fachgen yn yr ysgol, ei fod yn bennaeth, oblegid ei dalent a'i athrylith, ar yr holl blant ynddi.

Ei fryd, pan ei hefrydai ;—a chadwen  
 Hoen coeth ei Hawen a'i caethiwai ;  
 Wrth hon yn dwym ymrwymai—yn llawen ;  
 Ei dawn â dolen yn dŷn a'i daliai.

Ysgogion yr Ion a'i ras—oedd hyn oll,

I'w ddwyn ef yn addas

Roeg bregethwr, gweithiwr a gwas

O gadernid i'w gu deyrnas.

Darparai Duw Ior Peryf  
 Y bachgen hylen a hyf  
 Yn was addas, iawn swyddog  
 I Grist a theyrnas ei Grog,  
 I ddal, i gynnal ar g'oedd,  
 Cynnadliad â'r Cenhedloedd,  
 A gwir agor i'r Groegiaid  
 Mewn llith athrylith, wrth raid,  
 Efangel uchel iechyd  
 Duw a'i ras bân\* dros y byd,  
 Yn gryf, ac i gyssegrhâu  
 Talent ei Epistolau  
 I sanctaidd adeiladu  
 Ar sail y ffydd, geinffydd gu,  
 â gras, yr Eglwysi Gryw,†  
 (Ced haeddol !) ac hyd heddyw

\* Ban, goruchel.

† Gryw, Groeg.

I ddenu daear-ddynion  
Yn ufudd, i nefoedd Ion.

Etto, o'i febyd, at feibion—yr Israel,  
Eres-rif sancteidd-fron,  
Coelir, y curai calon  
A dyfnaf fryd ei fwyn fron.

Nid oedd Athen hen honno,—gaer seiliog,  
Wrth Gôr Salem iddo  
Un dim ; ei holl enaid o,—mewn iolwch  
Carai wiw degwch Caer Duw Iago.

Nid eilfydd i Dafydd dêr,—a'i gân ddofn,  
Ganddo ef oedd Homer,  
Na dyri y bardd Pindar bêr,  
Mewn undim,—na Menander.\*

Ond ar ol ysgol esgud  
Ethol y dref, a'i thâl drud,  
Dysgu a wnai dasg yn awr  
Flinach, dan arall flaenawr ;  
Gwaith llaw iach, (salach y swydd,)  
Ac osgo braich ac ysgwydd :

---

\* Hyspys yw i'r darlennydd mai beirdd Groeg enwog oedd Homer, Pindar, a Menander. Allan o waith Menander y difynodd yr Apostol y llinell yn 1 Cor. 15. 33, sef, "Y mae ymddiddanion drwg yn llygru moesau da."



'Gweithiai 'n awr yn gaeth i'w nod,  
 A lluniai bebyll hynod ;  
 Llunio llen ar drostenni,  
 Ei gwnïaw a'i hemïaw hi.

Ei fwyll a'i ebillion,—o lafur,  
 A'i lif a'i forthwylion  
 At urdd ei grefft, a'i ordd gron,  
 Pylent wrth drin y polion.

Wrth fad gortyniad y tai—llieiniog,  
 A'u llunio 'n lluestai,  
 a chywrain firain ddi-fai—gelfyddyd,  
 A llaw wir ddiwyd, llawer weddiïai ;  
 Lle y Gafell a gofïai ;—caneuon  
 A Salmau gwynion Salem a ganai.

Gall dd'od y diwrnod arno,  
 Er ei ddysg eryraidd o,  
 Pan fydd elw'r grefftwriaeth  
 Yn well modd i ennill maeth  
 Fo gynhilaf gynhaliaeth—i'w dlawd ran  
 Næg oes gwawl eirian gwiw ysgoloriaeth.

## Y DRYDEDD RAN.

**Mae'n** myned i Jerusalem. Gamaliel yn ei gyfarfod yn y deml ; yn ei gynghori i fod yn Pharisead, ac i ochelyd Saduceaeth a Christianogaeth ; ac yn ei annog yn erbyn Stephan. **Mae'n** llwyddo i'w wenwyno âg yspryd erledigaeth.

Llawn o ddysg, yn llon 'e ddaeth,

A lludded pabellyddiaeth,

I breswyllo bro Salem ;—

Rhwydd ei dro y rhoddai drem

Ar y ddinas balaswch,

A mad edrychiad ei drych ;—

Antonia !\* mawr yn awr ei nod ;

Wele seirian balas Herod !

Ac wele Deml Celi a'i Dŷ,

Wych fan, yn uwch i fyny,†

Teml gywrain ei firain fawl :

Mawr ei muriau marmorawl.

Yn Nheml gain mawl y Gwiwner,

Dan nawdd addoliad y Ner,

Saul, â dwys wedd, ei weddi

Ddwyreai ar ei Dduw Ri.—

Gwelwyd ef o gil y dorf

Yn Nhŷ 'r Tad gan henwr tîrf,

Culwys feistr, ac o laes farf,

A phen o urddasawl ffurf.

\* Antonia oedd enw castell a adeiladesid yn gyfagos i'r Deml.

† Fynu oedd yn y copi, trwy wall y pin.

Ar ol diwedd ei weddi,  
 “ Y mau fab, gyd â myfi  
 Taria, ac i'm tŷ tyred ;  
 Yn ddi-gryn rho ynddwy' gred,”  
 Eb wrtho : “ mi a borthaf  
 Dy enau â huliau haf ;  
 A'rh feddwl, eithaf foddion  
 Goreu ryw, â geiriau 'r Ion :  
 Uchel yn null uwchlaw neb  
 Yw daioni dy wyneb ;  
 I'th bryd a'th wedd hyfryd hon  
 Y daw golwg dy galon :  
 Wyf mewn pwyll,—gwn na'm twylli  
 ag wyneb fel d' wyneb di :  
 Gwersiglau yn neddfau Naf  
 A gwir addysg a roddaf.  
 Tyred, y gwr, tyr'd a gwel ;  
 Mi a elwir Gamaliel.”—  
 “ Mi glywais deg lais dy glod,  
 A gwarthus fyddai gwrthod,”  
 Ebr Saul, heb ry iselu  
 Ei ben myg, “ y cynnyg cu ;  
 Byddaf i ti, Rabbi 'r Ion,  
 Yn gwbl un o'th ddisgyblion :  
 Ond gweithiaf, ni byddaf bwys,  
 I wneud cam,—ac nid cymmwys,—  
 â haelder dy dymmer di  
 O lwys iawn eluseni ;

Fy lluniaeth, doraeth di-dawl,  
 Fi ennillaf yn hollawl :  
 • Am d' addysg braf ddihafal  
 Nid dichon digon o dâl.—

Saul wy' o Asia leiaf ;  
 Ym mhlith plant Tarsus mae 'mhlwyf ;  
 Gwiw fuddiol ddysg a feddaf ;  
 A llangc o saer pebyll wyf.”—

A mel wefus Gamaliel  
 Attebodd, sylwodd mewn zel,  
 “ Daeth dy glod, hynod ei henwi,—o'th flaen,  
 A't'n ddfifino aspri,  
 A'th lèn, a'th dduwiol yni ;  
 Iaith deg dy ganmoliaeth di  
 Dawnsio a wnaeth i'n dinas ni,—(nid mud,)  
 Eurdon ac esgud, ar wadnau gwisgi.  
 Ond gochel, yn dy gychwyn,—  
 Gwylia dy ddal,—gael dy ddwyn  
 I blith Herodianaidd blaid,  
 Nac euog Saduceaid  
 Didduw ; poed i Dduw dy ddal  
 At ei nod dianwadal  
 Yn bur, a'th does heb ei suraw  
 Gan y rhai 'n na'u lefain,\* a'i law.

---

\* Edrychwch ac ymogelwch rhag *surdoes* y Phariseaid a'r Saduceaid. Mat. 16. 6.

Heb lysu mwy, bo blas mad  
 A sawyr Pharisead,  
 Sawyr mwyn seremoni  
 Aaron y tad, arnat ti ;  
 Gwirfodd dasg dy grefydd di,—a natur  
 Fwya' dy lafur, fo detod Lefi,  
 A thraddodiad y tadau  
 I gyd oll gwedi ei wau  
 Trwy ystof greudf ein deddfau—yn rhyfedd  
 Fiwail gyfrodedd, fel gwef aur edau.  
 Mae un Stephan yn taniau  
 (I gebustr dinystr y daw,)  
 Dynion diddysg ein dinas  
 â rhyw ffoledd cabledd cas,  
 Drwy y dwêd mai mwrddro du—dideimlad,  
 â llaw ddirusiad, oedd lladd yr Iesu ;  
 A gwelir e' 'n bygylu—barn anfad,  
 Ryferthwy irad, oer, o'i\* ferthyru.  
 Rhaid, (heb feth,) yw ei orlethu,—(mor sier  
 Mae'r sect yn ymdaenu,)  
 Rhag anrhaith y gyfraith gu,—a rhag son  
 I'n Gwyliau uchelion gael eu chwalu."—  
 Fel y gw lith, irwlith oerlwys,  
 Irwlaw gw lith yn berlau glwys,

---

\* *Er ei oedd yn y copi.*

Ar faes rŷch sych o syched,  
 Gwyw yn nhŵf eginau had,  
 Egindardd yn eu gwendid,  
 O agwedd lofr a gwedd lwyd,  
 Yn glaf o eisiau cafod  
 O nodd awyr yn ddiawd ;  
 Mal hyn yn sydyn ar Saul,  
 Ir eiriau 'r henwr araul  
 Disgynent, dyferent fyrr  
 Pabaidd i'w yspryd pybyr ;  
 â gwŷd amlwg 'e deimlodd  
 Ei araith fêl wrth ei fodd :—  
 Ail i Bab, yn ei faboed  
 Yn drwch erlidiwr fe a droed ;  
 Hydr\* a dall erlidiwr du,  
 Di-rus erlidiwr Iesu.

---

## Y BEDWAREDD RAN.

Merthyru Stephan. Saul yn cadw dillad y merthyrwyr. Y dis-  
 gleirdeb ag oedd ar wyneb y merthyr yn y Sanhedrim, yn esgyn  
 i'r nef, a'i enaid yntau yn esgyn yno ynddo.

Ar ol barn y collfarniad,  
 Daeth allan y Stephan, tad

---

\* Hydr, hyf. Dr. Pughe.

Erledigion, raslon ri'  
 Môr a thir, a'r Merthyri,  
 Eofn dad, heb ofni dim,  
 Yn hydrus o'r Sanhedrim :—  
 Disglaer ei wedd ef heddyw,  
 Ac fel gwyneb angel byw ;  
 Arddeliad lor oedd wiwlwys,  
 Bu glir ar ei wyneb glwys.

Hyllig dorf y Gynghorfa,  
 Ymwyltiai hon fel mell<sup>h</sup> há'  
 O'i amgylch, o'i ogyrch ef,  
 Digynnwr' was Duw gwiwnef ;  
 Y mil ffyrnig mal ffwrnes,  
 Tynn iawn y deuent yn nes  
 O'r heolydd a rhywle,  
 Gwŷr oer drais o gyrrau 'r dre',  
 Eryrod rif ar y drain,\*  
 A'u golwg am y gelain ;  
 Cynddeiriawg ac anwarawg wŷr ;  
 Lluchiai rhai y llwch i'r awyr :

Eu llefau i'r nen treiddient trwy—oruchel  
 Wybr y nef ufel a'r bryniau fwy-fwy ;  
 Hysient, hwtient, udent hwy,—bwganod,  
 Tyrfa o arthod, du ryferthwy.

---

\* Ar y drain : ymadrodd diarebol yn golygu anesmawythder •  
 ran awydd, awch, disgwyliad, a chyffelyb deimladau.

“ Araf ! ” gwaeddai ’ r Archoffeiriad  
 Yn ddifraw, a’ i ddwy law ar led,  
 “ Aberth yw hwn, talwn e’ i’n tad  
 Abra’m, a Moesen fwyn enaid.—  
 Ust ! digon ! ”—Yna gostegwyd,  
 A dim twrf na chynnwrf ni chaed.—

“ Gwnewch wag fan yn y canol !  
 Clywch yn awr ! ciliwch yn ol ! ”—

Hwy gilient, nesent yn ol ;  
 Ac yna yn y canol,  
 Yn gain yn ei ogoniant,  
 Hyf a syth safai y Sant.—

“ Yn awr doed pob llabyddiwr dig,  
 Mileinig wr, yn mlaen â’ i garreg,  
 Miniog rinwedd maen gerwinawg,  
 Yn ei ddwyllaw aneiddillog :  
 Egnïed i’n gweithred g’oedd,  
 A diosged ei wisgoedd.”—

Ymddiosgent, tafient hwy,  
 Trwy dwf eu digter deufwy  
 Arthaidd, ym mhell oddi wrthynt,  
 Chwerw y gwaith ! i’r llwch a’r gwynt ;  
 A Saul ger llaw yn zelog  
 A weithiai, cludai bob clog



A wasgarai 'r gweis gerwin,  
 Y peisiau, a'r llofrau llin ;  
 Eu plygu, trefnu, a'u trin  
 â phryder anghyffredin,  
 I gadw ei wisg edau wén  
 â pharch, bob un i'w pherchen ;  
 Gan dybied egni diboen  
 A baich y drafferth a'r boen,  
 Annoeth Saul ! yn waith a swydd  
 O dêr wirglod i'r Arglwydd.

Stephan lân a benliniai,  
 Ar y fwyn nef erfyn wnai,  
 Dan ergydiad tafliad dig,  
 Du gûr ! y gawod gerrig :  
 O galon gras, erglŷwn gri  
 Y dyn mwyn dan y meini ;—  
 “ Du haedd y pechod iddyn',  
 Haedd gwaed, na chyfrif, Dduw gwyn ;  
 Derbyn o ruthr dirboen raid,  
 Iesu, f' einioes a f' enaid.”

Ys ei wedd lwyd suddai i lawr,  
 A delwai ar y dulawr ;  
 Naws ei einioes mewn ncs a hunodd ;  
 Angau a'i fentyll tywyll a'i tôdd.

Disgleirdeb y gwyneb gwar  
 Dwyrëai hyd yr awyr ;  
 Crwm oedd, mal coron o aur,  
 Mal garlant o seiriant ser ;  
 A'i enaid ef, ennyd awr,  
 O'i fewn. yn myn'd i'w faenawr,  
 Y ne' ; iach y lle uwch lloer ;  
 Saif ei Frawd a'i Iachawdwr,  
 Haul liw, ar ddeheulaw Ior,  
 I'w gym'ryd i'r gwynfyd gwir,  
 Gorllawen anneddle Ner,  
 Gwlad hedd, heb chwerwedd na chur.



## Y BUMMED RAN.

**Mae'n erlid y Cristionogion, ac yn ceisio ganthynt gablu'r Iesu : eu  
 hattebiad hwythau iddo. Ei droedigaeth ef i'r ffydd.**

Gweithiai Saul yn gaethwas i  
 Ddynion o ffug ddaioni ;  
 Erlidiai, blinai 'r sanct blaid,  
 Yn offeryn offeiriaid ;  
 Ië, dug ffyddloniaid Ion  
 I garcharau gorchwerwon ;

Llusgai wŷr llesg i wared  
 I garchar is daear dud,  
 A gwrageddos i'w gosod  
 Dan gaethder, mewn llymder llid :

Taer addaw iddynt ryddid  
 O'u cloion tynnion a'u tid  
 Yn gwbl, os gwnaen' hwy gablu  
 Eu Crist mad, eu Ceidwad cu,

Dywedent, atebent hwy,  
 â gwiw nerth o gynnorthwy  
 Gras y nef dan groes a nych,  
 Eu gwrol ateb gorwych:—

“ Llawer gwell yw llwyr golli—ein bywyd,  
 Na beio Mab Celi :  
 Beth os a'r cledd y'n lleddi ?  
 Mae y nef yn eiddom ni !

Henffych, angau !  
 Groesaw, rwyman !  
 Gras sy rymmus ;  
 Canwn weithion  
 Wiw gân iddo 'n  
 Ogoneddus.

Gras a'n ceidw, ni 'n dawr farw,  
 Trydd yn elw trwy ddawn haelwaith

Crist ein Ceidwad : o'r bedd anfad,  
 Dan ei alwad, codwn eilwaith :  
 Ac yn ei nefoedd, ni ganwn bythoedd  
 Emynau filoedd mewn nefoliaith."

Y dydd brwd heddyw heb rus  
 Mae 'i osgo at Damascus ;  
 Mae 'r dydd yn frwd, a brwd bron  
 Wech haul yn yr uchelion :  
 Mae'r awel, dawel dywydd  
 Hin ar dân ar hanner dydd ;  
 Ac yntau 'n chwythu gwyntawg  
 Gelanedd rhysedd er's rhawg :  
 Heb ludd myn efe a'i blaid  
 Waed ym mysg y Damasciaid.

Mae ar fin maesdre' 'r ddinas,—mae 'n llunio,  
 Mynnu llawn alanas.—  
 Deuodd y Grog a'i dydd gras,  
 Euraid awr ! ar y diras.

Daeth i lawr yn awr o'r nef,  
 Araul iawn o'r oleunef,  
 Gain ddisgleirder gwychder gwawl  
 O fawredd anarferawl ;  
 Goleuad Duw, a gwawl tân,  
 Goleuach na gwawl huan,  
 O'i gwmpas ef ;—'e gwymp Saul,  
 Enog un, yn ei ganol,

â dibaid syndod aball,  
Ac ar y ddaear yn ddall.

“Saul, Saul,” ebe seiniol si,  
“Ar led pa ham f’ erlidi?”

“Oli! pa wedd!” ebe Saul, “pwy wyt?  
A dd’wedi pwy, Arglwydd, ydwyf?”—

“Yr Iesu o faith ras wyf fi;  
Aml adeg y’ m hmylidi!  
Caled, (yn awr y coeli,)  
Fyth, a dall yw i’th fath di  
Wingo ’n f’ erbyn, briddyn brau;  
Heb ail yw fy symbylau.”—

“Na fydd, Ion Ddofydd, yn ddig;  
Och! ydwyf frawychedig!  
Beth yn ddilys yw d’ wyllys Di  
A wnelwyf? ydwyf heb oedi  
Yn barod; poed it’ beri,  
Hollol ufuddol wyf fi.”—

“Dos i’th daith; yna’r gwaith gwir  
Yn glaer i ti eglurir;  
Dos, ac fe’i dangosir—yn y ddinas  
Gan Ananias, goreu was geirwir.”

## Y CHWECHED RAN.

Ei fedydd i frawdoliaeth y ffydd. Rhagoriaeth yr enw *Paul* ar yr enw *Saul*. Pwysfawrowgrwydd ei dröedigaeth.

Dychwelwyd, bedyddiwyd ef  
 I ogoned ffydd Gwiwnef.  
 'E bair da rym Ysbryd yr Ior  
 Wych ehangiad pwyll a chyngor  
 Diball, a deall, a dysg,  
 A gwreiddyn cyssegr-addysg,  
 Yngwawl ei efangylu,  
 Drwy eigion ei galon gu.

Hymodol frawd in' ydyw,  
 Brawd o ras i'r brodyr yw :  
 Yn Saul bu,—enw isel bach ;  
 Na Saul pa enwi salach ?  
 Paul yn awr, Paul yw i ni,  
 A Gweinidog i'w nodi :  
 Ail mêl yw enw Paul i mi,—pereiddiaf ;  
 Paul enwir glysaf,—plannwr Eglwysi.

Dygodd ei dröedigaeth,  
 Dost irad siømmiad a saeth  
 Fawr, ac erch friw ac archoll  
 A rhwyg trag'wyddol i'r holl  
 Gethern yn uffern apchwys,  
 Chwaliaid oer du, chwyldro dwys :

Satan yn ei frwmstan fro,  
 Ac Annwn, clywn yn cwyno,  
 Golli berth\* dalent nerthol,  
 Golli swydd a gallu Saul.

Engyl Ior yngwawl eirian—y nef fawr,  
 Annifeiriol gydgan,  
 Miliynau nef moliannu wnan'—mewn cerdd  
 O gân mawl eurgerdd ar ganmil organ.

Ei droad ef trodd hefyd,  
 Trodd yn grwn, begwn y byd; †  
 Echel byd i gyd ar g'oedd,  
 Ei rod a'i chwyldro ydoedd;  
 Yn naear, cyfnod newydd,  
 (O Dduw daeth,) ydoedd y dydd  
 Pan mor gadarn daeth arno,  
 O rad ras, y cyfryw dro;  
 Troai y byd, daear bau,  
 Ynghyd & i holl dynghedau ‡  
 Newid hen oes byd du wnaeth,  
 A swydd ei hanesyddiaeth;  
 Ei nos wnai yn oes newydd,  
 Ei nos ddall yn oes o ddydd.

---

\* Berth, godidog, harddwych. † Y byd: hynny yw, y byd moesol.

‡ Tynghedau, *destinies*.

## Y SEITHFED RAN.

Yr awdwr yn erfyn ar ei Awen, yr hon hyd yn hyn a fanylasai ar hanes Arwr yr Awdl, gydblethu, o hyn hyd ei diwedd, y prif ddigwyddiadau yn unig yn yr hanes ag ydynt yn fwyaf nodweddiadol o'r Apostol.

Ei erlid yn Damascus. Mae'n myned i Arabia, i ymaddfedu i'w swydd weinidogaethol. Elymas y swynwr.

O ardd ei oes, moes, fy mau—Awenig,

Deccaf anwyl flodau

O ros ac effros, i'w gwau

I blith dy ganiad-blethau :

Llawn o hoen yn llawenhâu—y myfyr,

A da fo sawyr dy fwysiau.

Yna efe yn y fan,

O ddawn ei newydd anian,

Cyhoeddi 'r iawn wir a wnai

A ddwys waradwyddasai :

Mor gryf a hyf a hyfedr

Yw modd ei ymadrodd ! medr

Orthrechu pob dadlu dig

A ddaw o safn Iuddewig ;

Profion, mewn accenion cu,

A roes, mai Crist yw 'r Iesu ;

Diffwyth-ddifenwant hwythau

Ddawn y gwr, Iuddewon gau ;

Ei ladd raid :—wele ddi-ras

Ddynion yn gwylio 'r ddinas ;



(Ar eu tu 'r oedd Aretas\*—y brenhin,)

I daeog-lenwi nwyd eu galanas.

A thros warr y mur-bared,

Mur di fath, wyth lath o led,

O'i holl ing fe 'i gollynged—wrth raff chwim,  
â llaw fu wisgi, mewn cawell-faged.

Ac o blith erlidiog bla,

Aeth i ry-boeth Arabia,

Anelwig wlad anialwch,

Tud wael lom tywod o lwch :

Yn lletty hael Ismaeliaid

A'u nawdd y bu yn ddi-baid

Trwy hir ddyddiau tri gauaf,

Trwy hir wythnosau tri haf.

Y seren felen ddi-fai,—oreurog,

Ar yr awr y codai,

Hon o'i nef diflannu wnai,

Oll o'r golwg llwyr-giliai :

Gwedi hyn gwiw-dywynnai ;—a'i lleufer

Yn fwy o lawer o'i nef oleuai.

O'i deithio hir daeth i'w waith

Yn ol i Sion eilwaith :—

Wele 'n awr Efengyl nef

Yn cynneu, o ddysg Gwiwnef,

---

\* Accenir *Aretas* ar y sill cyntaf.

Yn eigion ei galon gu,  
 Gair o ras gwir yr Iesu,  
 Trwy ddysg Ner, heb offeryn  
 O addysg doeth neu ddysg dyn.  
 O'r Arab dud alltudol  
 At waith ei Ner teithia 'n ol,  
 Yn addfed at weinyddfawr  
 Dreigl chwyl\* yr Efengyl fawr,  
 A nerthoedd Ion i wyrthiaw †  
 I Sion lwys, yn ei law.

Mae Paul i Sergius Paulus—y rhaglaw  
 Yn rhugl ac yn rymmus  
 Gan brawf, yn datgan, heb rus,  
 Wir Groes y Prynwr grasus. †

Wrth law yr areithiol wr,—wele, mae  
 Elymas § y swynwr;  
 Megis si tonn mae ei wag 'stwr,  
 I nerth Paul yn wrth-appeliwr.

'E gais wyrdrôl y Sergius a'r dref—oll  
 Oddi wrth allu Gwiwnef,  
 Haedd glân grefydd goleunef,  
 Y ffydd o drefn newydd nef.

---

\* Chwyl, *motion, progress*. † Gwyrthiaw: gwneuthur gwyrthiau.—  
 Ed. Samuel. † *Grasus—grasusol*; yr un modd a *iachus, iachusol*.  
 § Accennir *Elymas* ar y sill gyntaf.

Gwelaf Baul, gloywaf biler  
 Athrawiaeth Crist'nogaeth Ner,  
 Yn sefyll,—sefyll yn syth ;  
 Wele, 'e ddeil ei law ddilyth  
 Tu a'r nen :—mellten, i mi,  
 Saeth o lân syth oleuni,  
 Yn awr naid o'r llygaid llym,  
 Dig glaerliw lygaid clir-lym,  
 Tân o graff felltennawg rym :—a chymmwys  
 Y dig a arllwys o'i lygaid gorllym.

Ail uchel angel yw o,  
 Addurnawl y wedd arno ;  
 Egyr yn glau genau'r gwr,  
 Dyry senniad i'r swynwr :—  
 “ Ai ni pheidi di, daeog  
 Ddirmygydd Crefydd ein Crog,  
 â gwyrdrôï â gair di-rym, ”  
 Gwr dewr y geiriau dirym,  
 Dda ffordd yr Arglwydd a'i ffydd,  
 Cryfion sylfeini 'n crefydd,  
 A gwyro mewn gwrthdro 'n gam,  
 Brad Annwn ! lwybrau dinam  
 Cywir a theg gwir waith Ion,  
 Ei ddaionus ffyrdd union ?  
 Gelyn diglløn daioni  
 A Duw y Tad, ydwyt ti,  
 Twyll-adyr yn erbyn Ner,  
 O naws calon ysgeler ;

Dyn diafel! daw 'n edifar  
 I ti 'n rhawg dy fustlawg fâr ;  
 Llenwir di â dallineb  
 Du nos,—ac ni'th weryd neb ;  
 Wele yn awr law ein Ion,  
 Law ei wg, ar d' olygon."—

Mewn aruthrawl farnawl fodd,  
 Chwai dywyllwch a'i dallodd ;  
 O gylch, ar ogylch yr â,  
 Yn filain ymbalfala  
 Am y drws, pe medrai o,  
 Neu ryw un a'i harweinio,

Mewn braw, y rhaglaw yn rhwydd  
 Dyry wirgloë i'r Arglwydd,  
 A'i gred i Grist Waredydd,  
 Awdwr a Pherffeithiwr ffydd:



## YR WYTHFED RAN.

Ei eiddigedd dros ogoniant Duw. Efe a Barnabas yn Lystra.  
 Iachâu'r efrydd. Y bobl ar fedr aberthu iddynt; y parottoadau  
 at hynny. Paul yn eu ceryddu, ac yn eu cynghori i ddychwelyd  
 at y gwir Dduw.

Rhyfedd ei eiddigedd ef  
 Dros ogoned ras Gwiwnef ;

Gwrthodai, ni fynnai fawl  
Eiddo 'r Naf wir Dduw nefawl.

Gwelwch ef a Barnabas,  
Y gwir Apostol gwiwras,  
Haeddfawr "fab cysur" addfwyn,  
Ac ewythr Marc Athro' mwyn,  
Yn Lystra hen. • Wele 'n wael  
Ynghyffion tost anghaffael,  
Efydd wr, afwyld, araf, •  
Gwan, cloff ei ysgogion claf :  
Mae ei draed ar wyrgam dro,  
Dinerth i 'madferth dano,  
Yn geimion eiddilion ddau,  
A phâr o hyllion fferau ;  
Erch lun ! ar ei fraich a'i law  
Lesged y mae 'n ymlusgaw !\*  
Efe beunydd o'i fabanoed  
Ymlusgodd,—ni rodiodd eriôed.

Astrus ar heol Lystra  
Yn ùdi-nerth eistedd a wna ;  
A Phaul yn awr gerllaw 'r lle,  
Dwys ogoned was Gwiwne',  
I'r llu yn pregethu gwaith  
Gras gwir, mewn gwresog araith,

---

\* Benthyciodd yr Awdwr y darluniad o'r efydd, o'r *Cartoon* gan Raffael.

A chynnyg heddwch enaid  
 Iddyn' heb ludd, a'i Dduw'n blaid,  
 A llawn iachâd cariad cu  
 Drwy ras da air yr Iesu:

Aeth ffydd i'r efrydd ar air  
 Duw a'i ddoniau diddan-air ;  
 'E glywai 'n awr galon uwch,  
 Un arall, calon oruwch,  
 Yn twymno, gwefreiddio 'i fron  
 Geuledig i'w gwaelodion :  
 Toddodd ei fferdod heddyw  
 Yn ddyfroedd aberoedd byw.—  
 Y drych gwelai Paul o draw ;  
 I'w ddirnad, syllodd arnaw ;  
 A gwelai ffydd i gael ffafir  
 Uthr o effaith oreuffafir  
 Nef, a chwim heinif iachâd  
 Mewn da rym, yn ei drempiad :  
 Ar yr eiddil gwaeddai 'n ddilyth,  
 "Y dyn, saf ar dy draed yn syth !"

Y gwan o'i fan i fynu  
 A neidiodd, lammodd i'r llu,  
 Ac o'i amgylch ogylch ai  
 Gan redeg,—yna rhodiai ;  
 Heb graith na nam y dychlammai—yn ystwyth,  
 Heb fwlch o'i hen adwyth, bywfalch y neidiai.

Ni fedrent ond anfeidrol—ryfeddu  
 Trwy fodd llygad-rythol,  
 Dawn y wyrth o gyd-nerthol  
 Bwys ffydd Barnabas a Phaul.

“ Fe ddeuodd o'r nef dduwiau—i'n dinas,  
 Mewn rhith dynol fodau,”  
 Meddent, “ uwch talent delwau,  
 Uwch rhai ŷnt,—Merchur a Iau!”—

A pherodd yr offeiriad—uchelaf  
 Wech wyl o addoliad  
 I'r iawn ddau wr yn ddi-wad,  
 A dydd i'w hanrhydeddiad.

Dygwyd i'r pyrth ebyrth hael  
 Y dref, ar ddiwrnod yr wyl,  
 Ebrannog deirw breiniol  
 Tewion preseb, heb eu hail,  
 Yn zel gref eu hufudd-lef fawl,  
 A'u ffydd yn Barnabas a Phaul.

Heirdd fechgyn ar dywyn dydd,  
 A gwryfon y grefydd,  
 Dyblethent flodau blithion  
 O fri, blodau 'r lili lon  
 Eres wen, o rosynnau  
 Cochion a gwynion, i'w gwau

Ynghyd â dail, gwyrdd-ddail gwiw,  
 Y glwylathr lawryf glasliw,  
 A rhwymiad y c'lymiad clau  
 Yn dynn âg ysnodennau  
 Sidan arial, a phali  
 Modrwyog o frodiog fri,  
 Yn ddifeth goron-blethau  
 Am gyrn teg ifyrn\* y gau  
 A buarthol aberthau ;—godidog  
 Y cynn-gadwynog gorniog eidionau !  
 Mor eres yw rhes y rhai 'n !  
 Y gwych arlantawg ychain !  
 Gorymdaith Sulgwaith mewn sain—telori  
 Mawr mawr aneiri',—mae'r Maer yn arwain !

Tra baent wrth y Lystra byrth,  
 A'u rhaib ar ladd yr ebyrth,  
 Clybu Paul a Barnabas ;—  
 Er torri eu bwriad diras,  
 Rhedent a neidient yn wyllt  
 Yn awr, gan waeddi 'n orwyllt,  
 “ Arheswch ! peidiwch !” medd Paul,  
 “ Addefwch nad ym ddwyfol !

---

\* Ifyrn, rhif llosgog y gair *ifori* fel ansoddair, Mae “tyrau ifyrn” yn Salmau Ed. Prya.



Dynion,—nid rhith,—fel chwithau,  
 O anian dyn, ym ni 'n dau !  
 Nac addolwch goeg ddelwau ;—dychwelwch  
 Heddyw, Oh ! deuwch at Dduw y duwiau !”

## Y NAWFED RAN.

Pobl Lystra yn ymgyfnewid tu ag at Paul, ac yn ei erlid ef. Sylw ar anwadalwch y galon ddynol. Maent yn ei labyddio. Ei daflu yn gorph marw, fel y tybygid, o'r neilldu ar y maes. Galar y disgyblion uwch ei ben : pan y maent yn ei gladdu, mae yn cyfodi ar ei draed yn fyw ac yn iach. Cipio'r Apostol, yn y llewyg hwnno, i'r drydedd nef. Darluniad o'r weledigaeth a gafodd, sef Dinas Duw. (Mae'r darluniad wedi cael ei gymmeryd o Lyfr y Datguddiad, pennod 21.) Yr Awen yn ymattal rhag hyspysu yr hyn a glywodd efe.

Llawn oedd trais digllonedd trwm  
 Yn cynneu yn Iconiwm ;  
 Oddi yno daeth Iuddewon dig  
 O nwydau aflan a dieffig,  
 Yn astrus haid ddinystriol  
 O awydd pur i ladd Paul :  
 Yn Lystra hen, lu astrus,  
 Difenwant, brathant heb rus  
 Yn unllais â dant enllib  
 Mawr frad, (nid am aur o frif,  
 Eithr am waed,) yr Athro mawyn—hyd adref,  
 Abostol Gwiwnes, â bustl eu gwenwyn.

Ennymant, taniant yno—ufel wŷn  
 O fileinig gyffro  
 A dirfawr frad drwy 'r dref a'r fro ;—rhuthrawg  
 Eu gwaedd, a nwydawg, i'w ddieneidid.

Y trigolion, trwy gelwydd  
 Y rhai'n, a ddeuant yn rhwydd  
 I'w hochr hwy ; a chwerwa 'u hedd—diniwaid,  
 Chwerwi wna gan ddiriaid chwyrn gynddaredd.

Nid Duw mad addoladwy  
 Uwch natur,—nid Merchur mwy  
 Ydyw e' 'n awr,—adyn yw,  
 Llwy'r adyn, twyllwr ydyw ;  
 “ Uthr bla 'r oes, a chythryblwr yw,”—meddant,  
 A llwy'r y gwawdiant mai lloerig ydyw ;  
 “ Nid clod in' ei fod yn fyw—d'rawiad amrant ;  
 Oll, i'w ddwyn i'w haeddiant, lladdwn e' heddyw !”

Oh ! anian dyn, wantedd wyt !  
 Gwammal, anwadal ydwyt !  
 Egwan, nwydawg, newidiol,  
 Plentynnaidd, ffaidd, a ffel !  
 Golwg ar dwyll y galen  
 A'i brad, a ferwina 'm bron ;  
 Hyrwydd a hawdd herwydd hon  
 Y gwlawiaf ddagrau gloywon :—

Weithiau yn fêl a'th wên fwyn,  
 Yna 'n noddffustl anaddfwyn !  
 Yn ffiaidd a'r sarphsidd swyn—y'th lygrwyd  
 Dïobaith ydwyd !—bwy a'th edwyn !

Ar air, hwy ar yr heol  
 Baeddant a llabyddiant Baul :  
 Gweddïa, (dim dala dig,)  
 Tra ei curant a'r cerrig.

Swrth o'i le y syrth i lawr  
 Ar ei wyneb eirianwawr :  
 Llawn oll o archollion yw,  
 Briwedig o'u bâr ydyw :  
 Dafnau gwaed fu 'n gawodydd !  
 Wele'r poer a'r chwys oer sydd !  
 Dim crothen gwythen yn gwau,  
 Nac anadl yn y genau !—  
 Llusgir ef fel rhyw gelain,  
 Y gwŷr a'i llusg i gwrr llain  
 Oer, draw, tu allan i'r dref,  
 Y gwaedlyd gorph, & gwawdlef,  
 O barch ei gartref yn bell,  
 I fraenu ar y fronnell !

Ond saif o'i gylch ogyleh ef  
 Yn unllais lu cwynfanllef,  
 Frodyr synn ar derfyn dydd  
 Rhy chwerw,—a rhai chwïorydd,

Ac oll yn wylu 'u colled ;  
 Y dwr hallt o'u llygaid rhed :—  
 "Oh ! beth a wnawn byth, a ni  
 Mewn cwyn o gymmain' cyni,  
 A'n dyddiau, mae'n rhaid addef,  
 O swm ei lais anwyl ef :  
 Ias oer ing heb was yr Ior,  
 Ac ing bod heb ei gyngor :  
 Ys oeddym blant os iddo,  
 Cynnes yn ei fynwes fo ;  
 Eithr oer ym heb Athraw 'r Ion,  
 A gwag, unig, a gweinion :  
 Ond mae Crist, er ein tristryd,  
 Yn awr yn Ben ar ein byd :  
 O doraeth ei law diriawn  
 Rhyw borth yn gymmorth a gawn.

Cloddiwn ei fedd, claddwn fo ;  
 Daliwn rhag gormod wylu :  
 Yn y bedd, y dyfnfedd du,  
 Gorphwysodd gwiw-gorph Iesu.

Y nefoedd wen ! a fydd inni  
 Ei gael yn ol ? a goeliwn ni  
 Syndod y rhyfeddod faith ?  
 Naf foler ! mae 'n fyw eilwaith !  
 Nid oes dadl,—mae 'n anadlu !  
 Pa olwg wech !—ein Paul gu !"—

Deffrões ei einioes anwyl ;  
 Mae 'n llawenháu mewn llawn hwyl  
 O iechyd gwiw heb friwiau,—heb glwyfus  
 Nod y cur aethus,—dim ond y creithiau ;  
 Aniweidiol nodau,—(eiddo Crist ŷnt,)  
 Ar ei gorph ydynt yn argraphiadau  
 Fw glod ;—a rhoddes yn glau,—(gwir-haedlynt,)  
 Anrhydedd iddynt ar hyd ei ddyddiau.\*

Ac yn y llewyg honno,  
 Ys dirfawr, tramawr y tro,  
 Cipio wnaid ei enaid ef  
 I lawenydd goleunef,  
 I drydedd nef y nefoedd ;  
 Ac yma 'rhawg ammeu 'r oedd  
 Ai mewn corph, ai digorph daeth  
 Ar nawf hwyl i'r nef helaeth.

Gorwychawl anfeidrawl fodd  
 Fu 'r olwg fawr a welodd :—  
 Dinas yw 'r drych, wych, heb wall,  
 Bedeirongl y byd arall ;  
 Purliw fŵn perlau-feini  
 Ei deuddeg sail hardd-deg hi :  
 Gemmau mawrion gogymmaint,  
 O wyrthiol anferthol faint ;

---

\* Dwyn yr wyf fi vn fy nghorph noda'r Arglwydd Iesu.—Gal. 6, 17.

Pyrth ogylch o'i hamgylch hi,  
 Ddeuddeg o rif, oedd iddi ;  
 Pyrth heirddlun, bob un yn berl,  
 Cyfunbyrth heirdd cyfanberl ;  
 Ei llawr oedd oll o ruddaur,  
 Meini teg yn balmant aur :  
 Hoen a geid yn hin ei gwawl  
 Pur, o dês Paradwysawl :  
 Nid oes na chroes, na chur haint,  
 Na nos hûn, na naws heraint,

Na chroesiaith, na gweniaith gau,—na chlefyd,  
 Na thraws-ddywedyd, na throreddiadau,  
 Na gwleb rudd, na chystuddiau,—na thrist wedd,  
 Neu ddafn o chwerwedd, o fewn ei chaerau.

Fe welodd yno filoedd o wynion  
 Sereiph yngwawl, ser hoff, angylion,  
 A'u tywyn cannaid, a seintiau ceinion,  
 A rhif tywod môr o delynorion  
 Yn canu eu mwyn accenion ;—O ! 'r happus  
 Gywreiniaf felus Gôr o nefolion !

'E glywodd y Patrieirch gloywon,  
 Aml iawn rif, yn moliannu 'r Ion ;  
 Clywodd eirian ymddiddaniad  
 Mireiniol lu mawrion y wlad,  
 Merthyri a Phrophwydi ffydd,  
 Cewri o rif prif ser crefydd.—

Oedd brawddegau geiriau gwŷr  
 Gwŷr Duw uwch geiriau daear :  
 Grym ydoedd i'w grammadeg  
 Goruwch llafar daear deg ;  
 Iaith wech gref y nef wen oedd,  
 Grammadeg o rym ydoedd ;  
 Gwyddai iaith eu haraith hedd,  
 A deallai ei dullwedd ;  
 Medrai ddeall ymadrawdd  
 Sain tŷn hoff y Seintiau 'n hawdd.

Geirwir yw, gwŷr yr Awen  
 Gywrain fyg, eiriau nef wen :  
 Nid yw rydd dwyn adroddiad  
 Anhafal iaith y nef wlad  
 A'i dawn, i glustiau dynion ;  
 Nid rhydd ; ni chaniattâ 'r Ion :—  
 Chwi ffolion llymion y llwch,  
 Od yw foesol, dyfeisiwch.

---

## Y DDEGFED RAN.

Paul yn Philippi. Y gweddio ar lan yr afon; darluniad o'r !!  
 Sylwedd pregeth yr Apostol yno,—yn cynnwys swm ei athrav  
 iaeth. Tröedigaeth Lydia a cheidwad y carchar.

Gwêl y ddôl o weirglodd las,—le happus,  
 Ger Philippi ddinas,

Dôl gysgodiog, frigog, fras  
 Gan wŷdd yn gweini addas  
 Fangre o gwrddle gwyrddlas—saint Celi ;—  
 Yma caf weddi :—p'le mwy cyfaddas ?

'E lifa tawel afon,  
 Derfyn hir, drwy y fan hon,  
 Dan fwaau o gangau gwŷdd,  
 Rhwng ceinion rengciau onwŷdd.

Yno 'r wyf ar lan yr afon—goediog,  
 Gyd â'r gwragedd ffyddlon ;  
 Yr ŷm yn addoli'r Ion—mewn crefydd  
 Gyd â'n gilydd i gyd o un galon.

Mae Paul yn cyd-addoli  
 Duw y nef ynghŷd a ni ;  
 Ys yw addas ei weddi ;—taerineb  
 Trwy hon sydd yn llosgi ;  
 Taerineb, trwy ei yni,  
 Taer-erfyn a'i hennyn hi :

Ar aden ffydd yr 'heda,—i'w bro sier  
 Heibio 'r ser y teithia ;  
 Yn rhwydd i'r nef cyrhaedda ;  
 Ein Duw Ion ei gwrando wna.

Ac yna'r ŷm yn canu  
 Oroian cerdd i'r Ion cu,



Salm win Dafydd frenhinawi,  
 Salm o fydr Caersalem fawl ;  
 A Phaul ei hun yn unaw  
 Yn fwynllais â llais a llaw,  
 â'r ysbryd purfryd heb ball,—  
 Cywair da,—ac â'r deall.

Gwedi mwyn gyd-emynu—i'n Ion myg,

Yna mae'n pregethu :—

O na fedrwn iawn-fydru  
 Eurgoeth gorph ei bregeth gu !  
 Gwledd o faeth helaeth oedd hon,  
 O'r brasaf :—dyma 'r briwsion :

“ O chwi eres chwïorydd,  
 Diang'soch, ffoisoch drwy ffydd,  
 O faglau'r delwau diles,  
 Sorod eilunod heb les,  
 At Dduw Ion y gwirionedd,  
 Darparwr a Rhoddwr hedd  
 Drwy ammod cymmod y cu \*  
 Fabwysiad, a'i Fab Iesu,  
 A'i Groes, a rhodd y Gras Rhad ;  
 Dilynwch y dylanwad.  
 Trwy foddion taeraf weddi  
 Ar hyd eich oes rhodiwch chwi.

---

\* *Y cymmod, cu* oedd yn y copi, trwy wall y pin.

Rhoi gras am ras mae 'r Iesu,  
 Trwy ddawn rhad y cariad cu ;  
 Mae'n glanhâu, mewn gwiwlon hedd,  
 Heb ddannod, bechod buchedd.  
 Iesu in' rhoes Iawn yr hedd,  
 Gras parod cymmod camwedd ;  
 Iawn o waed i'r Ion ydyw,  
 A boddIawn i'r Iawn Ior yw :  
 Heb lid o'i blegid i'w blant  
 Fe addawodd faddeuant ;  
 Yna trwy faddeuant rhad,  
 Duw ry' gerydd drwy gariad.  
 O cerwch ef a'ch câr chwi,  
 Cerwch heb ball nac oeri ;  
 Cerwch a pherchwch, â ffydd,  
 O galon, Grist a'ch gilydd ;  
 Gan ganlyn, dilyn bob dydd—yn gyflawn  
 Ei fwyn Air uniawn ef yn arweinydd."—

Ar ddamwain yr oedd yma—gu hynaws  
 Wraig a'i henw Lydia,  
 Masnaches o ddynes dda ;  
 Tiriodd o Thyateira.

Pregeth Paul a'r addoli  
 Da hardd, a wrandawai hi ;  
 A'i henaid o'i llygaid yn lli—gwirfodd,  
 A gywir wylodd y dagrau heli:

I'r gair yr Ior agorai—ei chalon,  
 A'i chwllwm dattodai ;  
 Hi yn awr ei dderbyn wnai,  
 Tra siriol y'i trysorai.

Ond yna'n fuan fe aeth  
 Y Gwr, er ei ragoriaeth,  
 I garchar, trwy draha'r dre,  
 Torf unllais tai'r Rhufeinlle.

O dan gloioh cyffion cas  
 Hagr ddu y fangre ddiras,  
 Canu 'n bêr, o gryfder gras,—lwys anthem,  
 Emynau Salem, mae hwn a Silas :

Arddelai 'r Ion 'r addoliad,  
 A noddai 'r mwyn ddau wr mad :  
 Daeth cryndod ar y carchar cau—gan Naf,  
 Hyd yn iselaf wadn ei seiliau ;  
 Llithrai ymaith holl waith rhwymau—pob tid  
 Llaw hoff, a thorrid y llyffetheiriau ;  
 Clywais droad y cloiau—i'w gwrthol,  
 Egr, oer, a durcl,—agorai' r dorau !\*

Gyd â ffrwst o'i gwsg deffrôdd  
 Y ceidwad,—ar ffrwst cododd ;

---

\* *Dorai* oedd yn y copi trwy wall y pin.

Yna fe 'n nwydus i fewn a neidiodd,  
 Chwai am y goleu a chwim y galwodd;  
 Ac yna 'r amlwg olwg 'e welodd;  
 O gladdiad y wain ei gledd 'e dynnodd,  
 Di-ffael, gan dybied y ffodd—pawb allan;  
 I'w wânu ei hunan y'i dadweiniodd.

“ Na wna na cham na niwaid,”  
 Eb Paul, “ it' dy hun, O paid!  
 Yma 'r ŷm ni, (ni ffodd neb,) ”  
 Bawb o honom, bob wyneb.”

Yntau, braw a'i tarawodd,—a'i galon  
 Gul a ymhangodd;  
 Dwys wrth eu traed y syrthiodd;—  
 Duw a'i ras at ras a'i trodd.

“ Beth a wnaaf am obaith Ner  
 I'm codi, fel y'm cadwer?—”

Didrist yn y Crist O cred!”—meddai Paul,  
 “ Madden pwys dy ddyled  
 A wna 'n rhwydd;—yn union rhed—i'w fwyn gôl;  
 O'i law mae 'morol am ymwarded;  
 Yn wir fe 'th gedwir trwy ged—ei Aberth,  
 A gras a gwiwnerth ei Groes ogoned.”—

Dygwyd e' i gadwedigaeth;  
 Credu yn anwylgu wnaeth,

A dyfod i aelodaeth—yr Arglwydd,  
 I fyd ei ddedwydd fedyddiadaeth :  
 Y fo i'w fedyddio daeth,—dan ganu,  
 Fo 'i hun, a'i deulu o fwyn waedoliaeth.

---

## YR UNFED RAN AR DDEG.

Paul yn Athen, yn pregethu Crist yn yr heolydd, ac yn trechu ym-  
 resymiau'r philosophyddion. Gwahanol effeithiau ei bregeth-  
 iadau. Ei ddwyn i Areopagus: swm ei araith yno. Syndod y  
 gwrandawŷr.

Athen fawr o ddirfawr ddysg,  
 Rhyfeddol gartref addysg,  
 Mil henffych i geinwch gŵl  
 D' uthr fywyd athrofaol !  
 Syber ddinas barddoni,  
 Hoff lwys ffaeth\* philosophi;  
 Haelaf haddef† celfyddyd,—  
 Wyt, Athen, yn ben y byd.

Gwyddost eres hanes hir—y delwau  
 Hudolus a gredir ;  
 Ond gwedd yr Un Duw Gwir,—a'i ddwyfol dde lw,  
 Nod “ y Duw ” hwnnw “ nid adwaenir.”

---

\* Ffaeth, diwylliad. † Haddef, cartrefie.

Yn ddoeth uwchlaw ei doethion  
 Gwelaf Paul ar heol hon,  
 Yn dysgu'r segur rai sydd  
 Ynghrafange gaeth anghrefydd,  
 Yn dwyn i gwymp eu dawn gau,  
 A rhoi siom i'w rhesymmau,  
 A thraethu 'r Iesu a'i ras  
 Iawn i ddynion y ddinas,  
 A newydd Grefydd y Groes,  
 A'i rhinwedd yn rhoi einioes,  
 Sef eang ddilys fywyd  
 Oes fythol, i farwol fyd,  
 Trwy angau Croesbren trengol  
 Fab y Nef a fu byw 'n ol.

Osgo a sawr y ddysg a'i swm,  
 A ddyrysodd eu rheswm :  
 Chwerwai ddull un ;—chwarddai y llall  
 Dan herio :—credai un arall ;—  
 Difenwai 'r naill Grist, trist y tro,  
 Yn elyn ;—a'r llall yn wylo :—  
 O gam foes, y naill a gammai fin,—  
 Lle 'r addolai 'r llall ar ei ddeulin.

Ac yna daw 'r gennadwri—i'w ddwyn,  
 Orddoniol was Celi,  
 I'r Mawrth-fryn,—hŷn i'w henwi,  
 Uwch fraint, a gwychach ei fri,

I 'morol rhag camwri,  
Na phob llys ein Hewrob ni.

Ger bron y llys, henllys hardd,  
Lle 'r oedd gwedd bonedd a beirdd,  
Hen brydyddwŷr, campwŷr cerdd,  
Hen bennaethiaid euraid urdd,  
Ac o'r werin fyddin fyrdd  
Yn esgud firain osgordd,

Areithiodd, appeliodd Paul,  
Ar y grisyn, wr grasol,  
â gwaedd llais, ger gŵydd y llu,—a llygad  
A chyhwfaniad ei freichiau i fynu,\*  
Am Ragluniaeth helaeth Ion  
Sy ddaionus i ddynion ;—  
Ac eiddiledd coeg-ddelwau  
Aur neu bres neu arian brau ;  
A rhwym ddedryd y rhai 'n,—a'u condemniad,  
Ebr e', oedd honiad eu beirdd eu hunain ;—  
Am alar gwedd trawsedd trwch,  
Diferion edifeirwch  
Am hynod bechod buchedd,  
I doddi bai cyn dydd bedd ;—  
Am y Farn gadarn gwedi,—llefarodd  
Fel llifeiriant cenlli',

---

\* Benthyciodd yr awdwr y darluniad hwn o'r *Cartoon* gan Raffaele.

Drwyddynt, a 'i ymadroddi,—fel trydan.  
Llais ÷on taran hirllaes yn torri.

Gorsynnai gwŷr y Senedd,  
Newidiai, gwelwai eu gwedd  
Dan ei air ef a dawn ryfedd—ei rwysg,  
A chan areithrwysg ei chain aruthredd.



## Y DDEUDDEGFED RAN.

Paul yn Galatia : ei groesaw yno. Delw-addoliaeth yn gwywo o'i  
faen. Mae efe yn Ephesus : y cynnwrf yno oblegid Diana,  
duwies yr Ephesiaid. Ei ddwyn ef i'r theatr o herwydd y  
cynnwrf, a'i osod yno ar y llawr i ymladd â llew, a'r edrychwyr  
yn llenwi 'r orielau. Paul a'r llew yn cyfarfod â'u gilydd, a'r  
llew yn sydyn yn trei yn ad dfwyn ddiniwaid.\*

O Athen rwysg weithian 'r af  
I leoedd Asia Leiaf  
Ar d' ol, yr Apostol pur,—er mor wanllyd  
A distadl hefyd,—i dystio dy lafur,  
Dwys hygoŷ waith disegur  
Nef wen, heb hamdden na hur.†

---

\* Os yn ol dull dyn yr ymleddais âg anifeiliad yn Ephesus.—1 Cor.  
15, 82. Ac mi a waredwyd o enau y llew.—2 Tim. 4, 17. Barn  
llawer o esponwyr yw fod yr ymladdiad yn ffaith lythyrennol, ac  
nid yn ffigus neu gyffelybiaeth.

† Mae'r ddwy linell hon yn ychwanegiad at y copi.



Ys try at Lystra etto ;—gyrr drwodd  
 I Gaerdroia\* henfro  
 Farddonol :—ar fyr oddi yno  
 I ti, y fras Galatia fro :  
 Bro lân Gymrëig, Geltëig,\* wyt ti,  
 Nawsol hynaws o haelioni :  
 Pe b'ai raid, y tammaid tau  
 Ti a dynnit o d' enau,  
 A'th lygad heb wad o'th ben,  
 O les i'w roi 'n elusen  
 a serchus haelionus law,  
 A da 'r weithred,—i'r Athraw:

Tramwy eisoes trwy Mysia—fe 'i gwelaf,  
 A gwaelod Pamphylia  
 At waith ei Ner teithio wna,  
 A gwyneb Paphlagonia.

Eilun-ddelwau ni ddaliant—yn ei wydd ;  
 Gan ei ofn y crynant ;  
 Llawn ofn, nid sefyll a wnant,  
 Ond o'i flaen y diflannant.

Gan ei air, gynneŷu eirian,—â'n oddaith  
 Drwch anneddau Satan ;

\* Troas.

\* Yr oedd y Galatiaid yn Geltiaid o wlad Gaul, y rhai a ymfudasant  
 yno o'n gwlad eu hunain oesoedd cyn hyn.

Yn ei enau iawn anian  
Gair ein Duw a geir yn dân :

â'n oddaith hen anneddau  
Coeg-ddichlyn y Gelyn gau :  
Hwnt y ffoant i'w ffauau—bob drygddwl  
Uchelgryf feddwl a choel-grefyddau.

'E deifi gastell-dai aflan,—hoff anferth  
Ymddiffynta Satan ;  
Tyrr ef a'i fagnelau taran,  
Chwâl efe 'r mur yn chwilfriw mân.

Rhydd ei orchwyl yn hwylus  
I orphwys ar Ephesus,  
Fel canol-bwynt appwyntiawl  
A doeth i'w ryfel di-dawl,  
Enaid-filwriaeth' einioes,  
Arfawl gryf Ryfel y Groes.

*1 yna—2*

Ephesus fawr a'i dirfawr dyrfa—lawn  
Hunan-les a thraha,  
I anneddfwyr yn noddfa,—dref ddiras,  
Sy addas ddinas y dduwies Ddiana.

Llu o weision llïosog—Diana  
A dynnodd yn foddïog  
O'i dylanwad eilunog,  
Trwy ffydd at Grefydd y Grog :

Y Duw Iesu dewisant,—a deniad  
 Eu Diana gwadant ;  
 Gwarth ei hudiad gwrthodant,—er ei fwyn Ef,  
 A thrwy ffydd y nef ei thra-ffieiddio wnant.

Llyna 'u gwŷr llen a'u gwerin—gyhuddol  
 Yn tramgwyddo 'n erwin,  
 Annuwiol feddwol fyddin,  
 Drwy gabl eu balchder a'u gwin.—  
 Gwin beilch a ddug wŷn i ben ;  
 Gwŷn a fagodd gynfigen ;  
 Cynfigen a'i helfen hyll  
 Dyrchodd ei hagr-bryd erchyll  
 Yn erbyn Paul, swyddol sant,  
 Yma i'w ladd am ei lwyddiant.

Pw chwareufa mewn chwerw afaeth—dygent  
 Yn daeogaidd ddiffaeth, \*  
 Sydyn a gwyllt, was Duw 'n gaeth,  
 Ddilwfr wedd, i'w lofruddiaeth.—  
 Adeilad gyhoedd : daliai  
 Y neuadd fawr yn ddi-fai  
 Lawer mil o wŷr milain  
 Rhwng caerau ei muriau main,†  
 Ar resi coeth o risiau cain—ar gyleh,  
 Ar resi ogylech o risiau hygain.

\* Diffaeth, uncultivated, barbarian-like.

† Main, meini, o faen.

Arferid, ar wir fawredd  
 Dydd gorchest gloddest a gwledd  
 Diana, gyrchu dynion,  
 Chwerw waith trwch ! i'r theatr\* hon,  
 I'w lladd mewn dygn ymladdau  
 & phob ffyrnig wylltfil ffau  
 A gedwid yn ei gadwyn,  
 Nos a dydd, hyd nes eu dwyn.

Dygwyd e' ger dig y dorf,  
 I lawnder y fileindorf;  
 Ac â thorf orllawn, lawn o lid—difoës,  
 & llu llawn eisoes y lle llanwasid.

Yn y theatr dihatrwyd  
 E' n glau o'i hen amwisp lwyd :  
 Rhyddhawyd, gollyngwyd llew,  
 Ufel\* anllwfr felyn-llew  
 Cry' ei fwng, dig. crafangog,  
 Gortlawg lais, garw ei glog ;  
 Llew o goedwig Affrig oedd,—hen larpwr,  
 Hyll ymherawdwr,—llew mawr ydoedd.

Ac o'r drws yn y cwrr draw,  
 Mewn hyder llym neidia 'r llew ;

---

\* Theatr. Hwyrach fod o blaidd defnyddio'r gair hwn y ffaiith ei fod  
 ar ymyl y ddalen yn y Bibl.—Act. 19, 29.

† Ufel, ffery.

Gwrddlym ddau lygaid gwyrddliw  
Ydyn' i'w ben yn dân byw.

Yna Paul wnai appelio—at y nef,  
Tan ofyn (heb eirio,)  
I'w hoff Ner ei ddiffyn o,  
I Dduw Daniel dd'od yno.

Dyrüai 'r bwystfil gorfilain,  
Ei lais o'r mur adleisiai 'r main :  
Mae e' nes nes yn nesu  
At was Ner, mewn digter du,  
ag araf droediad gwrol;  
Dduw nef! pwy a'i trydd yn ol?  
Fel cath, o-fewn pumllath i Paul,—was ffyddi,  
Y mae, gawr coedydd, yn ymgwrcydol,\*  
Yn parottöi rhoi y rhuthr  
Yn hyderus,—naid aruthr.

Ond, aruthr! yn lle rhuthro,  
Ei nwyd ddig newidiodd o  
I dda fendith addfwynder,  
Dan waith dylanwad y Ner.  
Cododd o'i erch gwrcydu  
Milain, certh,—ac, mal oen cu,

---

\* Ymgwrcydol, crouching.

Fe aeth yn llowaeth a llon  
 A da ddifrad ei ddwyfron ;  
 O gwmpas Paul 'e gampiai ;  
 Dichwerw ei nwyd, chwarae wnai.

Y dorf, mewn gorsyndod erfawr,  
 Sy mewn awydd newydd yn awr  
 I roi â llef hir a llaw—ormodol  
 Burwych aruthrol barch i'r Athraw ;  
 Yntau'n dibrin benliniaw—i Dduw'r gras,  
 I roi clod addas, o'r c'ledi, iddaw.



## Y DRYDEDD RAN AR DDEG.

Helyntion Paul yn Jerusalem a Judea. Mae bron ag ennill Agrippa i fod yn Gristion. Mae'n apelio at Cesar. Ei fordaith i Rufain. Ei long-ddrylliad.

Henffych ! Salem, gem a gwyrth—daear-fyd,  
 Erfawr gain uchelbyrth,  
 Hen syber ddinas ebyrth,  
 Mirain berl marmorion byrth !

Oh ! na's gall mad offeiriadaeth,—na gwaed  
 Cysgodol ehelaeth,  
 Dorri gwenwyn dryganiaeth—dy feibion,  
 Na phuro Sïon o'i Phariseaeth !

Gwŷr y grefydd ddi-ffydd hon,  
 Ys hwy, Eglwyswyr Sïon,  
 Offeiriaid ffol o fradol fron,  
 Oer gleiriaich o Beriglorion,  
 Clerigwyr cul rywogaeth,  
 Cŵn moethus, gwangus,—a gwaeth,  
 Erlid Paul nefol a wnant,  
 Ar yr Athraw hwy ruthraut.

Am ei ladd yn ddifaddau—yr oeddynt  
 Trwy eiddig feddyliau  
 Treisiol a gwyllt, trwy zel gau,—a hyspys  
 Oedd yr ewylllys i'w dynnu 'n ddrylliau.\*

Dygwyd ef ger llawer llys ;  
 'E bleidiai â grym o blaid gras ;  
 Dewr heb ofni, gwedi gwŷs,  
 Ni laesodd o flaen Lysias.

Ger bron Ffestus, heb rusaw,  
 Fe wiriodd ef air ei Dduw ;  
 Am farn a fydd ddydd a ddaw  
 Soniodd wrth Ffêlix annuw ;  
 Di-brin ddychrynod a braw  
 Doddodd y barnwr didduw.

---

\* Mae'r pedair llinell hyn yn ychwanegiad at y copi a anfonwyd  
 i'r gystadleuaeth.

Agrippa'r teyrn gwâr, por y tud,\*  
 A wnaeth bron yn Gristion o gred :—  
 Och ! ysywaeth, na's gwnaethid  
 Y gw: yn Gristion i gyd !  
 Aeth min y pregethu mad  
 Heddyw'n wan,—methodd ei nod !  
 I'r rhew y Gair a hauwyd ;  
 Fe dorrodd, rhwygodd y rhwyd !

Paul yn awr appelio wna—ger bron  
 Y brenhin Agrippa,  
 At Cesar, deyrn atcasa' :—  
 I'r firain Rufain yr â.

Ond maith y fordaith a fu—gan ddwyrain  
 Gynddaredd yn chwythu  
 Dygyfor y dyfnfor du ;—clywch guriad  
 Crychwyn ei chwerwnad croch yn chwyrnu !

Y llong ymollyngai—dan y curiad,  
 Yn y cerynt soddai:  
 Ac wed'yn hi ymgodai ;  
 O'r isder i'r uchder âi.

Mal rhyw bluen wen ar wynt—y'i gyrrid,  
 Yn flin y'i curid o flaen y corwynt.

---

\* Por y tud, brenhin y wlad. Digitized by Google



Gerwinedd dannedd y don,  
 Caledi 'r Euroclydon,  
 Egr gurai & garw gerynt  
 Ymdrechriad hwyliad ei hynt:

Gwyrain yn y gerwinoer—ddu genllif,  
 Hwyliai yn y llif heb haul na lloer.

Yn y dugerth ryferthwy—trwch anwar,  
 Trochionog ofnadwy,  
 Fe 'n unig ar genlli' gwy,  
 Ys ef ydoedd safadwy.

Angor y llong ar y lli  
 Di-ddydd, ydoedd ei weddi ;  
 O'u dall ing rhoed eu llongwyr hi—i'r dyn ;  
 Tir gwiw bu iddynt rhag eu boddi :  
 Cawsant ardal tir Malta,  
 Ymylau teg Melita:

Gwiw lawenydd yw glanio—o'r hyll lif,  
 A'r llong wedi dryllio ;  
 A thaer iawn ar y traeth-ro  
 Yw diolwch y dwylo :  
 Eu llafar diolchgarol  
 A waedda pawb i Dduw Paul.

Ei arwain i Rufain raid ;  
 I fri hon fe'i harweiniwyd ;

Er hyn yn garcharor y rhoed  
(Appelio di-les !) Paul dylawd.

Ond geiriau Duw, gorau gwir  
& charrai ni's carcherir.

Nid oes rym mewn dwys rwymau;—Gair y Nef  
Rwyga nerth y cloiau :  
Dettyd fâr y carchar cau,  
A thyrr y llyffetheiriau.

Pregethai'r Gair, er gwiriaw—y wir gred,  
A Ior gras i'w lwyddaw ;  
Gwiriiai'r ffydd bob dydd heb daw,  
Ddwy flynedd yn ddiffinaw.

Deuodd rhydd agored ddrws  
I'r llwydd, ym mhlith gwŷr y llys ;  
'E geffid i'r Ffydd-Gyffes  
Wŷr anwar y Cesar cas :  
Aml ddydd troid at grefydd gras,—o'r llys ffol,  
Eid dig, daearol, ryw swyddog diras.

## Y BEDWAREDD RAN AR DDEG.

Mae ofe yn myned trwy 'r Hispaen a Gaul, ac yn tîrio yn Ynys Prydain. Ei groesawiad gan y Prydeinawyr. Mae 'n pregethu 'r Efangyl iddynt yn yr iaith Gymraeg trwy ei ddawn wyrthiol o allu llefaru â thafodau dieithr. Ei lwyddiant yn eu mysg.

Yn Rhnfain hen y rhifodd  
 Ddisgyblion ufuddion fodd  
 O Frydain :—i Frydain fro  
 Mewn da waith mynnai deithio.

Y gwr trwy 'r Hispaen a Gaul  
 Yn awr teithiodd yn araul :  
 I'r Hispaenwyr esponiodd  
 Wir Waed yr Iawn a'i rad rodd ;  
 Yng Ngaul yr efangylodd  
 Ei rin mawr yn yr nn modd.

Buan i deg Albion dir,  
 I Frydain, y wen frodir,  
 Glaniodd ; a daeth y goleuni  
 O nos yn awr i'n Hynys ni.

Parod iawn y Prydeiniaid  
 Llawen heb ludd, llawn i'w blaid,  
 Y gwr syw a groesawant ;  
 Mawr a fydd llwydd swydd y Sant :

Gan gyd-ddychwelyd o'u chwant,—trwy dynet  
Air Ior, try nifer o wŷr Troynofant.\*

Daw & throad i'w hathrawon,  
Tra rhyfeddol ! try 'r Ofyddion  
Yn enw Iesu i Ne 'n weision,  
A diraddir y Derwyddon.

Try llawer Bardd ei farddas,  
Firain grefft, yn forwyn gras ;  
Beilchion brydyddion didduw  
Ddaw 'n fwynion brydyddion Duw :  
Cenir, fel yngwlad Canaan,  
Salmau o Lyfr Salem lân.

Oedd ryfedd, rhyfedd yn rhawg,,  
Gan y gwŷr, (nid gwenu gwag,)  
Fod y brawd o fyd Hebrêig,  
Fod y ffyddlon Gristion Groeg,  
Mor rhwydd yn siarad Cymraeg ! }

Rhyfeddent, synnent wrth sain  
A thonau 'u hiaith eu hunain,  
Peraidd ddi-feth, pur, ddi-fai,  
Difreg, o dafod Efrai ! †

---

\* Troynofant sydd enw hynafiaethol ar Lundain.

† Efrai, Hebraeg.

Yn ein hiaith wâr llefarai,—drwy wyrth Ion,  
Yr addewidion a draddodai.

Dy lafur cu, dilwfr, co'edd,  
Llafur yn mesur misoedd,  
Yn ein tud a fwynhawyd  
O hynod law ein Duw lwyd ;  
Gwir fwyndeg Air y fendith  
A hauaist, plennaist i'n plith ;  
Yr hauad, trwy rad, try 'r Ion  
Yn gynnyrch llennyrch llawnion ;  
A'r twf a'r attwf o'r had,  
Bydd eiddom heb ddiweddiad:



## Y BYMTHEGFED RAN.

Paul yn ymadael o Brydain. Efe a thorf fawr o'r dychweledigion yn sefyll ar y traeth. Hen brif Dderwydd dychweledig, a gynnysgaeddasiid âg yspryd prophwydoliaeth ar yr achlysur, yn gwneuthur iddo annerchiad ffarweliadol yngŵydd y dorf, ac yn rhag-ddywedyd ei ferthyrdod yn Rhufain, a pharhâd llwyddiannus ei athrawiaeth yn Ynys Prydain a thrwy 'r byd.

Llawn yw 'r traeth o alaethu ;  
O alar llwyr wylai 'r llu  
Fod Paul fad yn ymadaw,  
Ar gwrr llif,—a'r llong gerllaw ;  
Torf hynod drist ar fin trai,—  
A Phaul, wr hoff, a wylai.

Canent mewn tor-accenion  
 âg wylaw trist, glod Duw 'r Ion,  
 Eu peraidd a'u gw lithaidd glod  
 I rad Duw, ar y tywod :  
 Toddawl y dyrchafent weddi,  
 Tawdd hon o wres, at Dduw Ion Ri,  
 Sicraf o ras, cref o rin,  
 Gywir, ddilesg, ar ddeulin,  
 Dros Paul,—a Phaul yn coffâu  
 (Syw waith !) eu hachos hwythau,  
 Serchoccaf, ffyddlonaf lu,—  
 A gwyneb Ior yn gwenu.

Mewn lleddf fryd fe gyfyd gwr,—  
 Hwn y sy 'n hoenus henwr,  
 Mordred hen ap Gwrthnoed,  
 Syth oediog wr seithdeg oed ;  
 Gwr eryrog arwrawl,  
 A'i wyneb mal gwyneb gwawl  
 O graffder a syberwyd,  
 A'i wallt sydd yn laeswallt llwyd.  
 Derwydd a Bardd hardd yw hwn,  
 Hen Selyf,—arno sylwn :  
 Troisid ef i ffordd nefol  
 Y wir ffydd gan Ner a Phaul ;  
 Yna Ner ei ddonio wnaeth  
 â dawn o brophwydoniaeth.

Fe saif.—a chwyd ei lwyd law,  
 Ar gwrr y traeth hir, ger trai,  
 Trothwy y môr ;—traethu mae  
 Leferydd hylif eiriau  
 Hiraethus dôn wrth was Duw ;  
 A llawn res y llŷ yn rhoi  
 Eu di-ball wrandawriad byw :—

“ Ffarwel, Paul, Apostol pur,  
 Ein Hathraw yn nwyllaw Ner ;  
 Addewid Duw fyddo tŵr,  
 (A goren rym Gair yr Ior,)  
 I fri 'th waith ar fôr a thir,  
 I nerthu 'th bregethu gwâr.

Codiad gwawr yn awr i ni—ti fuost  
 O fywyd gras Celi ;  
 Ac ar frys ein Hynys ni  
 A lenwir â'r goleuni.

Seren gain o'r dwyrain dir—a blennaist  
 Yn blaned i'n brodir ;  
 Seren y ffydd sy eirwir,  
 Seren ddydd gwynddydd y gwir.

Seren ras yr Ion a rydd—seirian wawr,  
 Seren yw na's diffydd ;  
 Ei gogoniant gâ gynnydd ;  
 Llawn hi ddaw 'n llawn o ddydd ;

Hon o glir oleuni glwys  
Wna Brydain yn Baradwys.

Bydd i tithau, Paul, yn ddiâu,  
(Gwir y geiriau,) âg aur goron  
Gael d' obrwyaw am dy weithiaw  
â da âdwylaw dieiddilion;

Gwobr dy lafur, cyni 'th natur,  
A digysur rym digasedd  
Brodyr feilsion, c'oedd elynion,  
Nwyd Iuddewon,—yn dy ddiwedd ;

Gwobr erlidiau, a fflangellau,  
A charcharau, Och ! rai chwerwon !  
Gwobrwy 'th deithio a'th long-ddryllo,  
Gwobr hir guro,—Gwobrwy 'r Goron.

Ar derfyn hwyr dy yrfa,—diwedd dydd  
Dy hardd-deg ymdrechfa,  
Yn Rhufain, yr Iehofah  
O'i nef dy goroni wna ;  
â'i haedd-goron hawddgara',—camp-uwchaf  
O fath gywreiniaf, Naf a'th gorona.

Yn Rhufain, ffynnon creulonedd,—gwiriaf,  
Cei goron merthyredd,  
Drwy Ymherodr ei mawredd ;—  
Y gwr clyw yn hogi 'r cledd !



Bydd di eofn heb ofni ;—'e ddaw nerth  
 Dy Dduw Naf i'th nœddi ;  
 O'r ddaear dost rhyddhêir di,  
 A syth at Grist ymsaethi ;  
 Yn Seraph tân glân goleuni—nef wlad  
 Ar ei amneidiad yr ymnewidi.

Dy wiw lafurwaith di a lefara  
 a doniau peraidd, tra byd yn para,  
 D' eiriau goriesin i droi gwŷr Asia  
 I nefol lwybyr y Naf,—a Lybia ;  
 Try hefyd at yr Iehofah—Brydain,  
 Ein Hynys eurgain ; O ! sain Hosanna !  
 Bydd gwawl d' eiriau dwyfawl da—i'n hentyrch  
 Yn haul o lewyrch Ion. Haleluiah !”

*Emo Paul ...  
 ...  
 ...  
 ...  
 beirniad.*

---

**ARGRAPHWYD GAN B. I. JONES, TREMADOG.**

---

6

D A R L I T H

AC

A W D L

AR

Y M O R .

---

GAN

**T Y D F Y L Y N .**

---

“ It is the mirror of the stars.”—CAMPBELL.

---

---

MERTHYR TYDFYL :

ARGRAFFWYD GAN JOSEPH WILLIAMS, GLEBELAND.

1868.



## R H A G N O D Y N .

---

Y MAE cyhoeddi Darlith ac Awdl ar yr un testyn yn newyddiant. Yr hyn a olygid wrth drefnu y flaenaf, oedd rhoddi adlewyrch ar ranau o'r olaf. Traddodwyd y ddwy yn nghyd; a chyhoeddir hwy felly, ar sail y derbyniad cynhesfryd a gawsant gan feirdd a llenorion o fri ac ardduniant.

Gan i feirniaid\* cadeiriol Eisteddfod Genedlaethol Caer fynegu fod amryw o'r Awdlau a dderbyniwyd yn gyfartal i ddim a gadeiriwyd yn ystod y pumtheg blynedd blaenorol, gwelir fod y gystadleuaeth hono yn un o nodwedd uchel; a chanmolwyd yr Awdl hon o herwydd trefnusrwydd ei chynllun, cyflawnder ei materion, a barddoniaeth ei syniadau.

Pan yn ei chyfansoddi, ymdrechwyd cadw mewn golwg mai anhebgor barddoniaeth ddiledryw yw, y meddyliu goraf yn arwisgedig â'r iaith oraf; ond teimlwyd fod y testyn—fel y mor ei hun—yn ddi-hysbydd, ac y gellid gofyn, "Pwy sy ddigonol" iddo? Beth bynag, os ca edmygwyr llên a barddoniaeth Gymraeg, wrth ddarllen y ddarlith a'r awdl, ryw radd o foddineb ac adeiladaeth, gellir hyderu na fydd y cyhoeddiad o honynt yn gwbl ofer.

D. T. WILLIAMS,  
(*Tydfylyn*).

*Merthyr, Awst 25, 1868.*

\* GWALCHMAI a GWRGANT.



# Y MOR.

---

“Y Mor mawr, llydan.”—DAFYDD.

---

Y MAE pob bryd ymchwilgar yn derbyn mwynhad wrth sylwi a myfyrio ar eangder, amrywiaeth, a phrydfferthwch y greadigaeth. Cymera y meddwl dynol lwybrau gwa-hanol yn ei ymchwiliadau. Canfyddir rhyw *Liebig* llygad-graff yn dadansoddi elfenau natur, gan ddwyn eu dirgelion i “wyneb haul—llygad goleuni.” Ymddyrecha rhyw *Newton* cryfadenog, ac eheda o ffurfafen i ffurfafen i fwynhau golygfäon anghymharol y bydoedd a chwimdeithiant drwy yr eangderau diderfyn. Gwelir rhyw *John Franklin* dewrgalon yn gwneud prif-ffordd ar ael y dòn, rhwng mynyddoedd o ia, gan aberthu ei fywyd ar allor anturiaeth, er lles cymdeithas. Ymwthia rhyw *Livingstone* antariaethus drwy anhawsderau cyfandir crasboeth Affrica, gan synu y byd â'i ddarganfyddiadau; a sylwir ar ryw *Magalhens*, *Columbus*, neu *Cook*, dan symbyliad ysbrydiaeth darganfyddol, yn ddigon hyf i hwylio ei lestr fechan, ail “i flewyn llesg o flaen lli;” nes llwyddo i amgylchu y belen ddaiarol ar frig y grychdòn gynhyrfus. Yn y modd hyn cyflea yr athronydd, y seryddwr, a'r teithiwr, ryf-

eddod ar ol rhyfeddod o flaen y sawl sydd yn meddu "llygad i weled anian," "calon i'w theimlo," a "glewder i gydfyned" & hi ar hyd ei rhodfaon paradwysaidd; a thystia gyda'r Salmydd fod "y nefoedd yn datgan gogoniant Duw, a'r ffurfafen yn mynegu gwaith ei ddwylaw ef." Y mae y sawl sydd yn feddianol ar y llygad, y galon, a'r glewder dan sylw, yn meddu hefyd *glust* digon craff i glywed "geiriau" y nefoedd ac ymadroddion y "ffurfafen" "hyd eithafoedd byd." Y mae "dydd i ddydd yn traethu ymadrodd, a nos i nos yn dangos gwybodaeth" i'r cyfryw un. "Y mae ei lygad yn drech na llygad bar-cut—cenfydd lwybr nad adnabu aderyn—estyna ei law at y gallestr—a dymchwela fynyddoedd o'r gwraidd." Y mae "yn peri i afonydd dori trwy y creigiau—yn eu rhwymo rhag llyso—yn dwyn pethau dirgel i oleuni," ac "yn gweled pob peth gwerthfawr." Gwna ddwfr a than yn gymodus, cyhoedda dangnefedd rhyngddynt, a ffrwyth eu hymheddychiad yw yr ager nerthol sydd yn cyflawni y fath wrhydri gorchestfawr ar fôr a thir, ac yn mhreswylfaon y tanddaiarolion bethau. Yn goron ar fuddygoliaethau y meddwl dynol, gwna dafod i'r môr ar ffurf rhaff bellebrol, a dysga ef i lefaru mor groew, eglursain, a threiddiol, fel y clywir ei lais filoedd o filldiroedd o bell—der ar darawiad amrant! Er mor synfawr ydyw dyn, bu yn hir iawn cyn deall fod y trydan yn alluog i dafu ei lais yn anfeidrol bellach nag ef, er fod Duw wedi dweyd hyny wrth Job filoedd o flyneddau yn ol. Yr oedd y mellt y pryd hwnw yn dweyd yn ddigon hygryw, ar eu teithiau awyrol, "Wele ni!" Ond yr oedd clustiau yr oesau yn rhy fyddar i graffu arnynt, a meddwl dyn yn rhy anwybodus i ddeall eu lleferydd; ond rhoes Duw *glust* craffach i *Benjamin Franklin* nag a gafodd neb a fu o'i flaen, a



meddwl digon coeth a gwrteithiedig i gynal ymgom anrhydeddus â'r fellten ddysglaer.

Y mae yr athronydd, ac yn enwedig y bardd o awen *bur*, yn clywed "llais Duw yn y daran,"—yn teimlo cyfhyrddiad "ei ysbryd yn y gwynt,"—yn canfod y Creawdwr "yn marchogaeth y nefoedd,"—"yn dâl y dyfroedd yn ei ddwrn," ac "yn cau y môr â dorau." Clyw ef yn ceryddu y gwynt a'r môr—gwel hwynt yn ufuddhau iddo, a gwel ei Geidwad bendigaid yn gwneud y lasdôn anwas-tad yn balmant llyfn i'w draed.

Y mae meddwl o duedd ddyrchafol a barddonol yn edrych ar weithredoedd Duw trwy lygad tryloew *awen bur*; oblegid trwy ei llygad canaid hi y gwelir eu prydferthion penaf. Mwyadyr (*microscope*) y meddwl yw awen. Heb ei chymhorth, byr, pwl, a chyfyng yw y gwelediad. Cafodd llawer un olygfa swynol drwy ei llygad pefr hi, megis Job, Dafydd, Eisaiah, ac ereill o'r beirdd Hebraidd, a gellid enwi llawys heblaw hwy a dderbyniasant ffafrau anniflanedig o'i llaw breiniol a haelionus. Os ydys am gael ei chyfeillach yn ei llanerchau mwyaf dewisol, y mae yn rhaid cydymdeithio â hi ar lwybrau *natur* a *datguddiad*, o herwydd yno y gwelir hi yn ei gwisgoedd goraf, ac yn ei gogoniant penaf. "Llusgo awen gerfydd ei chlust," ys dywed Goronwy Owen, yw ceisio ei harwain i ymylon ffosydd syniadaeth fasweddol a llygreddig. Ni ddylid ei gorfodi i eistedd wrth ymylon corsydd lleidiog, ac i gerdded anialdiroedd dreiniog anlladrwydd, eithr gerllaw ffynonau dymunol rhinwedd a syniadaeth ddyrchafedig.

Y mae ambell wrthddrych mewn natur yn addurnedig â mwy o swynion nag ereill; fel y dywed Paul, fod "rhagor rhwng seren a seren mewn gogoniant." Nodwedd y ddôl yw *prydfferthwch*; ac arbenigrwydd y graig yw

*aruthredd*; ond yn y môr y mae y *prydfertk* a'r *aruthr* yn cydgyfarfod. Pwy fu yn sefyll ar làn y dyfnder eang-fawr, ar noson serenog, pan fyddai y "lloer yn arianu'r lli'," a'r awelon yn huno ar fonwes y dòn, heb deimlo awydd i ddweyd—

Llyfn balmant yw dy wyneb,\*  
 Deg fôr, yr hwyrnos hon ;  
 Fel carwn allu rhodio  
 Ar ael dy dawel dòn !  
 Neu orphwys ar dy fonwes,  
 Fel pe ar wely plu ;  
 Tra swynai'th bêr awelon  
 O'm bron ofalon lu.

Y lloer a droes dy wyneb  
 Yn ddrych i wel'd ei hun ;  
 A'i gosgordd claer, serenog,  
 Ymgrymant i'w hardd lun :  
 Y pysg gynaliant ddonawd  
 Yn eu goleuni cân,  
 A'r morwyr lawen ganant  
 Wrth hwylio at y làn.

Dyna enghraff egwan o brydfert hwch y môr. Ceisiwn ddangos gradd o'r gwrthwyneb :—

Môr addfwyn ydwyt heno,  
 A llonydd yn dy gryd !  
 Ond ddoe bygythiet ddryllio  
 Yn deilchion gaerau byd !

\* Gweler y "Cathlau Byrion," a gyhoeddodd yr Awdur yn 1864.

Ymchwyddet mewn cynddaredd,  
 Ewynet ar y làn,  
 A chrynai dy ryferthwy  
 Gref seiliau creigiau bàn.

Cusanu'r graig wyt heno,  
 Er ymddwyn ddoe yn wael,  
 Drwy boeri yn ei gwyneb,  
 A'i tharo ar ei hael!  
 Tywalltai ddagrau heilltion  
 Pan gwypet ar dy gefn;  
 Ond curo, curo arni,  
 Yn llidiog wneit drachefn!

Yn ngwyneb yr olygfa gyffrôs, pwy na chymhellir  
 i ofn i'r môr—

Paham wrth graig a thywod  
 Y digiaist di mor dost?  
 Cyduno wnaent i leddfu  
 Dy lid, a ffrwyno'th ffrost:  
 Dangosent dy derfynau,  
 A dyma oedd eu hiaith—  
*Hyd yma—dim yn mhellach,*  
*Y deui ar dy daith.*

Yr addysg a dynwn odliwrth yr olygfa yw hyn:—

Ail ydyw yr annuwiol  
 I guchiog, frochus fôr;  
 Ymchwydda, ymffyrniga,  
 Yn erbyn deddfau Ior;

Ond pan y clyw y geiriau—  
*Hyd yma'r ai—bydd fyw—*  
 Yswatia—ymlonydda—  
 A mwyach *addfwyn yw.*

Y mae y môr yn un o'r rhanau mwyaf synfawr a bendithiol o'r greadigaeth. Gwelir hyn yn amlwg pan ystyrir ei eangder, ei halltrwydd, ei ymddangosiadau, ei ysgogiadau amrywiol, a'r effeithiau a gynyrchant, yn nghyd a'i wasanaeth anmhrisiadwy i'r ddaiar a'i phreswylwyr.

Yr oedd y Groegiaid, y Rhufeiniaid, a chenedloedd paganaidd ereill, yn doreithiog iawn yn eu dychymygion dwyfyddol. Gosodent dduwiau i gynrychioli y nwydau a'r serchiadau, a rhoddent i dduwiau ereill awdurdod ar, a llywodraeth dros, wahanol ranau y greadigaeth. Cyflwynent lywodraeth y môr i *Neptune*. Weithiau darlunir ef â theyrnwialen deirbig (*trident*) yn ei law—yn marchogaeth ar ael y dôn mewn cerbyd cragenog,—yn cael ei lusgo gan fôr-feirch adenog, a'r pysg yn ffurfio gosgorddlu aneirif o'i amgylch. Yn ol darluniad *Homer* o *Neptune*, rhyw dduw hirgoes a chorff-drwm iawn ydoedd. Dywed ei fod yn gallu croesi y gorwel (*horizon*) ar dri cham, ac fod y mynyddoedd yn plygu o dan ei ddamsangiad.

Beir crebwyll eithafol fel peth anghyson â barddoniaeth deilwng. Cyfarfyddir â'r gormodedd hwn yn aml mewn cynyrchion diweddar; ond os ydys am gael enghraffau o eithafedd crebwyll, yn nychymygion yr hynafiaid y ceir y cyflawnder mwyaf o hono. Pan fyddai dau dduw yn ymryson, darlunir hwy yn dadwreiddio coedydd preiffion, gan eu lluchio at eu gilydd; ac ar ol gwneud coedwigoedd yn wasarn, hyrddient fryniau a chreigiau at y naill y llall; ac ni fyddai bânau Brycheiniog, Cader

Idris, a'r Wyddfa, ond megis mân lwch yn eu dwylaw. Dichon nad ystyrir hyn yn ormodedd pan gofir pwy a ddarlunid yn ymorchestu yn yr ornest; ond chwedlau ofer ydynt oll; ac y mae genym ni i ddiolch i oleuni athroniaeth a dadguddiad dwyfol am ddangos y gwirionedd yn hyn fel mewn llawer peth arall. Cafwyd "goleuni i oleuo y Cenedloedd," yn llewyrch pa un y gwelwyd nad "oes i ni ond un Duw," ac mai efe yw Llywriadwr pob peth.

Gelwir y gronfa erfawr o ddwfr hallt sydd yn amgylchu y ddaiar, o dan amrywiol enwau—megis, *Môr, Eigion, Neifion, Dyfnder, Anoddyn, &c.* Drwy gyfrwng y cydgasgliad rhyfedd hwn o'r

"Elfen deneu ysblenydd,  
Llyfneg, sy'n rhedeg yn rhydd,"

galluogir y gwledydd mwyaf eithafol oddiwrth eu gilydd, o ran pellder, i gydgyfathrachu, a chydgyfranogi o fendithion trafniadaeth. Y mae amryw genedloedd wedi bod yn enwog am eu hanturiaethau a'u llwyddiant morwrol; ond diau mai y genedl Brydeinig a fu y fwyaf anturiaethus a llwyddiannus yn yr ystyr hwn.

Ymdreiddia y môr i ranau mewnol gwledydd, yn agoriadau mawrion, ac yn aml yn gulforoedd bychain. Nid oes unrhyw olygfa o dan yr holl nefoedd a ymddangosai mor fawreddog a'r len eang hon o ddwfr, pe byddai yn ddichonadwy cael trem gyflawn arni. Y mae ei harwyneb yn 148,000,000 o filldiroedd ysgwâr—teirgwaith mwy nag arwyneb y tir. Dysgrifiodd *Campbell* yr eangder hwn yn dra phrydferth a barddonol pan ddywedodd efe—

"————— Earth has not a plain  
So boundless and so beautiful as thine;

The eagle's vision cannot take it in :  
 The lightning's wing, too weak to sweep its pace,  
 Sinks half-way o'er it, like a wearied bird :  
 It is the mirror of the stars, where all  
 Their hosts within the concave firmament—  
 Gay marching to the music of the spheres,  
 Can see themselves at once."

Y mae i'r môr dair o ranau godidog a thra eang. Y gyntaf y sylwn arni yw y gronfa ddirfawr sydd i'r gorllewin i gyfandiroedd gogledd a deheu *America*, gan baun y rhenir hwy oddiwrth *Asia*. Adnabyddir y rhan hon wrth yr enw MOR TAWDD, neu FOR TAWBLOG (*Pacific Ocean*). Rhoddwyd iddo yr enw hwn o herwydd yr awelon unfurf a thynner a ymlithrant dros ei wyneb. Wrth edrych ar barthlen (*map*), canfyddir llinell y cyhydedd ar draws canol y cydgasgliad hwn. Gelwir y rhan sydd y tu uchaf i'r llinell yn *Dawelfor Gogleddol*; a'r rhan sydd y tu isaf, yn *Dawelfôr Deheuol*. Lled cyffredin y môr hwn yw tua deng mil o filldiroedd. Yr ail ddosraniad yw MOR Y WERYDD (*Atlantic Ocean*), yr hwn sydd yn rhanu *Europe* ac *Affrica* oddiwrth gyfandir *America*. Eu led yw tua thair mil o filldiroedd. Rhenir y môr hwn hefyd gan llinell y cyhydedd—megis ag y sylwyd eisioes yn mherthynas i'r Tawelfôr—i ogledd a deheu. Y ddosran arall yw y MOR INDIAIDD (*Indian Ocean*), yr hwn sydd yn ymestyn o lanau dwyreiniol *Affrica*, ar hyd gororau deheuol *Asia*, ac yn gyfelyb, o ran lled, i For y Werydd.

Y mae casgliadau ereill o ddyfroedd a elwir yn briodol yn *foroedd*, megis MOR LLYCHLYN (*Baltic Sea*), MOR DU, MOR COCH, a MOR Y CANOLDIR (*Mediterranean Sea*).

Amgylchir y MOR CASPIAIDD (*Caspian Sea*) gan dir, ac fel y cyfryw, diau mai mwy priodol fyddai ei alw yn llyn; ond gan fod ei ddwfr yn hallt, anrhydeddwyd ef â'r enw urddasol *Môr*. Ei amgylchedd yw tua deuddeg can mill-dir. Y mae *Lake Superior*, yn ngogledd *America*, yn ddeucan milldir mwy o amgylchedd; ond ni chyfrifir ef yn mhlith y moroedd, gan mai dwfr croew sydd ynddo.

Ychydig a wyddys am ddechreuad y rhaniadau hyn; ac nid rhyw lawer a wyddys yn mherthynas i *ddyfnder* y gwahanol foroedd. Barna rhai athronwyr na chymerodd llawer o gyfnewidiad le yn yr ystyr hwn o ddechreuad y byd hyd yn awr; ond barna ereill, gyda llawer mwy o debygrwydd, debygid, fod cyfnewidiadau pwysig wedi cymeryd lle yn *lleoliant* y dyfroedd ar wahanol amserau. Credir i'r môr, yn amser y dylif, ffurfio gwely newydd iddo ei hun, o herwydd i gyfnewidiadau mor fawrion ddygwydd yn y cynhwrf. Credir mai gwely presenol y môr yw y tir ar ba un y preswyliai y cynddylifiaid. Dywed yr Ysgrythyrau i "ffynonau y dyfroedd gael eu rhwygo,"—i'r "dyfroedd ymgryfhau," a "gorchuddio yr holl nefoedd." Yn awr, y mae yn amlwg nas gallasai cyffroad mor ysgarog, a rhyferthwy mor nerthol, lai nag achosi cyfnewidiadau dirfawr yn ffurf ac arwyneb y tir, ac, o ganlyniad, yn sefyllfaoedd y dyfroedd a'u lleoliad, i'r hyn oeddynt cyn i hynny gymeryd lle. Y mae profion diamheuol i'w cael fod y môr wedi bod mewn llaweroedd o fanau, o ba rai yr ymadawodd filoedd o flyneddoedd yn ol. Ceir y profion hyn yn nghreigiau a mynyddoedd mewnol gwledydd, ar ffurf cregin yn y creigiau, &c. Dywedir fod ysgerbwd morfil yn gorwedd ar gopa mynydd sy dair mil o droedfeddi uwchlaw y môr, ar arfordir y Môr Gogleddol (*Northern Ocean*). Nid gorchwyl hawdd

fuasai cludo yr ysgerbwd i'r fath uwchder, oddieithr gan nerth dylif gorchuddiol.

Gan ein bod wedi crybwyll am y diluw, neu yn hytrach, y *dylif*, gwnawn sylw byr ar y gair. Dylif yw y priodolaf—sef y gwreiddyn *llif*, a'r blaenyn cadarnhaol *dy*; hyny yw, llif mawr nerthol. Y mae yn wir mai y gair “diluw” sydd yn y Bibl; ond ai nid llygriad o'r gair *diluvium* ydyw? Arweiniwyd person anwybodus o sill-ebiaeth i gamsyniad chwerthinus yn nghylch ystyr y gair dan sylw. Pan ofynwyd iddo beth oedd ei ystyr, atebodd, “Pan gymerodd y diluw le, cymysgwyd y Môr Coch a'r Môr Du, a'r holl foroedd ereill yn nghyd. Yn y cymysgiad llwyr hwnw, collodd y Môr Coch ei liw, collodd y Môr Du ei liw, ac felly y dygwyddodd i'r holl foroedd ereill hefyd; yna aethant i gyd yn *ddi liw*”! Gwnaethwyd y sylw damweiniol hwn i ddangos y pwysigrwydd o chwilio i fewn i ystyr gwreiddiau, er gochelyd gwrthuni a chamsyniadau.

Y mae ymryson parhaus yn cymeryd lle rhwng y môr a'r tir, ac y mae hyn wedi rhoddi ffurf i ynysoedd a llein-diroedd; tra y mae tân-ffrydiau tanddaiarol (*subterraneous volcanoes*) a diwydrwydd y creaduriaid bychain, aneirif, a ffurfiant yr ynysoedd cwrel (*coral islands*), yn rhoddi sylfaen a bodolaeth i ynysoedd a chyfandiroedd yn nghanol y moroedd dyfnaf ac eangaf. Oddiwrth y ffaith hon gwelir fod y *materol* yn ymddadblygu yn barhaus. A ellir gwadu cynydd a lluosogiad yr *ysbrydol*? Onid yw y *materol* a'r *ysbrydol* yn ymddadblygu yn ddiymatal? Credwn mai y Creawdwr, yn ei ddoethineb anfeidrol, yw ffynonell y cynydd, y lluosogiad a'r dadblygiad; ac mai yn ol ei ewyllys oruchlywiol ef y mae yr oll yn cymeryd lle. Fe fu amser pan nad oedd neb ond cyn-



riaint dynolryw yn preswyllo ar wyneb yr holl ddaiar. Oddiar eu dyddiau hwy, bodolodd milfloedd ar filfloedd o greaduriaid rhesymol. Onid oedd *ysbryd* yn mhob un o'r milfloedd hyny? Ac onid oes canoedd o filfloedd yn preswyllo y ddaiar yn awr, a gwreichionen o'r YSBRYD TRAGWYDDOL yn mhob un o honynt? Felly yn mherthynas i'r *materol*. Eglurir hyn yn y creadur bychan, aml-droediog, y *polypus*, sydd yn ffurfio y *coral islands*. Ceir y *polypi*, sef y creaduriaid bychain hyn, yn mhob hinsawdd; ond yn ngororau y cyhydedd y mae y cyflawnder mwyaf o honynt. Yno, gan hyny, y canfyddir yr ynysydd owrel eangaf, y rhai a brofant yn beryglus yn aml i forwyr ar eu mordeithiau. Y mae y *polypi* yn ymluosogi yn ddirfawr, gan ymorwedd yn haenau cynyddol ar eu gilydd, hyd nes cyrhaeddant arwyneb y dwfr. Y mae yr haen ar ol haen a orchuddir yn trengu, gan droi yn sylwedd cregynog a chreigiog; ac y mae yr arwyneb yn ffurfio gwely i dderbyn pob math o sylweddau llysienuog ac anifeilaidd, y rhai a droant yn weryd (*soil*) yn mhen amser, cyfaddas i gynyrchu ymborth i ddyn ac anifail. Felly try yr ynysydd hyn yn rhai trigianol, ac y mae lluoedd o honynt yn awr yn cynal miloedd o breswylwyr. Onid yw yn syndod fod canoedd o'r ynysydd hyn yn mesur ugeiniau a chanoedd o filldroedd, y rhai a welir yn y Tawelfor, ac mewn manau ereill,—oll yn gynyrch y *polypus* bychan, nad yw yn fwy ei faint na chylionyn! Wrth ystyried y cynydd parhaus hwn, nis gellir bod yn ddisylw o'r amlygiad o ddoethineb dwyfol a ganfyddir. Dro yn ol, mynai rhai ysgrifenyddwyr ddychrynu pobl drwy ddweyd, gan fod poblogaeth y byd yn lluosogi mor ddirfawr, y deuai amser pan nas gallai y ddaiar gynyrchu digon o ymborth i'w phreswylwyr; ond y mae y Creawdwr

yn darparu “y naill beth ar gyfer y llall,” ac y mae ei ystorfaon ef yn annherfynol. Traethwyd geiriau tarawiadol gan Jesus mab Sirach, pan ddywedodd efe am weithredoedd yr Arglwydd,—“Y maent hwy oll yn ddau-ddyblyg; y naill ar gyfer y llall; ac ni wnaeth efe ddim â diffyg arno. Y mae y naill yn sicrhau daioni'r llall; a phwy a gaiff ddigon o edrych ar ei ogoniant ef.”

Gresynus yw meddwl na chanfyddai rhai athronwyr fwy o Dduw mewn natur, ac na chwiliant yn ddyfnach, ac nad edrychent yn uwch am yr *achos mawr* o'i dadblygiadau di-ddiwedd.

Cyn gadael yr ynysodd cwrel, rhoddwn ddysgrifiad godidog Montgomery o honynt. Dywed—

“I saw the living pile ascend,  
 The mausoleum of its architects,  
 Still dying upwards as their labours closed :  
 Slime the material, but the slime was turned  
 To adamant by their petrific touch :  
 Frail their frames, ephemeral their lives,  
 Their masonry imperishable. All  
 Life's functions, food, exertion, rest,  
 By nice economy of Providence,  
 Were over-ruled to carry on the process  
 Which out of water brought forth solid rock.  
 Atom by atom, thus the mountain grew,  
 A coral island stretching east and west.  
 —— Compared with this amazing edifice,  
 Raised by the weakest creatures in existence,  
 What are the works of intellectual man,  
 His temples, palaces, and sepulchres ?  
 Dust in the balance, atoms in the gale,

Compared with these achievements of the deep,  
 Were all the monuments of olden time.  
 The Pyramids would be mere pinnacles,  
 The giant statues wrought from rocks of granite,  
 But puny ornaments for such a pile  
 As this stupendous mound of catacombs,  
 Filled with dry mummies of the builder-worms."

Diau mai priodol iawn y dywed y bardd mai megis dim, mewn cymhariaeth, yw gorchestion penaf dyn mewn ad-eilwaith, i gynyrchion y *polyps* bychan.

O berthynas i ddyfnder eithaf y mor, nid ydys wedi cyrhaedd sicrwydd penodol. Y mae yr uchaf o gadwyn-fynyddau yr *Himalaya* yn bum milldir uwchlaw arwyneb y mor. Barna llawer fod ei ddyfnder yn cyfateb i uwchder eithaf y tir. Os felly, gwelir cyfatebiaeth yn y ffaith hon eto ac amlygiad o fwriad a doethineb y Creawdwr.

yn yn amlycach i'r golwg pan ystyrir *natur*, *chydbwysedd* (*equilibrium*) y mor, yn nghyd & *wydd* y rhan fwyaf o hono. Er ei fod yn ym- a barhaus, eto, bernir fod tawelwch yn teyrnasu o fewn terfynau neillduol. Y mae yn perthyn ynhyrifiadau arferol a rheolaidd, sef dylanwad yr y gwyntoedd, y corwyntoedd, yn nghyda dylan- aul, ac yn enwedig y lleuad; ond gan nad yw y dau hyn yn cyrhaedd i *ddyfnder dirfawr*, gallu- ior i gynnal y cydbwysedd angenrheidiol a fodola lo a'r ddaiar.

a amrywiol dybiau yn nghylch *halltrwydd* y mor. rhai athronwyr fod yr halltineb yn bodoli yn ei ser oddiar y dechreuad. Ereill a farnant mai y bu hyn, drwy fod y dwfr yn sugno halen o'r

ddaiar yn ei symudiadau parhaus ar hyd-ddi ac ynddi. Tybiwyd am amser maith mai dyben penaf yr halltrwydd ydoedd cynal *puredd y dwfr*, gan fod y fath gyflawnder o fywyd llysieuol ac anifeilaidd yn yr eigion. Diau fod hon yn ffaith deilwng o sylw; eithr bernir mai prif amcan yr halltrwydd, neu yn hytrach, y cyflawnder o halen sydd yn y mor, yw *cydbwysedd*. Ychwanega bwysedd y dwfr heb ychwanegu ei gyflawnder. Pe byddai yn ysgafnach nag ydyw, nid ellid nofo mor hawdd ar ei wyneb; ac y mae hyn yn fantais i longau ysgeifn yn ogystal ag i rai trymion. Achosai lleihad yn mhwyssedd y mor, aflonyddwch yn ysgogiad y ddaiar, fel yr achosai ysgafnhad yn mhwyssedd yr awyr, ddyrswch yn nhrefn ysgogol y planedau. Mae halltrwydd y mor yn llywodraethu gweithrediadau y cymylau. Nid yw yr awyr yn gallu sugno dwfr pur o ddwfr hallt mor hawdd ag o lynoedd dwfr croew, felly atelir gormodedd o wlawogydd ar y ddaiar. Y mae llawer mwy o halen yn nwfr y mor gerllaw y cyhydedd nag mewn manau ereill. *Lleiha* yr halltrwydd yn raddol o'r cyhydedd i'r pegynau. Yn ngwyneb y ffeithiau dyddorol hyn, pwyl na wel brofion anwadadwy o dfoethineb anfeidrol?

Ceir *ymddangosiadau* tartwiadol a phrydfferth iawn yn arwyneb y mor yn fynych, yn enwedig yn y nos. Pwy a gafodd gyfle, na sylwodd ar amrywiaeth aml-liwio gerllaw arwyneb? A phan arianir yr olygfa gan belydr y lloer, y mae yn ogoneddus tu hwat i ddarluniad. Cyfrifir am hyn drwy welyau o dywod islaw, eto gerllaw, yr arwyneb —y pysg bychain canaid—y trychfilod aneirif tryliwiog, a'r nwyon (*gases*) a ymddyrrhant yn ddiymatal o'r mor, gan addurno ei wedd â harddwch a gogoniant. Yn y poethgylch (*torrid zone*) y ceir hyn gyflawnaf. Y mae y fath

gyflawnder o olew a gwawlnwy (*phosphorus*) yn y mor, fel nas gallant lai na chynyrchu goleuni a pheri i'w wyneb ddysgleirio, ymliwio, ac ymlathru.

Drwy ysgogiad parhaus y dyfroedd, cedwir hwynt yn beraidd a dilwgr; canys yn absenoldeb y cyfryw ysgogiad, trengai yr holl bysg, a byddai y canlyniad yn drychinebus ar gyflwr yr awyr, ac yn ddinystriol i iechyd y byd. Sylwyd eisioes fod y mor yn cuddio y rhan fwyaf o lawer o arwyneb y ddaiar. Y mae yn dra gwahanol i lynoedd ac afonydd; o herwydd erys ei gynwysiad ef yn gyfelyb yn barhaus, tra y maent hwy yn ymddibynu ar y tymhorau. Ar wlawogydd trymion, dylifa yr afonydd dros eu glânau, ac ymlenwa y llynoedd hyd eu hymylon. Ychydig ddyddiau o sychder hirddydd haf, a sugna eu holl nerth, a chanfyddir hwy yn llewygu o syched; ond pery y mor yn llawn o hoearswydd maboed; a gellir dweyd am dano, mai "fel yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr hon, ac y bydd" hyd ddiwedd amser.

Ysgogiadau amlycaf a mwyaf rheolaidd y mor ydynt y *trai a'r llanw*. Dyrswyd llawer hen athronydd dwysymchwilgar wrth eu hastudio; ond deallwyd mor gynar 'r ganrif gyntaf o'r cyfnod Cristaidd, mai yr haul a'r loer dd yn eu hachosi. Dichon mai i ymchwifadau Pliny, 'r athronydd enwog a edmygid mor fawr am ei bwyll, ei ddoethineb, ei burdeb a'i ddiniweidrwydd, y mae y darganfyddiad i'w briodoli yn benaf. Wrth drai a llanw y golygir yr eigion yn ymgodi yn un dôn erfawr—yna yn ymostwng, yn gyfelyb i godiad a gostyngiad tòn gyffredin. At-dyniad yr haul a'r loer sydd yn peri hyn. Dylanwada yr olaf chwe gwaith mwy na'r blaenaf ar y mor, o herwydd ei bod gymaint a hyny yn agosach ato. Cymer y trai a'r llanw le ddwywaith yn ystod 24 awr a 49 munud.

Canfyddir hyn yn ddyddiol tua thri chwarter awr yn ddiweddarach bob dydd. Parha y *llanw* am chwech awr, a'r trai yr un modd, a chymer tua chwarter awr o orphwysiad yn y naill a'r llall. Gelwir y *llanw uchaf* yn orlanw (*spring tide*), yr hyn a gynyrchir drwy fod yr haul a'r lloer mewn sefyllfaeodd manteisiol i ddylanwadu yn nghyd. Cymer hyn le yn amser y newydd a'r lawn loer. Pan fyddo yr haul a'r lloer yn gwrthdynu, achosir y gordreiad (*neap tide*), yr hyn a gymer le yn amser y chwarteri. Am bob pum troedfedd o uchder a gynyrchir yn nghodiad y dwfr gan y lloer, cynyrchir un droedfedd gan yr haul. Y mae gwahaniaeth mawr yn bod yn *muandra* y *llanw* mewn gwahanol fanau. Buanaf oll yw yn y manau dyfnaf, o herwydd ei fod yn gallu ymlifo yn ddirwystr. Gyda dyfnder o un gwrhyd, teithia yn ol wyth milldir mewn awr; a gyda dyfnder uwchlaw can gwrhyd, bedwar hugain milldir yn ystod yr un amser. Dibyna *uchder* y *llanw*, yn benaf, ar ffurf y tir. O herwydd hyn, ni ymgyfyd yr un *llanw* mewn rhai manau uwchlaw tair modfedd, tra yr ymddyrrha mewn manau ereill ddeg troedfedd ar hugain.

Achosir y *tônau* cyffredin gan ddirwasgiad y gwynt; ac y mae pob dirwasgiad yn cynyrchu codiad cyfartal, felly y ffurfir y *tônau*. Pan fyddo y gwynt yn gyffröus iawn, a'i ddirwasgiad, o ganlyniad, yn eithafol, ymgyfyd y *tônau* i uchder anferthol, yn enwedig yn Mor y Werydd. Ymgodant fwy na deugain troedfedd uwchlaw y gwagder, neu y cyfwng, fyddo rhwng brigau dwy *dôn*; felly ceir fod tua chan llathen o bellder rhyngddynt! Mor farddonol y darlunia y Salmydd yr olygfa gyffröus, pan ddywed efe am "y rhai a ddisgynant mewn llongau i'r mor, gan wneuthur eu gorchwyl yn y dyfroedd mawrion. Hwy

a welant weithredoedd yr Arglwydd, a'i ryfeddodau yn y dyfnder. Canys efe a orchymyn, a chyfyd tymhestlwynt, yr hon a dderchafa ei dônau ef. Hwyl a esgynant i'r nefoedd, disgynant i'r dyfnder, tawdd eu henaid gan flinder. Ymdroant, ac ymsymudant fel meddwyn; a'u holl ddoethineb a ballodd. Yna y gwaeddant ar yr Arglwydd yn eu cyfyngder; ac efe a'u dwg hwyl allan o'u gorthrymderau. Efe a wna yr ystorm yn dawel, a'i thônau a ostegant."

Dywedir fod y trai a'r llanw yn ddeg troedfedd ar hugain yn ngenau yr afon *Indus*. Pan gyrhaeddodd Alexander Fawr a'i wyr ei glân, tarawyd hwyl â syndod wrth yr olygfa. Yr oeddynt yn gyfarwydd â Mor y Canoldir a'r Mor Du, yn mha rai nid oes ond ychydig gyffrôad; ac wrth ganfod cyferbyniad mor ddirfawr ac annysgwyl-iadwy, llanwyd hwyl â chywreinrwydd, rhyfeddod, a brow.

Y mae athronwyr wedi sylwi fod tuedd barhaus y mor i ymlifo tua'r gorllewin, er ei fod yn ymrwyfo yn ol ac yn mlaen yn ddiymatal. Y mae hyn yn cydgordio ag ymdaith yr haul a'r bodau wybrenol ereill. Heblaw y symudiadau a grybwyllwyd eisioes, y mae ereill a elwir yn orffrydiau (*currents*), mewn llawer rhan o'r dyfnder a'i berthynasau. Rhed y gorffrydiau hyn yn mhob cyfeiriad—i ddwyrain, gorllewin, gogledd, a dê. Cynyrchir hwyl gan uchder y ceulanau—culder y cyfyngforoedd—anwas-tadrwydd y gwaelod, a chyfnewidiolder y gwynt. Y mae deall natur y gorffrydiau peryglus hyn yn erthygl bwysig yn addysgiaeth y morwr; o herwydd yn niffyg eu deall, dygwydda canlyniadau alaethus. Y pwysicaf a'r rhyfeddaf o'r gorffrydiau hyn a geir yn nau eithafedd Mor y Canoldir, aef yn nghyfyngfor *Gibraltar* a'r *Archipelago*.

Y mae y mor hwn yn derbyn afonydd mawrion y *Nile*, y *Rhone*, a'r *Po*, yn nghyda dylifiad mawr o'r Mor Du; ond yr hyn sydd wedi bod yn syndod i athronwyr am oesau lawer yw, na chanfyddir dim yn dylifo allan o hono, er cymaint y mae yn dderbyn yn barhaus. Nid ymddengys chwaith yn gorlanw. Credid gynt fod cymundeb tanddaiarol rhwng Mor y Canoldir a'r Mor Coch. Y mae chwedl yn mhlith yr Arabiaid fod un o'u cyndadau wedi dâl *dolphin* yn Mor y Canoldir. Sylwodd ei fod yn un prydfferth iawn; a thosturiodd wrtho, gan ei ollwng yn rhydd i ymddifyru yn ei elfen naturiol ei hun; ond cyn ei ollwng, gosododd fodrwy yn ei ffroen. Yn mhen amser, daliwyd *dolphin* yn y Mor Coch, a deallwyd wrth y fodrwy oedd yn ei ffroen, mai yt un ydoedd a'r un a ddaliwyd gynt yn Mor y Canoldir. Creded a gredo y chwedl hon; ond ni roddid unrhyw bwys arni gan y rhai a honent fod y cyflenwad o ddwfr a dderbynir gan For y Canoldir yn cael ei sugno ymaith gan wres yr haul. Prin y mae angen crybwyll nad all y dybiaeth olaf fod yn wir, oblegid pe felly, byddai yr un mor wir am yr holl foroedd, gan fod yr haul yn sugno o bob dyfroedd. Ymddengys mai y rheswm mwyaf boddhaol a roddwyd byd yn hyn am y ffaith hynod dan sylw yw, fod is-ffrwd (*under-current*) yn dylifo allan o For y Canoldir i'r eigion mawr drwy gyfyngfor *Gibraltar*: felly, fod cymaint yn dylifo allan ag sydd yn dylifo i fewn. Gwnaethwyd prawf o hyn yn y Mor Du, a chafwyd fod is-ffrwd gref yn dylifo allan o hono. Credir fod y cyfryw ymarllwysiad yn bod yn barhaus allan o For y Canoldir drwy y cyfyngfor crybwyllledig, ac mai felly y mae y mor hwn yn cael ei ysgafnhau o'r gorlif a dderbynia.

Y mae trobyllau (*whirlpools*) y dyfnder yn deilwng



o sylw. Parent ddychryn mawr i'r hynafiaid, pan nad oedd morwriaeth ond yn ei babandod. Darlunir trobwl *Charybdis* gan *Homer* yn dinystrio llynges *Ulysses*; ac o herwydd fod *Aristotle* yn methu deall cyfnewidiadau *Euripus*, dywedir i'r athronydd enwog hwnw ymdafu i'w ganol mewn siomiant ac anobaith, ac felly wneud diwedd arno ei hun! Bernir mai gerllaw *Sicily* y mae *Charybdis*; ond gan nad oes unrhyw fau yn Mor y Canoldir yn cyfateb mewn gerwinder i ddarluniad cyffrös y bardd Groegaidd, priodolir y dychryn a'r dinystr, nid i *Charybdis* yn gymaint ag i anwybodaeth, ac anfedruswydd mor-dwyol.

Yn yr eigion eang y mae y trobyllau yn wir beryglus a dinystriol. Ystyrir y *Maelstrom*, ar ororau *Norway*, y mwyaf echrslawn o honynt oll. Y mae rhoddi dysgrifiad *manwl* o hono yn gwbl anobeithiol, gan na ddychwelodd neb a fu mor anffodus a myned o fewn cylch ei dylanwad i roddi hysbysrwydd. Y mae ei amgylchedd yn dair-ar-ddeg o filldiroedd. Yn ei ganol y mae craig anferth, ar draws pa un yr adchwela y mor gyda rhuthr annysgrifiadwy. Traflynea y trobwl gorwancus hwn bob peth a ddaw yn agos i'w safn aruthr; ac unwaith yr â llestr o fewn cylch dylanwad ei enau sugndynol, y mae yn annichonadwy i fedr y morwr mwyaf deallus ei wrthsefyll. Yna, try y llestr drwy gylchon llai a llai, culach a chulach, nes yn y diwedd yr hyrddir hi yn erbyn dannedd y graig ysgythrog—y dryllir hi yn ysgyrion darnedig, i ddiflanu o'r golwg mewn amrantiad! Y mae twrf y sugnbwl ofnadwy hwn yn ychwanegu yn ddirfawr at y dychryn a gynyrcha, tra y mae rhuthr ei drochion ymferawwl, yn nghyda'r glyn dwfn a gynyrcha y dyfroedd yn eu cylchrediad, yn peri fod trobwl *Maelstrom* yn un o'r

gwrthddrychau mwyaf synfawr a brawychus yn y gread-  
igaeth!

Fe wnaeth Duw “ddeddf i'r gwlaw,”—“ffordd i fellt  
y taranau,”—“deddf i'r mor, ac i'r dyfroedd, fel na thor-  
ent ei orchymyn ef.” Dywed efe wrth bob peth crëedig,  
“Hyd yma y deui, ac nid yn mhellach;” ac yn enwedig  
felly wrth y mor, “fel yr atelid ymchwydd ei ddonau ef.”  
“Gwna hyn, a byw fyddi,” ydyw y gorchymyn a seliwyd  
gan law y Goruchaf ei hun. Ufudd-dod i'w ewyllys Ef,  
yw sail llwyddiant naturiol a moesol. Y mae pob peth  
mewn natur, oddieithr y bôd urddasol a grewyd “ar lun  
a delw” y Goruchaf, yn rhoddi ufudd-dod parod iddo.  
Gosodwyd dyn yn arglwydd “ar bysg y mor—ar ehediaid  
y nefoedd—ar yr anifail—ar yr holl ddaiar—ac ar bob  
ymlusgiaid a ymlusgo ar y ddaiar;” ond, er eanged yw'r  
awdurdod, ac er mor fawr yw'r ymddiriedaeth, hauodd  
Uchelgais hadau bradwriaeth yn ei galon. “Estynodd ei  
law yn erbyn Duw—yn erbyn yr Hollalluog yr ymnerth-  
odd—rhedodd yn y gwddf iddo ef—trwy dewder torau ei  
darianau ef.”—“Yr annuwiel, gan uchder ei ffroen, ni  
chais Dduw,”—nid yw Duw yn ei holl feddyliau ef.”  
Y mae ambell *athronydd* yn amheu bodolaeth Duw!  
Athronydd yn euog o'r anghysonder dybryd o fawrhau  
*natur*, ond yn ddisylw o *Awdwr natur*! Oddiwrth y fath  
athroniaeth dlawd, “gwared ni, Arglwydd daionus”!  
Gyfaill athronyddol! Os mai anghredadyn ydwyf, y mae  
athroniaeth *wir* yn gwadu pob perthynas â thi hyd y filfed  
âch! “Na fydd anghredadyn mwyach, ond credadyn.”  
“Y mae y nefoedd YN DATGAN gogoniant Duw;” oni  
chlywi gynghanedd y cylchôn? Y mae “y ffurfafen YN  
MYNEGU gwaith ei ddwyllaw ef;” ac y mae athroniaeth  
yn gorchymyn i ti wrando ei lleferydd. Y mae yr holl

fydysawd, yn dir a mor, yn ser a phlanedau, yn cyddystiolaethu pwy a'u gwnaeth, gan ddweyd, "YR HWN SYDD A CHLUSTIAU GANDDO I WRANDAW, GWRANDAWED." Paham na wrendy dyn? Paham na wel efe yr anweledig yn yr hyn a welir? Y mae ol llaw yr Hollalluog ar yr oll a wnaeth, "CANYS EI ANWELEDIG BETHAU EF, ER CREADIGAETH Y BYD, WRTH EU HYSTYRIED YN Y PETHAU A WNAED, A WELIR YN AMLWG, SEF EI DRAGWYDDOL ALLU EF A'I DDUWDOD." Ai gormod yw cymhwyso geiriau Paul at y rhai a wadant hyn?—"Pan dybient eu bod yn ddoethion, hwy a aethant yn ffyliaid."

Na foed i neb o honom galon anneallus a thywyll—ymwadwn â syniadau ofer—adnabyddwn Dduw, "yr hwn a wnaeth nefoedd a daiar, y mor, a'r hyn oll sydd ynddynt."—"Gogoneddwn ef megis Duw—byddwn ddiolchgar iddo—o herwydd ni adawodd efe mo hono ei hun yn ddidyst, gan wneuthur daioni; a rhoddi gwlaw o'r nefoedd i ni, a thymhorau ffrwythlawn, a llenwi ein calonau â llun-iaeth ac â llawenydd."

---

O For ! Pwy fyth farddona  
Yn deilwng o dy don—  
Heb for o feddylddrychau  
Yn chwyddo yn ei fron !  
Er ceisio ceinion gannoedd,  
A mydrau cywrain, caeth—  
Nid wyf ond megis mebyn  
Yn chwareu ar dy draeth !

Ymrwyfo ar dy donau  
A garwn ddydd a nos—  
Ar ol bod yn mawrygu  
Prydferthionglyn a rhos :  
Diflaned tir a'iswynion,  
Yn fynydd, bryn, a dol ;  
A gad im' ymddifyru,  
For anwyl, ya dy gol !

---

# Y M O R.

“ Yno yr â y llongau.”—DAFYDD.

---

---

## R H A N I.

---

---

Mor-edmygiad—Mor a thir, awel a chorwynt, ser a phlanedau, yn datgan gogoniant Duw—Adar, milod, dyn ac angel, yn ymuno yn y moliant—Cyflwr gwreiddiol anian—Ei hymddangosiad—Arlwyon tir a mor—Eidduniad—Nawdd Dwyf-awen.

---

---

FOR addien ! Wyt fawreddog—yn dy lif  
A dy lwybr amgylchog ;  
Gyda pharch carwn farchog  
Dy dônau rhwng creigiau crog.

Mwy na chel dy ddwfn ddirgelion,—rhag un  
A ry' gerdd i'th lasdon ;  
A ledi im' deleidion—dy fonedd,  
A dy dirionedd gyda dy rinion ?

Gweithredoedd Ior glodforir  
 Yn gyson, ar dòn, ar dir ;  
 Awel fwyn ber eilia'i fawl,  
 Yn sain ei thanau swynawl ;  
 Corwynt, pan ar hynt yr â,  
 Ei ogoniant a gana.

Myrdd ser yr uchelderau,—huan, lloer,  
 Holl lu y planedau—  
 A lenwant â'u moliannau,—holl gylchoedd  
 Aneirif fydoedd yn ewybr fodau.

Ar doriad gwawr, aderyn,  
 Fel sant, rhoddi moliant myn ;  
 Rhywiau y mil, yn filoedd,  
 Yn ddi fin rhont i Dduw floedd ;  
 Pob dyn sydd yn dilyn da,  
 Yn y ganiad fyg uia ;  
 Ac engyl ront fawl gyngherdd,  
 A'u dawn dry'n gyflawn y gerdd.

Cyn pur fawl, na gwawl, na gwên  
 Siriol y flaenaf seren—  
 Neu i'r wawr gynat euraw,  
 Araul drem y gorwel draw ;—  
 Cyn tant ar balmart nef bell,  
 Na chynghan yn ei changell—  
 Anian fu yn hir huno,  
 Yn drymlyd is dyfilyd do.

Yn ddi drwst e ddenai o dristyd,—drwy  
 Ddygn droion y gwyllfyd—  
 Ar un gair yn rhin i gyd,  
 Gynneddfau teg newyddfyd.

Ion, yn ei uniawn enyd—a'u dygodd  
 I wawr deg goleufyd ;  
 Efe roes ynddynt fywyd  
 Egniol elfenol fyd.

*Bydded* oedd y gair boddus—a ddenodd  
 Anian i ffurf drefnus ;  
 Mae'n teithiaw, gan rwyfaw, heb rus,—drwy gantau  
 Y nef orielau mewn nwyf arialus.

O faenol a dôl y daeth—llawn gynyrch  
 Eurlwyrch arlwyath—  
 I ddyn a milyn er maeth—ar eu hynt,  
 Ofwya (1) iddynt deg etifeddiaeth.

A daw o fonwes y dôn,  
 I'r byd ddi drai ddarbodion.

Dyry fael i'r Darfelydd,—rhy' yni  
 Drwy anian Awenydd ;  
 Ei haur dôn gyda gwawr dydd,  
 Arlunia ar for lènydd.

Yni eiddunir a daena ddenion,  
 A mawr arlywiaeth y mor ar luon ;—  
 Yni a leda leni 'i waelodion ;  
 Yni dry siriawl wên i'w drysorion ;

Yni ensudda mewn i'w ansoddion ;  
 Yni i nofiaw ei donau hyfion ;  
 Yni er gwiriaw 'i ddawn a'i ragorion ;  
 Yni i ganu i'w rin a'i geinion—  
 Er sel i oroesolion—aneiri',  
 O rad ddaioni a roed i ddynion.

Dwyf-awen ! Rho dy fywyd  
 Yn y gerdd, er dawn i gyd ;  
 Dy lewyrch llad oleua—wyllaf un ;—  
 O gun awenfun ! Gwena o Wynfa !

---



## R H A N I I.

---

---

Ffurfiad y Mor—Ei fynediad cyntaf allan—Ei ymdreiddiad—Ynys-  
oedd yn ymddangos—Treiddiad isgreigiol—Y cymylau, gwlaw,  
od, gw lith, rhew, ac eira—Eangder y mor—Adolwg edmygol.

---

---

NIFWL, tARTH, ordöent barthau,  
Tra daiar noeth yn boeth bau.

Nwyau, yn llawn egnion,—a hanent  
O honi'n dew wreichion ;  
Gwres ei bru yrai'r llu llon,—yn hylaw,  
I eirian hofiaw goruwch bro Neifion.

Yna hulid hwy'n hylif,  
Drwy ne' lawn i droi yn lif.

Yn araf daiar oerai,—y niwlog  
Darthnwylen ddisgynai ;  
Yn ffrwd ar led y rhedai—drwy gymoedd,  
A myrdd o lynoedd a moroedd luniai.

Y Mor, mewn per furmuron,  
Ar ei daith chwareuai dôn.

Bu encyd yn ysboneiaw—wrth ei fodd—  
Wrth feddwl cylchdeithiaw ;  
Ail i lanc yn ymbranciaw,  
Caed ei drem yn codi draw.

Prysurai, rhedai yn rhydd,  
 Yn ei lanerch ysblenydd ;  
 Ei dremyn llym wrth dramwy  
 O fewn ei fyd, fynai fwy :  
 E welai mwy ei wâl (2) mawr,  
 I gyrau pell pob gorawr ;  
 Bloeddiodd—*Af i'r bellaf ban,*  
*Ac unaf y pegynau !*

I glustiau glyn, bryn a bro,  
 Yr aeth ei lef wrth lifo ;  
 Eiluniad o'i lawenydd,  
 Ar ei forfan, rodfan rydd.

**Ae** i fewn i gelfanau,—a gwyllaf  
 Gelloedd tiriogaethau ;  
 Rhoi ystor o drysorau  
 Oedd ei fryd a mad ddyfrhau.

Drylliai 'i dòn gloion creigleoedd—treiddiai  
 Trwyddynt yn aberoedd ;  
 Gweithio'n hyf er gwythen/roedd,—  
 Diballiad â'i ebilloedd.

I fod, drwy 'i gynhyrifiadau,—dygodd  
 Lu o deg lanerchau ;  
 Adferyd bywyd i bau,  
 Ydyw anian ei dònau.

Ynsoedd a ddynesant—yr unwedd,  
 A'u rhanau ymunant ;  
 O drysorion gwendon gant,  
 Yn fydoedd mân cyfodant.

O dan y graig â'i donau,—i weini  
 Ei wên i ffynonau ;  
 Rhaniad ei ddyferynau,  
 Ad ein byd yn Eden bau.

Nef-lynoedd ynt y miloedd cymylau,—  
 O'i lifiant y dyrchant yn breiff dorchau ;  
 Yn rhawdiau breiniol ar hyd wybrenau  
 Yr ânt—a rhanant yn awyrenau :  
 Gemau heulog eu hymylau—llathraid,  
 Ry' nwyf wawr euraid i'r nef ororau.

Hwy gydunant i gedweini,—i fryn,  
 I fro a llanerchi—  
 Forluniaeth drwy ddwfrleni ;  
 Dwr yw nerth ein daiar ni.

Diddarfod yw'r ddiod dda—  
 Adloniad i fyd lunia !

Oddi draw y gwlaw glywir  
 Yn taro tant—twriaw tir ;  
 Ymwria am y marian,  
 Mewn nentydd—rhwng glenydd glân—  
 I ddifyru 'i ddyferion,  
 Ar ei daith yn ol i'r don :  
 Ar ei ol mae rhigolau,  
 E fynd ef orddyfnhau ;  
 Rhoi ei had wna ar redeg,  
 Lawer cant, er tyfiant teg.

Dolydd a gweunydd gwenant ;  
 Y llwyni oll, llawenhant :

Ar erddi taenir irddail,  
 Oreu wisg, ac nid rhyw ail ;  
 A dyn a milyn molant,  
 Am y nerth a'r gwerth a gânt.

O'r dòn y daw gordaeniad,  
 O ôd a gw lith ar led gwlad—  
 Botymanu gemog clog las,  
 Yn perlio ar y parlas.

Ar lyfn wedd mawr lafn o iâ,  
 Yr hoenus wr a wena ;  
 A sathr, gan lathr ymlithro,  
 Ar ei dran (s) am hir, hir dro :  
 Môr arian a mir eira,  
 Hyd y ddol a'i dedwyddhâ ;  
 A chana, lleisia yn llon,  
*Ariandir ddaeth o'r wendon !*

Eilun ffrydiau o giliau'r galon,  
 Yw yr agwedd ar lif yr eigion—  
 Drwy aneiri' emwythi meithion,  
 Ar hyd hael wedd ei redwelion :  
 E ddeil afaeth yn ei ddylifion,  
 Ac e foria i bob cyfeirion.

Dinag â—adwaen ei gylch,  
 A'i argae yw'r awyrgylch ;  
 Dyry lwydd i'n daiar lân,  
 A throa ar ei thraian ;  
 Ei dòn yw enaid anian,  
 A phrif wynfyd y byd ban.

O ddychymyg myg! Yn mhell  
 Hyf esgyn ar gref asgell;  
 O arsyllfa gwynfa, gwel  
 Y cyfuniad cyfanwel:  
 O enfawr wedd cyfanfyd!  
 O For! Mae ei hun yn fyd  
 Da gweli y deg olwg,  
 Ei chymhar daiar nis dwg:  
 Yn heulwawr, oni weli  
 Ynddi rad, gyda nawdd Rhi?  
 Gweli, gyda phob golud  
 Ar wasgar dros daiar dud.—  
 Gwel yr eofn gwmwl gwyn—  
 Ysgafn gwmwl yn esgyn!  
 Hed uwch myr (4) drwy'r awyr rydd,  
 Mal huan yn ymloewydd:  
 Gwel y gwlaw hyd gel y glyn,  
 Ar eurfro ac ar hirfryn:  
 Gwel y gornant a gânt gerdd,  
 Yn dâlgan am y deilgerdd:  
 Gwel afon lon ddolenog,  
 Yn taenu dawn, yn llawn llog:  
 Gwel y gloewon ffynonau,  
 A'r pefrwlith, bendith i bau:  
 Gwel yr ôd dygwyl a'r iâ,  
 Fwriwyd o'r nef yn fara:—  
 Anrhegion oll—ond rhagor  
 A gafwyd—fedwyd o for!  
 O dônau diau deuant,  
 Diau'n rhwydd i dônau'r ant;  
 "Dyfinder" at "ddyfinder" (5) ydd â,  
 Am ei lyfel ymlefa.

## R H A N III.

---

---

Y Dylif—Yn gorddiwes yr anufuddion—Ymlonyddiad y dyfroedd  
Yr Arch—Noah—Yr Enfys—Gorchuddiad y mynyddoedd gan  
y mor—Dadenhuddiad haenau—Cyfatebiaeth—Uchder y ddaiar  
a dyfnder y mor—Ei agwedd fewnol—Creigiau yn ffurfio ar ei  
waelod—Y cwrel—Gwaith dyn a gwaith y POLYPUS—Y gwymon  
Cyflawnder bywydol y mor—Y pysg—Anifeiliaid lleuferol (LU-  
MINIFEROUS ANIMALS)—Pysg amrywiaethol—Y morfil—Pysg  
yn ddirifedi—Haelfrydedd y don—Dewrder dyn a'i lwyddiant  
Gemau a pherlau—Y sudd-gloch—(DIVING-BELL)—Canute yn  
herio y don—I Dduw yn unig yr ufuddha—Rhuthr y mor.

---

---

ONID gweryd (6) yw gorawr—enuddawl

Yr anoddyn enfawr ?

Gweryd i gynfyd dig wawr,

A soddfa'i blant troseddfawr.

Yn ei chwyl, bu'r môr yn chwiliaw—eilwaith

Am wâl i orphwysaw ;

Nid oedodd—e dreiodd draw,

Ar ei sail i breswylaw.

E welai y mawr alaeth—a daenai

Dyn, drwy lygredigaeth ;

Yn enw Ion yn heini aeth,

A dylif dros y dalaeth.

Dylif nef—dialedd,

Ar wyr anwar, wawdgar wedd ;

O ryfygus arfogiaid!  
Heriaw Ner yn orwŷn (?), haid!

Ffrydiau dyfnderau o'u hamgylch dŷrent;  
Er amheuaeth a gwawdiaeth hwy godent;  
Ar hyd y wlad yn rhwydau hwy ledent;  
Duon gymylau yn dorchau dyrchent;  
Uwch y gwyr barus, rhwyfus, yr hofient;  
Ingoedd angau o'u holltau dywalltent,  
Ac yn eu gwydd eu gwaeon gyhoeddent—  
Mae'n anufuddion mewn ewyn fyddent!  
Hwythau a anobeithient,—O! alaeth,  
Yn eu hārgyllaeth pob gwawr a gollent!

Boddwyd annuwiaid beiddig,  
Yn nghelloedd dyfnderoedd dig;  
Dyryswyd erch andraswyr,  
Gwnaed argae er gwae i'r gwyr:  
Ceisient Dduw tra diluw yn dod! O! wedd,  
Hwy yn eu gwarthedd—nef yn eu gwrthod!

Addoli Duw ddylai dyn,  
Yn ei wydd *cyn* anoddyn.

Gwenai'r don—ymlonai,—o'r dinystr  
A'i daeniad ymloewai;  
E lonai 'i threm lanw a thrai—  
Hyd ei wal mor dawelai.

A'i bwynt i uchel bentir,  
Arch Duw a gyrchai i dir,  
Yn feinir yn ei fonwes:—  
Unig lwyth yr enwog li',—nef-gyfrwng,  
Ac un oedd deilwng o deg nawdd dyli'.

Noa, yn ei fyd newydd,  
 Roe gan, a gororian rydd ;  
 E ddaliai'n wir addolydd,  
 Arwr hen a pherehen ffydd.

Ion o'i rad, arwyddlun roes,  
 Rhag dylif, rhwyg a duloes :—

Arweinfaf o wae yr henfyd,—*Enfys*,  
 Yn hanfod newyddfyd ;  
 Dofydd a'i deil rhwng deufyd,  
 Byth mwy yn fodrwy i fyd.

Sidanlen uwchben y byd,—a weuir  
 Gan yr huan ceinbryd ;  
 Deg liwiau ! Gemau i gyd,  
 O faelfa (\*) y nefolfyd.

Hardd goron ! Urdd y gweryd,—ac araul  
 Wisg oreu'r cyfanfyd ;  
 Er cof a chysur cyfyd,  
 A saif yn ben safon byd.

Yn y twrf fu'n enyn ton  
 I fudaw ar ynfydion,  
 Yr eigion oll dryrwygwyd.

Dringai 'i donau gribau creigiau,  
 Aent i fryniau ar hynt freiniol ;  
 Ar gopäau ban mynyddau,  
 Y bu rhydau bär rhuadol.

Cynhyrfiadau y dyfnderau,  
 Crogesgeiriau creig ysgarent ;  
 Braslawn haenau daiarlenau,  
 Euraelodau gydorledent.



Oni welir unoliaeth,  
 A llaw Ner drwy'r oll a wnaeth ?  
 Yn araul hyn a wirir,  
 O wely ton hyd ael tir.

Uchel gopa Himalaya,  
 Gywir goda i Gaergwdion—  
 Adlewyrcha y gorddyfndra,  
 Lle y nofia gorlli' neifion.

Aml lanerchau a choedwigau,  
 Is y tonau sy'n estynol ;  
 Gwastadeddau, llawatydd, creigiau,  
 Dolydd, bryniau diludd, breiniol.

Creigogofau, uchel drumau,  
 Ac ynysau elgain oesol ;  
 Ffynonellau, aberigau,  
 Ac afonau teg, cyfunol.

Eu hagweddau, eu sylweddau,  
 A'u hadnoddau adnewyddol—  
 Oll ddatganant gyfatebiant,  
 O ged lesiant yn gydleisiol.

Ar hyd y mor, rhadau mwy  
 A ledir yn weladwy.

Eginau rhywiog haenydd,—ymffurflant  
 Yn grugiant i greigydd ;  
 Fry y dont rhyw foreu dydd,  
 Ar ei ael yn orielydd.

Tiroedd uwch mor gymoedd gant,  
 Aneisor a gynwysant ;

Ni wael hepia *Polypus*, (9)  
 Gweithydd yw o ryw di rus :  
 Eneidwaith anian ydynt  
 Edyl (10) hwn, a di ail ynt ;  
 Eu gofeb o'r don gyfyd  
 O'i ol yn anfarwol fyd.

Cyfyd y prid byramidiau,—fri dyn  
 I fro deg cymylau ;  
 Ond er uched y drychau,  
 Selia y bedd sail eu bau.

Truan yw, a gwyw y gwel  
 Ei gawraf waith wrth gwrel (11).

Y gwymon (12) gwyd o gymau—a glynoedd  
 Gleiniawg y dyfnderau ;  
 Dyluniwyd y dalenau  
 Yn wely pysg—plu i'w pau.

Yn *fôr* y saif niferiant—y bodau  
 Bywydus drywibiant  
 Drwch y môr—mor dra-chwim ânt !  
 Yn eu hafiaeth y nofiant.

E geidw y pysgodyn  
 Ei wastad fantoliad tyn ;  
 Ei aden lefn a leda,  
 Ar draws ton heb or drwst â.

Eònnfy, drwy nerth ei gynffon,—o wg  
 A golwg ei alon ;  
 Rhygilia i argelion  
 Pellaf a dyfnaf y don.

Y *peredinea* (13) pur, daenant—eu rhiniau,  
 I'r wyneb y dyrchant ;  
 Yna ar faith ymdaith ânt—  
 Yn lleufer i don llifant.

O giliau llad gwely llydan—y mor  
 Ca myrdd o bysg gyfran ;  
 A thröa *mammaria* (14) man  
 Yn foeth i *Leviathan* !

Eang wawlbau angelbysg (15)—yw y dòn,  
 A gwawr dydd i hedbysg (16) ;  
 Unionbau y breninbysg (17),  
 A'r orau bau i'r aur bysg (18).

Hwy a luniant oleuni—  
 Pefrant, a llathrant y lli'.

Y morfil, i'w chwim yrfa,  
 Drwy y don ar d'rawiad â :—

Brenin yr holl lu breiniol,—a rhiawdr  
 Yr eang fyd dyfrol ;  
 Ei anadl broch enynol,  
 Edy hydr (19) reiydr o'i ol.

Ei wyliaw a wna ei alon,—i'w rwth  
 Frathu â thryferon ;  
 E geir brad yn gur i'w bron,  
 Rhag anffawd o'i gre' gynffon

O filionyn (20) hyd forfilyn,  
 Hedd diderfyn ddyd y dyrfa—  
 Boed yn doraeth o gynysgaeth,  
 Ac yn afaeth gan Jehofa.

Hael yw anian mor i'w lènnydd,—ar li',  
 Ceir arlwyad beunydd,  
 Sy' i ddyn yn oesddeunydd :—  
 Ei loniant a'i borthiant bydd :

A dyn a ferchyg donau,  
 I òror bell yr oer bau ;  
 A ar daith i gyrau dê,  
 A'i diriad yw bro dwyre :  
 Egyr llaw y gorllewin  
 Draw, i'w hael roesaw a'i rhin.

Hyd gwylltdon y dyd gelltem <sup>(21)</sup>,  
 Ac hardda wawr y gwyrdd em <sup>(22)</sup> ;  
 Neu *opal* i gynal gwerth  
 Rhodfa y rhian brydfferth :  
 I'n goror y dwg eurem <sup>(23)</sup>,  
 Yn ged rhydd garned <sup>(24)</sup> deg em :  
 Yn addurn bron i lon lys,  
 Iasper a wna yn hyspys ;  
 I ryddid dwg y rhuddem <sup>(25)</sup>,  
 A brawf ei hun yn brif em :  
 Trosa aur—pob trysorau,  
 Ni waeth beth i'r noetha' bau.

Ni lysir i balasau—ogonedd  
 Holl geinion y perlau—  
 O gylchon encilion cau  
 Y cregin—tlyision creigiau.

I gyrau cudd ymsudda—yn ddewrwedd,  
 O fewn y dyfnedd ef nid ofna ;  
 Uwch gwaneg yn deg dyga—gaffaelion,  
 A mir gyfrinion môr gyfrana !

Ys haeddgloed yw ei suddglych,  
Ar for lawr mae yn gawr gwyoh.

Er y mawr ddewrder, pa ddyn  
A yr yn ol y moryn ?

*Ganut* (26), tra ton yn gwenu,  
Ar y rhwysg a heriai 'i rhu—

Honai eang freniniaeth,  
Yn aer i dir a mor daeth.

Yn arwr llawn, heriai'r llif—a'i ewyn,  
Yn hwy rhag dilyn a rhwyg a dylif.

(Hyn e wnai yn uniawn wr,  
Nid o fryd a gwyd gwawdiwr ;  
Ond i wrido dirieidwyr—  
Rhoddi gwarth ar wedd y gwyr,  
Ban folent ef, ben filwr,  
Yn lle Duw y diball dwr.)

Y mor ddirymai 'i arawd !  
Codai, a rhwyfai i'w rawd.

Ion yn unig adwaena,  
I'w foddio Ef ufuddha.

Ei greigiau oesol ynt y gwregysion,  
A roes gylch ogyrch y berw groch eigion ;  
E dyr o fewn ei eang derfynion,  
Aml rwyfus, ddinystrus alanatron !  
I ddofi rhwysg ei frwysg fron,—darparwyd,  
Yn dyn y muriwyd ei donau mawrion.

Duw weda drwy dywodyn—wrth y don,

Er nerth, dig, ac ewyn—

*Arafa yn dy arofynd,—yma*

*Fe geir i'th yrfa yref gaer a therfyn.*

Yna, mawr rym y mor ruthr,

Yrir yn ol yn aruthr !

O mor wylaidd y mae yn ymrolio !

Ei gilwg o'r golwg sy'n ymgilio ;

Ai llonydd yw'r deunydd geir o dano ?

A ydyw i'w sail yn llad yswilio ?

A ddychwel i'r gad ? A yw'n ymado ?

Ei wawr aflonydd sy mwy ar flino ;

O na ? Adrua ar ffrwst drwst drosto !

A dyrydd erch alarm, hellgarm, wallgo' !

Pery ei soriant tra yn prysuro

I rwygo'r gadarn graig a'i hergydio ;

Hithau a welir yn ei ddoeth wyllo ;

A dymchwel a'i mawrgorn ei orn arno !

Ar led y mae'n gorlidio—mewn siomiant,

A'i ran yw methiant, er iawn ymwthio !

## R H A N I V.

---

---

Y mor yn gyfartalydd a chymedrolydd hinsoddau—Yn orphwysyr  
i'r awyr—Halltrwydd y mor yn amlygiad o ddoethineb y Cre-  
awdwr—Ffeithiau athronyddol—Cyfaddasder y don at bob ffurf  
o lestri—Y bad—Yr hwyl-long—Yr agerdd-long—Y nofiedydd  
Mor-adar amrywiaethol—Cregynos a charegos—Y mor yn  
ddrych i'r ffurfafen—Dylanwad yr haul a'r lloer—Trai a llanw  
Gordreiad a gorlanwad—Manteision ysgogiad parhaus y mor—  
Y cread yn ysgogi wrth ewyllys yr Anfeidrol.

---

---

CYMEDROLA, cyfartala,  
A nawseiddia'r mor hinsoddion ;  
A gorphwysyr yw i'r awyr,  
A rheolwr i'r awelon.

Ffrydiau croewon afonydd,  
Ant ar ei ael ar hynt rydd ;  
A'i donau, er gwenau gant,  
Yn odiaeth ddisychedant.

Gorledaeniad ar lad li',  
O ddoethineb & ddaeth i ni ;  
A doniau pur Duw ein pen,  
Orhulir ar yr halen.

Golchai y mor amgylchion—ei gain draeth,  
Gan drethu 'i ddyferion—  
I lenwi dyli' ei don—uchelgri,  
O hydrwm heli hyd yr ymylon.

Mae heli 'n peri puredd,  
Rhana i for y rhin fedd.

Dir y mor a fawr drymhâ,—ond ei faint  
Nid yw fwy, a muda  
Yn rhwydd ; ac ni orchwydda :  
Moli Ner am heli wna.

Daiar lwys heb ei bwysedd,  
Wamalai—siglai ei sedd ;  
A rhwyfai drwy bedryfan,  
Orwlawogydd beunydd ban.

Caed ysgafndid yn y trymdid !  
Yna hwyliid ewyn heli ;  
Mae doethineb mewn halltineb,  
A rhwyddineb ddyrydd ini.

Ysgafnlong a gais gefnlif,  
Y drom long dramwya lif.

Nawf y ferlong, nofia hirlong,  
Neu lydanlong led ewynli' ;  
I agerddlong, ac i hwrddlong,  
Mal i hwyl-long, mael yw heli !

Y lasdon rydd sydd yn sarn <sup>(27)</sup>,  
I'r hoew-wedd lestri haiarn !

Rhyw ferdaith ger arfordir,  
Yw rhan bad—nid hwyliad hir.

Yr hwyl-long deithia for heli,—ac â  
O gylch y cyfanli'—  
Er ei ru croch a'i frochi :  
Eithr araf, araf yw hi.



Agerddlong, aeres y gwyrddli',—nofia

Mewn nwyfiant uchelfri ;—

Brenines, llywies y lli' :

Y don ymgryma dani.

Rhocha, gan daenu gwreichion—yn ei rhawd—

Aredda ddyfnderon ;

A threcha ruthr a throchion

Ffyrnig, berw dig y don.

Hwylia er aml gerth elyn,—er i wynt

Roi ei waedd anhydyn ;

Ymwria drwy y moryn

I'w chartre', a'i morle myn.

Nofiedydd & gwen fuda,

Ar rudd y don rwydded & !

O'i breswyl, bore brysia,—ar y lan

Ys dyddan eistedda ;

Ei wisg a ymddiosga—mewn hin deg,

Yna is gwaneg yn hyf disgyna.

Cyfyd heb fraw—draw e' drydd

Yn rhwyddaf don-orweddydd !

Ar ei gefn am orig &,

Ar ewyn y chwareua !

Yr alarch gar for heli,—ei esgyll

A wisgant fawrhydi ;

Yn ei anian a'i yni,

Ail i long yr hwylia li'.

Penaeth gwâr adar ydyw,  
Un o drem ymherawdr yw.

Eurfro i wanc y forfran <sup>(28)</sup>—yw y don,  
A dêniad i wylan <sup>(29)</sup> ;  
A mawr lwydd ddyry mor lan,  
I lygaid y *Pelican*.

Yr eryr <sup>(30)</sup>, brochyn <sup>(31)</sup>, a'r aran <sup>(32)</sup>,—wyliant  
Hyd ael y forgeulan ;  
Eu gofryd sydd am gyfran,  
Fel paledn <sup>(33)</sup> ac edn a gân.

Y fôrwenol fir, heinif,  
Fwyn gusana—lona lif ;  
Ar awel rhy ei hewin,  
Hogi mai ei phig ei mân !

Mir aden y môrhedydd,  
A chwery yn y chwa rydd ;  
Hoen ei ddawn ddihuna ddydd,  
Rhy loniant i fôr lènydd :  
O urddawg wedd ! Tlws fardd gwawr,—yn rhoddi  
Ar aelïau heli ber eilwy hwylwawr !

Yr adar a hedant—hyd asur dran,  
Dieisor drem daflant ;  
Uwch y don orwyched ant !  
A'r awel y chwareuant !

Cregynos <sup>(34)</sup>, caregos <sup>(35)</sup> ger y creigiau,  
Ynt emau arlathrog y mor-lethrau ;  
Mor hawdd y denant y myrdd o dônau  
I ryson am swynion eu cusanau !

Rhoed heli'n rhad dewlen—o fyw ariant,  
 Hyd wydr-for disgywen ;  
 Mae'n ddryeh a llewych llawen,  
 A llona wawr llu y nen.

Ar y dòn mae arwr dydd,  
 Yn araul gyniweirydd.

Sylla'n geinwedd  
 Ar ei llithrwedd er ei llathru ;  
 Mae ei ardeb  
 Yn ei gwyneb teg yn gwenu :  
 Hithau wena,  
 A gwâr una <sup>(36)</sup> yn goronog  
 Ag hudolion  
 Ei rodfäon euradfywiog.

Gwena'r lleuad,  
 Dyry ddeniad i werddonau ;  
 Ond i lasdon  
 Mae ei swynion yn emseiniau !  
 Gwrendy'r suad,  
 Gwela'r tremiad, gwylia'r tramwy ;  
 Dyry droad <sup>(37)</sup>  
 Mwy i'w rodiad cymeradwy.

Diddan lywies dyddiol—yw y lleuad,  
 A llewyrch claer nosol ;  
 Trwy ei deniad trydanol,  
 Mae'r tònau'n chwara'u'n ei chol.

Rhoi ei araul wawr, eirian,—wna yr haul—  
 Rheolyr pedryfan—  
 A'r mir loer, drwy'r mor i'w lan,  
 Er llenwi gorlli' <sup>(38)</sup> anian.

**Nerth i dòn yw ei gwrthdysiad,—o'r llanw  
A'r llif i'w ordreiad (39) ;  
A daw o'i ymneilldud,  
Eto er llwydd i'n tir llad.**

**Rhoi i for iawn arferiant—yw eu bryd,  
Yn iechyd rhag nychiant ;  
Bas gwgai heb ysgogiant,  
Glefydon a gwaeon gant.**

**Llygredd a gorhyll hagruch  
Ymledent, dreiddient yn drwch—  
Ar a thrwy wyrdd fôr—a thros  
Bryd anian deu braw dunos ;  
A gwelwlas wawr erch gawr gwyll,  
Mwy'n taraw tremyn teryll !  
Ond y dòn neidia i daith,  
A deil o' grafanc dylaith (40).**

**Wele'r haul, hwylia i'w rod,  
Yn deithydd—purydd parod ;—  
Wele'r lloer fwyn wylia'r llu  
Arianaidd sy'n serenu :  
Wele ar led blanedon,  
Ar wych daith goruwch y don :  
Hanfodau heinif ydynt,  
Oll ar heulog, hwyliog lrynt :  
Yni ac egni a gânt,  
Eu bodaeth yw bywydiant ;  
A'u mudydd yw'r Ysbryd Mawr,—Creawdydd,  
A Phen Reolydd pob ffun (41) areulwawr.**

## R H A N V.

---

---

Yr awel—Llong yn cychwyn i'w thaith—Ei gobeithion—Y trobwl  
—Mor-dymhestl a'i difrod—Y MABLSTROM—Dideimladrwydd  
y Mor—Helbulon bywyd a sicrwydd marwolaeth—Dyfodiant  
y da a'r drwg.

---

---

Yr awel una'n rhywiog,  
A'r berw lif—rhy bur log.

Chwery orwech arwyrain,—a dena  
Y don i sionc lemain ;  
Dawnsia i rin ei dēnsain,  
Angelbysg ac hedbysg cain.

Anadl y môr a'i yni,  
Yw ei chwyfiad hoenfad hi.

Y morwyr sy'n ymeiriawl  
Am ei gwēn—dyma eu gwawl ;  
Nwyf y chwa a nawf o'i chol,  
Yw eu rhad angenrheidiol :  
A chyfyd bywyd uwch ben,—a gwynfyd,  
Yn dyner heulbryd a dawn ar hwylbren.

Hi gluda gyfoeth gwledydd—yn ei chol,  
Lleda'i chwim adenydd ;  
Ar y don mae'n ordaenydd,  
A'i dawn yn rhadlawn a rydd.

Ond try o lwybr y tröwynt—goehela  
 Ddig chwaliad ysgythrwynt ;  
 Aml wr ganmolai ei hynt,  
 A rwydwyd gan ruadwynt !

A ! dacw hoewlong—y deca' welir,  
 Ei hwyliau addwyn i'r chwafwyn chwyfir ;  
 A ymaith i fawrdaith o'r arfordir ;  
 Pob mwyniannau yn ddiau addawir :  
 Ai diball deil hyd bell dir?—ei rhwyfon  
 Ryllai y wendon hyd orllewindir.

Nawf, gan hollti nwyf a gwŷn y wyllt-don ;  
 Hulia hynt eurawg ei hael anturion  
 Fawr lwydd, ail i ddedwydd freuddwydion,  
 Heb ataliad neu frad i'w hyfrydion :  
 Ond hwyliaw y mae at alon—y fro gaeth,  
 A thry'n warogaeth i orn yr eigion !

Taenir llen hyd wybrenau—  
 Dunos oer sy'n dyneshau ;  
 E guddir ser gan gaddug,  
 A'r wen loer ni rhy' wan lug !  
 Bro asur dry'n gur i gyd,  
 A gofar y don gyfyd.

Uchelwynt a chorwynt sy'n ymchwerwi,—  
 Diasped nef mae crochlef y crychli' ;  
 Y rhyw oreuddawn ydyw'r wir weddi,  
 A ddyrech yn nghydfloedd cannoedd mewn cyni :  
 Heb wawr llwydd rhag bâr y lli',—didraethiad  
 Ydyw yr uniad o'i mawr drueni !

Y mellt sydd yn ymwylltiaw,—tarenir—

· Twrw anian sy'n deffraw ;

I atal yr ysgytiaw,

Pa rin ? Pa ddewin ? Pwy ddaw ?

O frawdwrst yr ymfrwydraw !—y weilgi

Sy ddialgar drwyddaw ;

Ei ddig sy'n adffyrnigaw,

A dinystr ar ddinystr a ddaw !

Obaith ! Paham ai heibiau

I'r brad ? Gwel ei dreimiad draw !

A fyn y gwrdd elfenau,

Am y gwyr a'r llong ymgau ?

Y tonau ruant danynt,

· Ac angau sy'n gwau'n y gwynt ;

Ymagor y mae eigion,

Gan daraw ei fraw i fron :

Yn mhlygion ei drochion draw,—â threm ddig—

Y mae yn addig mwy yn eu huddaw !

Erchyll boen, archoll i bau,

Yw'r agwedd traws y creigiau.

Yr eigion bar i wgu,—er i lad,

Glaer oleudy wenu !

Mae ing yn ymeangu ·

Ar y traeth, gan wasgar tru ! (42)

For ! Onid edifaru ?

Ai dy glod yw difrod du ?

Diamlwg oedd dy deimlad

At lane ir, a'i feinir fad :

d i'w hargoelion,  
wawr dyfnlawr dy dôn !

'fu yn mireinu—golwg  
ld wrth wenu ;  
mwy sy'n gwaelu  
bedd, lleithfedd llu.

'r fam yn irad (43),  
er tyner y tad ;  
ldi, dy ferw guddiawdd  
an egwan, dinawdd !

wr rhyw fawr niferi,  
lwrff yn dy dwrf di ;  
oet pan yn boddi  
wr yn dy lwydwawr li' :  
lit anaele  
gion dy grychdon gre' !

aif yn gilwg syn,  
wyr draffwnc trôlyn (44).

ydyw ymwriad—y don,  
g wrthffrydiad (45) ;  
ymosodiad  
iw—troes yn frad !

ad a ffrwydriad ffrom,  
stryw y *Maelstrom* (46)—  
ni allu troellawl,  
yna, hona yn hawl—  
n gwŷn y don,—aneilydd  
nydd, ac aml lengau dynion !



Proffir o hyd mai pryfyn  
Ber ei daith, llawn bâr yw dyn.

Daw i'r byd—dir yw ei boen,  
A gwir yw ing mewn gorhoen!  
Un ai ar dòn neu ar dir,  
Ei arwyl brudd a wirir:  
Ef a o wydd dedwyddwch,  
Yn drist ei wawr, lawr i lwch:  
Niferi ynt yn feirwon,  
A'u hamdo yw dyfrdo y dòn!

Gemau Ior—nef-drysorau,—a huliant  
Waelod y dyfnderau;  
O'r farw-wedd ar eurforau,  
Codant uwch cur i bur hau.

Llunia Ion eu holion hwy,  
Yn oludoedd gweladwy;  
Hwy ddeuant i ddiddiwedd  
Wynfyd, nef-fywyd o fedd.

Rhinwedd yw'r fan gorona,  
A'i hedd yw diwedd y da;  
Ond yr annuw, dirinwedd,  
Ai nid i farn daw o fedd?

## R H A N VI.

---

Y Mor yn parhau i drosglwyddo darbodion—Tyrus a Sidon—Din-  
asoedd a Phorthladdoedd—Dyn yn gwasgaru cynyrchion—Ei  
Anturiaethau—Y Compawd—Trafnidaeth—VASCO DI GAMA—  
COLUMBUS—Amerig—Y Gastfasnach—Gobeithion y Negro—  
Dialedd Duw ar drachwant dyn—Rhyddid—Unigedd y don—  
MAGALHBINS—ANSON—DRAKE, &c.—COOK—Y mor yn sym-  
bylu y deall—Yn ffurfio nodweddion cenedloedd—Yn dirgym-  
hell undeb—Yn hyrwyddo gwareiddiaeth a Christionogaeth—  
Crist ar y mor—Ei genadaeth—Ymnerthu ynddo—Y fraint o  
ymddiried yn Nuw—Molawd.

---

Er y difrod, e ddyry y dyfroedd,  
I bawb eu porthiant—llwydd i bob parthoedd :  
I liniaru ing y glania rhengoedd  
O longau lenwad o lad oludoedd :  
Ni luddir i borthladdoedd—gynyrchion—  
Oreu gynwysion eurawg ynysydd.

I *Dyrus* caed byd araul  
Trwy y môr, megis trem haul.

Llewyrch yn llathru lluoedd  
Yn *Sidon*, y wendon oedd.

Dynesu wna dinasoedd—at ei glàn,  
Teg lunir llongfäoedd ;  
Maent oll yn fad farchnadoedd—i feithrin  
Dyriniau iesin drwy deyrnasoedd.

Llaw dyn sydd yn lledaenu  
Ceinion, ac arlwyon lu ;

Hwylia yn nawdd awelon,  
 Ail i dir gwna ael y dòn :  
 E dry ei ffwyl (47) draw i ffawd (48)—a'i fordaith  
 Dry yn gampwaith gyda rhin ei gompawd.

Trefn ydyw ein Trafnidaeth,  
 I wneud er gwell—nid er gwaeth.

Yn fawr ei boen e fu'r byd—heb wên nef,  
 O dan ei ochlef yn dèn a nychlyd.

Drwy daith a gemwaith *Gama* (49),  
 Byth y deil y "GOBAITH DA" :  
 Llauer drych, dry'n llewych llon,—ymleda  
 O radau India ar hyd y wendon.

Aeth *Columbus* (50) ddi rus, a'i ddewr weision,  
 Ar air Ior i agor pyrth yr eigion ;  
 I lawer tir dygir mwy na digon,  
 O gyrau a llawnder gorllewindon :  
 Drws araul i drysorion—agorwyd,  
 Diau e ledwyd byd i dylodion !

Amerig yw tud ymfudiad,—gwlad lawn,  
 Gwlad o les diymwad ;  
 Huan llwydd a'i wenau llad,  
 Geir yno yn goroniad.

Ond grudd ei thòn a ruddwyd,  
 O'i rhu gwaedd y Negro \* gwyd ;  
 E drechwyd llu gan drachwant,  
 Er bloedd truanwr a'i blant :

\* Yr oedd y Rhyfel Americaidd heb derfynu pan gyfansoddwyd yr awdl hon.

Duw a arbed y dirboen,  
 A daw gras i'r dŷ ei groen.  
 Rhwygwyd dawn Affrigiad du,  
 Yn lle ei fad, lad ledu !  
 Ond Ior a fynai daraw  
 Arch dreiswyr, brochwyr, & braw.

Rhyw lid tost yw mawr lid Duw,  
 Ar enaid du yr annuw !

Na foed môr yn wynfyd mwy,  
 I gludwyr gwae gweladwy.

Boed i brid Ryddid hyrwyddiant,—taened  
 Pob ton ei gorfoliant ;  
 Rhydd radau i gyrau gant,  
 A daw ffun o'i diffyniant.

Hir gwynodd llawer gwaneg,  
 Heb gydymaith ar daith deg.

Gwylaidd moriai *Magalhen*,—er gweled  
 Mawr gylch y ddaiaren ;  
 Dygiad y bwriad i ben,  
 Wnai y lluoedd yn llawen.

*Anson, Drake, Byron*—unbwriad—*Wallis*,  
 Hwylent, a *Charterad* ;  
 Cawn o fudd eu canfyddiad,  
 Drysorau a moethau mad.

O'r diwedd, *Cook* ford<sup>y</sup>wai,  
 A rhoddaï drem hir, ddidrai ;  
 Wedi'r daith hyd wâr y don,—y penaeth  
 A diriai dalaeth y gwrthdraedolion.

Agorodd ffordd i gyrffai  
 Dirgelaf, pellaf eu pau;  
 Ef fu'n deg ragredegydd,  
 Ac ar don agorai dydd.

Daiaryddiaeth a seryddiaeth,  
 A mesuriaeth mwy sy eurwawr;  
 Rhoed i gelfau a gwyddorau,  
 Egniadau teg, eneidwawr.

Mae y môr yn agorydd—i ddeall,  
 Ac yn dda nodweddydd;  
 Ei wych ran drwy fasnach rydd,  
 A ry' genedl ar gynydd.

Eglured, dywed su ei don,—wrth bawb  
 Am werth byd heddychlon!  
 Diball lif, hyd bellafion,  
 O elwch yw heddwch hon.

Ei gwedd gu a bardduwyd,  
 Dyna a wna doniau nwyd;  
 Rhoddi hoen i boen di baid,  
 Sy deilwng foes dialiaid!  
 Rhoi noddaeth i orn addig  
 Ar don, dry'n chwerwder dig.

A ddaw i ddynion fyth wir ddyddanwch?  
 A geir arwyddion a gwawr er heddwch?  
 Difrodaeth ac Alaeth, ymaith ciliwch  
 I'r fro anwar—i ddaear na ddeuwch:  
 Ar don nac ymddigonwch:—erch ingoedd,  
 A gwae ar filoedd, chwi a'u gorfolwch!

Na foed cam rhyw *Alabama*,—yn dyst  
 O doster llastra;  
 Heddwch! Yr heddwch barhâ—ry' lwyddiant,  
 A gwiria foliant—nid dig ryfela.

Undeb ydyw llef y wendon,—undeb  
 Drwy bob rhandir weithion;  
 Porthi dig rhwng pyrth y dôn!  
 O gywilydd i galon!

Hyrwyddo mae Gwareiddiaeth,—yn nwylaw  
 Anhalog trafidaeth—  
 Nefol log Cristionogaeth:  
 Ei rhin i ddyn yn rhan ddaeth.

Hir y bu gwên a gwawr ar baganiaeth;  
 Yn fawr y gwelwyd dygn ofergoeliaeth;  
 E yrai Duw yn monwes mordwyaeth,  
 Gysuron y dirion Iachawdwriaeth:  
 I lwch mewn gwyllwch yn gaeth,—uwch gwall trwch,  
 Y deuai elwch yn lle du alaeth.

Pan rodiai'n Pen Waredydd,  
 Ar y dôn foreu y dydd—  
 Cysegru mad Genadaeth,  
 Yn fawr nod i for E wnaeth.

Ef yw'r llad Nef Genadwr,  
 I druan caeth daeth yn Dwr.

Y mae yn werth ymnerthu,  
 Yn nawn rhad y Ceidwad cu;  
 Y dylif ef dawela,  
 Ystig wynt yn osteg â,

Neu foroedd pan lefara,  
A thymhestl yn ddestl ydd â.

Yn fur y caed drwy For Coch,—law gref Rhi,  
Er ys eðfngri ymlidwyr safngroch ;  
Hyf alon, er yn filoedd,—âg erch fraw,  
Ef fynai daraw yn y dyfnderoedd.

Ceisiwn fraich—cadarnfraich Duw,  
Ag erddom boed y Gwir-Dduw ;  
O fewn ei ddwrn <sup>(51)</sup> Ef fyn ddal,  
Eneidiau dianwadal :  
Gall gau pob môr â dorau ;  
Er i fôr fawr ymgryfhau—  
Er rhuad a llanwad llif—  
Ein dal wna'n uwch na dylif :  
Glaniwn draw, heb fraw i fron,—yn llaw Gras,  
Uwchlaw galanas a chlwy' gelynon.

---

Y Môr, wrth ddygyfor, gân  
I'w Riawdr bur orofian ;  
Cân y gwynt hyd hynt ar don,  
Fawr lu o for-alawon :  
Ac anian oll sy'n gwenu—  
Nef-drydan yw'r gydgan gu.

O Ddyn ! Deffroed dy ddoniau,—dy orchwyl  
Fo dyrchu mawlganau—  
I Ior y nen, Pen pob pau ;—gwel ei rad,  
Drwy gu roddiad o drugareddau.

I Lyw y môr boed mawl mwy,—am doraeth  
O wiwnef afiaeth a gwenau fwyfwy.

---

## EGLURIDA U.

---

- (1.) Gofwyo, *to send.*
- (2.) Gwâl, gwely. "Yr ail iaith yw'r un a gafas y Prophwyd Moesen, ag a fu gantho ef yn troi'r Mor Coch yn ei ol, onid oedd ei wâl yn dir sych."—*Cyfrinach Beirdd Ynys Prydain*, t. d. 29.
- (3.) Tran, *a space.*
- (4.) Myr, *plural of môr.*
- (5.) "Dyfynder a eilw ar ddyfynder."
- (6.) Gweryd, *figurative of grave, or resting-place of the dead.* Beddrod.
- (7.) Gorwÿn, *lustful.* From gwÿn, *lust*, and the prefix gor, *signifying extreme, very, high, over.*
- (8.) Maelfa, *a mart.*
- (9.) Polypus, *a small sea animal that forms the coral islands.*
- (10.) Edyl, *plural of adail.*
- (11.) Owrel, *coral.*
- (12.) Gwymon, *seaweed.*
- (13 & 14.) *Perodinea—mammaria*, *luminiferous animals.*
- (15.) The angel-fish; (16), the flying-fish; (17), the king fish; (18), the gold fish.
- (19.) Hydr, *powerful.*
- (20.) Milionyn, *animalculæ.*
- (21.) Diamond; (22), Emerald; (23), Topaz; (24), Garnet; (25), Ruby.
- (26.) *Canute neu Cnute*, brenin cyntaf Lloegr, o linach y Daniaid. Rhodiai ar for-draeth *Southampton*, un diwrnod, pan yr arfolid ef a'i orchestion gan ei wenieithwyr. Cymharent ef i Dduw ei hun. I'w hargyhoeddi o'u rhyfyg annuwiol a chabledus, eisteddodd y brenin ar gadair gerllaw y dwfr, a dywedodd, "For, yr ydwyf o fewn fy



llywodraeth, ac eiddof fi yw y tir ar ba un yr eisteddwyf. Gorchymynwyf i ti beidio dyfod yn mhellach, ac na ryfyga wlychu fy nhraed." Nesaodd y don fel arferol. Yna troes y brenin at ei wenieithwyr, ac a'u ceryddodd, gan ddywedyd wrthynt, mai i Frenin y nef yn unig yr ufuddha mor a thir ; ac mai Efe yn unig deilynga foliant.

- (27.) Sarn, *a way.*  
 (28.) Morfran, *the cormorant.*  
 (29.) Gwylan, *the sea gull.*  
 (30.) Eryr, y mor-eryr, *the albatross.*  
 (31.) Brochyn, *the petrel.*  
 (32.) Aran, *the crane.*  
 (33.) Paledn, *the puffin.*  
 (34.) Cregynos, *small shells.*  
 (35.) Caregos, *small pebbles.*  
 (36.) Solar tide ; (37), Lunar tide ; (38), High spring tide ; (39), Low neap tide.  
 (40.) Dylaith, *decay, death.*  
 (41.) Ffun, *life, vitality.*  
 (42.) Tru, *the root of the word trueni, misery.*  
 (43.) Irad, *piteous.*  
 (44.) Trolyn, trobwl, *whirlpool.*  
 (45.) Gwrthffrydiad, *cross-current.*  
 (46.) *Maelstrom*, trobwl enfawr ger arfordir Norway, a'r mwyaf barus o'r holl drobyllau.  
 (47.) Ffwyl, *misfortune.*  
 (48.) Ffawd, *fortune.*  
 (49.) *Vasco di Gama.* Llwyddodd i amgylchu Penrhyn Gobaith Da ; felly cafwyd ffordd newydd i'r India Ddwyreiniol.  
 (50.) *Columbus.* Credai iddo glywed llais anadnabyddus yn dweyd wrtho am fyned i chwilio am y byd gorllewinol.  
 (51.) " Ar gledr fy nwyllaw y'th argreffais."

# CYNWYSIAD.

---

|                         | <b>Tudal.</b> |
|-------------------------|---------------|
| <b>BHAGNODYN</b> .....  | <b>3</b>      |
| <b>DARLITH</b> .....    | <b>5</b>      |
| <b>AWDL</b> .....       | <b>27</b>     |
| <b>EGLUBIADAU</b> ..... | <b>62</b>     |

**Tudal. 32, yn lle " gwythenoedd " darllener gwythen oedd.**

AWDL,  
Y MOR,

A GEIRIAU

GWYL GWALIA.

GAN

JOHN CEIRIOG HUGHES.

“Un a drôdd yn fachgen drwg,  
Ar afon Caer o fewn cwrwg’.”

*Syr Meurig a'i cânt.*

TREFFYNNON:  
CYHOEDDWDYD GAN P. M. EVANS.

PRIS CHWE' CHEINIOG.



## NODYN I'M CYDFEIRDD.

---

GAN nas gallaf ddysgwyl ennill, yr wyf yn cyhoeddi fy Awdl Wryfol i'ch difyru ddydd yr Eisteddfod; ond pe ba'i yr anffawd nad wyf yn ddysgwyl yn dygwydd, gallaf brynu'r awdurfaint, a'i gwneyd drachefn yn eiddo y cyhoeddwr. Eisteddfod ddilwch i ni.

Yr eiddoch oll,

J. C. H.

*Llanidloes,*

*Awst 6ed, 1866.*

# Y MOR.

---

## Y RHAN GYNTAF.

BOREU OES AR Y MOR.

CYNNWYSLAD: Rhagarweiniad—Y Môr yn gariad cyntaf y bardd—chwareu mânlongau ar y nant—yn methu trin tir—damwain gyda'r wedd—suad môrgregyn yn ei glust—yn ymbil a'i deulu am fyned yn forwr—noson olaf yn yr hen gartref—ei fam yn ei ddeffro â chusanau a dagrau—yn cychwyn ymaith yn foreu—yn canfod, oddiar fynydd, y wawr yn tori, a'r haul yn codi o'r môr—digonolrwydd yr olygfa—yn myned i borthladd—yn cael lle—y cadben yn ei ddrwgdybio—yn codi angor—yn mwynhâu gyru ceffylau Gwenhudwy—gweled ei eifr, ei deirw, ei hyrddod, a'i fyheryn—niwl nos a thywyllwch hirfaith—yn hanner orphwylo gan ddymuniad o fod gartref—yr onglyr a'r cwmpas yn tawelu ei feddwl—y niwl yn cilio o flaen y gwynt—y môradar yn heidio oddiamgylch—y gwirion wyllifod—y ddybry—hucanod—mulfranod—gwyllanod—y goes goch—y fôrwydd a'r môrgreyr—ieir Modryb Carey, a heidiau aneirif o'r llwybig a'r adar troch. Y pyagod—morfil—môrgi—môrlo—yr hedbysgodyn—a'r *nautilus*. Marwolaeth a chladdedigaeath ar y môr—y cadben yn darllen y gwasanaeth angladdol—gollwng y corff i'r dyfnder—y faner Brydeinig—arwyddion dryghin—dynesiad a chynddeiriogrwydd yr ystorm—flydd yn y llong yn cryfhâu—newyn a sychéd—anoibaith yn darlunio hen gartref clyd rhwng mynyddau Cymru—y cadben yn canfod hwyl yn nesu—suddiad yr hen long, a'n hachubiaeth gan long estron—glanio mewn ynys—aros yno nes y deuai llestr Brydeinig—dychwel i Gymru, a throï eilwaith at yr hen alwedigaeth ar y môr.

CENAIſ i ruddiau ceinion—a gyrais  
 Gariad mewn pennillion;  
 Anwyl lais Myfanwy lon  
 Lanwodd fi âg englynion.

Er hyn i gyd nid rhian gain—a fu  
 Gyntaf yn fy arwain,  
 O dŷ fy nhad a fy nain,  
 I dirio yn mro 'r dwyrain.

Heb ludded am rai blwyddi  
 Ar faes serch hir fuais i;  
 Heb hidio maen, na gwybod mwy—na llwy bren  
 Am y feinwen elwid Myfanwy.\*

Cyn gweled hardded oedd hi—na gweled  
 Un “galon” i'w hoffi,  
 Y Wendon fu 'n gwirioni  
 Yn lân fy hen anian i.

O na, nid mun ond y Môr—ddyrysodd  
 Reswm a phob cynghor:  
 Anian i gyd unai 'n gôr,—ymhob man,  
 Gan gynghan, gynghan, “Môr, Llong, ac Angor.”

Gyda 'm cylllell, astellod  
 Yn y fan naddwn i fod  
 Yn gychod bychain gwachul,  
 A'u bwrw gaent i aber gul;

\* “Havonwy” roed yn lle “Myfanwy” yn nghopi'r gystadleuaeth.

I nofio yn eu nwyfiant  
 I fôr yn nês efo 'r nant :  
 Rhoi llafn o bren ar y llif,  
 Ei gynllwyn i'r gwÿn genllif ;  
 A' weled yn d'od eilwaith  
 Efo 'r dwfr i nofio 'r daith:—  
 Fel bardd yn ngafael y byd,  
 A buan dônau bywyd !

Iâ, caled iawn oedd cael deunyddiau,  
 I law ieuenged gael gwneyd mân longau ;  
 'R wy 'n cofio 'n burion helynt un borau,  
 A hyn fu chwerwedd penaf y chwaraeu,  
 Pan dorai 'm chwaer fach ddau o gadachau  
 Ein hewythr Rolant i wneuthur hwyliau.

Gwyliais yn bur ddigalon—y buchod,  
 Lloi bach, ac ebolion ;  
 Defaid a gwartheg dofion,  
 A geifr ar gaeau y fron.

Druan gŵr, nis medrwn gau—ar ochor  
 Y gwrychoedd a'r cloddiau :  
 Aethus son, mi fethais hau,  
 A ffaelais drin ceffylau.

Ar lechwedd, y wêdd un waith  
 A redodd i ddirieidwaith :  
 Diog os y'oh yn deall'd,  
 O'wn i gynt wrth esgyn gallt ;



A rywsut, fel mae 'resyn,  
 I lawr â'r hen drol i lyn:  
 A march drud ym mreichiau y drol,  
 Foddodd mewn dull rhyfeddol.

Yna dwy wâg fôr-gragen,  
 Wnaent ganu 'n mhobtu 'mhen :  
 Adsain dwys ewyn y dôn  
 Oedd yn nghiloedd fy nghalon.

Eis ar lw mai oes ar led,  
 Hyd angau, fyddai 'm tynged :  
 Yna llwyr fethodd fy llais,  
 Wylais, ac eis i weled

Am unwaith fy mam anwyl,—gan siarad  
 Am arosiad tra byr ym mhreswyl.

Pawb a'm gwelent,  
 Arnaf wenent,  
 Hwyl ni choelient na ddychwelwn :  
 Tri o ddyddiau  
 Ddaliai nwydau ;  
 Wedi 'r tridiau adre' troediwn :  
 'N falch o nôl calch ac eilchwyl,  
 I hau, fel llanc yn ei hwyl ;  
 At frywes ac i'r tresi,  
 Trwm yn ôl tramwywn i ;  
 Carwn, pan ganfyddwn Fôr,  
 Drymwaith ac nid gwlad dramor.

Yn y tŷ bu erfyn taer,  
 Uchel leferydd dwychwaer;  
 Brodyr o'm oyleh yn tyru,  
 Am ladd fy rhesymau lu;  
 Nain o chwith bron iawn o'i cho,  
 Modryb druan yn mwydro;  
 A 'nhad wnai eiddunedu,  
 Yn null tad draw o'r naill du:  
 Yna 'n wyllt awn innau 'n waeth,  
 Lluchiwn bob cyfeillachaeth  
 I'r dom oll,—r oedd rhaid i mi  
 Wneyd pen ar hyn—nid poeni.

Y noson olaf wnai nesu—im' fod  
     Efo mam fwyn langu:  
 Yn iach cael y breichiau cu,  
 Gynt a'm gwasgynt i gysgu!

Hi a'm gwyliodd i'm gwely—ac hunais,  
     Lle canwaith bu 'm lletŷ:  
 Ni hunais wedi hyny  
 Enyd awr yn yr hen dŷ.

Ar fy wyneb rhoed llaw i'm dadebru,  
 Yn y nos, pan oedd yr awr yn nesu;  
 'Ai gwael iechyd? Ai chwys oedd yn gwlychu?  
 Beth! mawr oedd y'm mhenbleth yn y manblu.  
 E dorwyd y pryderu—gan rudd wleib,  
 Yno ce's wyneb mam yn cusanu!

O'm gwlad deg, e'm gwelid i,  
Trannoeth yn troi o honi.

Wedi hir daith cyn tori dydd—siriol,  
Yn galon-wrol gwelwn y Werydd.

I dderbyn mwyniant oddiar ben mynydd,  
Brigwynion drochion welai 'r edrychydd;  
Lledai y gorwel ei ddyfrlyd gaerydd,  
Gwaneg ar waneg\* ddoent o'r wybrenydd;  
O danodd eilwaith 'r oedd duon ddolydd,  
Y nofiol anial mawrwyn, aflonydd,  
Yn codi bryniau ac yn ysgwyd bronnydd;  
Cerbydau 'r golau fflamiant trwy 'u gilydd,  
Myrdd o enfysau am wyrddion faesydd  
Wibiant a rhedant fel meddwl prydydd—  
Fyny e ddaeth afon ddydd,—wele wawl  
A'i dân awyrawl ar dòn y Werydd.

Yn dyrchu hyd yr huan,  
Gwél y dwfr mal goleu dân:  
Rhuddaur enfawr ddwyreinfyd  
Yn anferth goelcerth i gyd!

Acw o'm hol ymdrwsia 'r cymylau,  
Uwch âr a braenar ac ochr y bryniau:  
Gwisgant rosynod cochion a blodau,  
Hyd odreun eu llwydion ddilladau.

\* "The white surges of the distant horizon appeared rolling to meet us from the very sky."—*Hist. of Columbus.*

Dichon fod doethion a'r critig dithau,  
 Heb le i edrych ar byst-belydrau,  
 A gwawl lifeiriant y gloew forau,  
 Ddaw fyny dwyrain y gorddyfnderau ;  
 Tra 'r dòn yn bwrw sythion saethau—i'r nefoedd  
 I yru niwloedd aur yn eu holau !

Ni ŵyr boneddwyr ar obenyddiau,  
 Am y gain ddwyrain a'i gemog ddorau :  
 O na ddoi dynion i ŵydd gwyrdd-dònu  
 Draw er eu gweled yn rhaiadru 'r golau—  
 I wel'd camelion gwlad y cymylau,  
 A mawredd llewyrch y mil myrdd lliwiau !  
 Cain yw tir 'r wy 'n caniatâu—i'r llygaid,  
 Yr aig o f' enaid fawrhgaf innau !

Awydd am weled byd sydd ym miloedd,  
 Hyn ydyw 'r eisieu ar hyd yr oesoedd ;  
 Eisieu rhyfeddu sydd ar y lluoedd  
 Yn y morlanau a min ein mawr lynoedd :  
 Dyna osail chwareudai dinasoedd,  
 A da i lawer mil o deuluoedd,  
 I wneyd elw yn ardaloedd—pur awyr  
 Yw gwylio gofwywyr golygfäoedd.

Golwg a leinw galon—wna i dafod,  
 Ufudd floeddio "Digon,"  
 Yw trem haul trwy ymylon  
 Mawr y De yn flamio 'r dòn !

Da 'r adgofiaf hyd farw—yr amser,  
 Bu yr ymson hwnw,  
 A'r cèryg geirw—ger y wyllt dòn wèn,  
 Wnai fainc awen pan o'wn ifanc hoew.

O'r graig uwch ben yr eigion,  
 Eis i lawr yn isel un,  
 I ddinas, ac at ddynion  
 Oedd â'u dâ ar chŵydd y dòn.

Am ddyddiau bum yn ymddyddan—â gŵr,  
 Gariai mewn llong fechan,  
 I ynysig yn Asia  
 Nwyddau lu o Wynedd lân.

Mab yr aig roi im' bregeth  
 Gythruddodd, boenodd fi beth—  
 "Dywed i mi, ai dianc  
 O dy le yr ydwyd, lanc?  
 Ynte ar hynt 'r ol gwneyd drwg,  
 Mwrddrad neu drosedd mawrddrwg,  
 O Walia dir, dy wlad deg,  
 Yr ydwyt heddyw 'n rhedeg?"

Sut bynag, credodd fy "Nage;"  
 Eis i'w long a chefais le—  
 A lle *da*, gyda llai o dir  
 I'w weled, a mwy o ddyli'  
 Rhuadwy i foddio prydydd,  
 A'i si a'i dwrf nos a dydd.

Glew ddwyllaw at eu gilydd ddelynt—"Hoi  
 A Hoi!" o hyd floeddiynt:  
 A'r llong o'r tir ollyngynt,  
 Ymaith hi aeth i'w maith hynt.

Onid barddol cerdded byrddau—yn lle  
 Ffyrdd llaid a thomenau?  
 Nofio 'n hyf gan fwynhâu—awyr ddifwg,  
 A ffoi o olwg yr hen geffylau?

Gyru gwêdd ac âru gŵy—a gweithio 'n  
 Mysg hynodion cemmaes Gwenhudwy:

Gwel'd ar y deifr y geifr gwŷn,  
 A'i frig fwriog fyheryn?

Canfod ei hyrddod a'i deirw heirddion—aml,  
 Yn ymladd yn ddigllon,  
 Dych'mygu myllt gwyllt a gwâr,  
 A siarad â'r heusorion?

Mawr gesyg y Môr a geisiwn—yru,  
 Yn awr fel y mynwn,  
 I le pell, ond cynnal pwn—ar nenau  
 Y rhaffau ni orhoffwn.

Annelem i'r gwŷn niwloedd—a oeddynt  
 Yn huddo 'r dyfnderoedd:  
 A niwl â'i wyll o'n hol oedd,  
 Ar ddwyfron y gwyrdd ddyfroedd.

A thrwy 'n niwl chwimdeithiai 'r nos,  
 Daeth arnom g'yd a theirnos :  
 Oddigerth dwy dêr seren,  
 Nid oedd ond y gwyll di-wên.  
 I fy enaid gofynwn  
 Ai lle 'n y byd arall hwn !

Gwawl nis gwelaf mwy na gwynt—mewn magddu,  
 Ai ar wên Cymru yr wy 'n cau emrynt !  
 Ai byw yr ydwyf mewn bedd—neu dywell  
 Ddu ystafell y dwfn ddystawfedd !  
 Ai 'r Môr ynte bro 'r Marw—sydd mor ddiwawl  
 Y deall dynawl, a dwyllwyd hwnw !

Ond rhyw ôlwerthinog hogyn—yn foddus  
 Ganfyddodd fy nychryn ;  
 A pharodd i offeryn—dd'weyd gan ysgwyd,  
 “O dir Môn ydwyd awr a mynydyn.”

“Gwel yr onglyr, os wyt ddyrys,—edrych  
 Pa hydred yr ydys :  
 Cwyd dy galon wan, canys  
 Dyna 'r gogledd, medd fy mys !”

Uwch yr onglyr myfyriwn—y sirio!,  
 Ddwy seren annelwn,—  
 “Ac o Fanaw !” gofynwn  
 I'r hyf ffraeth fôr-offer hwn.

“Y gwirion wyrdd fab gweryd—bydd ddystaw,  
 O oror Manaw mae teirawr i'r mynyd !”

O fys hwn e gefais i  
 Wawl yn nghanawl fy nghyni,  
 A llawn sicrhâd am wlad lon  
 Oedd agos, a thai ddigon,  
 Lle nad oedd gwyll na dŵr—i'w hofni,  
 I wneyd drygioni i un trigianwr.

Wedi hir hwylio coda 'r awelon,  
 Fry o'u cysgfanau a'u cellau gwyllion;  
 Suant, sibrwdant, megys ysbrydion,  
 A fuent unwaith mewn gefyn tynion.  
 A'r dyrys nifwl oedd ôr-dros Neifion  
 Ar ddianc welir i'w ddu encilion.  
 Y wawr deg ruddeura 'r dôn—gan chwaraeu  
 Hyd holl frigau tywyllaf yr eigion.

Yn awr nis gwelir neb—yn ngŵydd dydd  
 Heb lawenydd yn bywioli 'i wyneb.

Yn rhydd trwy 'u gilydd yn gwau,  
 Gan ehedeg yn heidiau,  
 Myrdd o adar swyngar sydd  
 Yn awel diwrnod newydd:  
 Diofn y'nt a dofion iawn,  
 Ar wanegau 'r hen eigiawn.  
 I ben yr hwyllbren daw rhai  
 Bronwynion, dofion, difai,  
 Gan dd'wedyd:—"Gawn ni ddodi  
 Ar eich hardd long fawrwech chwi,  
 Ein traed cyn eto 'r hedwn,  
 Hyd y lleithfyd hyfryd hwn?"



Gwell na d'weyd yw *gwneyd* "gwnaf"—pwy mor atgas  
 Na wnai gymwynas i'r ednog manaf?  
 A phwy sydd na hoffa sain—ie hyd nôd  
 Gwirion wyllifod\* hygar yn llefain?"

I'r disiartr a'r digartre'  
 Ar hwyl llong hawdd rhoi lle.

Y ddybry† yn yr hardd wybren—estyn  
 Ei hystwyth ddwy aden,

Ac yn hyf mewn cragen wên,  
 Gafaela ei phîg felen.

Hwnt ar eu taith tua 'r tir,  
 Hucan ac wylan welir :  
 Duon fulfrain fordwyant,  
 Ar y chwith mewn bâr a chwant ;  
 Boreu-fwytânt bryfetach,  
 Glas wystrys a berdys bach :  
 Ac esgyn wna y goesgoch  
 Draw trwy haid o adar troch.

Ar y ddê mae morwÿdd wên  
 Yn llywio 'i hun yn llawen :  
 Hi a eistedd gan estyn  
 Ei gwddwf tâl mal y myn.

A'r môr-greyr yn mrig yr aig,  
 Ymboena draw am benwaig :

\* The foolish guillemot. † The Sea-hen.

Ymsudda ac ä i'r gwyn,  
 Hirdreiglog, ferwog foryn—  
 Pa le y mae? gwae'r creyr gwyllt,  
 Y gwirion dderyn gorwyllt!  
 Ond o'r môr a'i ddyfnder maith,  
 Wedi'i wala daw eilwaith:  
 Owyd ei ben i heulwen ha',  
 A'i ysgedyn ysgydw!

Llu a ä heibio o'r llwybig—wedi'n  
 Daw heidiau llydanbig;  
 Brysiant ac änt lle mae cig  
 Y 'sgedan yn besgedig:  
 Hed erbyn hyn haid hirbig,  
 A ymaith bob math o big.

Ac ieir yr hen Fodryb Carey,  
 A änt yn haid tu hwnt i ni.

O ddydd i ddydd yn ddedwydd iawn—hwyliwn  
 Ar heli mawr Neifiawn;  
 A rhi'r môr-adar gwiriawn,  
 A'n llai o hyd fel pellhawn.

Am hirfaith ddydd bu morfil  
 Agwrdd yn cyffwrdd ä'n cil:  
 Trwy yr aig ei gartre' rhydd,  
 Uthrol nofiannol fynydd,  
 Ag ofnadwy gefn ydoedd,  
 Efo safn Vesuvius oedd.

Mewn hirwyn ewyn o hyd,  
 Yn ein hol gwnai annelyd :  
 Yna doi ymlaen o dan  
 Ochor ein nwyddlong fechan ;  
 Yn dawel hyd ei wlad laith,  
 Yn ôl cychwynai eilwaith :  
 Ebai y dwfr, yn ddiboen,  
 Yn grych firwd o'i fawrgroch ffroen.

I'r morgi weithiau rhoem ergyd—daliem  
 Rai o deulu 'r pysgyd :  
 Môr-loi o amrywiol hŷd,  
 Safent o'n cwmpas hefyd.

E ysgydwai 'r hêd-bysgodyn,  
 Ei gryniadol fyr grwyn-edyn,  
 I ganlyn berw 'r gwynlif ;  
 Gan wichian, nid heb achos,  
 Heibio trwyn yr albatros.  
 Weithiau ymysg y pysgod,  
 Wed'yn e fyn yn edn fod !  
 Rhyfedd ! hanner aderyn—yn treiddio 'r  
 Awyr neu fôr—yr un a fyn !

Efo 'i rwyf yn fawr ei aidd,  
 Gwelem nautilus\* gwylaidd :

\* "Learn of the little nautilus to sail."—*Pope*. Y mae iddo wyth troed, pedwar o ba rai a ddefnyddia fel hwylbrenau, a'r pedwar eraill fel rhwyfau.—*Buffon*.

'Mysg pysgod un ôd ydyw,  
 Mal hwylgwch gwan bychan byw :  
 Hofran yr oedd yn hyfryd  
 A'i hŵyl fach ar heli fyd ;  
 Gwarwegiai dan ei greig-gefn,  
 A'i wyth troed mewn eitha' trefn.

Ar y bwrdd yr oedd gŵr â'i ben—yn dwyn  
 Blodau yr almonbren ;  
 Hen forwr oedd â'i farf hir, or-wèn—mal gwawr  
 Eiry Ionawr ar Gader Frynwen.

Dewr addfwyn fel derwyddfardd  
 Oedd efe,—mi oedd ei fardd ;  
 Ac ef, mal da 'r wy 'n cofiaw,  
 Yn y llong oedd y pen llaw :  
 Ond hwn yn ei henaint teg,  
 A hunodd ar y waneg,  
 Yr hŷn ryfeddfawr hono  
 A bery ing ymhob bro.

Am ei lân gorff rhoem lian gwŷn—dano,  
 Yn dyner, rhoem fyrddyn,  
 A rhoed i suddo 'r rhai hyn  
 Blwm a thrwm faen wrth rwymyn.

Ac fry ar led, yn hanner godedig,  
 Chwyfiai, ymdônai 'r faner Brydeinig ;  
 Hen "liw" anwyl yw hwnw—tafi ogonedd  
 A bri a mawredd tros y byw a'r marw.

Gwnai 'r Cadben ddarllen pennawd  
 O lyfr Iôr uwch ein gwelw frawd ;  
 D'wedai am y Duw ydoedd  
 Ar aig a thir—fel yr oedd  
 Gair Duw ar holl frigau 'r dôn,  
 A'r nefoedd uwch bro Neifion,  
 Yn las a hardd freinlys i  
 Y rhai gadwyd fry godi.  
 I'r rhai eilw Duw i'r wlad well,  
 Cystal yw 'r llong a'r castell.  
 Soniai am Iesu unwaith,  
 Ar hyll lif y dyfnfôr llaith ;  
 I draed Gwaredwr rodiaw 'r  
 Eang lÿn ar ingol awr—  
 Am y rhai sy 'n marw yn  
     Yr Hwn a bâr i ronyn  
 Digyrith y gwenith gwan  
     Gwnu yn fyw eginyn.  
 Am farwolaeth ddaeth trwy ddyn,  
 Ac adgyfodiad wed'yn  
 I nerth, ac am yr hyn a  
 Oedd eiddom trwy 'r ddau Adda.  
 Dywedai:—"Ein brawd dodwch  
 Yn ei wisg wên tros y cwch ;  
 Gollynger i'r dyfnder du  
 Y gŵr y'm yn ei garu." \*

\* "Gan hynny yr ydym ni yn rhoddi ei gorff i'r dyfnder, i ddychwelyd i lygredigaeth, gan ddysgwyl am adgyfodiad y corff, pan fwrio'r môr ei feirw allan."—*Gwasanaeth Angladdol.*

Ar hyny cwmpai 'r henwr ;—efo 'i lyfr  
 Yn ei flaen äi 'r llëwr ;  
 Yn cau dôr bedd y morwr,  
 O uthr dristâd, dyeithr-drwst dwr.

“Yn ddigêl marw sydd elwch,”—a'r môr dôdd  
 Y fan y suddodd i fynwes heddwch.  
 “Na wylwch, frodyr, cawn weled,—heb loes,  
 Yn Nuw a'i groes pob un a grêd”—  
 Y gelwid ef o'r gwely dŵr,  
 I'r Iesu farw tros forwr.

I wingo 'i lwch angel oedd—roddai dôn,  
 A godai 'r meirwon i gyd o'r moroedd ;  
 Ei gryf lais a'i gawr floedd,—yn ddiattal,  
 Ddeffrôai anial y môrddyffrynoedd.  
 Udgorn Nêr trwy 'r dyfnderoedd,—am enyd  
 Wneddai 'r gro 'n fywyd gan ddaeargrynfâoedd :  
 Gan fwrw gwŷn nifercedd—o ddynion  
 O waelod Neifion i olud nefoedd.

Yn ei fedd gorwedd y gwron—ym mynwent  
 Ddymunol ei galon :  
 Ar dir, 'r ol blwyddi hirion—ei brydydd  
 Heno sydd am dano 'n son ;  
 Gwasaidd gwneyd esgusion—am hyn o fai,  
 Llanwyd ei gyfaill â hen adgofion.

Hwylïem ac wylem mewn galar,—am ddyddïan,  
 Hyd wanegau hynod anhygar,

A godent, a ewynent yn anwar,  
 Fry yn dywyll fel hen fryniau daear.  
 Yr ydoedd môr-adar—er's tro wedi  
 D'weyd ini am gyffroad y doniar.

Ac ar ei hynt y gwynt gwan,  
 Yn uwch heibio wnai chwiban :  
 Casglu awyr o'r cwsgleoedd,  
 A hel hen rym ei luon yr oedd :  
 Cryfhâi ac äi yn fwy certh,  
 A'i rodfa 'n fwy anmhrydferth.

Esgyn a disgyn i'r dwfr,—ymwingo  
 Yn mwng y trochionddwfr,  
 Gwelltddyn oeddwn mewn gwylltddwfr,  
 Dyn llai na gwibedyn llwfr.

A llenwi llenwi wnai 'r llong,  
 Yn drymach drymach ei dring :  
 I'r aig aeth ein bara ar goll ;  
 Darfu 'r oll,—O ! 'n dirfawr ing.

Dan'gesyg gwenyg ein llestr ddisgynai ;  
 Nofiodd, ymroliodd, a'r môr a'i huliai ;  
 Yr eigion a'i t'rawodd, a'r gwynt ruai  
 Wewyr drwy enaid—a'r môr daranai !  
 Llu angeu wgent, y llong a wegiai,  
 Yn ddewr a chyfan ailymddyrfhafai—  
 Awgrymai 'n llesg fod ei grym yn *llai*—pryd hyn  
 Dyryasai wed'yn mal ped arswydai.

Nyninnau gredem yn wahanol—bawb  
 Ei bod yn *fwy* nerthol :  
 Ai ffydd fel ffydd cariad ffol  
 Oedd hono ? Na, ffydd *ddynol* !

Moryn fel Berwyn ar y dde sy'n bwrw  
 Ei hun heb aros i'r dyffryn berw ;  
 A'r dyffryn terwyn trwy anferth dwrw,  
 Yn nhrin y ddrycin ddwyrea acw.  
 Egyr ei ewyn gan dd'weyd yn groew,  
 "Deuwch i waered"—O enyd chwercw ;  
 Yn y gwaelod Angau 'n galw—uwch rhu 'r dŵr,  
 Ar y Morwr i dawelfro 'r meirw !

O ein gwae ! y llong heb gêl—idd y Môr,  
 Suddo mae yn isel :  
 Erch winga, ond braich angel—a'i tafi o'r bedd,  
 I ddig arlechwedd y garw-li' uchel.

Deuai syched dirfawr wed'yu—arnom,  
 Ac oerni a dychryn :  
 Trwy 'r gwaed trywewyr a gwŷn,  
 Yna cnöai gwanc newyn.

Ac ofn Duw ar gefn y dôn—wnai ddechreu  
 Treiddio i'r goleu trwy weddi 'r galon.

Cyn hyn, sef terfyn ein taith,  
 Ni wybum i anobaith :



Tua chartref yn ngwlad fy nhadau,  
 Yr hedai edyn fy myfyrdodau,  
 Hyd yr hen fronydd a'r cedyrn fryniau,  
 Brithion o hynawsion berthynasau.  
 O newydd gwelwn, mal yn nydd golau,  
 Fy hen haddef rhwng caerog fynyddau,  
 Ac o safn hirdeg sifnau—mwg hyfryd  
 Aelwyd mebyd yn dyrchyd yn dorchau.

Minnau, O ! yn y man hwn—yn rhoi gwaedd  
 Yn bell o gyraedd bawb oll a garwn !

Yna 'n odrist gan edrych,  
 I dde yr aig trwy hir ddrych,  
 Ein Cadben i hwylbren äi,  
 A'i lais anwyl a seiniai—

Banllefodd uwch ben gan wenu,—“Ddwylaw,  
 Dewr ddaliwch i fynu,  
 Dacw Hwyl ! Hwyl ! yn y dê cu,  
 Ac ynysig yn nesu.

“Teflwch wylltdân—bloeddiwch ganu,—Hwyl ! Hwyl !  
 O air anwyl i rai ar rynu !  
 Draw cawn fôr-frodyr cu—haelfrydig,  
 Ac *ynysig* ! O air yn cynesu !  
 Tremiodd haul trwy 'r storm ddu,—daeth estron  
 Da ei galon i'n diogelu.”

A'n hen long anwyl ni,—môr erchyll  
 Darawai 'i hestyll ac a gauodd drosti :

Ein llestr gauwyd, a llais tragywydd—y dòn  
Trosti heno 'n suo sydd.

Yn yr Ynys am hir enyd—buom  
Yn byw yn iselfryd;  
Ond daeth llong fawr ar y dòn  
I'n danfon i Brydeinfyd.

Ond er anwyled oedd gweled Gwalia,  
Creig Arfondir a mein-hir Mona,  
Truenus oeddwn, methwn amaetha;  
Yn null Morwr gwnawn ennill ym mara:  
I mi yr oedd y Môr o hyd  
Yn rhoi mwy hawddfyd na thrum y Wyddfa.

## Y R A I L R A N .

DIWEDD OES AR EI FIN.

CYNNWYSLAD: Mewn tŷ rhwng y tywod a'r creigiau—ymddifyru gyda'r llongau a'r agerlestri a basiant—y llong genadol—llongau masnachol—gŷnfadau—y llanw a'r trai—miwsig y lloer a dawns ddiddiwedd y dyfroedd—carwriaeth y lleuad a'r môr—ei ddyfroedd yn gwahannu ac yn uno yr ynysoedd—yn fantell werdd am ysgwyddau y byd—hen foroedd daearegol—eu hollion yn y gwastadedd a'u coffhâd yn y graig—y môr newydd rhwng Dofer a Chalais, a'r hen fôr rhwng Lloegr a Chymru. Y bardd yn esgyn craig—Rheswm dynol yn ceisio mesur y môr—yr hen brif genedlcedd yn ildio iddo, a Dychymyg yn esgyn gorsedd Rheswm—hen gredöau ac ofergoelion am dano—y duw Neptiwn neu Neiflon yn cael ei ddychymygu—ei lys cregyn yn y môr—darluniad o Neptiwn fel ei cynnrychiolir gan gerfwaith—ei hynt ddedwydd ymysg Nereidiau a Neladau, duwiesau a môrforwynion—y temlau lliosog a godwyd iddo, a gwagedd cymharisethol hen glasuriaeth. Yn anerch y môr—cartref y cymylau a'r digartref wynt—y môr a'r corwynt—môrwyddiaeth, neu lysieuaeth y dyfnder—môrlosgfalau—y golud a'r ardderchogrwydd a orweddant yn ei ddystaw waelodion—mynwent dawel y boddedigion—amlder ei bysg a'i lysiau, ac anfeidroldeb y testun—yn ddadguddiad Dwyfol—cau llyfr y gwanegau—ac ymddifyru ar y lân ymysg yr ieuencyd.

DYWENYDD oedd dweyd hanes  
Yr hen aig hoff, a'r hyn ge's  
O fwyniant ar ei fynwes.

Yma 'r wyf er's amryw hafau—mewn tŷ  
'Min tywod a chreigiau !  
Ei *fin* ef wyf yn fwynhâu  
Yn niweddiad fy nyddiau.

Ac o ddydd i ddydd boddhâf—ar y badau  
A'r hwyliâu draw welaf ;  
Ar ei lânau mawr lonaf,  
Ac O ! fel mor ieuanc af !

Gwelaf trwy 'm ffenestr lestr lon—ar y dyfnder,  
Ag yni 'r ager yn gwanu 'r eigion :  
Troi y mae gylch trwyntir Môn—a'i mwg hir  
O'i hol adewir yn gymyl duon.  
Gyrir hi â Gair yr Iôr—o'n hen wlad  
Y llawn o gariad i bellenig oror :  
Hon ydyw 'r llong genadol—ac i Fôn  
Hael ei rhoddion rhy' hwyl arwyddol—  
Try i gyfarch y traeth—brenhines hi  
Ym mawrhydri ei hymerodraeth !

Gwelaf trwy 'm ffenestr lestr lai ;—caiff y llwm  
Ei nwyddau cotwm ar lenydd Catai !  
A llong gain firain foria—ar ol hon,  
Nawf dros y Wendon i Fardas India.

Rhai mawrion i'r Amerig—a gerddant,  
 Y gwyrdd-ddwfr mawreddig ;  
 Yn nofio 'r wŷ yn fawr wig,  
 Dyna dderw Prydeinig.

A derw wŷr ar y dŵr ânt  
 Idd y manau ddymunant.

Daw wedi hyn yn dawel—ond ïon  
 Hyd yr afon ynfydau rhyfel :  
 Ac eraill hyd y gorwel—ddont mewn hedd,  
 Mal defaid glanwedd ar lechwedd uchel :  
 Heb ofn ä pawb i'w hynt—i bob pell bau,  
 A'r Môr a'i dônau furmura danynt.

Gwèn leuad a gân alawon—swynol,  
 Nes ennill ei galon :  
 A'r dwfr gyda 'r dôn—ar bob llaw,  
 Ddeil i ddawnsiaw yn nwylaw 'r awelon.

Mlaen ac ôl mae ei lanw cu—yn cilio,  
 Ac eilwaith yn nesu :  
 Daw tòn ar ol tòn bob tu,  
 Gyda gwèn i gydganu.'

Ddoe yr ydoedd ar ddyfroedd heirdd Hafren,  
 Y dwfr sy heddyw hyd Fersey addien ;  
 Y fory nesâ i fro Ynys Owen  
 Hyd ei wyrdd hirffyrdd ar daith ddiorphen !

A ffolodd y Môr trwy ffael—cyraedd,  
 Ei deg gariad langu ?  
 Llawer och, a llawer rhu,  
 Anfonodd ar i fynu !

Ni fyn yr hoeden wên ŵr,  
 A char hudo 'i chariadwr !

Traserch Môr a'i petrusa—a dwndwr  
 Ei ddŵr a'i byddara :  
 Ond pan ei fin gusana,  
 Hi naid yn ôl—newid wna !

Ei loer anwyl wirionodd,  
 Ei feddwl ef, feddal un :  
 Ac er yr oll a garodd,  
 Nis gall ond gwisgo ei llun—  
 Phoddgraffiad\* o dyniad dŵr  
 Ar fron y gwirion garwr !

Miwsig Lloerwen ysblenydd  
 Y llawen *drai* yn *llanw* drydd :  
 Ac yna, pan yn ddigon pell,  
*Treia 'r llanw*, cyn taro 'r llinell—  
 Y llinell lle gall anian,  
 Guro 'r Môr efo gro mân,  
 Ai yru ar i orwedd  
 Yn ôl i'w anfeidrol fedd !

\* Phoddgraffiad. Ffodd neu Ffawdd, *Light*; diffodd, *to extinguish*;

Sieryd âg Ynys Seiriol,—rhua gân  
 Ar Gynwy hanesiol ;  
 I Lydaw yn ei ledol—ä eilwaith,  
 O Walia henafol :  
 Dan suo 'n hardd dawnsia 'n ôl,  
 I fwsig y Lloer fisol.

Ar bob goror trwy Ewrob e gura,  
 A'i ewyn gorwyn bob dyn a gara ;  
 Arno 'r Hindwywr dugroen wrandawa,  
 Ei fawredd wêl a'i fawrddwfr addola ;  
 Yr aig a afael yn y ddaear gyfa,  
 Ni chaf wlad trwy 'r byd na chofleidia ;  
 Hen Brydain brioda—gyda phob man,  
 A'r Môr ry gusan yr Amerig i Asia !

Ei ewyn ddwfr ar bob glân ddyd—una  
 Bob ynys trwy 'r hollfyd :  
 Rhyfedd y Môr mawr hefyd  
 Wahana 'n bell ranau 'n byd !

Dwy ysgwydd y byd wisga :—y nef wynt  
 Y fantell werdd chwyfia !  
 A'n byd maith, pan y teithia,  
 I wagle Dim—yn *glyd* ä !

Yn y graig mewn oerni a gwres  
 Haenau wedant ei hanes,  
 'N eglut iawn gwelir ôl  
 Morfanau 'n mru y faenol :

A gwelir ef a'i glai rhydd  
Ai rô mân ar y mynydd!

A wado deued wedy'n—i chwilio  
Uchelion y Berwyn,  
Gwelir ei waith yn glaer wŷn  
Yn y creigiau mewn cregyn.

Darllened yr holl haenau,  
Ei ffyrdd wnânt eglur goffâu.

Astudiwch y gwastadedd,—ewch eilwaith  
A chwiliwch y llechwedd:  
A oes craig nas caria wedd,  
Hen dônau yn ei dannedd?

Ac is y graig, a oes gro  
Tanodd nad yw 'n cyttuno?

Ystalwm cyn oes diluw,  
Cyfodai 'r dwfr, ar sir Duw,  
I fyny dros ei derfyn draeth,  
I wahanu dwy frenhiniaeth  
Oedd i fod cyn dydd y farn  
Yn uchedig a chadarn.

Rhedodd yn ei fawrhydi—hyd afon,  
Rhwing Dofer a'r Gelli,  
Ac ar fawn a gro-feini  
Gwely wnaeth rhwing Gâl a ni.



Os cyffroir gan wynt wrysg Ffrainc—ryw ddydd  
Daw yw 'r awydd yn ein derw ieuainc.

I'n gwarded, i'n harbed ni,  
Y mae gwaed yma i'w godi :  
A dŷail nerth dâl yn ôl  
Yn fileinig fel Yniol.

Er hyny tarianwr—dewr, ffyddlon,  
Yw 'r dôn i Brydeiniwr :  
Os moria croes ymyrwr,  
Ni raid ofn yn Nuw a'r dŵr.\*

Unwaith bu yn gwahanu—Lloegria hardd  
Ymhell o greig Cymru ;†  
Yn Ynys Brydain geingu  
Nodwn fan nad yno fu !

E gawn ôlion ei gynwely—heddyw  
Ar fynyddau 'r eiry :  
Ar wên frig yr Aran fry,  
Daeareg yno 'u dyry.

\* "T is better using France than trusting :  
Let us be backed with God and the seas ;  
Which he has given for fence impregnable ;  
And with their helps only defend ourselves :  
In them and in ourselves our safety lies."

*Shakespeare.—King Henry V.*

† Gwel *Proceedings of Social Science*, 1862.

Cyn caban, na llàn, na llys ;  
 Cyn enwi ein cain ynys ;  
 Cyn creu un goleu pell gwan  
 Ar wyneb marw anian ;  
 Cyn cydgor ser y bore,—  
 Yn y cyn-fyd cawn efe !

Oddiar grib yr hoewddewr graig  
 Acw hollta y gwylltaig,  
 Yr edrychaf ar drochion  
 Y wlad ddwfr anwladaidd hon.

Mi af yn awr uwch fawr fin,  
 Ger lli' Môr y Gorllewin.

Deddfau ei deyrnas yrasant iasau,  
 I ddylu Rheswm meddylwyr oesau ;  
 Anturiai Athen i fin y traethau,  
 A gwedd ei wyneb heriai 'i gwyddonau ;  
 Yna digonodd yn fud ei genau.  
 Y Môr, er pan ganodd ser y borau,  
 Ruodd, deyrnasodd oddeutu 'r ynysau  
 Gynt a addolynt baganaidd ddelwau ;  
 Ac am Ner ei ddyfnderau—bu pob tôn  
 Yn gyru mudion awgrymiadau.

Siarad bu hen glasuron—ein daear,  
 Ond deall yr Eigion  
 Nid allent mwy na deillion ;  
 Aent o'i su a thawent son !

Assyria a geisiai arwain—ddawnus  
 Wyddoniaeth y Dwyrain  
 Hwnt tua 'r Môr, ond tra main  
 Tröai gwŷr Nimrod druain  
 O'i wydd ef, gan addef y gwir,—sef fod  
 O dan ei waelod y Duw na welir!  
 Persia a Chaldea dir,—ceisiasant  
 Hwythau wneyd allan tasg byth nad ellir:  
 Am ei fawr nerth myfyrio 'n hir—wnelent,  
 Ac yna ildient i Fôr y Canoldir.\*

Ffaelai Rheswm, ac i ffoli 'r oesoedd  
 Dychymyg wnai gynnyg rhesymau gannoedd!  
 Medd un:—"Duw ei hun yw 'r Dŵr,  
 Efe ydyw fy awdwr;  
 Heb na chlwyf, gwaew-boen, na chlais,  
 O hono ef yr hanais;  
 Ac fel y cwrel y cês,  
 O fewn ei chwyddog fynwes,  
 Dyfu 'n fyw o'r dyfnaf fan  
 I oleuni haul anian!  
 O fro Dim i hyfryd wawl,  
 Aurdegwch crëadigawl:  
 O'r Abred waered, di-wên,  
 I orielau yr heulwen!

\* "On those shores (Mediterranean) were the four great empires of the world—the Assyrian, the Grecian, the Persian, and the Roman. All our religion, almost all our law, almost all our arts, almost all that sets us above savages, has come to us from the shores of the Mediterranean."—*Dr. Johnson.*

O ddirfawr Fôr! yr Ior wyt,  
 Ni wadaf fy nuw ydwyt.  
 Ac ar dy fin y penliniaf,  
 A dy fawredd di glodforaf;  
 Ein pôr wyt, am hyny parhâf—i alw  
 Dy enw tra 'r byd danaf!"

Mynai rhai mai yn rhuad  
 Y dwfr, yr oedd yr hen dad,  
 O annwfn anynad,—yn cael â'r tir,  
 A gweff-laes hir, gyfle i siarad.

Mynai eraill, mewn cred a mwyn eiriau,  
 Gael dywedyd wrth ein hygoel dadau,  
 "Wele, annedwydd ddwfn le eneidiau,  
 Y sawl ni addolant Sol na 'i ddelwau."

Fel yna, nifwl anwir  
 Dôdd, ac a guddiodd y gwir.

Beunydd i bob rhyw ddybenion—e drowd  
 Y rhuadwy Wendon,  
 A drwg a da o'r eigion,—serch a llid,  
 Godid mal eu gelwid gan orgoelion.

Gan na welent Gynhaliwr,  
 Na Ior doeth, yn nrychau 'r dŵr,  
 Y Duw iawn ni adwaenynt,  
 Ac un duw gau a wnaed gynt

Gan Iau, yn dduw duwiau 'r dòn,  
 A'i enw ef oedd Neifion:  
 Poseidiwn a Neptiwn oedd  
 Eraill yn galw duw 'r moroedd.

Ai rhoi wnaeth dychymyg rhydd  
 I Noah enw newydd!  
 Nis gŵyr neb, ond yn sicr nid  
 Yw Duw No wedi newid.

Groegiaid wnaent lys o gregyn,  
 Yn yr aig ar graig ddi-gryn;  
 Er iddo fyw mewn hardd fan,  
 Yn freiniol ar ddwfr anian.  
 Yn ei lys cribai 'i laeswallt,  
 Ac äi hyd frig y dwfr hallt.

Cânt ei gerbyd enbyd oedd  
 Yn dirwyn uwch dyfnderoedd.

Gan yru 'r aig yn erwin,—a chynnal  
 Ei fforch wên dair-ewin,  
 Yn ei law—a cher ei lin  
 Y mawr ddelffaidd môr-ddolphin.

Teithiai 'n ffol fel diafol dig,  
 Yn ei flaen yn fileinig.

Yn bur dirion, bryd arall,  
 Elai hyd Cos fel duw call,

Ar forfarch, gan gyfarchu  
Hyd ei wlad Nereidiau lu :

Gan ddewisyd gwyn dduwiesau—siriol  
I ddawns ar y tdnau :  
Appolo a holl eppil Iau—ddawnsient  
A llawenent uwch ben eu lluniau.

Gorfu i'r gwynt, yntau—chwiban mewn hed d  
Gân o wagedd ar y gwangau.

A duw oedd ef dedwydd iawn—hoff o fod  
Efo rhanod a môr-forwynion :

Ei fryd rodd am fer adeg,  
Ar Thetis,\* ferch Doris deg ;  
Ond ofn bod i'w phlant yn dad  
Drechodd ac oerodd ei gariad :  
Ac i eneth hardd Tethys  
Y rhodd ei law a'i hardd lys.

Unwaith bu yn byw yn Nhenos:—wed'yn  
Symudodd i Denros,  
Yna e aeth yn y nos  
I Gorinth deg i aros.

\* "Thetis was courted by Neptune and Jupiter, but when the gods were informed that the son she would bring forth must become greater than his father, their addresses were stopped."—*Classical Dictionary*.

Cannoedd o demlau ceinion\*  
 Ddwyrëwyd i fawr-dduw 'r dôn:  
 Er hyn fel môr-forwynion—bodolodd,  
 Ni hanfododd ond yn mhen ynfydion.

Rhyw ddyn luniodd Barddoniaeth—ydoedd,  
 A'i gariadon 'sywaeth;  
 Heddyw gwawr o Dduw gwir ddaeth,—o'i chanfod  
 Encilia sorod enwog clasuriaeth.

O Fôr Mawr! ofer i mi  
 Ddotian prydyddu iti;  
 Ni ddoniwyd awen ddynol—i allu  
 Iawn fydru yn ngwydd yr anfeidrol.

Tydi yw cartref cymylau 'r nefoedd,  
 Gordduon weision ein gwyrdd ynnysoedd;  
 Gyri un cwmwl hygar i'n cymoedd,  
 Eilchwyl daw arall i ael ucheldiroedd;  
 Yna cydgychwyn folwyn ddu filoedd,  
 Yn llawn o wlaw i bell anial-leoedd:  
 I gario gwin yr aig ar g'oeedd—uchel,  
 Awel wynt tawel yra 'r mynteioedd.

A nofio 'r nef fawr a wnânt—gwlawogydd  
 Hyd ellytydd dywalltant:

\* "The most famous temples of Neptune were at the Corinthian isthmus, Helici, Trœzène, and the promontories of Sunium and Tænarus, to which may be added the magnificent temple of Pæstum in Italy, still in existence."—*Lempriere*.

O'u nef-ffyrdd mynydd a phant,  
A choedydd ddisychedant.

I'r gwynt digartref wyt gartref hefyd,  
Ar hyd dy wyneb e rodia enyd,  
Yn llwyr ddiabry, llariaidd ei ysbryd,  
A phenrhydd mewn ddeilfyd dawelfyd :  
I'r ysig gorwynt ti roi seguryd,  
Cyn yr enfyn ystorm i'r cyfanfyd :  
Ei fawr-rym i adferyd,—ar dy dôn  
I huno noson ei ben a esyd.

Acw ar ogwydd mae byddin y creigion  
Wedi eu gosod gan grëedig oesau,  
I wyllo tanynt wrthryfel y tonau :  
Gan fâr ei wyntoedd, yr eigionfôr yntau  
Eilw i drin, gyda mil o daranau,  
Ar ei aruthrol oesol gadresau ;  
Ei nerth ry wed'yn yn ei ruthriadau,  
Ar noeth esgyrn y cedyrn greig-gadau :  
E fyn i uchelfanau—ei gesyg,  
A bwria 'i wenyg nes crynu 'r bryniau.

Er i awelon droi 'r Môr i roliaw,  
Ac i gorwynt eiddigog ei guraw  
Yn ddigllawn, a chyflawn gael yr uchaflaw,  
Ac i ddu wgedd y ddau ymgaddugaw :  
Gwawl heddychawl ddaw—dengys dau elyn  
Eu gofal wed'yn am ymgofleidiaw !

Mawr gâr y Môr y Gwynt—yn ei galon,  
A chariadon yn cydchwareu ydynt !



Felly onid cyfeillion—cywiraf  
 Yw 'r Corwynt a'r Eigion?  
 I ryw dda—dyna ffordd Ion—  
 Rheolir eu cwerylon.

Y ddau ruadwy hyn a ryddrodiant  
 Ym mreichiau 'u gilydd, am yr ucha' galwant  
 Y ddau wrthentrych, a llawenychant:  
 Yn yr hen oesau y cyd-drinasant  
 Helyntoedd amseroedd Duw yn ei soriant;  
 Hen arch y cyfiawn, hwyrach y cofiant  
 Mor dawel y nofiai hi gyda 'n rhiant,  
 Yn hardd ddianaf yn ei hurdduniant:  
 Am affwys ddofn ymhoffant—ymddyddan,  
 A daear wiwlan y byd arwelant;  
 Ac yna am ogoniant—mawreddig,  
 Anfesuredig, y Nef siaradant!

Yn anweledig mewn dwfn waelodion,  
 Oer a dileufer, o dan redlifon,  
 Gogwydda morwydd mal gwigoedd mawrion,  
 Neu ŷd yn chwiwio o dan y chwaon.  
 Yno nacreaid ger ffynnonau croewon,  
 A rhodomeliaid ar hyd eu hymylon,  
 Y laminaria â'u dail main hirion,  
 Dyfant o fillwydd hyd faint afallon.\*

\* "The algae growing in the depths of the great Pacific Ocean have stems which exceed in length, though not in diameter, the trunks of the tallest forest trees. \* \* \* The depths of ocean are varied with submarine forests, beautiful in their diversity as the primeval woods of recently discovered lands, often of vast extent, and intermingled with breaks of lawn."—*Marine Botany*.

Ac angorau ar y cangau oerion  
 I dànnau 'n debyg ar helyg Babilon!  
 Yno ceir hefyd fawr longau cryfion,  
 Yn feddau diogel i foddedigion.  
 Yn ngerddi 'r pysg yn gymysg â gwymon,  
 Ar wely o glai y mae perlau gloewon;  
 Ac ar eu gilydd, yn feini rhyddion,  
 Rhoed yma emau nas gŵyr duw Mammon—  
 Elwch a thegwch yn gymhlethigion,  
 Cydgymysgedig â'r cêrig geirwon;  
 Ac heolydd culion,—cymoedd isel,  
 Muriau uchel a themlau mawrwyhion.

Yma 'n blith draphlith, lanastr yfflon—  
 Gorwedd ar wasgar, rhwng y gwyrdd wrysgon,  
 Yn farw lonydd, enfawr olwynion,  
 Yrid gan ager hyd y gwŷn eigion:  
 Mal gwig grymedig cyflegrau mudion,  
 Ac arfau dinystr fu 'n gorfu dynion.  
 Yn nghyffro enbyd yr Euroclydon  
 Dâ 'r marsiandwr yma roes y wendon;  
 Yma e laniwyd ei âur melynion,  
 A'i hunan hefyd!—yn mru 'r hen Neifion!  
 O dywod mal coed duon—mynwentydd,  
 E ŵyra morwŷdd tros feddau 'r meirwon!

Llosgfalau 'n llosgog filoedd—ferwant

Ei fawrion grombiloedd:

Gan osod teg ynnysoedd,—i ddechrau  
 Ar eu seiliau yn yr iseloedd.

Ac o'r aig lluchiant gregyn—neu feini,  
 Yn fynydd neu benrhyn:  
 Lafa gwyd yn hylif gwyn  
 Tryruol trwy yr ewyn.

O'i ddwfn cudd i fyny y cerdd—yn nhwrw  
 Gwyn eirias ei angherdd;  
 A dyrwygiad yr agerdd,  
 Newidia 'n wryn y dôn werdd.

O geunant yn yr eigionau—'storm dân  
 A enfyn daran trwy y dyfnderau.

Ysgydwa 'r gwaelod llosgedig—i'r làn,  
 A choda 'n grochedig:  
 A'r nadir yn grynedig  
 Gan ferw dân y gwynfor dig.

Pa beth ydyw rhif ei aml bysgrywiau,  
 Nifer ei laswellt a'i enfawr lysiau,  
 Welwn hyd ei ymylau,—ar ddamwain,  
 Yn wyrddion, bywlydain, heb wraidd na blodau?  
 A rhi' ei geinion ryfedd gragenau?  
 Ymholaf, a gwelaf ail Feibl golau,  
 O'm blaen yn agor ei ddwfn drysorau;  
 O Dduw! e lanwaist ei holl ddalenau!  
 Anadl ni ddaw o'm genau,—wyf, O Ior,  
 Ry egwan i agor llyfr y gwanegau!

Cauaf ef, ac af i fan  
 Daw mawrlif hyd y môrlan;

Gan fyned ger gwŷn finion—ei lanw  
 Afionydd a ffyddlon,—  
 Hedeg efo adgofion  
 A phwys fy mraich ar fy ffon.

Felly 'r wyf â llaw 'r ifanc,  
 Yr im llaw i eilrym llanc.

Fy hoff le yw efo phlant,  
 Hyd dywod pan y deuant:  
 Rhawiau pren i rai prynaf  
 I drin mân dywod yr haf;  
 Gwneyd "I" gyda phŷg fy ffon,  
 "N" ac "L," a llun calon;  
 Enw y fun wna fy enaid  
 Lamu yn ei ol mewn naid!  
 Cwafrio\* a rhoi nôd cyfrin,  
 Mawr ei faint, ar y môr fin,—  
 Yn nôd mai cyfrin ydyw  
 Yr hyn bâr ei ewyn byw,  
 Gylch pob ardal mal y myn,  
 Ymysgwyd ac ymesgyn.—  
 Rhodio tro ar hyd y traeth,  
 Ac yfed gydag afiaeth  
 Anadl y Môr—a dal mân  
 Farfog ferdysau 'r forfan.—  
 Caru miwsig grymusol,  
 Trai 'n ei nerth yn taranu 'n ôl!

\* "To quaver, from the Welsh word *chwibio*."—*Imperial Dictionary*.

Caru ei arwaf wylltaf wedd,  
 A charu ei luwch ar lechwedd ;  
 Caru gwel'd y cêryg gwŷn,  
 Caru agor y cregyn ;  
 Caru yno 'r cywreinion  
 Naddodd, daflodd y dôn  
 O graig yn yr eigion ;—hwmian canu,  
 A gwargamu i gario gwymon :

Er gweled fath argoelion—arno fydd  
 Am wlaw-dywydd a chymylau Duon ;  
 Ynte am wres a gynhesa—wledydd,  
 Y doniol forwŷdd â dyn lefara !

Ond na falchïa ychwaith,  
 O Fôr erfawr a hirfaith ;  
 O herwydd o'th gymharu  
 A'r siriol haul neu 'r ser lu,

Dyferyn o law Duw fwriwyd,—gronyn  
 Gryna ac a ysgwyd ;  
 Toddlyn tywodyn ydwyd,  
 Dafn yw d' oll er dyfned wyd !

# GWYL GWALIA.

(*Y Gerddoriaeth gan OWAIN ALAW, Pencerdd.*)

CLYWCH, clywch! yr hirlas hen,  
Mae 'n galw 'n uwch o hyd:  
Clywch, clywch! hen gorn y wlad  
Yn galw 'r Cymry 'nghyd!

Fe ddown, fe ddown o'r mynyddau i lawr,  
O'r bythynod mân ac o'r cestyll mawr,  
O'r pedwar gwynt (o Lydaw hardd) mewn hyfryd hwyl,  
Fe ddown, fe ddown i'r uchel wyl.

Clywch yr hen hirlas hyf  
Yn gwahodd yn ddiacâd,  
A'r cèryg ateb floeddiant ar  
Bob Cymro fewn y wlad.

Yn ngwyneb haul a llygad dydd,  
Cyfodwn orsedd gron:  
Er mwyn ein tadau dewrion gynt  
Yr anrhydeddwn hon.

Mae cofion fyrdd a ro'nt foddhâd,  
Ynglŷn â'i henw hi:  
A'i phareh a ddeil 'mysg gwreng a bôn,  
Tra rhuo môr gylch ynys Môn;  
Tra môr tra Brython yw parhâd  
Diniwed aaddefodau gwlad,  
Ein gwlad anwylfad ni.

# GWALIA'S HOLIDAY.

---

(*Libretto of JOHN OWEN'S Cantata.*)

---

HARK! to the hirlas horn,  
Hark to the tramp of feet:  
Hail, hail, this merry morn,  
To-day the Kymry meet!

To-day we come from the mountains all,  
From the peasant's home and the baron's hall,  
From Severn's banks *and holy Dee* (and Brittany),  
We come to join our jubilee.

Hark to the hirlas horn,  
The hills to each other call;  
And echo back loud welcome to  
Old Cambria's festival.

In the face of day and eye of light,  
We raise a *gorsedd* here;  
And to the hallow'd ring invite  
Who ancient rites revere.

Around it crowd dear memories,  
'T is Britain's primal throne:  
The waves and storms shall cease to roar,  
Round Mona's Isle and Arvon's shore,  
Before the Briton's heart shall cease  
To love its ancient usages,  
And guard the Druid stone.

Yr hon sydd gan rhydded  
 A'r gwynt ar y graig,  
 Neu aber y mynydd  
 Yn rhedeg i'r aig;  
 Fel y gwlith yn yr hwyr  
 Ar ein dolydd glas fr,  
 Bendithion gwir hedd  
 Orchuddiant y tir.  
 Ac ymhob oes nid oes dy ail,  
 O Walia gu, yn ngolwg haul.

Clywch yr hen hirlas hardd,  
 Clywch y tabyrddau 'n twrdd:  
 Cu gwel'd cledd mewn gwain,  
 Cu gwel'd cenin cain,  
 Cu gwel'd Cymry 'n cwrdd!

Oes rhyddid llais i ddynion rhydd  
 I ganu 'r gwypfyd a fwynhânt?  
 Os llawen yw calonau myrdd,  
 Llonganu heddyw pam na chânt!  
 Tros lwch ein dewrion boed y gwynt  
 Yn chwiban beunydd uwch eu bedd;—  
 "Holl orthrymderau Cymru gynt  
 Gydgladdwyd gyda 'i gloew gledd."

Oddiar yr helyg prudd yn awr,  
 Delynau Cymru, dowch i lawr;  
 Yn un rhyferthwy nerthol mawr,  
 Cerddoriaeth nefol, tyred ti:

Mawrhewch yr Hwn sydd oddifry,  
 Yn gwylio gorsedd Prydain gu:  
 Moliennwch ef delynau lu,  
 Y Brenin sy 'n teyrnasu trwy ein breniniaeth ni.



Our fatherland all is  
 As free as the rills  
 That glide through the valleys  
 Of all our green hills;  
 As the calm summer breeze  
 Over Plinlimmon roams,  
 So the blessings of peace  
 Spread over our homes:  
 And Cambrian soil, from sea to sea,  
 Bears fruit and seed of Liberty.

Hark to the hirlas horn,  
 Hark to the tramp of feet:  
 Hail the Dragon borne,  
 Hail the *cein* worn,  
 To-day the Kymry meet!

Shall freemen's voices be not free  
 To sing their lays of happiness?  
 Shall freemen's hearts not throb with glee,  
 When all they prayed for they possess?  
 Then fill the mountain-wind with songs,  
 And lift the union-Jack to wave,  
 For Gwalia's swords and Gwalia's wrongs  
 Are buried in one common grave.

Ye hundred harps that thrill the throng  
 With mighty strings, pour, pour along  
 A flood of music full and strong  
 Of ancient strains that move the soul:

Peal, peal our thanks to Him on high,  
 To whom our nation leaneth by,  
 And magnify and glorify  
 The Lord our heavenly Father, who ruleth over all.

---

**P. M. EVANS, ABGRAFFYDD, TREFFYNNON.**

---

YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL. 1863.

---

YR AWDL FUDDUGOL

EB

COFFADWRIAETH

AM

Y Dimeddar Dywysog Cydweddog,

ALBERT DDA.

---

GAN Y PARCH. W. AMBROSE.

(IDWAL.)

---

DINBYCH:  
ARGRAPHWYD GAN THOMAS GEE.

MDCCLXIV.



# “Albert Dda.”

---

AWDL, YN BEDAIR RHAN:

GAN IDWAL.

---

“Like a star that hides beyond the sun,  
Behind his deed of radiance mute he lay,  
And but in colours spake, like purpling day—  
In deeds alone!—Applause he seemed to shun,  
And rather chose our thanks to win than wear  
Their rightful meed—to his love labours due—  
A silent good, he met us here and there,  
And light and beauty 'mongst the peoples threw  
O! for his loss that plucks our hopes so bare,  
How meet the Nation's grief—yea, her despair.”



# YR AWDL FUDDUGOL.

---

## BEIRNIADAETH HIRAETHOG.

“ Am IDWAL, y mae ei eiddo ef yn goethni a thlysi-  
ni, a thynnerwch toddedig o'r dechreu i'r diwedd, ac o  
ran ei chynnwysiad yn bob peth a allwn i ddymuno  
gael mewn caniad ar nodwedd a choffadwriaeth y  
gwrthddrych urddasol. Y mae rhyw gywreinrwydd  
cuddiedig mewn amryw gynghaneddion gan y bardd,  
sydd yn ymddangos yn bur brydferth erbyn eu canfod.

Gellir yn ddigon priodol galw awen IDWAL yn  
'feistres y swynion;' ac iddo ef yn benddifaddeu, yn  
ol fy marn i, y perthyna yr anrhydedd o eistedd  
yn nghadair Eisteddfod Genhedlaethol Abertawe.

Ar air a chydwybod,

G. HIRAETHOG.”





# ALBERT DDA.

## RHAN I.

CWYMP Albert—Teimlad y bardd—Eidduniad—Yr Almaen, gwlad gynhenid y Tywysog—Ei fabandod—Ei hynafiaid—Uniad Saxe-Coburg a Saxe-Gotha—Yr awen yn rhoddi darluniad o'r Ddugiaeth, a chipolwg ar ei hymdrechion canmoladwy dros ryddid crefyddol—Albert yn addurn i'r teulu—Ei gynnydd mewn dysg—Bonn—Ymweliad â Rhufain—Ei hoffder o Loegr—Y clefyd nad yw i farwolaeth.

WINDSOR—Yr etifeddes deg—Pwy oedd i ennill ei llaw?—Buddugoliaeth Albert—Llawenydd gwyl y briodas—Gweddiau y wlad am fendith y nef ar y briodas.

ALBERT DDA, Albert ddiwyd—rhyw freuddwyd

Rhy fyr oedd ei fywyd

Aeth y cul fedd â thadmaeth celfyddyd ;

Galara Ewrob ar glawr ei weryd.

Mae cwyno 'n beichio 'n byd—teimlir hiraeth,

A thwymn iawn alaeth am ein hauwlyd.

10 llin

Fy nhelyn hoff ! bu dy dannau 'n fudion,

A ddilëwyd dy wylaidd alawon ?

Gad i'm llaw demtiaw, prudd dôn—o'th dannau,

Am ŵr o hawliau, sy'n mysg marwolion.

10 llin

O fawr hiraeth y canaf yr awr'on,

Nid i addoli bri, na gwobrwyon ;

Myfi 'n alarus am f' anwyl wron,

Nid truth<sup>1</sup> yw'm cân, ac nid rhith yw'm cwynion.  
 Gwadu llawenydd mae llygaid llawnion,  
 Addefa'r gwelwedd gudd friw y galon ;  
 Myn serch fy mynwes hon—sefyll ei brawf :  
 Ië, myn eiriaw fy mhoenau hirion.

Rhowch.i *Homer* rianod *Pieria*,  
 Aed nawdd Anant<sup>2</sup> i'r dyn a'i heidduna,  
 Pured Ceridwen bob brawd a'i creda,  
 Aed ein gwŷr prif at hylif *Castalia*,  
 Rhodder i mi ddawn prudd *Ieremia*,  
 Y ddwys awen sy'n marwgerdd *Iosia*,  
 Neu ddawn ffrydiol bardd eo'n *Ephrada*,  
 Pan glybu 'i awen hynt pen *Gilboa* :—  
 Athrist wyf ; pwy na thristâ?—poen myrddiwn  
 w poen y dydd hwn—pwy a'n diddana ?

O ! 'n Twysog Cydweddog da !

Y cyfiawn, pwy na 'i cofia ? — *Han.*

Y mae 'n rhaid er mwyn y rhodd, — *Syryll.*

Edmygu 'r wlad a'i magodd.

*Sill.* { Mwynhawn hanes yr Almaen awenog,

Gwlad hael athronwyr—gwlad Luther enwog.

Etto y dygwyd ei chlod hedegog — *Amudiddol*

*cyll* — { I fygiant oesawl drwy fagu'n Twysog :

Mwynhâd i'r Ellmyn yw—dweyd ei hanes,

A'i roi yn nghofres eu gwyr anghyfyw.

Yno 'n faban gwan, gwenawl, — *Han.*

Y bu cyn meddu ein mawl.

<sup>1</sup> Truth = *flattery*.

<sup>2</sup> Anant = *The muses, pl.*

Ei hawyr iach yfai 'n rhydd,  
 A'i gwên roes iddo gynnydd ;  
 Yn aeg ei meib anegwan, — *Zaran*  
 Bu 'n bloesgi 'r gynweddi wan ;  
 Ac yn ei thonau cenynt  
 Ef i'w gwsg mewn tangnef gynt.

Dewch, ruddlwydion, oerion wŷr,  
 O sych naws, âch haneswyr ;  
 Profwch drâs, ac urddas gwaed,  
 Ein Glyw, o ryw, goreuwaed.

*He yd?* Hyglod geiri gwladgarol—a lanwant  
 Ei linach urddasol ;

Edrycher hyd yr âch rôl—ceir ynddi  
 Fawrion niferi o fri anfarwol ; — *Hen.*

Gwŷr a ffurfiasant argraff ar foesau,  
 Yr holl Gyfandir, am hir dymmorau ;

Athronwyr erfawr, a thrinwyr arfau, = *Hen.*  
 A dewrgalon wleidiadwyr golau.

Coburg, a Gotha,<sup>1</sup> 'n gyttun,

Dan un Llyw, sy heddyw 'n un ; = *Ynsoath*

A Thy 'r un sy'n mynu 'n mawl,

Biau 'r sedd a'r bri swyddawl.

A oes yn holl Sacsonia,

Well talaeth na'r ddugiaeth dda ?

Mae fel Cymru, gu ei gwedd, = *Hen.*

Mewn hedd, wrth draed mynyddau.

<sup>1</sup> Gotha : pronounced Gwtha.

Hed, hed, fyfyrddod hudawl, } *Heddyg fel*  
 Yn gyflym, gyflym, fel gwawl ; } *gwawl (?)*  
 Gorphwys, dod dy bwys ar ben, } *hyfyrddod yu*  
 Caer hybarch Beerberg gribwen. } *yn or ben ei*

Hyodla 'th hanes o'r dalaeth hono,  
 Roes ini 'n Twysog enwog, sy'n huno ;  
 Pa dlysiheb hudolus sy yno ?  
 A pha ryw addysg sy'n ei phureiddie ?

*10 sili*

“Wele ! y Ddugiaeth, roes lu o ddegau,  
 O wŷr, a resir fel cawri 'r oesau ;  
 Diell athroniaeth sy'n llon'd ei llyth'renau,  
 A hoffir hyawdledd ei pher odlau ;  
 Uchelfa ddodwyd i'w chelfyddydau,  
 Lluosogodd wŷr, llys y gwyddorau,  
 Da yw ei dull yn trin deadellau,  
*i cyfwrp.* A thyfa 'i chysur o'i blith fuchesau ;  
 Brawdol a dedwydd, heb rydlyd didau, = *haes oha*  
 Yw llu 'r werin drwy yr holl ororau ; *glowon ?*  
 Mae 'r gwŷr hoedd mawr eu graddau—mewn  
 bonedd,  
 Yn trigo 'n hedd eu tyrog neuaddau.

“*Thuringia* oesol, sy'n gydiol gadwen, = *Haes.*  
 Parhaus gaer hybarch fel Alpres gribwen ;  
 Banau anelog uwch ben y niwlen,  
 A'u ffurfiau hyf sy'n gwanu 'r ffurfafen,  
*af ymwrp.* Llynau hoewbryd sy'n dwyn llun y wybren,  
 Yn swm alaw yn cusanu heulwen.

Grisial afonydd, fel grasol feinwen,  
 A swyn direol sy'n hudo 'r awen ;  
 Gwnant ddyffrynoedd yn lleoedd llawen, = Hen  
 A'u tir a ddilladant ar ddull Eden.

“ Wele 'r *Ddu Wig* yn estyn ei brigau,  
 Yn rhoi mawredd ar ei myrdd o erwau ;  
 Cell drwyddededig holl draddodiadau,  
 A ffug hanesion cloff y cyn oesau. = Hen  
 Cyssegr *Philomel*, lle ffy 'r awelon,  
 I gôl distawrwydd rhag heuldes tirion ;  
 A chuddfa anhygyrch ei ddwfn eigion,  
 Ni cha' ymagor, ond i ddych'myigion.

“ Wele gestyll, dierchyll,<sup>1</sup> yn dyrchu  
 Eu cribau 'n wych, a'u caer heb wanychu ;  
 Lle bu gormes yn hir ymlochesu,  
 Trwy y nos pan oedd trais yn teyrnasu. } 10 llin

“ Wele drefanau, a llanau llonydd,  
 A gerddi 'n chwerthin ar fin afonydd ;  
 Torfeydd a huliant ryfedd heolydd,  
 Dinasoedd llydain cywrain eu caerydd. = Hen  
 Penau eglur addoldai pinaglog, = Hen  
 Fry a ddyrchant eu ffurfiau ardderchog, = Hen  
 O fysg gwyddfâu hen dadau godidog,  
 A chwbl dawel feddlenyrch blodeuog,  
 Lle mae 'n hunaw 'r hen Ellmyn enwog,  
 O ddir ddysg, ac egwyddor ddiysgog.

<sup>1</sup> Erchyll, *pl. of archoll.*—*Richards*: Digitized by Google

Hyf Gyffeswyr, fu'n dal yn ddihalog,  
 Trwy sŵn, a helynt, yr oesau niwlog ;  
 Glynent yn galonog—yn y wir ffydd,  
 Rhwng eu gellydd, a'u moelydd cymmylog. = Hen

Heriasant dros hir oesau,  
 Y Babyddol, lethol iau :  
 Gwrthdystient, dalient yn dyn,  
 Er malais eu trwm elyn ;  
 Dygwyd trefn DIWYGLAD rhydd  
 I wobrwyo eu bröydd.

Gau gredo 'n rhêg, a Gair Duw 'n rhydd—dianc  
 Wnai pawb, o grafanc y pab, a'i grefydd !

“Dyna wlad anwyledig—ein Twysog

A'i manteision canfrig ;  
 Deillia trefn, o'r wlad lle trig  
 Cariadus wŷr caredig.”

ALBERT hael ! bri y teulu !  
 Anwylyd o'i febyd fu.  
 A grym rhaib y gwir ymroes,  
 I brynu boreu einioes.  
 Ymfwriai i fysg myfyrwyr,  
 Ar ddechreu y boreu byr ;  
 A gwyneb y bachgenyn  
 A wylaidd addawai ddyn.

Wedi yfed o hufen,  
 Dysg ei wlad o'i hysgol hen ;

Ceisiodd goron, *Bonn*, lle bu  
 Dan fawrhâd yn efrydu ;  
 Ar fin y *Rhine* prifiai 'n rhwydd,  
 I ddigryn fawreddogrwydd.  
 Ger bron, prif ddoethion ei ddydd,  
 D'roganwyd ei wir gynnydd ;  
Chwilio 'r gwir, a chwalu 'r gau, = *Hau.*  
 Wnai 'i gynnyddfawr gynneçdfau.

Ei enw 'n eofn gerfiodd ar golofnau,  
 Hen gyssegr arddysg<sup>1</sup> cyn gwisgo 'r urddau ;  
 Buan gyrhaeddodd i ben y graddau,  
 Drwy 'i athroniaeth, a'i ddiledrith riniau ;  
 Fe 'i mynych goffeir mewn deigr a geiriau,  
 Gyda hiraeth, yn y prif gadeiriau ;  
 Un oedd, droes o'r neuaddau—mewn mygredd  
 A fÿn roi mawredd, ar feini 'r muriau.

*el.*  
 Beunydd am bob newydd ddysg,  
 Ymrôdd am dramor addysg ;  
 Rhodiodd drwy wynfa'r Eidal  
 Yn nghysgodau, tyrau tal.  
 Bu 'n drachtiaw hwyrol chwawon,  
 Rhwng irwydd hir, yn ngeirdd hon ;  
 Gwelodd fedd, hen fawredd fu  
 Yn Rhufain, yn cartrefu ;  
 Bu 'n dilyn ei seithfryn sail,  
 A'i rodfa 'nghwmni 'r adfail,  
 Yn mysg olion gogonedd,  
 A roes glod i'w barus gledd.

<sup>1</sup> Arddysg : *classical learning*.

Aml iawn bu 'n rhodio ymhlith  
 Uthr olion hen athrylith ;  
 Ol llygaid y meistriaid mawr—  
 Lluniau, mewn llen, a mynawr ;  
 Yntau â'i ddiwyd bwyntel,  
 Hyd flaen nôs yn diffin hef  
 Ardebion cywir diball—  
 Llauer llun, o'r naill, a'r llall.

Gwelid ef ar gŵl y dydd,  
 Ar lan y *Tiber* lonydd,  
 Yn myn'd, dan swyn y mwynder,  
 Yn syn, nes dihunai 'r ser :  
 Gan wrandaw per alawon,  
 Llancesau à llanciau llon, = *Hsu*.  
 Ar amser gosper, yn gwau  
 Eu glwys, eosig, leisiau.  
 Nofiai sain o fyw swynion —   
 Ar y dwfr, pan gysgai 'r don.

PRYDAIN a garai 'n ddi gâl,  
 Ei bro iach, a'i bri uchel ;  
 Aml ennyd bu 'n ymloni  
 Yn nheyrnllys ein hynys ni.  
 Yma 'n hir bu yn mwynhau,  
*Rhyw* lawn gysurol wenau.  
Iôr y serch a roes archoll  
 I'w dirion galon heb goll :




Y nwyfus deyrn mewn afaeth,  
 Yn ddistaw, roes ynddaw saeth.  
 I'w hen wlad, Sacsonia lon,  
 A chalon glaf, dychwelodd.

Er attyniad gwlad ei fore glodydd,  
 Rhyw sydyn gariad a'i rhoes dan gerydd ;  
 Ei galon nwyfus a giliai 'n ufydd,  
 I ymfwynhau yn y dwymfa newydd.  
*Un deg, prif fân ei dydd—oedd ger ei fron—*  
 Delw ein Banon, a'i dilynai beunydd.

LLE gorphwys y Dafwys dëg,  
 A'i gwyneb heb ol gwaneg ;  
 Y saif hen deyrnlys hyfalch,  
 A gwyd i'r nen ei ben balch.  
 Llys WINDSOR hy', fry ar fron—  
 Amldyrog deml y dewrion.  
 Yno, yn ngwanwyn einioes,  
 'Roedd Banon hardd, bena'n hoes.  
 Ei sedd yn ben seddau 'n byd,  
 A'i deddfau 'n cadw hawddfyd.  
 Hoeddwyd ei bywyd addas,  
 Gan dafod hynod y wasg ;  
 Prophwydid pob rhyw ffodion  
 Dros y wlad i'r Rhies lon.  
 Eilun pawb drwy Ewrawb oedd,  
 A'i mawl yn ngenau 'r miloedd.  
Ni welwyd ei hanwylach : = *Hsu.*  
 Nid oedd tŷ, na bwthyn bach,

Na man ddymunem enwi,  
 I'w gael heb ei hardeb hi.  
 Aeres gwlad—Rhies gwledydd,  
 A Banon ar Albion rydd!

Dyheu mewn tanbaid awydd,  
 Wnai oraclau doetha'u dydd,  
 Am wybod pwy, 'n mysg meibion  
 Ddygai law ein Buddug lon:—  
 Pa ffodus olygus lanc,  
 Neu Lyw breninol ieuanc,  
 Arweiniai law 'r anwyl wryf, —   
 At allor wen *Hymen* yn hyf.

ALBERT hael, o bryd dilyth,  
 Wnaeth yn nghalon hono nyth.  
 Ei Fuddug ef oedd y guferch,  
 Ei gwèn law, roes iddaw, a'i serch.

Albert oedd ei Halbert hi,  
 A sêdd ei serch roes iddi  
 Dan enyniad, diwair gariad,  
     *Er* y goron,  
 Toddi 'n ufydd idd eu gilydd,  
     Wnai 'r ddwy galon.

Rhoed y ddau hyd angau 'n dÿn,  
 Drwy 'r ammod a'r aur rwymyn.

Nid ystryw o wlad estron—  
 Ond serch wnai 'r briodas hon.

O! 'r diserch briodasau—fu 'n ein dydd  
 Er asio gwledydd rhag rhyw sigliadau!  
 Ymaith! â'r fath rwymau—medd dynoliaeth—  
 Ymaith! ormesiaeth sy'n mathru moesau!  
 Nid trais gwleidiadaeth fu 'n creu trwsogl didau,  
 I ieuo 'n Banon â'n gwron gorau; = for he  
 Ond uniad oedd, yn dwyn dau—yn llawen  
 At allor *Hymen*, heb wneud twyll rwymau.

Diau na fu dan nef wen—  
 Ni welodd lloer, na heulwen,  
 Siriolach, ddedwyddach dau,  
 Yn dwyn iau bywyd newydd.

Llawen oedd holl anneddau—ein hynys  
 Mewn unol deimladau;  
 Heb wg, yr oedd pob graddau,  
 O fewn hon yn ymfwynhau.  
 Ein tadau a'u plant dedwydd,  
 Mewn "Hwre" 'n cydarmio 'n rhwydd.  
 Pob llygad yn llygad llon—  
 Bywiog hwyl yn mhob calon.  
 Rhu magnelau, cydsain clychau,  
 A bloeddiadau y bobl ddedwydd,  
 A arwyddynt, lle y cerddynt,  
 Arwyn<sup>1</sup> helynt gwerin hylwydd.  
 Mwy gwerth na choelcerth, na chân,  
 Neu dwrw 'r bylor daran,  
 Oedd enyniad teimlad dwys—  
 Gweddi daer, daer, a dirwysg,

<sup>1</sup>Arwyn: happy.

Blygai lîn eglwysi 'n gwlad,  
 Yn ddilys mewn addoliad.  
 Aeth gwaedd y lwythog weddi,  
 I'r nef lys, o'n hynys ni,  
 Am rad Iôr, fel mur o dân,  
 Yn nawddfur i'w haneddfan—  
 Am wên Duw bob munyd ar  
 Y ddau, tra 'n rhodio 'r ddaear.  
 Yn dwyn pob dawn i'w pabell  
 Ar ei gylch, o'r da, i'r gwell.

= *Am.*

## RHAN II.

ALBERT :—Ei fendigedig goffadwriaeth—Hawddgarwch ei ymddangosiad allanol—Ei brif ragoriaeth yn ei rinweddau—Ei ofal am y “myrdd”—Cartrefi'r tlodion—Amrywiaeth hynod ei ragoriaethau—Ei duedd heddychol—Ei ymwrthodiad a gogoniant y filwriaeth—Ei ddylanwad ar Victoria a'i llys—Eangder ei wybodaeth—“Y Gwyddoniadur byw”—Ei gefnogaeth i amaethyddiaeth—Pob celf a gwyddor yn ddyledus iddo—Cydyngynghorfa cenhedloedd—Yr Arddangosiad—Y duwinydd—Y Cristion—Na raid casglu tystion i brofi ei ragoriaethau—Tystiolaeth ei weddw.

O! ALBERT DDA! da, hyd y diwedd—fu

Heb fwlch yn ei fawredd ;

Lyw breiniol, ei bur rinwedd,

O gôr byw, ni ddyga'r bedd. = *Hru.*

Yn ein byd arogl 'n ber,

Y mae enw ein mwyn-ner.

Fel arogl myrr yn glynu,

Heb fêth, ar bobpeth lle bu.

Natur, yn eglur a wnaeth,

Erddo 'n hael—rhoddai 'n helaeth.

Yr oedd agwedd, bonedd, bàn,

Ar ddull yr oddiallan. — *Angylmyr*

Ei lawn synwrol wyneb—a dyner

Ledaenai sirioldeb ;

A'i graff lygaid, tanbaid, heb

Ddig sèn, na chudd gasineb.

Od oedd bôd ar enw dyn,  
 I'n hanwylyd yn elyn—  
 Rhyw siolwag wr isel-wael,  
 Heb air tég i Albert hael—  
 Un olwg ar anwyledd,  
 A dull ei agored wedd,  
 Ennillai hwnw'n hollawl,  
 A gwên fyw i ganu'i fawl.

*Hys-*  
 Yn ei wedd r oedd mawredd myg,  
 Luddiai'r hyf—laddai ryfyg ;  
 A gwên ddi-lid yn ymlid ofn—  
 Gwên a wnai y gwana'n eofn.

Ond, ei nodwedd deniadawl  
 A ddeil fyrdd i eilio'i fawl.  
 Oddi mewn 'roedd y mwynedd,  
 A roes lun i'w rasol wedd.  
 Fal gloywaf risial y fro,  
 Tra hawdd oedd gweled trwyddo.  
 Teg oedd, fel diamwnt gwyn,  
 Heb arw chwiw na brycheuyn.

O ALBERT ! yr anwyl ! brawd trueiniaid,  
*Howard* ei oes, a fu i'r rheidusiaid.  
 Mil mwy na'i hiræth am glod penaethiaid,  
 Oedd ei ofal am nawdd-dai'r ymddifaidd.  
 Ymdeimlai'n fyw, mewn unrhyw angenrhaid,  
 Am help ei achles, gynes, i'r gweiniaid.

Carai edrych ar y carpiog grwydriaid,  
 Trwy ei nawdd hael, yn troi yn wiw ddeiliaid :  
 Gwelai ddynoliaeth gwylaidd anwyliaid,  
 Fu drwy ânwiredd yn fudr anwariaid.  
 Trychineb dentiai 'r ochenaidd—o'i fron,  
 Trist achwynion ro'ent dristwch i'w enaid.

Ei reddf oedd gwasgar hawddfyd,  
 Ac ysgafnhau beichiau 'r byd.  
 Rhoddodd ei fryd ar hyd ei oes,  
 Ar ddwyn "y myrdd" o'u troffyrdd traws ;  
 A'i holl yni ar egni roes,  
 I wellhau anneddau 'r lliaws.

Gwnaeth gynlluniau, rhoes enghreifftiau,  
 Adeiladau, i dylodion.  
 Gwelwyd teimlad ei galon—at y tlawd,  
 Nid ceisio 'u harawd,<sup>1</sup> ond eu cysuron.

Ei ddihalog nos feddyliau—grëynt  
     Fysgrywiol gynlluniau,  
 I gael dyn o galed iau  
 Ei geryddol lygreddau.

Mor deg yw pob amrywiaeth !  
 O ddwyllaw Duw 'n wreiddiol daeth.  
 Amrywiaeth, mewn uniaeth, yw  
 Addurn, yr oll a wneddyw.  
 O law Duw daw 'r flodeuardd,  
 A'i thô o amrywiaeth hardd.

<sup>1</sup> Arawd : an oration, or poem, in commendation of a man.

Amrywiaethau seiniau sydd  
 I'r llwyn, yn rhoi llawenydd.  
 Gogleisiant frig y glaswydd,  
 Pan fo'r wawr yn deffraw 'r dydd.  
 Dengys yr enfys mor wych  
 Yw lliw, ar liw, 'n rhoi llewych ;  
 Mor lwys yw amryliw wâr,  
 Bwa 'n Duw, uwch ben daear.

Pwy na wêl ein Pen haelwch,  
 Yn ddir iawn yn hyn o ddrych ?  
 Pob rhagorion, pen a chalon,  
 A wnai goron ei hýgarwch. = *Han.*  
 Ynddo y cyrddai rhinwedd, ac harddwch,  
 A theithi gwron, mewn doeth weithgarwch.  
 Yni rhyfedd, addurnai 'i arafwch ; - *Han.*  
 Egni diwygiwr, ogonai 'i degwch ;  
 Ei graff lymder ro'es fri i'w dynerwch,  
 Gweinyddai gerydd mewn gwên hawddgarwch.

Enciliai, ni fynai fod,  
 Yn nghadfa un anghydfod.

Ymgadwodd rhag *Armagedon*—pleidiau :  
 I bob plaid bu 'n dirion :  
 Athrod ! ni bu tafod hon  
 Ar enw da 'r hynod wron.

Nid a'i gleddyf mewn gwlybwridog lwyddiant,  
 Y naddai 'n gwron ei gyfion gofiant. — *Han.*



Nid *Beli* gôch yn nghryg rôch ei grychwant,  
Amlygai gu enw yn nheml gogoniant.

} 10 Si

Pan ddaeth y Faeslywiaeth i'w law,  
Yn ddiboen fe'i bwriodd heibiau:  
Gan ddymunaw byw'n dawel  
I ddilyn swydd ei lawn zêl,  
Drwy ennill cadau rhinwedd  
Yn ddi swn, dan nawdd y sedd.  
Cadwodd ei lwys gydwedd lon,  
Yn nghyrhaedd ei gynghorion:  
Y Farn, a ddengys pa fodd,  
A mawr aidd yr ymroddodd,  
I'w harwain yn ddiwyraw  
I gadw drwg, o'i dŷ draw,  
Ei law (fel llaw llong lywiwr  
Effro, wrth deithio y dw'r)  
Driniau'r llyw, heb unrhyw ball,  
Er enw i ryw UN arall.  
Gwar gêl y graig a wiliodd,  
A bachell<sup>1</sup> y draethell drôdd.  
Yn y dwfn y moriai'n dêg,  
Mynai'i nôd mewn iawn adeg.

Pwy a nodwyd yn ail i'n Penadur  
Heb ddanodiad fel byw wyddoniadur?  
Cododd i sedd dysgawdur—ger ein bron  
A'i fawr hynodion roes fri i'n nadur.

} 10 Si

<sup>1</sup>Bachell=*corner*.

Llenwir ei waith, a'i ddillyn areithiau,  
 A phrawf o ddilesg a phur feddyliau.  
 Gwir drydaniaeth a geir drwy ei dônu,  
 A chreai 'i law anwyl wych arluniau.  
 Rhoes celf a gwyddor eu gerlynt gorau,  
 O amryw lysoedd am ei arleisiau.  
 Ei sel barhaus, a'i law brysur—a roes  
 I redfa ei oes, ryw fri difesur.  
 Ei ddofn dalent oedd fwy na'i waedoliaeth,  
 I lenwi 'i sedd yn nheml hanesyddiaeth :  
 Selyf athronol ! rhoes hael feithriniaeth  
 I godi'r byd, i ddysgu darbodaeth.  
 Trodd ei allu, at drefn tir ddiwylliaeth—  
 Hudai ddynion at weryd wyddoniaeth ;  
 A pharai i allwedd pridd fferylliaeth,  
 Agoryd trysor, maenor hwsmoniaeth :  
 Ef â'i holl rym fu 'n gyfaill i'r amaeth,  
 Aur ni arbedodd i ranu 'r wybodaeth—  
 Testyn chwedl ein cenedlaeth—ydoedd cael  
 Ei fuddiol law hael, a'i feddwl helaeth.

A thrwy ddibyniaeth ar ei aidd beunydd,  
 Ymburai addysg fel trem boreuddydd ;  
 Carai fod yn help i'r Cerfiedydd,  
 A thariannai y beiddgar Athronydd.  
 Dylanwadai dros ei frawd Luniedydd ;  
 Am ei haelioni soniai aml Lenydd ;  
 Bu 'n ddeheulaw i'r rheidus Alawydd,  
 Hoffai deleidion y craff Adeiladydd.  
 Yn mysg gwŷr dyfn-ddysg y dydd—bu 'n tyfu—

Profodd ei allu fel prif ddiwyllydd.  
 I glau gynadlu casglai genedloedd,  
 I lŷs gwyddawr, yn fawr niferoedd.  
 Pawb, o abl, wŷr uchelgamp, y bobloedd,  
 Ato wahoddwyd, i'r celf gynteddoedd.  
 Nesu drwy ragfarn oesoedd—wnaent i'n mysg,  
 Am fuddiol addysg, am feddwl wleddoedd.

Anfarwol Dad yr ARDDANGOSIADAU  
 Oedd ein Harwr, rhoed ffydd yn ei eiriau ;  
 Iddynt o bob hinsoddau—dygai 'r dôn  
 Gronfeydd o olion rhyw gywrain feddyliau.  
 Gwastadol lwydd, y byd gystadledau  
 Fu hyfryd Eden, ei fyfyrdodau.  
 Yn ei freuddwydion ca'dd lawn fyrddeidiau,  
 I borthi hyder drwy 'r “dosbarthiadau ;”  
 Ei gudd bryder ga'dd wobrwyadau,  
 Wrth wel'd nodwedd, y nerthol dyniadau,  
 Yn gwysio gwledydd, i'r llawn gasgliadau,  
 Er gwel'd hael antur, ac ol talentau  
 Deffro athrylith, yn mhlith aml lwythau.  
 Wnai 'r agwedd eres ar y gwyddorau.  
 Lluosog ydoedd y dull wisgiadau,  
 Yn hoedd lysoedd y grisial balasau  
 Y bobl synent ; clywid Babel seiniau  
 Yn hyf ddadwrdd uwch ben rhyfeddodau !  
 Mawr ddywenydd fedyddiai 'r myrddiynau,  
 Amlwg eu gradd—amliwiog eu gruddiau.  
 Heb lid, y gwelid hwy 'n gwau—drwy 'u gilydd  
 Heb wag gwerylydd—heb wg ar aeliau.

Ai truth<sup>1</sup> gwag yn trethu gwir—  
 A'i gweniaith lyfndeg anwir,  
 Yw haeru fod ein Harwr  
 Yn fri i'w oes—yn fawr ŵr?  
 Bychan, rhy fychan, fu,  
 Dihalog gylch ei deulu,  
 Er dwyn i oleuni'r dydd,  
 Sail ei glod, i sylw gwledydd.  
 Chwyddai ei barch i ŵydd y byd,  
 O fawr, i fwy, drwy'i fyr fywyd :  
 Taenu'r gwir, nid medi'r mawl  
 Ydoedd ei nod gwastadawl.  
 Ei ol ar Brydain welir  
 Tra bo north a gwerth mewn gwir.  
 Gwas ei oes, a gwas Iesu  
 O lwyrfryd drwy'i fywyd fu.

ALBERT DDA ! Albert dduwiol—ei fywyd  
 A fu yn grefyddol ;  
 Ei lawn ddagrau olynol—uwchlaw rhif  
 Redai 'n llif yn ei weddi feunyddiol.

Chwiliai, astudiaï lyfr Duw 'n wastadol,  
 Heb lwyth enaid a Shiboletth ddynol.  
 Fe hanner addolai'r Gair rhagorol—  
 Hoffai'i athrawiaeth a'i berffaith reol.

Adwaenai fel duwinydd  
 Wreiddiau, a phynciau pob ffydd ;

Ond trefn y maddeuant rhad  
 Drwy 'r bendigedig Geidwad—  
 Y drefn a geidw yr ofnog  
 Trwy un Crist a rhin y crôg,  
 Aeth â'i fryd yn ie'nctyd oes—  
 Hon a'i daliodd hyd eiloes.

*Hollol anturid*

Ymorweddai ar rym yr haeddiant,  
 Roes i ddyn gân—droes i Dduw 'n ogoniant ;  
 Molai ef Dduw pan deimlai faddeuant  
 Yn dwyn heddwch ac adnewyddiant,  
 A dedwydd sicrwydd sant—a'i llanwai, nes  
 Toddi ei fynwes mewn sanctaidd fwyniant.

Pa eisiau tyst cwmpasog,  
 Na swynol lais awen lôg,  
 I geisio darbwylllo 'r byd,  
 Mor argu<sup>1</sup> fu ei fywyd ?  
 Pwy a rifa y profion  
 Daria 'n serch y deyrnas hon,  
 O redfa ei oes brydferth,  
 O'i lafur hael a'i fawr werth ?  
 A raid *profi* lliw y lili,  
 Neu oleuni haul, a'i loniant ?  
*Profer* wed'yn fod y dyffryn  
 Yn y gwanwyn mewn gogoniant.

Ust ! ust ! mae 'n llys y tystion  
 Dynwr wraig—gwrandawn ar hon !

<sup>1</sup> Argu=*very precious.*

Pwy a'i dirnadai yn well,  
 Na'i dda, dda weddw ddiell ?  
 Trwy ddagrau brwd, rhydd ger bron  
 Air gwyl o'i thyner galon.

“ Ei fywyd hardd oedd yn tarddu  
 “ O bur ffynnon ei galon gu,  
 “ Ewyllys Duw, a lles dyn  
 “ Fu 'i nôd bob rhyw funydyn,  
 “ Y *gwir*, a'r *cain* a garai,  
 “ A'r *uniawn* yn eiddaw wnai.”<sup>1</sup>

<sup>1</sup> “ His life sprang from a deep inner sympathy with God's will, and therefore with all that is true, and beautiful, and right.” Ysgrifenydd y geiriau hyn gan ei Mawrhydi Victoria, i'w gosod ar gerflun ei diweddar briod.

## RHAN III.

ALBERT DDA yn ei deulu—Ei ofal am drefn, a'i elyniaeth i was-  
traff—Ei Brotestaniaeth—Ei wyliaidwriaeth eiddigus ar symmud-  
iadau lladradaidd yr Anghrist yn ei deulu—Yr awen yn ymweled  
& *Balmoral*. Helwriaeth yr Ucheldir—y Sabboth—y Tywysog  
yn mwynhau addoliad syml yn *Crathie*. Ymweliad & *Windsor*—  
Y Frenhines a'i phriod yn addysgu eu plant. *Osborn*—y golyg-  
faon swynol—Y badwr ieuanc—Dedwyddwch y teulu.

O! 'r tyner ALBERT anwyl,  
Daw mwynhâd i'm hawen wyl,  
Wrth wel'd ol teuluol hedd,  
Yn eneinio breninedd.

Dihalog oedd yn ei deulu—y pur,  
Doed pawb i'w eilfyddu ;  
Gwelwn ei foes, un glân fu,  
Gofir 'rhawg i'w fawrygu.

Mewn gofal dyfal, bob dydd  
Y gwiliai fel bugeilydd.  
Gwiliai 'n graff rhag gwastraff cudd  
Neu ddefod dreulfawr ddifudd,  
Tarfai, heb wialen haiarn,  
Lygredd, mewn buchedd, a barn.  
Crynodeb o burdeb oedd—  
Carai les gwŷr ei lysoedd.

Gwelai sarph beryglus, hir,  
Ddeuai o Rufain ddyhir,

Mal athrod yn ymlithraw  
 I'w bebyll ef, ar bob llaw.  
 Gwelodd hon, a gwiliodd hi—  
 D'roganodd ei drygioni :  
 Cododd mal *Hercwl* cadarn,  
 Glân ei foes, goleu 'n ei farn,  
 A rhoes i'r sarp, ffelsarp, hon,  
 Niweidiawl drwm ddyrnodion,  
 Nes ennyn dwfn gasineb—yn ei blant,  
 At hûd diwelliant, anghrist a'i dwylleb.

O Dduw ! ni a weddïwn  
 Boed parhâd i'r teimlad hwn—  
 Parhaed yn nheyrnllys Prydain,  
 Tra 'r yfo 'r dyffor, y Dain.<sup>1</sup>

Tyred, f' awen anturiol, = *Hru.*  
 Awn yn hyf i ddyddiau 'n ol—  
 Awn i *Balmoral* ar hynt—  
 I bêr anadl y brynwynt.  
 Wele 'r teulu anwylaf  
 Yn llawen orphen eu haf.

Ar uchelgrib, gwlad y gôdbib,<sup>2</sup>  
 Neu 'n rhoi llonwîb, ar ei llynau ;  
 Byw iechyd yn eu bochau—sy'n chwertthin,  
 Wrth yfed rhîn, o bur hin y bryniau.

Y Tad, fel heliwr cadarn,  
Heria 'r gors, a llethrau 'r garn.

<sup>1</sup> Y Dain = *The Thames*. <sup>2</sup> Côdbib = *bagpipe*.



Cama hyd wely 'r cwmwl,  
 Mewn haul dês, ac mewn niwl dwl.  
 Dwg ben llawer perchen pig  
 Yn isel ac yn ysig.  
 Ei edrychiad, a'i rychwn—  
 Y belen wib o'i lawn ðn,  
 Rydd i hulio 'i fwrdd haelwych  
 Aml hydd brâs, o'r moelydd brych.

Mae 'n Sabboth! pawb mewn seibiant ;  
 Yn llu dwys i'r eglwys ânt.  
 Plygant, ymunant mewn mawl,  
 Yn mysg gwerin moesgarawl.  
 O'r Tywysog, enwog, mor wyl  
 Yw'r dyn iselfryd anwyl:  
 Ymrŷdd i'r Salm, a'r weddi—  
 Mola'i fraint, heb deimlo 'i fri ;  
 Aeth y gwych ymaith o'i go',  
 Mewn "Amen" mae 'n ymuno ;  
 "Amen" dwym o'i enaid yw—  
 Rhy frwd i ffurf oer ydyw.  
 Mewn tyner barch mae 'n derbyn  
 Gair Duw, drwy lesg eiriau dyn.  
 Mae digon, i'w galon gu, = Hen.  
 Yn nglwys efengyl Iesu.

Awn eilwaith, ar ymdaith rydd,  
 I fwynhau tremfa newydd—  
 Tremfa wfreiddia y fron—  
Golwg wna les i'r galon. = Hen.

Wele lys, lle 'r erys rhin, }  
 Yn ei phryd anghyffredin ; }  
 Breiniol bâr yn darpar dysg—  
 Rhieiniol, lwyddol, addysg.  
 Rhoddant wers i'r eiddynt oll,  
 Mewn adeg deg a digoll.  
 Wrth reol yr athrawant,  
 Heb ludd, eu gobeithiol blant  
 Ni cheir, am aur na choron  
 Ysgol ail i'r ysgol hon.  
 Y fam, a wena mewn hwyl,  
 Yn ngwyneb ei rheng anwyl.

*Lyrge.*

Teimlad, o'i llygad llon—sydd yn siarad,  
 Dan chwyf ei chariad, ni chofia 'i choron.  
 Ei phriod hoff ar ei de'—mewn iechyd,  
 Yn gwenu 'n hyfryd, fel gwen y nwyfre.  
 Y Tad, mewn awdurdod teyrn,  
 Yn eistedd fel hynaws-deyrn.

(Gwr, yr hon a goronwyd—ac nid hi,  
 Sydd i reoli, ar sedd yr aelwyd)

Fe rydd bob cyfarwyddiant  
 Fel athraw, blaenllaw ei blant.  
 Maent heb rodres, gormes, gaeth,  
 Yn gwbl dan ei ddysgyblaeth.  
 Efo 'r iawn Lyfr yn ei law,  
 Mewn gwirserch mae 'n eu gwersiaw.  
 Buan maent—bawb yn eu mysg  
 O'u bodd yn lleibio addysg.  
 Mor wir bert, o'r mawr, i'r bach—  
 Ni wel huan lu hoewach !

Mae hedd yn yr annedd hon,  
A sawr pob rhyw gysuron ;  
Cyflawnder tecaf lendid,  
Heb fynwes, yn lloches, llid.

Fy awen, ymadfywia, = *Hru.*  
Awn ar hynt, dan wên yr ha',  
O swm byd, nesawn heb orn,  
Rhown ysbaid fer yn *Osborn.*

Rhown dro i rodio ar hyd,  
Yr afrif lwybrau hyfryd ;  
Ar ystlys yr Ynys Wyth-  
Gorsedd y creigiau gwarsyth. } = *Salma*

Wele ! wele ! y breiniol anwyliion,  
Ar iach fryndir uwch cyrchfa'r wendon,  
Oll yn ddyfal yn claddu 'u gofalon,  
Yn rhyfedd hoenau yr hafaidd hinon.  
E geir hyd y fangre hon,—lynau heirdd  
Yn lloni teg eirdd, a llawntiau gwyrddion.

Gwelwn hwynt gyda 'u gilydd, = *Hru*  
Mewn awr deg yn nghwmni 'r dydd,  
Dan adenydd pinwydd, pâr—  
Dan frau rodianfa 'r wiwer; - *Dol!*  
Victoria lân, y fwyna'n fyw,  
A'i hygar ŵr o'r goreuryw,  
A'u teilwng blant a welir  
Ar fin glas yr afon glir,

Yn rhodiaw 'n fintai lawen,  
 A bywiog hwyl, yn mhob gwên.  
 Y plant, chwareuant yn rhwydd  
 Heb dîd, mewn undeb dedwydd.

Ar y dwfr mae badwr dêl, = *Digrif!*  
 Yn diwyd rwyfo 'n dawel ;  
 Ein gwiw Dywysog ieuanc,  
 Yw 'r hoenus olygus lanc. = *Yr un feth.*  
 Mae 'r rhiaint, a'r ceraint cu = *Hare.*  
 Yn gynnes arno 'n gwenu.

Draw, ei chwaer yn dra chywrain,  
 Arlunia eu gwynfa gain ;  
 Y nawn yn swrth hinoni,  
 Ar hyd y glân wydrawg li';  
 A chysgod yr ednod rhydd,  
 Ar oriel lawn yr irwydd,  
 Sy'n tentiaw deheulaw hon  
 I wneud llun y dillynion.

Bai

Y cwpl hoff acw, a'u plant,  
 A chalon lawn ddychwelant  
 I'r llys, lle yr arllwysir  
 Amlygiad o gariad gwir.  
 Drwy fwyn serch, mor drefnus fnt,  
 Mor ddedwydd, ddedwydd ydynt ;  
 Nid aml y ceir fath deimlad  
 Swynol yn nheyrnlys un wlad.

## RHAN IV.

ANSICRWYDD gogoniant daearol—Disgwyliadau yn cael eu siomi—  
 Angeu yn dyfod i'r llys—Afiachyd y Tywysog—Pryder cyffredinol  
 —Ei farwolaeth dawel—Y gosgordd nefol—Victoria yn ymneillduo  
 i weddio—Yr awen yn ymweled â'r ystafell—Ei gweddi—Y bedd  
 —Y Nadolig galarus—“Bhinwedd uwch y bedd fydd byw”—  
 Yr awen yn darlunio y galar cyffredinol ar ol y Tywysog—y per-  
 oriaethwyr— y beirdd—Victoria yn canfod galar y wlad—Cofar-  
 wyddion Albert—Cenhedloedd yn galaru—Yr Arddangosiad—Ga-  
 lar Cymru—Frogmore—y tadd yn yr ardd—Gweddi dros y teulu.

AIL i gwsg neu wael gysgod  
 Ydyw 'n rhwysg o dan y rhôd :  
 Y ddoe ddiflanodd heddyw ;  
 Pa ddyn fydd y fory 'n fyw ?  
 Lle bo llwydd, nis gall bellau,  
 Diwrnod ing—dyrnod angau.

*Hsu  
 again oed*

Rhyw drymion, adgofion, gant,  
 Gyfodant i'n gofidio.

= *Hsu.*

Yn mysg llon obeithion, byw,  
Enhuddwyd erbyn heddyw,

= *Hsu.*

Prophwydem, addawem ddydd  
 Hir, i'n Cun, er ein cynnydd ;  
 Ond Ow ! mor fuan y daeth  
 Du wg, y siomedigaeth !

Yn nghanol holl orfoledd,  
 Y llawn lys, a'r llonol hedd ;  
 Gelyn oedd yno 'n gwiliaw  
 A'i gledd mewn cuddiedig law,

I ddirgel roddi ergyd,  
 Ddeuai 'n bwnc newyddion byd.  
 Daeth i'r llys, i'w echrys waith,  
 Rhwng eirf, y rhengau hirfaith ;  
 Fe heriai yn ei fawredd,  
 Y clo, y fidog, a'r cledd ;  
A'r gwr, mawr ei ragoriaeth,  
 Yn nod i'w gleddyf a wnaeth.

*Hen.*

Arwydd ar arwydd a ro'ed  
 Ini na welai henoed ;  
 Suddo yn is, is, yr oedd  
 I waered i'r dyfnderoedd.  
 Tramwy wnai y trwm newydd  
 Ar ei daith drwy 'r nos a'r dydd ;  
 Ac un pwnc a enwai pawb,  
 O awr, i awr, drwy Ewrawb :  
     bawb yn hon, bob yn air  
 Melltenai 'r trymlyd hanes.  
 Ofer oedd pob rhyw ddyfais,  
 A phob newydd, gelfydd, gais ;  
 Ofer oedd gwasgfa 'r weddi,  
 Ac erfynion, bron heb ri  
 Aeth ymaith bob gobaith gwan,  
 A'n ffydd oll a ffodd allan ;  
 Daeth hyd y bywyd i ben,  
 Er golud a medr Galen.  
 Yntau a deimlai 'r fantol  
 Trwy wanhâd yn troi yn ol.

Yn ddi ofn ymddiddyfnodd,  
 O'r byd, at r eilfyd y trodd. = *Coll.*  
 Mal huan hardd yn mlaen nos  
 Yn cefnu ar y cyfnos,  
 Gwenai pan welai ei hawl,  
 I groeso 'r Iesu grasawl.

Clywai 'i ffydd, sw'n adenydd trydanol,  
 Gweis paradwys a'u miwsig ysprydol,  
 Ato 'n ufydd deuai 'r fintai nefol,  
 I gyrchu 'r dewr o'i garchar daearol,  
 I fwynhau nef anwywol—gwlad heb fedd,  
 Lle trigu hedd, mewn pebyll tragwyddol.

Drwy wên Duw medrai 'n dawel,  
 Heb gyffroi, roi y ffarwêl.

Ffarwêl ydoedd gyffroai waelodion,  
 A dirgelaf deimladau 'r galon ;  
 Trywanai fynwes ein tirion Fanon—  
 Gwên ni welai yn mysg ei hanwylion.  
 Disyfyd ergyd oedd hon—i'r holl lys,  
 A'i hadsain erys hyd oes ein hwyron !

*Victoria* 'n druan, droes draw,  
 Yn nbrymder dwyster distaw !

Dagrau brwd ei gwir bryder—a redynt  
 Ar hyd ei bron dyner ;  
 Er hyn oll ar ei Ner—y pwysodd hi  
 Yn ei chaledi ni chiliai 'i hyder.

F' awen hoff! cawsom fwynhau  
 Y byd yn ein gwibiadau,  
 Gwelasom enwog lysoedd,  
 A'r mwynhad diymwad oedd  
 Yn nheulu 'n Gwron hylwydd,  
 Yn amser llawnder a llwvdd. = *Am.*  
 A'wn yn awr dan ein hiraeth  
 I wel'd ol y swydol saeth,  
 A wnaeth ein Banon weithian  
 Yn drist weddw, welw, wan.

O! 'R olwg ddyeithr welaf,  
 Ar un fu'n llon fel yr hâf.  
 Natur o'i mewn sy'n trymhau,  
 Oerwyd gwraidd gwrid y gruddiau.  
 Rhed drwy 'i holl ddirfawr drallod,  
 I gôl yr Anfeidrol Fod.  
 Os yw loes, dyfnloes y dydd,  
 I'w bron hi fel briw newydd,  
 Nid dyeithr fan i'n Banon = *Proest.*  
 Ydyw trugareddfa 'r Iôn.  
 Gweddi daer gweddw diriawn,  
 Mor hynod yw—ymwrandawn.

“ O fy Nuw! fy Nuw! fy nawdd!  
 “ Mae 'n anhawdd ymunioni  
 “ Dan faich sy'n dwyn fy iechyd,  
 “ Mi, o bawb, sy'n chwerw'm byd.



Collais fy mam—fy mam oedd  
 Im' fel nawdd am flynyddoedd :  
 Ac O ! fy mhriod cyfiawn,  
 Albert anwyl, anwyl iawn,  
 A gollais, collais ŵr cu—  
 F' anwylyd—pen fy nheulu.  
 O ! 'r gwr oedd well na'r goren,  
 Yn nwf'n serch y fynwes hon !  
 Minnau 'n ol mewn anialwch,  
 Heb gysgod mewn trallod trwch.  
 Gwel naws y galon isel,  
 Cyni ro'es arni ei sel.  
 Iesu mawr, dod ras i mi,  
 O stôr dy fawr dosturi ;  
 Cofio wnaif mai cyfiawn wyt—  
 Dywedaf mai da ydwyt.  
 Duw 'r weddw, dod arwyddion  
 O'th wên deg yr adeg hon ;  
 Rho, fy Nuw, brawf o newydd,  
 O'm hawl mewn effeithiawl ffydd.

“ Yr iawn ffydd, a rydd im' ryddid—fy Nuw  
 I fwynhau 'th addewid ;  
 Yn dy law, heb ofn dy lid—y llechaf—  
 Yno y parhâf dan bob rhyw ofid.

“ Ond pa ham y gwywa'm gwedd,  
 Yn ogof fy unigedd ?

"O! mi wn y dylwn ymdawelu,  
 Mae dy law fy Iôn i'm dal i fyny; = *lyk it*  
 Y nef wen a hawliodd ben fy nheulu,  
 Mae yno o ras yn nghwmni 'r Iesu ;  
 Rho im' nerth i ymgrymu—ai cyson  
 Yw synio cwynion am un sy'n canu ?  
 Mae 'n wych ei drigfa mewn man uwch drygfyd—  
 Gwlad ddifyr uwch haul—gwlad ddifrycheulyd,  
 Pereiddfa pob rhyw hawddfyd—nef barhaus,  
 Heb olion beiau sy'n blino bywyd.

"Pa beth yw llys, teyrnlys tal—  
 Digonedd byd i'w gynnal,  
 Wrth wynfyd y byd uwchben,  
 A lle 'r ysbrydion llawen ?  
 Lle mae llon gyfeillion fyrdd,  
 Heb aeth mewn llwyni bythwyrdd ;  
 Lle caf yr hyfrydaf fraint  
 (Doed hyn cyn nychdod henaint)  
 O'i wel'd yn llawn anwylder,  
 Ger dy fron, fy nhirion Ner."

Y BEDD yw diwedd pob dyn,  
 Heb dwrf daw pawb i'w derfyn ;  
 Una ef yn ei afael,  
 Y teyrn gwych, a'r truan gwael.

Bychain a mawrion sy yno 'n hunaw,  
 A chydwastad fnt yn y llwch distaw ;

Gwychedd i'w ddiwedd ddaw—yn y bedd—  
Gorwedd yn unwedd mae pob gradd yno.

Ofer ceisio gwisgo gwên,  
Prudd yw pob bardd o awen,  
Wrth gofio cau bolltau 'r bedd,  
Ar ein gwron hygarwedd.  
Bedd, yw bedd, er gwychedd gwawr.  
Cof faen, o decaf fynawr.  
Nid all y marmor dwyllo,  
Newydd friw y weddw fron ;  
Nac addurn gwyddfa, guddiaw  
Hyll wyneb crin brenin braw.

Anniddig Nadolig<sup>1</sup> du,  
I swn cwyn troes ein canu.  
Ing y byd ! angau, a bedd,  
A roes i bob rhyw rysedd ;  
“Darn llaw” yn rhoi cyffraw c'oedd,  
A gladdai ein gwyl wleddoedd.  
Nid oedd dawns ar y dydd du,  
Na hyf ddyn feiddiai wenu.

Swn y glulgloch ac ochi—a wancus]  
Lyncai ein gwyl gerddi ;  
A chwyn a'n cyfarchai ni—ar bob cam,  
Am ein nêr dinam, na raid ei enwi.

“ Rhinwedd uwch y bedd fydd byw,”  
Hen air oedd, mae 'n wir heddyw ;

<sup>1</sup> Rhagfyr 23ain, y claddwyd y Tywysog. Google

A buddugol oesol wir,  
Yw "A garo a gerir."

Tyr'd, awen drist, drist, rho'wn dro,  
Daw atat alwad etto,  
I wel'd ol y du alaeth,  
Bedydd ing dros y byd ddaeth.

Dydd du oedd dydd *Iudea*,  
Dydd dien hoff deyrnben da ;  
Swn chwithig, adwythig dôn,  
Ymgodai o *Megidon*.

Un *Megidon* yw 'n dilon ardaloedd,  
Ar ol arwr fu 'n dŵr i laweroedd ;  
Murmur och'neidiawl drymha 'r marchnadoedd,  
A'n llys arddengys arwydd o ingoedd.  
Swn galar byw glyw trigleoedd—ein tir,  
Ar ol un resir ar len yr oesoedd.

Fe ddihunwyd holl brif ddoniau—ein dydd  
I roi adenydd i'n galar donau.  
Dethol ddynion sy'n dathlu haeddiannau,  
Y gŵr a haeddodd barch gan bob graddau ;  
Trallod ymledodd trwy holl deimladau,  
Y pêroryddion o bob rhyw raddau.  
Sain y reddf fwyn a droes yn ruddfanau,  
Cerdda hir alaeth drwy 'r cerdd orielau.  
Beirdd o bob arddull—beirdd o bob urddau,  
Gyd-ddyhidlant gawodydd o odlau ;  
Attal ni allant eu trist linellau—Google

Beiant dynged, ac enllibiant angau.  
 Pob llygad sy'n gwlawio bendithiadau,  
 Ar enw 'r un oedd fawr iawn ei rinweddau ;  
 A thremia 'n Banon, drwy 'i thrymion boenau,  
 Ar deyrngar arwydd geir drwy 'n gororau ;  
 Parcha nodwedd y pur ocheneidiau,  
 Ddilena 'r galon ffyddlawn i'r golau.  
 Rhyw brudd foddhâd i'w thyner deimladau  
 Yw gwel'd arwyddion ein gwywlyd ruddiau :  
 Wylo wnawn pan welwn ninnau—ddwfn ol,  
 Ias byw arteithiol, ei hysbryd hithau.

Trodd anghysur i'r trirt ARDDANGOSIAD,  
 Llysoedd y miloedd ro'es dan gymyliad.  
 Trwm, trwm oedd gwel'd cadair yr ucheldad  
 Yn wag o'i harwr, foreu 'r agoriad :  
 Golwg un weddw oedd gŵyl y gweinyddiad,  
 Yr oedd gwedd gwagedd ar bob ysgogiad.

Toi ffenestri, wna ffrîw 'n hoff arweinydd,  
 Dyga fabanod i'w gofio beunydd ;  
 Ei lun welir ar gonglau 'n heolydd,  
 Mewn argofion mynorau ac efydd.  
 Carwn weled offrymau 'r cerfedydd,  
 Amlhâed eu rhif mewn mil o drefydd ;  
 Fe hardda ei bryd fyrdd o barwydydd,  
 Mae bywhau 'n hiraeth am ein banerydd. *— C. H. D.*

Pa le, Britania, deg wlad y gwledydd,  
 Mae'th wyddfa<sup>1</sup> fawr i'n blaenawr ysblenydd?

<sup>1</sup> Gwyddfa. *Monument.*

Cyfod ! O cyfod ! golofn gan' cufydd,  
 I'r anwylaf o'th arwyr aneilydd.  
 Mud hyawdledd fo 'n dod yn gawodydd,  
 O'r hirdwr uchel ar yr edrychydd :  
 Mwy na'r gweledig a'r mynor glodydd ;  
 Yw 'r anweledig ar ein haelwydydd.  
 Briw 'r ysbryd iselfryd sydd—yn heriaw,  
 Y gywiraf law, a'r goraf liwydd.

Mae galar, drwy Ewrob-lawn o bobloedd,  
 Teimlo ei eisieu dristâ aml lysoedd ;  
 Ei goffa da sy'n hulio teyrnasoedd,  
 A'i fri eneinir gan drist freninoedd.  
 Y mae hiraeth yn croesi y moroedd,  
 Rheda mal nos ar hyd aml ynnysoedd ;  
 Cŵyn odlau cenedloedd—'hedant i'n llys,  
 Ac aml iaith ddengys gymhleth o ingoedd.

Gwalia Taliesin sy'n casglu tlysau,  
 I urddo 'i hanes ger bron myrddiynau.  
 O fryn, i fryn adfywia 'r awenau,  
 Awdl, a phryddest, ac arwest, y corau,  
 I ddwyn offrwm, teimlad trwm, o'n trumau,  
 Er cof am ŵr o ddinam haeddiannau ;  
 Fe ddenwyd y prif ddoniau—yn ein mysg,  
 I grynhoi addysg o'i wir rinweddau.

Hun dawel i'n teyrn diwyd,  
 Yn *Frogmore* tra byddo 'r byd.

Boed yr un fu heu draha'n ei fywyd,  
 Yno yn *unig*, dros hir iawn enyd ;  
 Pell fyddo'r dydd, y dydd, diddedwyddyd,  
 I roi'r weddw welw yn medd ei hanwlyd.

Rhoes cariad adeilad hardd,  
 Uwch ei gell, mewn chwêg wullardd.<sup>1</sup>

Sai'n ardystiad o gariad gorau,  
 Yn gaboledig, yn mysg y blodau ;  
 Lliwiau yr ardd mewn llawer o urddau,  
 A'r beirdd adeiniog ar beraidd donau  
 Yno gyhoeddant drwy'n mwyn gywyddau  
 Y daw'r dydd y bydd gwanwyn y beddau :  
 Aml iawn daw'n Banon, mal un dan benyd,  
 Yno'n ddi-drwst, ond nid yn ddi-dristyd ;  
 O deml adgofion, prudd deimlad a gyfyd, = *Here*  
 Pan yno'n wylo am ei hanwlyd ;  
 A'i mawr bwngc wrth dramwy'r byd—fydd adrodd  
 Am un a garodd, sy'n awr mewn gweryd.

Yn iach, i'w gyfeillach fyw ;  
 I'w rodd a'i gynghor heddyw.  
 Os trwm yw cadw mewn côf—y gŵr hwn,  
 Ef ni ollyngwn i ddyfnwyll anghof. = *Here*

Bendith, can bendith, heb ball,  
 Ddilyno ei eiddo oll ;

<sup>1</sup> Gwullardd: —*flower garden.* ;

Ato, i'r byd draw heb wall,  
Bo'n tynfa'n gyfan heb goll.

Duw gadwo'n Banon, beunydd,  
Trwy y daith, hyd hwyr ei dydd.

A chadarn serch, y deyrnas hon—a fo'r  
Prif em yn ei choron ;  
Boed ar ol ei chyfoedion—yn byw'n hir,  
Etto'n ein tir hyd henaint eu hwyrion.

O Dduw ! clyw weddi awen !

● Rhydd mil myrdd eu haml "Amen."

IDWAL



"Iwdl Rhivallon."

---

Iwdl ar Albert Dda.

GAN ISLWYN.

n y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol  
Abertawg, 1863.

LLANELLI:

EDDEDIG GAN D. WILLIAMS & SON.

WREXHAM: HUGHES AND SON.

Iorgan and Chase, 3, Amen Corner, Paternoster Row.

MDCCLXIX.



## CYNWYSIAD.

---

### I.

**MYFYRDODAU** ar sydynrwydd ei farwolaeth, a galar y Frenines ar ei ol—Balmoral, Osborne, a Windsor wedi colli eu swyn iddi hi—Cydymdeimlad Prydain â'i Mawrhydi, ac erfyniad ar i Gysurwr pob galarus ddal ei meddwl rhag suddo—Cydymdeimlad gwledydd tramorawl—Cyfeiriad at yr Anerchiad a ddanfonodd Penaethiaid Zealand Newydd i'r Frenines yn ei galar, a dymuniad am ffyniant y Dderwen a blannodd ei Mawrhydi i goffadwriaeth **ALBERT DDA**.

### II.

Na welwyd ei gymeriad yn ei holl ogoniant nes ymadael o hono o'n mysg—Parodrwydd y byd i fawrau y Rhyfelog, a'i hwyrfrydigrwydd i weled y Da.

### III.

Ei achau urddasol—Llys *Rosenau*, ei le genedigol—Trem ar foreu ei oes—Ei ymlyniad wrth rinwedd pan yn ieuanc, a'i lwyr ymrôad i ddysgeidiaeth—Yn ymaddfedu yn raddol i'w Ddyfodol yn Mhrydain.

## IV.

Ei ddyfodiad drwodd—Mai cariad a'i dyg i'n mysg, ac nid awydd am allu a gogoniant—Ei Briodas â Victoria—Dyddanwech dydd eu Huniad!—Gorfoledd cyffredinol y Prydeiniaid—Rhagoriaeth Cariad—Eu priodas yn engraff i'r byd o undeb wedi ei sylfaenu ar Gariad pur.

## V.

Y Tramorwr yn dyfod yn Brydeiniwr trwyadl—Wrth briodi y Frenines, iddo briodi y Wlad hefyd—Ei ymlyniad wrth y Faner Brydeinig, a'i bryder dros ei hanrhydedd hi hyd yn nod yn awr angeu.

## VI.

Prydain yn cael y Tywysog yn nerth ieuencyd, a'i holl gynneddfau wedi eu dadblygu yn gyflawn, yn barod i'w gwasanaethu.

## VII.

Ei fuchedd bur—Ei Dylanwad ar foesoldeb y Bendefigaeth a'r Wlad—Halogrwydd y Llys mewn amseroedd blaenorol, a'i burdeb yn bresenol—Yr urddas penaf a'r rhinwedd buraf yn cydgyfarfod yn ei deulu—Y iawn reolaeth, a'r crefyddolder, a'r ymlyniad wrth “Yr Aelwyd Gysegredig,” a welir heddyw yn y Cartref Breiniol.

## VIII.

Ei ofal mawr gyda magu ei deulu—Ei lafur yn hyn wedi ei wobrwyo yn helaeth yn rhinweddau dysglaer y Tywysogion a'r Tywysogesau Breiniol—Y byd yn edmygu eu purdeb—Pan fyddo gorseddfaine dramor yn wag, hir-aethir am gael un o dy ALBERT i'w llenwi.

## IX.

Cais y Groegiaid am gael Alfred yn frenin arnynt—Y gwasanaeth mawr a gyflawnodd wrth lunio cymeriad Brenin dyfodol Prydain Fawr—Yn ei ddanfôn i deithio trwy wledydd pellenig—Dylanwad Teithio er äangu ei feddyliau am Ddyn, er ffurfio cylymau boreu a'r byd, a chreu teimlad o gyfeillgarwch yn ei fonwes at Genedloedd ereill—Yn dwyn yr Elfen Grefyddol i mewn i addysgiaeth Tywysog Cymru, trwy ei ddanfôn ar daith i wlad gysegredig y Prophwydi a'r Ceidwad—Dymuniad ar i Dywysog Cymru rodio yn llwybrau ei Dad hyd ei fedd.

## X.

ALBERT DDA fel Noddwr Addysg y bobl—Ei wasanaeth yn agor Ysgolion i blant ymddifaid, a Badd-dai i dlodion—Ei Elusengarwch—Y wasanaeth a gyflawnodd yn mhlaid Masnach—Ei Areithiau.

## XI.

Y cynorthwy a roddes i'r Frenines fel Cynghorydd mewn pethau gwleidiadol—Nad oeddym yn gwybod, hyd ei ymadawiad, fawredd ei wasanaeth yn y Cynghor—Ei hunanymwadiad—Ei waith yn gwrthod y swydd o Ben-cadfridog.

## XII.

ALBERT DDA yn ei brif gymeriad fel Noddwr y Gwyddorau a'r Celfau, a'r holl sefydliadau sydd a'u hamcan at lesoli a dyrchafu Dyn—Ei lafur o blaid Cywreinrwydd a Diwydrwydd yr Oes—Ei wybodaeth a'i brawon mewn Amaethyddiaeth.

## XIII.

Ei brif fendith i'r byd, a'i gynllun clodfawr er dwyn i ben UNDEB YR HIL DDYNOL, sef yr Arddangosfa Fawr—Galw yr holl genedloedd i'r Palas Gwydr—a'u cydgynulliad dedwydd yno—Gogoniant yr Arddangosfa Gyntaf—Y gwahaniaeth rhwng cydgyfarfyddiad y bobloedd yn yr Arddangosfa, a'u cydgyfarfyddiad gynt ar faes y gwaed—Y cenedloedd yn canfod yno eu hymddibyniad ar eu gilydd, ac yn gweled drwg rhyfel, a benthion heddwch ac unoliaeth—Yr anhawsderau oedd ar ffordd y gwaith yn diflanu o flaen barn ddiwyro ac egni dirfawr y Tywysog—Ei ogoniant ar ddydd yr Agoriad.

## XIV.

Y prudd-der a daenwyd dros yr Ail Arddangosfa drwy ei farwolaeth—Trem ar y Cywreinion a ddygwyd yno—Dylanwad yr Arddangosfa er bywiocâu y Celfau, a'r fantais a gaed i gelfyddydwr trwy ganfod gwelliantau eu gilydd—Prudd-der y Bardd wrth fyned i mewn i'r Ail Arddangosfa, a'i Phen a'i Hamddiffynwr yn y bedd!—Er marw yr Arweinydd, fod y Sefydliad yn anfarwol.

## XV.

Ei oes yn fer, ond yn fawr, ac yn llawn o waith—Y defnydd rhagorol a wnaeth o'i amser—Ei grefyddolder, a'i orfoledd yn angeu.

# Albert Dda.

---

TARAN uwch llys Victoria—a dorodd  
Dros dyrau'r freninfa,  
Braw a'u todd oll, ALBERT DDA—yn sydyn  
Gyrhaeddai derfyn gorddiwyd yrfa!

Angeu er holl londer llys  
A dorau aur, nid erys;  
Rhag ei nerth mor egwan oedd  
Bri neu anллоedd breninllys!  
Unfodd â llwyn bychan anfalch  
I daran foltt, yw Derwen falch;  
Er cryfed balched uwch ben  
Llwch ydyw i'r llucheden.

Un prydnawn Prydain hunodd,—truenus  
Tranoeth y cyfododd:  
Gloywawr y Sul pan glywodd  
Hanes ei dranc, yn nos drodd.

Ganol nos ei gnul a wnaeth—i gannoedd  
Gwnu'n brudd gan hiraeth;  
Ar ei ol i fawr alaeth  
Ac arwyl ddu Caerludd aeth.

Ein Banon gun o'i hunaw  
 Sydd drist ar ei gorsedd draw.  
 Palasau heirdd, pa les ynt!  
 Eu swyn a ffoes o honynt!  
 Ar lawer haf dihafal  
 Ble mor hoff â Balmoral?  
 Pan gynt y delynt ill dau  
 Er mwyn hedd, i'r mynyddau?  
 Penau'r mynyddau yn nef  
 Oeddynt i'w gwel'd o'u haddef,  
 A garw drum Lochnagar draw  
 Uwch iddynt yn ymchwyddaw!  
 Annedwydd weithion ydyw,  
 Oer fel y fân Alban yw.  
 Poen yw gwel'd Abergeldie,  
 Mae yn saeth i'w monwes hi.  
 Y iach Alban uchelbur  
 Eilw i gof ei mewnołgur.  
 Darfu'n llwyr yr arwyrain  
 A'r hoen geid yn Osborne gain.  
 Ni all rhwysg uchelwysg chwaith  
 Sirioli Windsor eilwaith;  
 Tywyll yw y Castell heb  
 Wenau ei addwyn wyneb.

Eglywir y nodau galarnadol  
 Cyfyd holl Brydain ei sain gresynol,  
 Yn ei galarwisg mae yn gwyl eiriol  
 Bore a nawn dros y plant breninol:



A'i gweddi sydd yn ufydd ger nefol  
Orseddfa yr Ion, dros y Weddw Freinol.

Pan fo Victoria anwyl yn wyllo  
Parod iawn gawn ein Prydain i gwyno,  
Yn ei holl ofid mae'n dagrau'n llifo,  
Ei baich a ddygwn, cydunwn dano;  
Mewn parch ei chyfarch a wnawn, a'i chofio  
O flaen gorsedd trugaredd, taer guro:  
A bedd ei hun anwyl—byddwn yno  
Yn filoedd gwlad i fad gydofidio.

Yr Ion nas methodd a'i rin esmwytho  
Loesau y galon ddilon, Ef ddalio  
Ar ei gwiw sedd ei meddwl rhag suddo:  
Ac Oh'r dda atteg, gobaith cwrdd eto  
A'i chu anwylyd, hon a'i chynalio!  
Gobaith gwlad ber uwch ser a'i chysuro!  
Gweled drwy ffydd beunydd y bo—'r pell dir,  
Ah, ni yngenir enw angeu yno!

Y gyfyng awr a gofir,  
Hiraeth oedd ar fôr a thir.  
Rhoddai llongau arwyddion  
Galar dwys uwch gwely'r dôn:

Cydstyngent, hwy iawn wyrent  
Eu baneri,  
Taenai'r hiraeth a'r mawr alaeth  
I'r môr heli.

Hwnt ar adenydd hoewon trydanol  
 Ehedai'r eres hanes resynol  
 Cyffroai dòn ar fòr cyffredinol  
 Dynoliaeth—tòn o hiraeth tynerol!  
 Holl Ddynoliaeth aeth o'i ol—i wyllo,  
 Arwyl oedd hòno idd yr Hil Ddynol!

Rhyw lèn ddu dros Berlin ddaeth,  
 Elai ei llys i alaeth,  
 Ei rhwysg am alarwisgoedd  
 Drwy gur newidiai ar g'oedd.

Paris orwemp roes arwydd  
 O gyd-deimlad rhad yn rhwydd.  
 Pob dawn wnai'i ffyddlawn goffâu  
 Hyd awen Môr y Dehau.

Dawn awen Zealand Newydd—draw gwynai  
 Drwy ganiad ysblenydd,  
 Dyr boen Victoria beunydd,  
 Iachâol falm i'w chlwy' fydd.

Pren mwya'r goedfa i gyd—draw syrthiodd  
 Dros serth ymyl bywyd,  
 A'i drwst a barai dristyd—  
 Clwy—braw o bell—clybu'r Byd!

Y Dderwen blanodd hiraeth—naturiol,  
 Victoria o alaeth,  
 I'w dirion goffadwriaeth,  
 Oh tyfed ffyued yn ffaeth!

leued stormydd ëon,  
 erch i rwygo hon.  
 ych brasder dyfnder dôl,  
 yw rin dagrau breiniol,  
 r led uwch daear lawr  
 rfyd yn erfawr,  
 w boed mewn Uchder byth  
 silwng o'i Enw dilyth!

lem nes ei guddio—yn y bedd,  
 ldion gaid drwyddo;  
 Prydain i gofio—a wnaeth  
 wasanaeth, a'i gnul yn seinio!

g trystfawr fola—y byd,  
 oedi ymgryma;  
 dd adnabydda  
 ol, duwiol, a Da!

l wedi ei golli,—dalodd  
 led i'w deithi;  
 nor, neb i lenwi  
 ni welai hi.

o mwy mawreddog—i gyfion  
 nt ei Thywysog  
 hanes am goronog—benau;  
 riniau pa deyrn mor enwog!

Olrheinir dysglaer hanes  
 Ei ach Ddugiol, yn ol, nes  
 Darfyddo pallo y pell  
 Oleuni ar y linell.

*Rosenau* fangre swynawl  
 Adgoffeir gydag hoff fawl,  
 Ei le genedigol oedd,  
 A bro tad ALBERT ydoedd.  
 Hoffwn yn awr gerllaw'r llys,  
 F'wyn Awen! gael fy nhywys,  
 A'r ser yn haner siarad  
 Am rai fu mor hoff, mor fad,  
 Ond rhai sy'n awr gyda'r ser  
 A Naf! na b'awn o'u nifer!  
 Yn nistawrwydd nos torwn  
 I wylo wrth gofio gwn.

E roddodd ef wawrddydd oes  
 I Rinwedd, boreu'r einioes.  
 Ac ymyl trollyn camwedd  
 A ofnai fal dyfnaf fedd.  
 Aeth trwy brofedigaeth deg  
 Glas oed, beryglus adeg;  
 Diangodd o'i hud engur,  
 A cha'dd barch am fuchedd bur.

Rhoddodd ei fryd ar addysg,  
 A dod yn enwog mewn dysg.

Dygai barch dysgedigion,  
Gloew barch o Brifysgol Bonn.

Ysgolor diesgeulus—a thrwyadl  
Dan athrawon medrus,  
Rhoddodd gamp fawreddus—o'i flaen yno,  
Enillodd hōno yn llwyddianus.

Yno rhoes sail oes i lawr,  
Sylfaen bywyd llesolfawr.

Ei feddwl yfai addysg,  
Llyn ydoedd, a dyfroedd dysg  
Yn ei llenwi drwy lonydd  
Efrydion dyfnion bob dydd :  
Torai ei lawnder tirion  
A'i olud ar y wlad hon :  
Feddyliol gronfeydd helaeth !  
Eu llenwi i ni a wnaeth.

I'w ddyfodol ymaddfedu—yr oedd  
Yn raddol—dadblygu  
Y ddawn oedd i weinyddu,  
A dwyn gwawr ar Brydain gu.

Ior a edwyn yr adeg,  
Mae'n paratoi mewn pryd teg.  
A'i law gref e blyg yr Ior  
Y gangen at ei gynghor.

Myn y pren i'w law mewn pryd  
 Yn ifanc—a'r dyn hefyd.  
 Parotoai ALBERT ieuanc  
 I wlad ei dreigl, i fawl didranc !  
 Cymhwysder ga'dd drwy addysg,  
 Y dyn mawr, i ddod i'n mysg.

Is rhêolau a gwersi yr aelwyd,  
 Boreu tawel einioes, ALBERT luniwyd  
 I'w hoff yrfa—i Brydain ei ffurfiwyd !  
 Mewn gwybodau a moesau cymhwyswyd.

Y mae yn gyfiawn i'm hawen gofio  
 Am y swyn addien grymus wnaï iddo  
 Adaw Coburg, rhoi Gotha deg heibio,  
 Er mwyn gwneyd Prydain addwyn yn eiddo.

Uniawn Dywysog ! Pan ein dewisodd  
 Nid am enw neu am glod y dymunodd,  
 Nac am allu—Serch pur a'i cymhellodd :  
 Nid ei addysg, ei *galon* dueddodd  
 ALBERT yr ieuanc i lwybraw trwodd :  
 Nid y goron ogoned a garodd—  
 Y Goronedig addfwyn a'i swynodd !  
 Ei theyrnwialen a'i thron ni welodd !

Y deg Victoria a'i dygodd,—swynion  
 Victoria lon dros y dôn a'i denodd :  
 Yn ddilwgr ei gariad ddaliodd,—tyhâu  
 Wnaï'i aur reffynau oni orphenodd.

Dyddanwch dydd eu Huniad  
 Gofir yn hir, a'i fwynâd;  
 Wrth eu plant traethant yr hen  
 Am floedd y lluoedd llawen,  
 Unol gyffredinol dôn  
 Anwyl-ber gydgân Albion;

A'r taranau o'r Twr enwog,—a niwl  
 Magnelau galluog,  
 Bob llun yn dyrchu'n dorchog—i'r nefoedd,  
 Llèn daenfawr oedd uwch Llundain fawreddog

Prydain yn darwain ar uchelderau  
 Orfoleddus folianus filiynau,  
 A'u llwyr fryd oll ar fawrâu—'r Pâr Breiniol,  
 Rhoi llef arddunol, yr holl fyrddiynau!

Caent fendith Cymru hithau,—anfonodd  
 I fyny weddiau  
 Hyd orsedd Ior dros y ddau  
 Am lwydd, hedd, ac aml ddyddiau.

Hawddgar bâr, oedd ger y byd  
 Yn hyfawl gynllun hefyd—  
 O undeb a ffyddlonder  
 O dan fad ordinâd Ner.  
 Delw o anwyl gyd-lynu,  
 A chwrdd teg, serch o'r ddau tu.

Oh Gariad ! pa'n rhagori  
 O'r rhiniau teg, arnat ti !  
 Golud byd benbwygilydd  
 Hebod megys sorod sydd,  
 Wyt oludoedd mewn tlodi,  
 Gwnei'n dyner ein hadfer ni  
 Yn ol mwy o'r anial maith,  
 Yn ol i Eden eilwaith !  
 Y llwythog ddidwyll weithiwr  
 Yn ei gaban, egwan wr,  
 Efo ei fun gun a gâr  
 A chrug o blant chwareugar,  
 Dedwyddwch ydyw na glyw gwlad  
 Dan goron, nas adwaen gariad.

Bri ydoedd y Briodas—ar Gariad  
 Pur, ger yr holl deyrnas :  
 A daeth i Gymdeithas—yn engraff lân  
 O iawn a dyddan ieuad addas.

Collfarniad oedd eu huniad hwy  
 Ar ý rhai fedrant roi'r fodrwy,  
 A rhoi y llun oer, y llaw,  
 Y galon yn gwrthgiliaw  
 Yn anffyddlon, a'u monwes  
 Mal y graig heb deimlo gwres.  
 Annheilwng er mwyn elw  
 Yw rhoi'r llais i eirio' llw !



Y mawrwyd ieuanc Dramorwr—droai  
 Yn drwyadl Brydeiniwr ;  
 Daeth o galon, union wr,  
 Y goraf Brydain-garwr.

A'n Brenines gun pan ymunodd,  
 Ei theg oror am byth a garodd,  
 A'i gwiw Luman ei serch ymglymodd,  
 Diau â'n Prydain y priododd !  
 Oh ! y drem yn angeu drôdd—gan bryder  
 Ar ei hoff Faner, pan orphenodd !—

Pan oedd rhyfel fel ar fin  
 Agoryd yn dra gerwin ;  
 A newydd ddwys orbwysig—i'n goror,  
 Ar y môr, yn dod o'r Amerig !

Ei rym i Brydain a roes  
 A rhanau goreu'r einioes.  
 Hi gafodd ALBERT gyfiawn  
 Yn mlodau'i ddyddiau a'i ddawn.  
 E ddaeth i'w gwasanaethu,  
 A hyd ei fedd diwyd fu.

Oedd barod i'w hynod waith,  
 A chalon i'w uchelwaith ;  
 Egni llawn i gynlluniaw  
 A f'ai o les, a chref law  
 I hollol weithio allan  
 Yn ddioed a roed i'w ran.

B

A'i gyneddfau gwiw'n aeddfed,  
 Fel pren firwythlawn ar lawn led.  
 Yn mhuredd ei gymeriad  
 Buddiolai goleuai'n gwlad.

Di fai y caed ei fywyd  
 Ar fryn uchaf balchaf byd.  
 Llygredig bendefigaeth,  
 Iachâu ei ffynonau wnaeth;  
 I fawrion mewn oferoes  
 Halen a fu ei lân foes.  
 Mal cant yn ymyl y Sedd  
 Briai arweiniau Rinwedd;  
 Rhoddi myg arwydd ei mawl  
 Ar nen y llys breninawl.

Ar wybrenau uchder breiniol—haul oedd  
 I lu amgylchynol,  
 Yn cyneu yn y canol,  
 A hwynt draw aent ar ei ol.

Puredd a rhinwedd i'r Oes  
 A geir, os gwelleir y llys,  
 Yno mae ffynonau moes  
 Fywiol, a'r cyfeiriol fys.

Eywyd ein llys, echrys oedd,  
 O'r genedl llygrai gannoedd;  
 Gwridai cywilyddiai'r wlad—am lygredd  
 Euog a'mhuredd ei gymeriad.

Deuai, trwy'r Tywysog duwiol,—i'r lle  
 Ryw wellâd rhyfeddol;  
 Eglur yw nas gwelir ol  
 Yn awr, o'r llwgr blaenorol.

Hynodol gynllun ydyw  
 I ni o foes a iawn fyw.

Trwy rym ei fuchedd dra rhinweddol  
 A goren foddion siampl grefyddol  
 Adenillid, glanêid yn hollol,  
 Iê'n llwyr ddwys y Lle urddasol.

Allor sy gerllaw'r Sedd—i Dduw'r Heddwch,  
 Clwy edifeirwch, a chân clodforedd.  
 Cân i'n Daw cyn hyn nid oedd  
 Hoff sain yn nhai'n breninoedd.

Peunydd yr urddas penaf—coronog,  
 Ac y rhinwedd lwysaf,  
 Yn ei deulu 'nghyd welaf  
 Dan ryfedd dangnefedd Naf.

Y mae gofal am gyfoeth  
 Drwy ei dy, cynilder doeth.  
 Union drefn cysondrefn sydd  
 Trwy y llawn gartre llonydd:  
 Yno byth canfyddwn bêr  
 Lewndid, heb afradlonder.

Cyfuwch o'r blaen nis cafwyd—teuluaeth,

A iawn reolaeth y dyner aelwyd.

Cartref hoff, nis ceir trwy fyd,

O afrif, un mwy hyfryd :

Ymlyniad am y lonydd

Aelwyd, a serch ar led sydd :

Gau fyd o'r dihalog fan

A'i dwrw oll, gedwir allan.

Le tawel! mae fel am fod

O dŵrf y byd sy'n darfod,

Mewn rhyw gu ymneillduedd

I fwynâu dwyfol-ddwfn hedd,

A siarad am y wlad lon—a diwall

Sy o'r tu arall i'r ser tirion.

Hwy dalant, dduwiol deulu,

Barch i'r Ddwyfol gyfrol gu,

Y gyfrol ddwg i efryd

Reol y Farn o'r ail fyd.

A hwyr llonydd darllenant

Air Duw Nef, a'i gredu wnant.

Ac fel Tad ca folawd teg

Yn Mhrydain am hir adeg.

Cymysg heb derfysg bob dydd

Ei gariad a doeth gerydd.

Mewn haelaf addysg os manwl fyddir,

Ac os prydlon geryddon a roddir,

I benteulu tra buan y telir,

O hau yn forau cnwd llawn a fwir.

Yntau a welodd fel Penteu  
 Yr had hygar cynar yn cwnu,  
 Ei blant trwy'i noddiant yn cynyddu  
 Mewn hedd, a'u rhinwedd yn serenu,  
 Rhai fagodd gododd mor gu,—mor gynhes  
 Yn ei fonwes, fel ŵyn i fynu.

Fe'u lluniodd fe'u magodd nes edmygir  
 Gan yr holl wlad eu cymeriad mawrwir;  
 P'le mae ar go' esiamplau mor gywir  
 O rodiad, o gariad mor ragorwir!  
 Eu bywyd hwy ar bob tir—sy'n rhoddi  
 Hoff hardd oleuni, a'u ffyrdd ddilynir.

Ac o bydd gorseddfainc bell  
 Yn wag dro, eir heibio'r oll,  
 Ac o'i dy gwiw (nis caed gwell  
 Erioed) e geir rhi di goll.

ATHEN a fynai ethol—un o'i dy  
 Iddi'n deyrn rhagorol,  
 I roi y ddeddf a'r rheol—o'i llys cain  
 A'i thron firain, i'w thir anfarwol.

Rhedai hanes am Alfred yno  
 A'i enw tyner a wnai eu tanio,  
 Hoffasent carasent roi'u croeso  
 A'u caerau nawdd a'u Coron iddo;  
 Ond hiraethodd teyrngadair OTHO  
 'N ofer, er yn dyner, am dano.

Yn ddi goll magodd y gwr  
 Sydd i fod ar ein Sedd fawr  
 Yn deyrn ben, yn gadarn bor,  
 Y mwyaf sicraf is ser.

Yn dra boreu dechreuodd,—a mirain  
 Gymeriad a luniodd;  
 Gwyrth fawr, Tywysog wrth fodd  
 Rhyddid a chrefydd roddodd.

Mynai i'w fab adnabod  
 Gwledydd gwâr daear, a dod  
 I feithrin gwiw gyfathrach  
 A phawb oll, ac a phob âch.

Ei anfon i'r Gorllewinfyd—i gael  
 Golwg ar eu rhyddydd,  
 Deall y bobl, dull eu byd,—heb atal  
 Nodi'u hamryfal dymerau hefyd.

- Gwell na dysg yw llawen daith,  
 Hir a hoffus yw'r effaith :  
 Mae'n tarfu'r meini-terfyn,  
 Mwyâu'n meddyliau am Ddyn :  
 O bawb i gyd, o bob gwr,  
 Y doethaf yw'r Ymdeithiwr :  
 Ni bu gul neb o galon  
 Ar ol hynt trwy'r ddaear lon.

Efe, a welodd fwyaf—o'n daear,  
 Dïos yw'r cymhwysaf  
 I lywio'n ol meddwl Naf,  
 A chael y sedd uchelaf.

Coflaw am y croesawiad  
 A roes Amerig yn rhad,  
 Coflaw'r torfoedd oedd o hyd,  
 Llonfawl y gorllewinfyd,  
 A'r heulog glaer heolydd—trybelid  
 I'w fri gyneuid yn Efrog Newydd,  
 Wna darfu perygl dirfawr  
 A'al llid mewn tywell awr.—  
 Cyfaill fydd er mwyn cofion  
 Y foreu daith hyfryd hon ;  
 A cheir heddwch a rhyddyd  
 O'i g'lymau borau â'r byd.

Uched oedd meddylddrych ei dad  
 Am oreu freiniol gymeriad !  
 Heb grefydd beunydd yn bur  
 Ni fuasai at ei fesur.  
 Rhaid oedd cyffroi'i dueddiad  
 Heb feth, at Dduwioldeb fad,  
 Drwy'i afon i'r Dwyreinfyd,  
 Drwy y lân Gaanan i gyd,  
 Y wlad brid gysgodid gan  
 Adenydd Duw ei hunan ;  
 Hynotaf oror Natur,  
 Angel ar bob awel bur ;

Ac lle bu cawell a bedd  
 Siloh yn ei iseledd ;  
 A'r màn yr holltai'r meini  
 Claf ar ei ol—Calfari !

Bro Esaiah, Jeremiah,  
 Bro Hosëa ber, a Seion !  
 Er mor llonydd, mae'n ysblenydd,  
 Dihefelydd, mewn adfeilion,

E, goelia wedi gweled,  
 Cadarnach cryfach y cred.  
 Cipolwg ar Macpelah  
 Gafodd ef, mae'n adgof dda.  
 O nesâu at fryn Seion,  
 Mae i law ffydd aml i ffon.  
 Yno e droes ffydd yn drem,  
 A seliwyd hi yn Salem.

B'o'r gwr fydd biaur goron—yn talu  
 Parch teilwng i gofion  
 O'i orhoff hynt ; argraff hon—Oh eadwed  
 Diogeled ei gred a'i galon !

Boed fyw ei burdeb hyd fedd,  
 A'r drôn parâed ei rinwedd :  
 Hyd yn nef aed yn ufydd  
 Yn llwybrau 'i dad !  
 Pell bo'r dydd,



Er hyn i gyd i Victoria'n gado,  
 A rhoi'i llwyddiant pur a'i lle iddo!  
 Ei llaw addien hi a'n llywyddo  
 Yn ddiatal hir flwyddi eto :  
 Am y llaw anwyl anwyl hōfō,  
 Y Deyrnwialen draw wnaï wylō!

ALBERT DDA lwybrai at Ddysg—y Miloedd,  
 Neud byddin oedd o du buddion Addysg.

Carai roi addysg gwiwrin,  
 A'i roi i blant gweithiwr blin  
 Na all enill eu lluniaeth,  
 Er rhoi cefn i lafur caeth :  
 Mae'n rhynu mewn oer anedd,  
 Ow brin fyd! bara ni fedd!  
 Pwy gasâ'r plant carpiog sydd  
 Yn wehilion heolydd?  
 Yn crwydro gwibio ar g'oedd  
 Yn isaf le'n dinasoedd,  
 Tros nos heb gartre is nen,  
 Blin eu tynged, blant angen!—

Tyner oedd ALBERT o honynt,—islaw  
 Ei sylw ef nid oeddynt,  
 Ac o'i fodd agorodd gynt  
 O'i nawdd Ysgolion iddynt.

Troi nos y truenusion  
 Nifer llwm, yn foreu llon!

Gwyddai y lles eres sydd  
 O roi addysg foreuddydd.  
 Tra yn egwan plyga'n plant  
 I fyw'n ol rheol rhiant,  
 Gwir addysg sy'n gwareiddiaw,  
 Oes Aur i'n mysg trwy ddysg ddaw :  
 Gwna ei rin goethi'n gweithwyr,  
 Cawn wragedd gwell, a gwell gwyr ;  
 Gwerin fawr, i'r Goron fydd  
 Yn hyfoes werin ufydd.  
 Gwladwriaeth heb gloi dorau  
 A geir fyth yn ymgryfâu ;  
 Byw fydd hon heb fyddinoedd  
 Na'r cledd dur, na'r rhagfur oedd.

Oh Noddwr mawr ein Haddysg !  
 Ei enw oedd dŵr er nawdd dysg !  
 E fynai roi afonydd  
 Yr holl wybodau yn rhydd,  
 A lledu'i asgell lydan  
 Drwy ei oes gu dros y gwan.

Myg Flaenawr ! ymgyflwynodd  
 I ddiwyd fywyd o'i fodd.  
 At bob gorehwyl egwyl oedd,  
 A'i ofalon yn filoedd.

Od adeiledid Badd-dai i dlodion,  
 Boreu teg hafaidd ein HALBERT gyfion  
 Idd eu hagoryd fyddai y gwron ;

ewyllysiwr, gwyddai eu llesion ;  
feddawl rin oerfaddon—i iechyd,  
dda gelfyddyd, meddygawl foddion,

'i rad i'r ymddifad oedd afon  
erthol yn nghanol ei angenion ;  
ur Dywysog, pwy i'r rheidusion  
'r diymgeledd mor dwymgalon !

A chofiai Fasnach hefyd  
Sy ben am lesâu y byd.

agor i longau y moroedd  
o wiw lwyddiant, newydd borthladdoedd,  
byn llawnion faelion i filoedd  
swr ynyswyr, o'r holl deyrnasoedd,  
ion i'r rhai'n lydain oludoedd  
r a'r mwn naddir o'r mynyddoedd.  
rym yno yr oedd,—a'r eirian  
yn hofion ar y nefoedd.

Wrth raid Aweithiwr ydoedd,  
A rhoi'i fryd ar brofi'r oedd.

wyn ei araeth dra synwryol  
enillai bawb yn hollol  
aws unol, i'r un syniad.

ry'i ddull difrifol eglurolau,  
nyfedd haeledd ei feddyliau,  
lawr swm ei resymau,—llwyddo wnaeth  
ei gu araeth, heb ferw geiriau.

Ef oedd gryf, e ddyg ei ran  
Is gofal teyrnas gyfan.

Cynghorydd llonydd gerllaw—ein Banon,  
Beunydd i'w hyfforddiaw,  
Uchaf wr i'w chyfeiriaw,  
A tharian dros ei thrôn draw.

Fry ei chadarn fraich ydoedd,  
A chaer nerth ei choron oedd.

Bu'n tyuu at bwynt union  
Wrth helm y wladwriaeth hon,  
Llywydd dan lonydd leni  
Addfwyn wrth ei holwyn hi.

Am hyn oll nis gwyddem nes  
Rhoi o'n hanwyl Frenines  
Hanes in' o'i wasanaeth  
I'n llys ni a'r lles a wnaeth.  
Heddychol ydoedd uchod,  
Fel seren ar uchel rod  
Yn rhoi o'i goleuni rhwydd  
Tirion, ond mewn dystawrwydd.

Er ei ddyrchu i rod ardderchog,  
O un awydd gau ni bu'n euog;  
Er yn ymyl y goron emog  
Ni ymyrai ag un em eurog;

Gwypmp loewdra ei gemau pelydrog  
 Dan ei ddwylaw gaed yn ddihalog :  
 Wrth droed yr Orsedd fawreddog—eistedd  
 Wnai hyd y bedd, yn Ddeiliad boddog.

Heddychol wr oedd, uwchlaw  
 Y swyn od sy yn hudaw  
 Llawer i ddarwain lluoedd  
 O flas at y rhyfel floedd,  
 A bod un i bawb dynien  
 Tan y ser yn destun son.  
 Ond Efe wrthodai fod  
 I'n cadarn lu'n Benciwdod,  
 Os oedd y brif o swyddau  
 Mwy enwog ceir am nacâu!  
 Y fewnol fuddugoliaeth  
 Ar hunan-glod yn nod wnaeth.

Os hyglod ydoedd y maes gwleidiadawl,  
 I'r enwog Dywysog mwy dewisawl  
 Oedd arwain y gwyddorawl,—ei galon  
 Ac ei hael foddion roes i'r Celfyddawl.

Nid rhwysgfawredd gwagogoneddol  
 Garai, ewyllysiai y llesiol,  
 Rhoi o'i wiw noddod arweinyddol  
 I beirianaeth a chelfau breiniol.  
 Er mawl eirian y llwybr milwrol  
 Trôai o'i fodd at yr ofyddol,

A i ofwyo'r llaw-weithfaol,  
 B i noddi pob amcan haeddol  
 Dyddai i'r byd yn fuddiol,—pob mudiad  
 Er gweillad a gwareiddiad graddol.

Heb feth adnabu ei faes  
 A'i ran dda, llafurio'n ddwys  
 Er llwydd cywreinrwydd yr Oes,  
 A gwneuthur i Lafur les.

Adfer Gwyddawr i fawredd,  
 Ac ailfywâu celfau Hedd.  
 Rhoi nodedd gwirioneddol  
 Di ffug, nid addewid ffol.  
 Rhai noddwyr geir yn addaw,  
 Genau llyfn heb egni llaw ;  
 Ni wnant un ged weithredawl  
 Na dim o fodd ond am fawl.  
 Ef o *wneyd* ni fu yn ol  
 Gan ei hewyd egniol.  
 Un diffael i wneyd effaith,  
 Ni bu'n well neb yn ei waith :  
 Prin ar air ; rhagorai'r ged ;  
 Aruthrol oedd ar weithred.

I'w esiampl dyledus yw  
 Ein Hamaethyddiaeth heddyw.  
 Daeare wnaed i roi yn ol  
 A roddir iddi'n raddol ;

Ei ffrwythydd ni rhydd yn rhad,  
 Na'i moethau heb amaethiad;  
 Diwyllier, a daw allan  
 Yn gan' mil ei hegin mân.  
 Deallus oedd mewn diwylliad,  
 Gwyddai'r ffordd i guddio'r hoff had  
 A thyner nerthu Anian  
 A'i haur lwyth i ddod i'r lan.  
 Hoff ganddo rodio ar hyd—ei gaeau,  
 Drwy ei ddiefrau diroedd hyfryd,  
 Edrych wr haelwych ar ol  
 Ei ddi brin ddolydd breiniol,  
 Golud ei dir, gwel'd y da  
 Hyd ei dyddyn dedwydda'  
 Mewn boddus cysurus hedd,  
 Hyd ganol mewn digonedd.  
 E wobrwyywyd ei brawon  
 A chynyrch per, llawnder llon.  
 Bwriai'i dir bur-yd araul  
 A grym trefn, nid gormod traul.

Trôai ei wyneb rhag y trywanol  
 Gleddyf ac y gwyw lawryf milwrol;  
 Nid eirf tân, iawn drafod dol—gai'i nodded,  
 Coledd yr Oged, nid y cledd rhwygol.

O'i ddoniau i'r hil ddynol  
 Mae yr un mwya' ar ol!

O'i orchwylion, yr uchela'—a fu  
 Y fawr Arddangosfa ;  
 Adail oedd i deulu Adda  
 A barotodd ein HALBERT DDA.

ADUNAW'R TEULU DYNOL,—ac adfer  
 Cydfod cyffredinol,  
 A dwyn Hedd i fyd yn ol,  
 Dyna'i fwriad anfarwol.

Mal brawd e deimlai bryder  
 Dros ei holl frodyr is ser.  
 A'i gariad hyd bob goror  
 Gyrhaeddai fel y gwyrdd fôr.  
 Noddwr holl feibion Adda,  
 Brawd i Ddyn oedd ALBERT DDA,  
 Oh haelfrydig ddyn digoll,  
 Nid dyn Rhan, ond dyn yr Oll.

Galwai'r byd i gyd heb gas  
 I'w drybelid Wydr-Balas,  
 Oh Balas glân, heb elyn !  
 Oh odiaeth Frawdoliaeth Dyn !

Udgorn Hedd sy'n adgrynhoi  
 'Rhil ddynol yn frawdol fry,  
 Mae digter, ffalster yn ffoi,  
 Lle'r oedd sôr, serch llariaidd sy.



Mân ydoedd i bobloedd byd,  
 Eirian gynullfan hollfyd.  
 Pabell hoff, lle nad oedd pob llwyth  
 Ond aelod o'r unrhyw dylwyth.  
 A moesgar gydgymysgu  
 Wnai'r serchus olygus lu.  
 Hapus fan, cwmpasai fyd  
 A'i dawel gelfau diwyd.  
 Ple is haul i'r Palas hwn  
 A'i loewbyrth, gyffelybwn?  
 Palas yr hoffai pelydr  
 Y ne' wen, warae'n ei wydr!

Ah mor deg yn fy mryd yw—'r lle dillyn,  
 A'r flwyddyn—mae'n flwyddyn nefol heddyw!

Mae'n awr fel pe gwelsem ni  
 Nef-adail yn cyfodi  
 Am enyd gorddymunol,  
 Idd y nef ymdodda'i'n ol!

Bloeddio i gad wnai'r bobloedd gynt  
 Arw fodd, pan gyfarfyddynt;  
 Cwrdd yn hyllaf gyflafan,  
 Yn niwl tew, yn nghanol tân:  
 Gwg yn eu golwg welid,  
 Holltai y llawr gan fellt llid:  
 Gan fagnel rhyfel a'i ru  
 Caerau anian yn crynu!

Pa gariad galluadwy  
 Rhengau yn tân! rhyngynt hwy!  
 Nid oedd un arfod iddynt  
 I gael cyfeillachu gynt,  
 Nag mewn oes adeg mwynâu  
 Eu gilydd yn y golau.

Ond er äanged y gofod rhyngynt,  
 Oll yn ei gynllun eu arddun cwrddynt,  
 I deml tangnefedd o'r diwedd deuynt,  
 O'u hol eu handwyol eirf adawynt;  
 Ar ol y gad farwol gynt—mae hedd gwyn  
 Yn canlyn, a blwyddyn Jubil iddynt.

Ar ol y byd enbyd oedd  
 O orfilain ryfeloedd,  
 Dacw Eilfyd y Celfau—yn ymagor,  
 Nid yn mwg magnelau  
 Erfawr, na gwawl arfau,—ond yn nghanol  
 Iach wyl ogonol, ac uchel gânau!

Gwelent eu mad ymddibyniad beunydd  
 Ar ddiogelwch, ar dda eu gilydd,  
 Bod da un genedl i'r byd yn gynydd,  
 A llawnder gwlad yn llanw drwy y gwledydd,

A bod drwg enbyd i'r rhan—yn dristyd  
 A drwg hefyd i'r cyfan.

A deallasant fod llesion—ein Hil

Mewn unoliaeth tirion,

Mai dinystr mwya' dynion—drwy'r oesoedd  
Yw cam ryfeloedd ac ymrafaelion.

Dieithriwch ydyw ethryb

Rhyfel: mwy tawel i'm tyb

Fyddai tynged y gwledydd,—llonyddach,  
Diogelach, o nabod eu gilydd.

Wedi nabod wynebau—eu gilydd

Gwelant yr un nodau

Yn oll, yr un llinellau,—eglur ol  
O anfarwol berthynas forau.

Drwy y Coll er crwydro c'yd—is teirmil

O ystormydd enbyd,

Adref gwelaf eu hedryd,

Rhyw ail gwrdd i'r Hil i gyd.

Un oeddynt oll yn nhy Adda,—un oll

Yn nhy'r Arddangosfa,

Tòdd hwynt; Palas ALBERT DDA—oedd i'r byd  
I gyfanfyd, fel adgof o wynfa.

Mor filain pam y rhyfelynt?—a gwaed

Pam gwedyn tywelltynt?

A hwy'n awr oll, fel yn nhref,

Yn addef mai un oeddynt?

Dyfais ALBERT (ai *dwylol*—*feddwl* oedd !  
 Faedda lid yn raddol ;  
 Dacw y mudiad cymodol  
 Hynaws a wna'n hasio'n ol.

Ac er amêuon o'r Crimëa—deil  
 Y deg Arddangosfa,  
 Hi ddeil nes sylweddola  
 Yn ddi lèn ei dyben da.

Hyd yr Oes hauwyd yr had,—daw i'r lan  
 Drwy lonydd ddeddf tyfiad ;  
 A cheir, o hedd a chariad  
 Na fu mwy, gynauaf mad.

Rhod dai i'w orchwyl tra ardderchog  
 Farn ddiwyraw, a llaw alluog,  
 Wrtho daliai glynai'n galonog  
 Haeddawl dasg, â meddwl diysgog.

A'r anhawsderau yn gadau godent  
 Gan ei ddiflino egni ddiflanent ;  
 A'r daroganwyr o draw a gwynent  
 Aml lu anniddan, oll ymlonyddent,  
 Clod y Tywysog enwog a ganent,  
 Wrth ei wasanaeth, oedd fel gwyrth, synent.

Cadarn a ieuanc ydoedd,  
 Nawn teg ei ogoniant oedd.

Pena gwr oedd ef pan agorid  
 Y ter Balas dysglaer trybelid,  
 Ei enw y dwthwn hwnw fendithid,  
 Ar Lesolwr mawr ei Hil sylwid,  
 A chyfion floedd ddyrchefid,—gan bob iaith  
 A gwlad ei fawrwaith a glodforid.

I'w gyhydedd ymgodai—haul bri teg  
 ALBERT hoff—nis syrthiai—  
 Ond cryfach, uchelach ai—ei leufer  
 A'i amwych loewder nes y machludai.

C'ai haelfeib pob celfau pert  
 Eu canolbwnc yn ALBERT;  
 Pwnc canol, pen, ac enaid  
 Y gu Arddangosfa gaid  
 Ynddo ef—ni ddaw o'i ol  
 Un Noddwr mor ddefnyddiol.

Duwch ei ymadawiad—a niwliodd  
 Ein Hail Arddangosiad,  
 Rhy lesg oedd teimladau'r wlad  
 Gan saeth ac hiraeth cariad.

Oh! y cynyrch a'r ceinion  
 Aml a ddaeth i'r Deml Hedd hon!  
 China ddyg o'i chynydd hael,  
 A'i dewis geinion diwael.  
 Heirddion feinbriddion o'i bro,

O'i mwynwaith welem yno.  
 Bathion, a moddion meddyg,  
 A gorau addurnau ddyg.  
 Mynai Ffrainc, mewn offer hedd,  
 Gynal ei gloew ogonedd ;  
 Nid oedd plith pobloedd pob pau  
 Ei bath am gywrain bethau.  
 Norway ddeuai'n wir ddiwyd  
 A'i mael o bell ymyl byd :  
 I Babell Hedd yn bybyr  
 Deuodd o bau y dydd byr.  
 Trwy hael fodd Awstralia fawr  
 Yrai drosodd aur drysawr ;  
 Oddi draw, hardded oedd drych  
 Ei cholofn aur uchelwych !  
 Brazil, bu eres holi  
 Gael trem ar ei heulem hi :  
 Tymor i wel'd celltemau  
 Yn bur o'r Drofanol bau.  
 Tra hael oedd Awstria o lin  
 A delid, a gwaith dilin  
 O fedrusrwydd hylwydd hon,  
 A dirif oriadyron.  
 Dyg Rws oer o'i bedd-oer bau  
 Ei brethyn o'i bro hithau :  
 Nis traidd gwynt Rwsia trwyddo,  
 Mewn gauaf trymaf gwna'r tro :  
 Crwyn eirth, o'n cylch i'w crynôi  
 I'n mawrles, a chrwyn morloi,

Rhyfedd wrth deithio rhewfyd  
 Dymor gwlaw, ein bod mor glyd!  
 Hefyd cobau dihafal  
 Pert i gyd o Portugal.

Mor odidog Oriel enwog  
 Yr Arluniau!  
 Parai newydd fyw lawenydd  
 I filiynau.

Cerffuniau gorau a gaid,  
 Ar fynor cerfio enaid.  
 Gwenai y delwau gwynion,  
 Delw o bridd anadlai bron!  
 Oeddw'n yn dysgwyl iddi  
 Ado'i man—siarad a mi!

Yn mhob celf mae bywïacâd  
 Eisoes trwy'r Arddangosiad.  
 Newydd hwyl o hyn a ddaeth  
 Rhyfeddol ar ofyddiaeth.

Torf oeddynt yr ofyddion—goronwyd  
 Am gywreinwaith tirion,  
 Yni i'w llaw a hoen llon  
 Byth ydynt eu Bathodion.

Golwg ar welliantau'u gilydd—ddygodd  
 Ddiwygiad ysblenydd;  
 Mwynâu'r oll, tremio yn rhydd,  
 Ac enill drwy bob cynydd.

Ond bu tristyd ynof wrth gofio  
 Y Penaeth mwyn pan aethum yno ;  
 Oedd rhy anhawdd yn ydd awr hono  
 Rhy galed, ymatal rhag wylo.

Gwnai'r tro anochel flwyddyn uchelwyl  
 I filoedd aneiri'n flwyddyn arwyl ;  
 A'n clodfawr Dywysog enwog anwyl  
 Mewn bedd, pa ryfedd bruddâu ein prifwyl !

Y gwr oedd i agoryd  
 Arddangosfa bena'r byd,  
 Ei phen a'i Hamddiffynwr,  
 Yn ei fedd, unionaf wr !

Oll i'r man daeth llawer mil—o bob iaith  
 Yn y gobaith o gael teg Jubil,  
 I ben y daith erbyn dod—clywent gŵyn,  
 Oer, a llais achwyn o'r llys uchod !

Ar ein Sedd, tra yn nesâu—i'w golwg,  
 Gwelent gysgod angau ;  
 A'n llys i gyd yn llesgâu,—cauad wnaeth  
 Ar ddu hiraeth ei ddysglaer ddorau.

Ac arwyddion ar ein gruddiau—trwy'r wyl  
 Ei fod yn anwyl hefyd i ninau.

Newydd ddod o'i angladd ef  
 Iawn oedd i Brydain addef  
 Wrth y dorf ei hiraeth dwys,  
 Wrth y myrdd ei hiraeth mawrddwys.



li O ganol ei ogonedd  
A'i swydd fawr, suddai i fedd!

Claf heddyw yw celfyddyd,—a gwyddor  
Guddiai'i gwyneb hefyd  
Ger ei fedd! Pwy geir o fyd  
A'u nawdd mwy, y ddwy ddiwyd!

Er huno'r mawr Arweinydd  
Parâd i'r Sefydliad fydd.  
Ei feddwl ef ddeil o'i ol,  
A'i gynydd fydd ogonol:  
Erys ar ol i'n hwyrion  
Roi i fedd y ganrif hon.  
Fe geir Arddangosfa gywrain  
I'w hagog, tra bo gwyddor gain;  
Daw ail oes a'i gwiw dlysau  
A'i gloewaf glod i gelf glau.

A'r molawd roi'r i'r milwr—a roddir  
I'r haeddawl wyddonwr;  
Daw'r lles, y golud, a'r llwydd,  
I ddedwydd gelfyddydwr.

Traethir yn hir y da wnaeth,  
Synir wrth ei wasanaeth,  
Beirdd odlant gânant i'w go'  
Nad tynt mewn bod eto;  
A'u blodau byw a ledir

Ar ei lwch mewn arwyl hir.  
 Erys ef wedi yr Oes hon  
 Fel Selyf oloesolion.  
 Moliant dŷr mal ewyn tòn,  
 Fel niwl o flaen awelon,  
 Ond Rhinwedd wedi'r einioes  
 Draw fwynâ ddiderfyn oes :  
 Pwy ddywed gadarned yw !  
 Caerog adail, craig ydyw.

Os na fu ei oes yn faith,  
 Bu'n Fawr, heb un oferwaith.  
 Os oedd fêr, llesäodd fyd,  
 Rhoi i Naf ei ran hefyd,  
 Mesur wrth ei lafurwaith  
 Dry'i oes fêr yn deiroes faith.  
 Er mor fêr ei drem ar fyd  
 Bu ddyfal—byw i ddeufyd.  
 Rhyngu dy fodd rhwng dau fyd  
 Oh Naf ! bo'm ninau hefyd !

Y da wneir ydyw ein hoes,  
 Ac wrth hyn bydd gwerth einioes ;  
 Nid byw'n hir, ond byw yn ol  
 Gair Rhi, ardderchog Rëol  
 Ddihalog —byw i ddilyn  
 Dyben da—nid byw ond hyn !

Edrych arno'n llunio lles  
 I ddynion, ryfedd hanes,

Edrych ar ei lawnwych lwydd  
Oedd edrych ar Ddiwydrwydd.

Ni rodd ef hyder mewn rhyw ddyfodol,  
Ond mwynâu y munudau mynedol,  
Parâus yni i'r presenol—daflai,  
A meddianai ei oriau hamddenol.

Byw heb dwrf, gwneuthur bob dydd—ddaioni,  
Ymroi a'i holl yni, ond mor llonydd!

Safai'r gwr nesaf i'r Goron,  
Mawreddus hynt ond mor ddi son!  
Odiaeth oedd ei fendith ef—mewn mwynder  
Gwyl a thyner, fel gwlyth y wiwnef.

Uwchlaw, ei swm ni chlywid,—ei rinwedd  
Er hyny a deimlid;  
I'r ddynoliaeth mawrdda wnelid—mewn hedd,  
Ond ei ogonedd ni udgenid.

Dylifai'i fywyd ail afon—ry fawr  
I ferwi yn grychdon;  
Y lli bas sy lle y bo son,  
Twrw meliant ar ei ymylon.

Dyrchafodd, fe rodd ei fryd—wr hynod  
Ar enill gwên hyfryd  
Ior Nef, a'i "Dda Was" hefyd  
Anwylaf air mewn Ail Fyd!

Nid son wnai ef am grefydd,—ond ei byw  
 Hyd y bedd yn ufydd,  
 Rhodio'n ol troed Gwaredydd  
 Heb hyder ffol, byw drwy ffydd.

Arswyda rhai, os sydyn—daw y waedd  
 A'r diweddaf elyn,  
 Dedwydd a fydd credadyn  
 Parod mwy, doed pryd y myn.

Hapus ran, pwyso yr oedd  
 Ar Iesu, Craig yr Oesoedd.  
 Ar lif y farwol afon  
 Gweled tir a gwaelod tòn!  
 Nid ofnai hon, er dyfned  
 Hynt ei llif, er maint ei lled.  
 Er dyfned ni rhaid ofni  
 Aflwydd yn ei hymchwydd hi,  
 Os mwynêir archoffeiriad  
 Ynddi, a goleuni gwlad.  
 Parodrwydd i'r Pur Adref  
 A gaed yno ynddo ef.

Deildy yw rhith duwioldeb,  
 Ofer nod ni saif er neb;

Ond ei gadarn dy gododd—ar y Graig,  
 Ar gref storm ni syflodd  
 Ei adeilad—fry daliodd,—yn nhonau  
 Yn mhell li angau ni ymollyngodd!

Mwynâu'r hen Emyrn yr oedd,—yr Emyrn,  
 Am rym Craig yr Oesoedd,  
 Cânu pan o dân y dwr  
 I'w Waredwr yr ydoedd.

Draw gwelai anwyl dir y goleuni,  
 A llon gorau Seion i'w groesawi  
 Ar y lân arall, ryw lu aneiri'  
 Oll yn ei gwrddydd â llawen gerddi.

Mae'r angeu er mor engur,  
 Mae'r bedd wedi oes mor bur,  
 Yn gynhor i ogoniant,  
 A'r drws yw i gartre sant.

Boreu' i einioes a brynodd,—a'i fawrwaith  
 Yn foreu orphenodd;  
 Cerbyd Naf a safodd—yn ei ymyl,  
 Draw i fyd engyl adref diangodd.

Aeth o'r byd a'i waith ar ben—Nos Sadwrn!  
 Ys hedodd yn llawen  
 I fwynâu "Gorphwysfa'n ol"  
 I ganol Sabboth gwiwnen.

RHIWALLON.

# Saf ar y Graig.

(O'r "Storom.")

Saf ar y graig! barddoniaeth duwiau yw  
Os feiddi oddef yr ofnadwy iaith,  
Os meiddi wrando ar y môr a byw  
A'th enaid godi gyda'r fôrdon faith—  
Yngodi tuag ardderchocach traeth,  
Nes clywed yr ymchwyddiad ar ryw LAN  
DRAGWYDDOL fel yn darfod, mor dyner, O! mor wân.

Rhyw ddrych o fywyd ydyw natur oll,  
A byd yr enaid ar ryw farwol lèn,  
Ceir rhwng y bryniau uchaf lawer coll  
A llawer hollt tragwyddol, llawer pen  
Yn edrych fyth i lawr o'i briod nen  
Heb ganfod seren mwy, a llawer awel  
Yn canu am ryw nef sy fil mwy tawel.

Mae pren gogwyddfawr ar y mynydd draw,  
A welsid yn ymgodi'n fawrwyd gynt,  
A'i gangau yn meddianu'r nef bob llaw,  
Caf yntau heno'n isel dan y gwynt,  
A llawer côr yn tewi ar eu hynt  
Gael y cerddfaoedd heirdd i gyd mor llwydion,  
A'r cyfan ond fel adfail o freuddwydion.

Y mae y cangau yn cyfeirio i gyd,  
 Fel bysedd meinion llwydion, tua'u bedd,  
 A'r gwllithion dros y dail wywedig bryd  
 Fel dagrau yn dyferu, a'i holl wedd  
 Fel un a fynai mwy dragwyddol hedd :  
 Clyw gyffro'r gangen hon—aderyn *du*  
 Fel Adgof, gynau ar ei brig a fu.

Barddoniaeth, O Farddoniaeth ! Pwy a ddyd  
 Derfynau arnat ! Eang fel y nef  
 Yw taen dy ymerodraeth ! mae y byd,  
 Ei greig, ei foroedd, a'i fynyddoedd ef  
 Yn troi o'th amgylch, a chyfundraeth gref  
 O dragwyddolion bethau, a'r holl sêr  
 O fewn gwelediad dy gerubdrem têt.

Un yw gwirionedd, ac i ti y rhoed  
 Dirgelwch ei unoliaeth. Rhoer i hon  
 Y graig ystormus, gwydra yn ddi oed  
 Wedd o wirionedd ar ei garwaf fron,  
 A daw y graig i'r làn yn fyw o'r dôn  
 Fel rhan o'n bywyd, rhan o'n henaid mawr,  
 Mae'r bryniau'n cydymymud â'n hysbryd oll yn awr.

Pa beth yw testun ? tòn ar fôr tragwyddol,  
 Ac nid oes gwybod b'le dybena'r daith,  
 Na pha ryw bell ynnysoedd nef arwyddol  
 Pa wlad a welir, pa anfarwol draeth,  
 Pa seiniau glywir o'r dragwyddol iaith !  
 Pa beth yw'r draethell hon ond rhan o fyd  
 Sydd annherfynol yn ei led a'i hyd.

Pa le yr aeth y testun ? Mae y dòn  
 Yn gweled llawer nef, a llawer traeth,  
 A llawer gwlad, ac eto'r un yw hon  
 Er cael o raddau yn ei chwydd a'i hiaith,  
 Pe meiddiem mewn ystorom fod yn ffraeth  
 Fe ddylai testun weithiau golli ei hun  
 Yn annifeiriant pethau, rhag Babeleiddio un.

Mae'r enaid weithiau fel pe'n teimlo'i hun  
 Yn fwy nag amser ; ac yn archu'r byd,  
 A'i oriau ymaith fel cymylau blin  
 Oddiam ei briod uchder, a'i holl bryd  
 Yn teg ymledu ! Fel pe deuai o hyd  
 I ryw golledig wyddor sydd yn dwyn  
 Holl rithiau Amser dan ei rymus swyn.



Eisteddfod Genhedlaethol Abertawe, 1863.



AWDL ER COFFADWRIAETH

AM Y

DIWEDDAR DYWYSOG CYDWEDDOG

“ALBERT DDA.”

GAN

TALHAIARN,

(CEINFRYD CWYNFRON.)

LIVERPOOL:

CYHOEDDWDYD GAN ISAAC FOULKES,

41, PETER'S LANE.



# AT Y CYMRY.

---

HOFF GYDWLADWYR,

Wele fi yn cyflwyno fy awdl i chwi. Ni newidiwyd ond tri gair ynnddi, ond ychwanegwyd att *Yr Argument*.

Nid ydyw y mân feiau cynghaneddol, yma ac acw, o fawr o bwys yn fy ngolwg. Os gallaf ymlithro fel llysywen drwy'r cynghaneddion, heb dorri'r rheolau yn rhy fynych, y mae hyny yn llawn ddigon genyf fi. Fy rheol wrth farddoni, bob amser, yw ceisio ymgadw tu fewn i derfynau synwyr, chwaeth, a theimlad—yn benaf teimlad; canys, ar ol y cwbl, teimlad ydyw enaid y gân. Dylai bardd deimlo yn ddwys ei hun, a gwneyd i eraill deimlo hefyd, neu ni fydd ei waith yn fawr well na thingc cloch neu drwst tabwrdd.

Yr eiddoch yn gariadlawn,

TALHAIARN.

BATTLEDEN, WOBURN, BEDFORDSHIRE,

*Hydref 15fed, 1863.*



## Ur Argument.

**G**AN mai fel gwr rhadlawn a ffyddlawn ein hanwyl Frenhines, a thad tyner ei phlant—ei chynghorwr a'i harweinydd yn llwybrau moes, ffydd, a rhinwedd, er anrhydedd, bri, a mawredd y Deyrnas—y mae a wnelom benaf a'r diweddar Dywysog, cedwir hyn mewn golwg drwy yr holl Awdl: canys y mae llwyddiant a chymeriad pob teyrn a theyrnas yn dibynu i raddau helaeth y naill ar y llall.

---

**NOD.**—Y mae yr Awdwr, yn ol Canon Caerfyrddin, 1819, wedi cymeryd ei ryddid i arfer rhai o hên fesurau Dosparth Morganwg yn gymysg â mesurau Gwynedd; ac yn benaf, yr hên fesur hirsain a blasbêr “Traethawdl ar y Gyhydedd Hir.



# ALBERT DDA.

COLLODD Prydain gain ei gwênau,—alaeth —

A welwodd ei gruddiau ;  
Yn ei dolur y bur Bau  
Eisteddodd mewn cystuddiau.

Daeth drosti adwyth tristyd,—cyni, gwae,

Cwyn a gwewyr dybryd :—  
Briw oer i bawb roi o'r byd  
Ein Gwron dan y gweryd.

Dychryndod a syndod sydd

Yn hulo ein heolydd ;

Ansiriol yw'r trigolion,—

Mae'r rhai oedd yn lluoedd llon

O'u trwst a'u hoen yn tristhâu ;

Tawel yw sain eu teiau :

Dwys drymder is y ser sydd,

A dir ofid i drefydd :

Mae prudd-der anarferol,

Yn ail ei dwf i niwl dól,

Am danom yn ymdaenu, —  
 I lwydo gwedd ein gwlad gu; —  
 A galar sydd yn gwylio  
 Pob cwm a glyn, bryn a bro;

Am y T'wysog Albert enwog,  
 Gwâr a rhywiog wr y Rhian, —  
 Sy'n Frenhines Prydain eres,  
 Ewig gynnes deg ei hanian.

Anwyl Fanon! daeth helbulon  
 A thrallodion uthr i'w llwydo;  
 Brath echryslon drwy ei dwyfron  
 Bair i'w chalon bur och-wylo.

Am ei chydmar gwâr hi guria;—beunydd  
 Dan benyd hiraetha:  
 Llymion yw'r dir-gwynion ga  
 Ar ei swyddfawr orseddfa.

Ei dolur, ei chur, a'i chariad,—drwyddi  
 A dreiddiant yn wastad,  
 Wrth gofio swyn mwyn a mād  
 Ei dda lun a'i ddylanwad.



Cofia'r dydd dedwydd y daeth  
 Yn hoenus i'w brenhiniaeth,




Fel T'wysoges gynes gaid — *etc.*  
 Yn ddelw i'w holl ddeiliaid :  
 Ei chôf hêd drwy gred a grâs  
 Ar edyn i'w phriodas, *shang*  
 A'i chalon a ddychwela  
 Yn wyl at y dy'gwyl da,  
 Pan gafodd ffydd rhydd a rhâd  
 Dywysog ei dewisiad,  
 Wrth Allor Ior i arwain  
 Einioes gu mewn Ynys gain :— *etc.*  
 Pryd hyn i'r syw Fenyw fain  
 Paradwys ydyw Prydain ;  
 Ei thyner fron ymlona,  
 Yn ei hedd ymlawenhâ :  
 — Y dda addien Ddyweddi,  
 O bob da, beth hoffa hi ? — *etc.*  
 Anwylyd ei bryd a'i bron  
 Ei chariad, nid ei choron.  
 A'r Priodfab, wr prydfertth,  
 Llon iawn yw a llawn o nerth ;  
 Glân**br**yd a hyfryd yw hwn,  
 Gem urddas yn mysg myrddiwn :  
 Llonydd yw a lluniaidd iawn,  
 Gwr o addysg goreuddawn,  
 O lfn ein hoff Frenhines,  
 Gwr a Llyw a gâr ei lles ;

O eigion ei galon gu  
Uwch eraill gwna ei charu.

Y ddau heb bryder ddydd eu priodas,  
Dau uchelradd yn gydradd mewn gwiwdrâs,  
Dan Nêr a'i nodded unir yn addas,  
O hyd i arddal bywyd o urddas,  
Beunydd drwy grefydd a grâs ;— a hyglod  
Iawn wyl yw'r diwrnod anwyl i'r Deyrnas.

Crynu wna'r awel gan dwrf magnelau, —   
Ynni ergydion a wna rwygiadau  
Yn yr awyrgylch—ceir ogyllch creigiau,  
Braenâr a thalar, or-lafar lefau—  
Ehêd-swn gwyllt adsain yn gwau—drwy'r dydd  
Oddiar y bronnydd i herio wybrenau. 

Llongau y moroedd yn llengau mawrion .  
Mewn hyder nofiant—rhwygant yr eigion ;  
Taenir eu hwyliâu tan yr awelon,  
A'u heirdd humanau'n deganau gwynion : —   
Ein morwŷr wleddant, hwyliant yn hylon,  
O araul londid ar ael y wendon ;  
Dawnsiant a chanant yn ddi-achwynion,  
Yn wych i'w gweled—yn iach o galon—  
Pob iad, pob llygad yn llon,—pob teimlad  
O fawrwir gariad yn fur i'r goron.

Ar dir a thòn ymloni  
 Yn abl eu nerth wna'n pobl ni ;  
 Agorir clo teyrngaredd  
 Yn mhob gwlad ac yn mhob gwledd,  
 O'r Andes, ac o'r India,  
 I lwyd oer iawn wlad yr ia.

Ban ar eillt, ein Baner rhydd,  
 A chwery yn wych arwydd  
 O rodres a gwrhydri  
 Hynaws nerth ein Hynys ni.

Priodwyd Aeres Prydain,  
 Ein Brenhines gynnes gain,  
 A Thywysog enwog iawn,  
 Dyn a'i enaid yn uniawn ;  
 Serchlon yw ei galon gu,  
 A'i fawredd sy'n llefaru  
 Yn ei ddawn ac yn ei ddysg,  
 Gwr hyddawn a gâr addysg ;  
 Gwr anwyl a gâr rinwedd  
 Yn y byd, o hyd, a hedd :  
 A serch dinam ddychlama  
 At ddyn fel ein ALBERT DDA.

Un pur yw hwn, mae'n parhau —  
 Yn addfwyn ei gyneddfau,

Yn dyner iawu o dan yr iau :—gwylaidd  
 Yw ei ddull llariaidd a'i holl eiriau ;  
 A'i ddysg sy'n gymysg â gemau—seirian,  
 I'r rheiny wyddan' ei rinweddu.

Ac o waelod ei galon—cywir yw,  
 Cara ef ein Banon ;

A rhy-gara ei rhagorion

Yn hyderus ac yn dirion ;

Rhodd o'i ddoniau rydd i ddyinion,

Ac i'r Ynys ei gywreinion—

Pybyr ei bryd—pawb o'r bron—roddant fawl

Rhagorawl i'r Gwron :

A hwylia ar awelon—o wleddu

Swn y byrddau a sain y Beirddion ;

Cywir e ddyry Cerddorion—ar goedd,

Yn llawn i luoedd eu llon alawon.

*Gorchan Cyrch ar Gyhydedd Hir Morganwg.*

Yn awr y cyflawnwyd, priodwyd PAR odiaeth,

I gynnal Brenhiniaeth ehelaeth a hylon ;

Cariadon ieuengctyd a ddodwyd yn ddedwydd,

Yn anwyl i'w gilydd, yn unol o galon :

Y llanw o'r hoenlŷs sy'n llenwi yr henwlad,

A swyn o wir gariad sy'n euro y goron :

Cydmariaid grasusol a duwiol o duedd,

Boed iddynt anrhydedd a dœthwedd fendithion :—

Dduw mawr, ein prif Drysawr ! wyd erfawr dy arfaeth !  
O ! dyro yn helaeth dy Râd i'r Anwylion.

Trown at Brydain gain ei gwedd, — 5/6  
A mirain yn ei mawredd :  
Iach o hyd a gwyich yw hon, — 1/10  
Iachach hwyl i'r wech ei chalon !  
Pa wlad sy fel y wlad lwys ?  
Pêr ydyw ein Paradwys ; — 1/10  
Cartref rhydd pob dedwyddyd,  
Eres Bau—Aeres y byd !

*Traethawdl ar Gyhydedd Hir Morganwg.*

Gwlad Rhyddid yw Prydain a mirain EM moroedd,  
Hi daria yn iesin yn ben holl Deyrnasoedd ;  
Yr eigion a'i donnau yw muriau ei mawredd,  
O ogyrch yr Ynys, lliw gwyngalch eirianwedd :  
Croch-ruo a dotio crych chwareu o'i deutu  
Wna'r môr mawr murmurawl i'w swynawl gusanu ;  
Dan hyfryd wên heulwen cofleidia'i anwylyd,  
A'i hoen yn ddadhuddol, a'i wŷn yn ddedwyddyd ;  
Y Hi yw ei Feistres—ei llynges a'i llongau  
Yn nwyfus a'i nofiant, adwâenant ei donnau :  
Castelli o haiarn yn gadarn a gwiwdeg,  
Anwylant ei wyneb, a hwyliant ei waneg, 160  
I noddi yr Ynys a'i nwyddau arianol,  
A nerth a chadernid gwir Ryddid gwiwraddol.

Gwlad hyfryd pob seigiau a moethau Amaethwyr,  
 Lawn yma'n byw'n addien y mae ein Boneddwyr ;  
 Gwael fyddai hen Albion heb lwysion Balasau,  
 Ac enwog gastelloedd, ei thiroedd, a'i thyrau ;  
 Eglwysi cadeiriol addefol i Ddofydd,  
 A llawer Athrofa yn lleuer i'w threfydd :  
 A cheir yn ei hoffus hudolus ardaloedd  
 Weledig ddawn oesau, oludog Ddinasoedd ;  
 Porthladdoedd Trafnidiaeth ehelaeth wrth alwad  
 I gynnal anrhydedd a hoenwledd ein henwlad—  
 Rhy le, er eu beiau, i'r efrau a'r afraid,  
 A nawdd i'r anghenus, y dyrus, a'r diriaid—  
 Mae Prydain synwyrllawn yn gyfiawn iawn, cofiwch,  
 A tharian y Goron yw grym ei theyrngarwch.

*Clogyrnach Morganwg.*

Daw plant Prydain gain i gwnnu  
 Hanes gwych ein Hynys gu,  
 A cheir pob dyn i'w charu :  
 Ac yn ei hwybren gan serenu  
 Doed awcineaidd i dywynu,  
 A gwiwgân addas i'w gogoneddu ;  
 A bydded hedd i'w hanrhydeddu,  
 Y nef yn gain a Naf yn gwenu  
 Ar ei thylwyth gwâr a'i theulu :  
 Aed aml enaid i'w molianu,

180

A gwyr filoedd i'w gorfoleddu,  
 Aur a chyfoeth i'w derchafu—  
 Digolled yw ei gallu,  
 A Duw y gwawl i'w diogelu.

Di wâg-arswyd ydyw Gorsedd—Prydain—  
 Pa råd ac anrhydedd  
 Sy i'r Ynys eirianwedd  
 I euro'i hynt er ei hedd?  
 Mwya golud! amgeledd—Duw cyfion  
 A rhagorion ei fawr drugaredd!

Arni gwawria teyrngaredd ;—ei deiliaid  
 A wylant yr Orsedd :  
 Mae Llan a Thref mewn tangnefedd (8)  
 Yn fannau clyd heb ofn y cledd. (8)

Mewn gwledydd Tramor gwelir gororau  
 Llawn o derfysg a'u llonaid o arfau,  
 Echrys dân nwydwyllt a chroes dyniadau  
 Deiliaid anfoddog—gwib-lidiog bleidiau,  
 A drwg Lywiawdwyr berynt dreigliadau  
 Wrth ddilyn dybryd fywyd o feiau—  
 Rhuthro wna milwyr dewrwŷr a'u duriau,  
 Cloddio i yfed gwaed wna cleddyfau—  
 Y bobl ymladdant, darniant a'u dyrnau,  
 Sathrant, mathrant, a rhannant Goronau—

Tyrfa trueiniaid—twrf y taranau  
 O'r gŷnau mawrion er gwânau muriau ;  
 Celanedd wnelynt rhyngynt â'r rhengau,  
 A gyru lluoedd i ingoedd angau—  
 Duw ein Pôr, O! cadw ein Pau,—rhag pla dig  
 A hwyl drawedig eu chwyldroadau.

Beth yw breintiau a rhinweddau  
 Hynawsderau'r Ynys dirion ?  
 Rhyddid gwladol a chrefyddol  
 Yn amgaerol am y goron.

• Dyna'r mwyniant a'r gogoniant  
 A ga'n foliant teg gan filoedd—  
 Caffed gyfrin Rhyddid dibrin,  
 Ynys iesin, yn oes oesoedd.

Troi yn awr at dirion Arwr—a wnawn  
 I enyn clod mwynwr ;  
 Sef ALBERT wâr wladgarwr,  
 A galluog enwog wr.

Yn ddoniol iawn e ddêna  
 Hynaws ddoeth Frenhines dda,  
 I lunio â'i dylanwad,  
 O'i huchel Sedd, wledd i'r wlad,  
 O rawnwin serch a rhinwedd,  
 Cyfiawnder, hyder, a hedd.



Esiampl drylawn gawn i gyd  
 Yn weddaidd o ddedwyddyd ;  
 Purdeb bywyd, hyfryd boen,  
 A da gariad a gorhoen :  
 Pur fel enfys yw Llys llon  
 Ein Hunbenes a'n Banon.  
 Mawr yw y gwr, mae mor gu  
 I'w dylwyth ac i'w deulu ; —  
 Ac heb ludd dysga ei blant  
 I garu pob rhagoriant ;  
 I fyw'n deg, i ofni Duw,  
 Ac i arddel y Gwir-Dduw,  
 Ei allu a'i ewylllys  
 Yn mhob man mewn Llan a Llys.

Canys ef yn Nef y nefoedd  
 Ydyw Brenhin y Brenhinoedd,  
 Awdwr, Llywiwr holl alluoedd,  
*Thronau* iesin a theyrnasoedd—  
 Cwnna adlais cenedloedd—am ei glau  
 Allu, a Beiblau i'r holl bobloedd.

Fo a biau muriau'r moroedd,  
 Cloiau dorau'r gorddyfnderoedd,  
 Mannau addien y mynyddoedd,  
 A ffriw anwyl y dyffrynoedd—

E geir ei Enw ar goedd—yng Nghymru,  
A hanes Iesu yn oes oesoedd.

26

Digrëedig, Wynfydedig,  
Anweledig Iawn Lywiawdwr  
Y planedau, ser, lleuadau—  
Rhi yr heuliau, Mawr Reolwr  
Ydyw Dofydd, ein Creawdydd,  
Llyw a Llywydd Hollalluog—  
Caredigawl a thosturiawl  
Wyt, ragorawl Dduw trugarog!

*Gorchan ar Gyhydedd Hir Morgannwg.*

Y nefoedd a'r ddaear yn gynar iawn ganant,  
A thyrfa o filoedd ar filoedd ry foliant  
I Dduw a'i fawr allu—gwiw ganu gogoniant .  
Yn hoyw unolblaid a wna ei anwyblant :  
O! brwd yw ei ddeiliaid mewn ysbryd addoliant,  
Mewn anthem ddigymhar yn llafar iawn llefant—  
Yr wybren goronog a'r bryniau a grynant  
Gan sain y carolau, gan swm y côralwant.

“Iddo Ef,” yw llef y llu,—y byddo  
Pob haeddiant a gallu :—  
Gwledd y coeth, O! Arglwydd cu,  
A'i goron yw dy garu.

28

Ein hoff Dywysog enwog ei hunan, —  
 A'i holl bwys ar yr Eglwys-rywioglan,  
 Yn ol yr HEN-LYFR, y perl-lyfr purlan,  
 Yn wyl a gilia o ael y geulan,  
 Rhag erlid unrhyw gorlan—o braidd Duw,  
 A geiriau annuw fai'n gur i'w anian.

Ei blant a garant gerydd  
 Ei hoff wên, ei ddawn, a'i ffydd ;  
 Ei gerydd ddaw o gariad,  
 A hoffder tyner y Tad ;  
 Attyniad at blant anwyl,  
 Wiwlan wedd a chalon wyl ;  
 A hwythau hoffant werthion  
 Ei bryder a'i dyner dôn ;  
 Dysgant yr hyn a dasgai,  
 O awydd fod yn ddi fai,  
 Rinau dawn ar wyn a du  
 Yn foddus i'w ryfeddu ;  
 A blasus win doethineb  
 Mewn seibiant a yfant, heb  
 Flino ar y cyflawniad  
 O fynnu dysg gan fwyn Dad.  
 Profant foethau deddfau dysg  
 Goraddien, a gwir addysg ;  
 Nid dawn annuniawn annoeth,  
 Ond aeron awduron doeth :

Llawn nôdd yw eu llenyddiaeth,  
**Mal** mefus yn felus faeth ;  
 Blodau a gemmau'n gymmysg,  
 Purliw a da—perlau dysg ;  
 Hael lafurwaith o lyfrau,  
 A budd o hyd i'w boddhau,  
 Pleserus a hoffus heb  
 Ildio i anfoesoldeb ;  
 Ond dysgant a hoffant hedd  
 Seirianawl moes a rhinwedd.

Mae'r Tywysog rhywiog rhydd  
 Yn gyfiawn enwog Ofydd :  
 O'i fin y daw doethineb ;—a golud  
     Ei galon yw purdeb,  
 Hedd lendid a boddlondeb ;—a golau  
 Haen o heirdd wênau'n urddo'i'wyneb.

Pur lenyddiaeth yw ei wynaeth  
 A'i astudiaeth yn wastadol ;  
 Dwfn ddysgeidiaeth ac athroniaeth  
 Yw ei luniaeth yn olynol.

Hoffa ddyfnion Glassicyddion,  
 Hên awduron a'u hiawnderau ;  
 Gwersi rhyfedd llawn o fawredd,  
 Swyn a nodwedd eu syniadau.

Blodau, gemmau meddylrithiau  
 Geiriau golau, gwir y galon,  
 Roddant wynfyd a dedwyddyd,  
 Awydd hyfryd hedd i'w ddwyfron.

Pob Paentyddiaeth\* a Cherfluniaeth,  
 Adeiladaeth gwlad oludog,  
 A gefnoga hyd yr eitha',  
 Ac a lunia yn galonog.

Swyn Peroriaeth a Cherddoriaeth,  
 A rhagoriaeth pob rhyw garol  
 A ddeall†—miwsig gwirdda  
 A fwyn nydda yn feunyddiol.

Areithyddiaeth, Gwladlywyddiaeth,  
 Pob dysgeidiaeth helaeth wiwlan,  
 A fyfyrta, dyfal chwilia,  
 Hylwydd una'n wledd i'w anian.

Aur wythen ei areithiau—yw rheswm  
 Ei rasmus feddyliau ;  
 Disglaer ddawn gyfiawn yn gwau  
 Sylwedd ar gadarn seiliau.

\* He was a generous Patron of the Fine Arts, and an Artist as well.

† He was not only a lover of music, but a Composer too.

Blasus a grasus yw grym  
Ei hyawdledd ehêdlym.

Mawreddus yw ei ymroddiad,—ei ddysg

A'i ddawn pan yn siarad  
Geiriau yn llawn o gariad,  
A chywir wledd o serch i'r wlad.

362

Purdeb doethineb a thân—a enyn

Ei fynwes santeiddlan—  
Geiriau fel perlau purlan—i barhau  
Ddaw o'i enau a hedd ei anian.

Awch ei hwyl a gorucheled—o'i fant

A gwnnant ogonedd,  
A diferiad o fawredd—meddyliau  
Goludog eiriau grym gwladgaredd ;  
A melus lef tangnefedd ;—drwy fyfyr  
Heb boen egyr pob arbenigedd.

O'i feddwl daw arfeiddiad  
Palas Hedd yn wledd i'r wlad ;  
Goriesin Balas Grisial,  
Draw yn wych a gwydr yn wâl ;  
Bwäog nen ysplenydd,  
Yn deg fel goleuni dydd ;  
Adwaenir hwn dan yr haul  
Yn seirian Balas araul ;

Harddwch, hyfrydwch y fro,  
 Eglurwaith yn dysgleirio :  
 Cwypa o'i flaen bob campwaith ;  
 O gwmpas hwn cwypa saith  
 Rhyfeddod hynod hanes ;  
 Yn ddwl ânt ac yn ddi les :  
 Oblegid ni cha llid llawn  
 Anonest ac anuniawn,  
 A'i lu ammhur le yma,  
 Na gelynion dynion da  
 Agosiad at ddygasedd—  
 Pa les i hwynt yw Palas Hedd ?  
 Ni cha dyn anhydyn, nod  
 O'i aflan anian ynod,  
 Neu filwr gâr ryfela  
 Deimlo'i ddur yn y Deml dda.

Ond llunia'r T'wysog ei hoff ysgogiad  
 I oes gywrain i ddangos ei gariad,  
 At holl wyddorau golau pob galwad,  
 Yn ddi oferedd, yn dda ei fwriad—  
 A dilynir dylanwad—ei gampus  
 A'i orfoleddus ddarfelyddiad.

*Traethawdl ar Gyhydedd Hir Morganwg.*

Agorir y Palas a gyrrir apeliad  
 Yn hyrwydd â geiriau yn arwydd o gariad,

At wledydd Europa ac Asia yn gyson,  
 I weled ardderchog wir enwog gywreinion  
 Celfyddyd a'i champau, Peirianau pur yno,  
 A nwyddau Amerig, ac Affrig ddigyffro,  
 Mil myrdd o wrthrychau yn furiau o fawredd,  
 Gogoniant gwyddorau, a rheidiau anrhydedd,  
 Creadau diwydrwydd yn hylwydd a welir,  
 A'u llun gan y miloedd yn llon a ganmolir,  
 Ac wele'n Brenhines ; Unbenes a Banon  
 Holl Loegria, Albania, a Gwalia gu wiwlon,  
 Tir Erin, Awstralia, yr India, a'r wendòn,  
 A gwledydd terfyngylch o ogyrch yr eigion.

Yn awr mae yn agor y Palas urddasol,  
 Mewn rhwysg anrhydeddus, awr foddus ryfeddol ;  
 A Th'wysog ei monwes a'i gynnes deg anian  
 Yn llawn o ddedwydŷd a sieryd yn seirian : 4 2  
 Ei gampwaith gyflawnir, a gwelir argoelion  
 O'i lwyddiant yn amlwg i'r golwg a'r galon.  
 Amgylchir yr Orsedd gan luoedd mawreddig,  
 Gorwychedd, anrhydedd, a bonedd arbenig ;  
 Seneddwŷr o fawrglod yn hynod mewn hanes  
 A gadwant uchelwyl ein hanwyl Frenhines,  
 I loui ei hanian, i lenwi ei henaid  
 A moledd hudolus y miloedd o'i deiliaid ;  
 A chenir anthemau a geiriau rhagorawl  
 O foliant ysplenydd i Ddofydd yn ddwyfawl,



O wirfwyn enyddwaith gan erfyn Ei nodded,  
A'i fendith santeiddlân i adran pob hydred.

O! dyma wledd i heddwch ;  
Grymus naid o'r llaid a'r llwch,  
A rychau blin, rhoch a bloedd  
Arw filain ryfeloedd,  
Fu'n gwaedu a baeddu'r byd,  
A'i hifiaw'n anferth hefyd.  
Gogwyddwyd wrth gigydda  
Yn anfad pob teimlad da :  
O bwyll hedd gwneir ymbellhau  
Yn erfawr wrth drin arfau ;  
Dwyn crefydd Crist i dristwch,  
Ei throi'n llesg a'i mathru'n llwch.  
Mae'r nef mewn llid yn gwrido  
Ar waedlyn pob bryn a bro,  
Lle bo ufel rhyfeloedd,  
A'u hanwar hyf-lafar floedd,  
A'u rhwthrawd yn ymruthro  
Drwy'r dydd—gyrrant ffydd ar ffô—  
O! anfadwyr ynfydion,  
Blined yw y Blaned hon  
O enbyd glwyf tanbaid gledd,  
Ac o lunio celanedd.

Ond yspryd gwynfyd a gawn—yma'n gain  
Mewn gwŷnaeth bendithlawn ;

A gwâr heddwch goreuddawn,  
A'i gynnyrch mewn llewyrch llawn.

Dyma ffair a bair i'r byd—goroni 48  
Cywreinion celfyddyd :  
Cyfyd mawl ei hawl o hyd,  
A'i haeddiant i ddedwyddyd.

Am y gwaith boed grym y gân—i'n T'wysog  
Gwiw enwog ei hunan :  
E deimla lwydd y Deml lân  
Yn lloni ei holl anian.

Ni ildia mewn defnyddioldeb—a gwir  
Ragorion doethineb :—  
D'wysog da ;—ni anafa neb—mewn llid  
Hoff aidd ei lendid a'i ffyddlondeb.

Ymboeni y mae beunydd,  
A'i naws deg bob nos, a dydd  
Yn lwys o hyd i leshau  
Da y byd a'i wybodau.  
Try y gwr mewn trugaredd  
Gyd â hwyl i gadw hedd ;  
A Llyw yw hwn sy'n lleihau  
Anwaraidd fawaidd feiau.  
Dyngar a gwladgar ein Glyw  
A dawn i olrhain dynolryw,

A'i enaid yn ymhoeni  
 Wrth ddwyn lles yn nes i ni.  
 Esiampl dda a ga y gwŷr  
 Yn ei swynion a'i synwyr :  
 Lles mād y wlad yw ei wledd,  
 A'i rhād yw ei anrhydedd :  
 Cefnoga, nodda'n hyddysg  
 Bobpeth iawn & dawn a dysg :  
 Eryr o nod yw'n Arwr ni,  
 Diweniaith mewn daioni ;  
 A noddwr pob rhinweddau,  
 Haedda iawn glod heddyw'n glau.

Hyfrydwch ei fron yw gwneyd daioni  
 I'r gwael a'r gwan—ei anian a'i yni  
 A hwyl ei enaid sydd at haelioni ;  
 Yn ei wir gariad mae yn rhagori—  
 Bydd wrth ei fodd wrth noddi—tylodion  
 Rhag gwaew a chwynion, rhag gwaew a chynni.

Gwellhau cyfiwr y gweithiwr a'i goethi  
 A wna yn gudeg, er mwyn ei godi  
 O boen a gwaeledd lle bu yn gwelwi ;  
 A'i le iselwael a wna lesoli\*—

\* He was a warm promoter of improvements in the Dwelling  
 Houses of the Working Classes.

Gyd â serch mae'n erchi—y dyn dyfal  
I droi o gynal gwŷnau drygioni.

Bywyd astud yw golud ei galon ;  
Claer yw goleuni ei ddifri ddwyfron ;  
Y da dywyna o'i enaid union  
A'i hynaws ddoniau, er lles i ddynion :—  
Cynllunir cânau llawnion—yn beraidd  
I agwedd euraidd ei egwyddorion.

Ei ddawn rydd ef, dan fendith y nefoedd,  
I gynneu llewyrch â'i gain alluoedd  
Er budd y genedl, er bodd i ganoedd ;  
Ie'n ddigynil i fil o filoedd :—  
Yn mhob bwthyn am bythoedd—bydd e'n gu  
Yn lleuer i deulu'r holl ardaloedd.

Goleudŷ gwiwlon uwch ben y tonnau  
Ydyw i euro'r môr a'i ddyfnderau : 540  
Llong ein Llywodraeth helaeth ei hwyliau  
Oleuir â dawn o'i uniawn enau :  
Ni cha gwynt, neu gorwynt gau—chwyldröad  
A gwaew-rwygiad ei rhoi ar greigiau.

Gwladlywyddiaeth ga'i astudiaeth,  
Ofydd helaeth ei feddyliu :  
Dan ei driniaeth, ffurf-lywodraeth  
O ddirgeliaeth ddaw i'r golau.

Deddfau doethgain Ynys Prydain  
 Wyr yn gywrain, Wron geirwir ;  
 A'i rhyddfrefniawl Wasg rymusawl  
 Yn ddi guriawl ganddo gerir.

Rhyddid odiaeth ein Brenhiniaeth  
 Yw ei lonfaeth a'i lawenfyd—  
 Wlad uchelfri! Rhyddid iddi,  
 Yw ei weddi a'i ddedwyddyd.

Ni cha bradwŷr na Thramorwŷr,  
 Na hagr dreiswŷr, na gwŷr trawsion,  
 Drwy gleddyfau a bidogau  
 Gludo hawliau ein gwlad wiwlon.

Hawl ffyddloniaid Prydain gannaid,  
 Ein gwroniaid a'n gwŷr enwog,  
 A faentumia hyd yr eitha'—  
 Iawn a ddyrcha yn ardderchog.

Hawliau gweithwyr, a marsiandwyr,  
 A Seneddwyr—gwŷr rhagorol  
 Yn mhob galwad gânt gefnogiad  
 Ei ddylanwad yn ddilynol.

Yn ei fawredd ffydd a rhinwedd  
 Mewn anrhydedd mae yn rhodio,  
 Megys seren yn y wybren  
 A gwawl awen i'n goleuo.

Hael yw ei fwriad at dir-lafuriaeth ;  
 Dymuna lwyddiant a hwyliant helaeth  
 I bob Amaethon a'i dirion doraeth,  
 A mwy o weithyddion amaethyddiaeth,  
 A'u cael i feddu offer celfyddiaeth  
 I aru ac arwain i ragoriaeth ;  
 A mwya' cynnydd i bob amcaniaeth,  
 Arlloesiad anialwch er lles dynoliaeth ;—  
 Trwy ynni eu triniaeth—cawn gysuron,  
 A'n teiau 'n llawnion oll at ein lluniaeth.

Cnydau o ydau tew odiaeth—wed'yn  
     Diodydd blasusfaeth,  
 Fal y llif o fêl a llaeth,  
 A geir at ein magwraeth.

Ffarmwr enwog a godidog  
 Yw 'n Tywysog i'n tywysu  
 At lywodraeth amaethyddiaeth  
 Yn mhob talaeth, yn mhob teulu.

Agor ffosydd  
 Yn y rhosydd  
     Wna yn rhesi :  
 Cleidir diffaeth  
 A darpariaeth  
     Wna 'n dir pori.

Mynna bob talar a chefn yn drefnus ;  
 Am anifeiliaid y mae 'n ofalus,  
 Defaid ag ychain o dyfiad gwiw iachus ;  
 A'i weis arial a wna yn gysurus—  
 Daw o'i enau daionus—glod cyfion  
 I'r dwys ei galon a'r diesgeulus.

Daionus ydyw ei anian—at bawb,  
 At bobpeth yn mhobman :  
 Perl yw i deulu purlan  
 Ei rywiog Lŷs a'i wraig lân.

Ei frŷd, ei bryd, a'i bryder,  
 A'i addien oes a foddia Nêr :  
 Mawr yw y gwr, mae mor gu  
 I'w dylwyth ac i'w deulu :  
 Wrth garu ei deulu da,  
 Ei rinwedd a gyfrana,  
 A rheidiau gwir anrhydedd,  
 I'w blant tirion wiwlon wedd :  
 Er ei fraint mae'n rhoi ei frŷd  
 Yn dawel iawn a diwyd  
 I'w dysgu i garu'r gwir,  
 Yn llwyr iawn yn lle'r anwir ;  
 Ac i feithrin pob rhinwedd  
 Yn y byd o hyd, a hedd ;

A hwythau garant weithion  
 Ei bryder a'i dyner dôn,  
 A'i fwriad wrth lefaru  
 Hoff dywalltiad cariad cu  
 I'w foes-wersi difri dwys,  
 O'i galon i'w blant gwiwlwys.  
 Mynna hwynt er mwyn eu hedd  
 I ochel pob anwychedd :  
 Y T'wysog a'u, tywysa  
 I ufuddhau deddfau da,  
 A dwyfol eiriau Dofydd,  
 A dirgelion ffynon ffydd ;  
 A gweddus ddysga iddyn'  
 Ofni Duw yn fwy na dyn.

Mor ddyfal mae'n gofalu—a'i wiwserch  
 Am Dywysog Cymru,  
 A'i fanwl ddwyn i fynu—yn y Llŷs  
 Yn ol ewyllys dwyfol Allu.

I weinyddu iawn addysg,  
 Pob rheol dduwiol a ddysg  
 Drwy gariad i Aer y Goron,  
 Er uno serch yr Ynys hon,  
 Yn rhwymyn diymraniad  
 Yrhawg drwy'r oludawg wlad,



Yn llawn gwres at ddynges dda,  
 Ein tirion gu Victoria.  
 A phan fydd yn ddedwydd ddyng  
 O waedoliaeth yn dilyn,  
 Mewn rheol ar ei hol hi,  
 Yn hynaws Frenin ini,  
 Na anghofied ddywediad,  
 A chynghor coeth doeth ei Dad ;  
 I ddyngion bydded ddinam,  
 Pur a mwyn fel ei fwyn Fam,  
 Mewn buchedd a rhinweddau,  
 Yn gadarn fur i'w bur Bau ;  
 Hael a duwiol ei duedd,  
 Yn Deyrn sad\* ar gadarn sedd.

Da ei wrhydri dirodres ;—a da  
 Ei duedd a'i broffes :  
 Gwr pur mewn llafur a lles  
 Yw i'n hanwyl Frenhines.

660

Cryfder a Philer ei Phalas—yw ef,  
 A'i fywyd yn urddas  
 I ffydd, i grefydd, a gras :  
 Diwyrni yw i'r Deyrnas.

\* Firm, steady.

Ein hynaws ddoeth Frenhines dda—heb boen  
 Beunydd gynorthwya ;  
 A'i holl awydd y llywia—bob gorchwyl  
 Oddiar y perwyl a ddarpara.

Fe yw ei thrysor a'i phrif gynghorwr,  
 Hyderus fawreddus gyfarwyddwr,  
 A gwr ei chalon a'i goruchwylwr,  
 Mewn cyfrinach y mae yn gyfranwr ;  
 Ei Noddfan, ei Tharian, a'i Thŵr,—trigfan  
 Hedd ei hoff anian, a'i hamddiffynwr

Ffynnon ei chariad a'i holl serchiadau  
 A thwym' oludog rym ei theimladau,  
 O ran ei ddeall yw'r gwr yn ddiau ;  
 A maen\* i nodwydd ei dymuniadau :  
 Doethwych ydyw hithau,—a llawn o swyn  
 I Wron addwyn llawn o rinweddau.

Rhydd ef holl egni ei ddifri ddwyfron,  
 Ffydd a diweir-foes ei einioes union,  
 A'i ynni beunydd i nerthu ein Banon,  
 A dawn ei fawr gariad yn fyw i'r Goron :  
 A dyry iddi'n dirion—ddoeth ddeddfau  
 O allu golau gyd â'i holl galon.

\* Loadstone,

Y maent yn ffyddlon o galon i'w gilydd  
 Yn mhob anturiaeth odiaeth a dedwydd ;  
 A'u hamcanion yn gyfion ac ufudd  
 I union a dwyfol orch'mynion Dofydd :  
 Drwy gyfarch a pharch a ffydd—i'w noddwr  
 Duw eu Creawdwr da a'u Gwaredydd.

Calonau di-efrau da a hyfryd  
 Yn dilyn melus ddi feius fywyd,  
 Heb loesau dihoen na phoen na phenyd,  
 Na llwybrau gorflinon, culion, celyd,  
 Nag anfodd i dduo gwynfyd—yw'r ddau,  
 A hedd eu dyddiau'n llawn o ddedwyddyd.

Glendid buchedd mewn puredd ddarparant  
 I euro eu dyddiau ; ffydd anrhydeddant ;  
 Deddfau dwyfol yn siriol drysorant ;  
 Hedd a rhagorion rhinwedd a garant :—  
 Yn wastadol astudiant—anghenrhaid  
 Eu diwyd ddeiliaid—a'u Duw addolant.

\* \* \* \*  
 \* \* \* \*

Hulir y nen gan heulwen ysblenydd,  
 Disglaer y gorwel, tawel y tywydd ;  
 Cymylau dyrfant, urddant y wawrddydd,  
 Mir yw y llynau a'r mor yn llonydd,

Diwael yw mwyniant pob dol a mynydd ;  
 Claer yw y bryniau, clir wybrenydd  
 A gloywon finion y glân afonydd :—  
 Nid yrr holl anian i'w darlennydd  
 Yn unman eirian arwydd — o fwriad  
 A llawn agosiad erchyll negesydd.

|      |   |   |              |
|------|---|---|--------------|
| Ha ! | * | . | *            |
| *    | * |   | wele angau ! |
| *    | * |   | *            |
| *    | * |   | *            |

Yn y Llys mae brys a braw,  
 Arw alaeth a hir wylaw ;  
 Daeth dybryd dristyd drosto,  
 Niwl a gwyll yn dywyll, dô ;  
 A galar na fyn gelu  
 Wylofain a llefain llu ;  
 Arteithiau a gwaeau ganţ,  
 A loesau a gél ysant  
 Lawer calon a bron brudd  
 Sy'n gostwng mewn syn gystudd  
 Am orenwog D'wysog da,  
 Llawroddus wr llareiddia'.

720

Ebrwydded yw tynged dyn !  
 Marwolaeth, ein mawr elyn,

Ddaw ar hynt i'r ddaear hon,  
 A'i gledd llym crai-lym creulon,  
 Trywana yr ucha' radd,  
 Y sâl-rai a'r iselradd ;  
 Ni wna hwn dderbyn wyneb,  
 Laesu'n ol i blesio .neb.  
 Truenus oedd trywanu  
 Enwog wr ein Rhian gu ;  
 Brâd drywaniad i'r Ynys,  
 Bair ruddfan mewn Llan a Llys.

14c

Gwaew blin ! ei wraig a'i blant  
 Ar ei elor a wylant ;  
 Dygwyd drwy gladdedigaeth  
 Hael wr gwych i seler gaeth,  
 Gyd a phrudd-der trymder trist ;  
 Oer ethryb wewyr athrist  
 Ydyw'r diwrnod i'r Deyrnas,  
 Yn mhob plwyf ac yn mhob Plas.

Llen fel niwlen anelwig  
 Ar ei drâs yn hir a drig ;  
 A chwmwl du, du, di des  
 Ar ein hanwyl Frenhines :  
 Ei chydmar glwys, dwys, a da  
 Oedd anwyl—ni ddihuna

O'i hirgwsig mewn daearegell ;  
Ni ddaw o gôl ei ddu gell.

Mae'n gwron yma'n gorwedd  
O glyw byd dan glo y bedd :  
Ni wêl y rudd gystuddiawl,  
Na deigryn sydyn y sawl  
A wylant ei farwolaeth,  
O lawr ei gul seler gaeth :  
Ni chlyw y byw uwch ei ben,  
O'i dŷ oer mewn daearen,  
Yn addef ei rinweddau,  
A'i bur hynt wna hir barhau  
Yn enghraifft deg ddiwegi  
I bob Llys drwy'n Ynys ni.

260

Er cymmaint ei fraint a'i fri,  
Urdd, iechyd, a harddwychi,  
Ei firain bryd a'i fawredd,  
Y doeth o'r byd aeth i'r bedd,  
A'i enaid gwâr anfarwol  
I ŵydd Naf at Dduw yn ol.

Duw cadarn sydd i farnu,  
Drwy gyfiawnhâd cariad cu  
Ei anwyl Fab fu'n aberth —  
Llyna waed yn llawn o werth

780

Ini oll — digoll dygodd  
Wyrthiau i fyd wrth ei fodd.

Ni fedrwn ni sy'n feidrawl  
Drwyddo ef dreiddio i wawl  
Anfeidrol ddwyfol Ddofydd,  
Cariadlon ffynnon ein ffydd.—  
Bro Duw a'i hedd i'n brawd hwn  
Yn fanwl a erfyniwn,  
A dedwydd gartref nefawl,  
I fyw o hyd fo ei hawl.

Yma'n wylo am dano mae dynion  
For o wir gariad, am fawr ragorion  
Ei bwyll bendigaid a'i enaid union,  
A geiriau gwylaidd a gwir ei galon :—  
Ei gofiant fydd yn gyfion — mewn parhâd,  
Yn anwyl seiliad i'n ol-oesolion,  
I roddi llawn arwyddion — o'n dyled,  
A mwy o drwydded j'w ymadroddion.

Y Gwr cariadlon a'r tad daionus,  
Un glân ei feddwl o galon foddus,  
Enillodd drwy fuchedd anrhydeddus  
Gariad diffuant a moliant melus,  
A dylanwad haelionus — ar y wlad,  
Drwy ei ymroddiad a'i fedr mawreddus.

Dagrau y Deyrnas a ddiangasant,  
 Hyd fil o ruddiau diau y deuant,  
 O boeu y galon arwyddion roddant,  
 Fel gwllith bendithlon i'w gyfion gofiant : --  
 Awelon trist a wylant — a'u suâu  
 O ddu wyll angau i'w fedd ollyngant.

Ingau beunyddiol gwreng a boneddion  
 Ardystiant deimlad o gariad i'r Goron !  
 A galar Uchel ac Isel yn gyson,  
 I dduo'r golwg ddaw o'r galon :—  
 Rhyna sedd yr Ynys hon :— ei Noddwr  
 A'i mir Reolwr sy'n mhlith marwolion.

Ei enw adgofir hyd randir India,  
 A gwledydd hefin iesin hen Asia ;  
 O dir rhôs Saron a drwy Assyria  
 I Affric ryfedd eiriaswedd, a Rwsia :  
 Dwys yw y tryloes i wlad Awstralia ;  
 Cwyno wed'yn a geir yn Canàda ;  
 O lwyd oer wedd wlad yr ia—daw cwynion  
 Yn hwyl awelon yn ol i Walia.

O, ddamwain dduwedd ! ni wyddem yn ddiau  
 Am ein Tywysog fod cymaint eisïau,  
 Nes rhoi tan weryd o'r byd wybodau,  
 A llafar gwreiddiol ei ddênol ddoniau,



Ei gu freiniol gyfrinaw,—a'i dêg wedd  
I wyll, argeledd mewn lle o'r golau.

Yn nghalonau cenhedlaethau,  
I'w wireddau parch a roddir ;  
O'i dêg fywyd, diwyd, diail,  
Ei gofadail a gyfodir.

Nid cynlluniau monumentau,  
Na cherfiadau muriâu mawrion,  
Na gogoniant delwau crisiant  
A goronant ei gywreinion :

Ond ei rinwedd, purdeb buchedd,  
Hoen ei fawredd, sy'n anfarwol ;  
Tyner dalent yn aur dilyth  
I'w wehelyth am byth bythol.

BL

Ca ganmoliaeth hanesyddiaeth  
Am wybodaeth helaeth hylon,  
Llawn alluoedd a gweithredoedd,  
Yn oes oesoedd mewn hanesion.

Pa les wna hanes hynod,  
Mawl a chân i'r glân ei glod,  
Na gwiwlwys feini golud,  
Yn y ddacar fyddar fud ?

Yn *Frogmore*, dôr daearen,  
 O wŷdd y byd guddia'i ben :  
 Ni theimla rith gwllith na gwllaw,  
 Nag oerni sy'n glog arnaw,  
 Na thew oer-rew na'r eiria,  
 Na gwlych dryghin blin ei bla,  
 Na hynt y gwynt o'i gyntedd,  
 Na doniau byd yn y bedd.

Ar eu hynt ednain' yr ha',—chwibanant  
 Uwch ben ei orweddffa ;  
 Ond obry ni ddadebra  
 Albert goeth, y doeth a'r da.

Yn welw daw ei Anwlyd—i wylu  
 Dwfn alaeth ei bywyd  
 Ar ei fedd—a'i gwedd i gyd  
 A dawdd i annedwyddyd,

Yn ei chalon ni chela—y gofid  
 A gafodd—ac yma  
 Amyl enyd ymlanwa  
 O gur dwys am ei gwr da.

Daw ochenaid a chwynion,—âg iasau  
 O'i gwiw ysig ddwyfron :

Yn ei chystudd ei grudd gron — a guria —  
Ow! ni ddychwela hedd ei chalon.

Byred ei yrfa! 'n barod i oerfedd  
Bywyd ei bywyd\* yrwyd i orwedd,  
Yma o'i golwg yn ddiangedd:—  
Mae llonaid ei henaid o anhunedd—  
Ow'r Weddw hon! gyrr iddi hedd,—Arglwydd Ion;  
Eura y Goron a'th fawr drugaredd.

Calon ei chalon byth ni ddychwela  
O'i oer iselfedd i'w hen breswylfa  
F rannu curiaeth yr hon a'i cara  
Fel prif drysawr ei swyddfawr Orseddfa—  
Siomiant sy' yma!—ni ddaw'r gwr hynod  
Yma i'w gwyddfod o'i amgauddfa.

Ow! ein Brenhines gynnes ac union  
Deimlodd ddrylliog a lliidiog drallodion,  
Gwaeau a loesau a churiau chwerwon,  
Ingau a'u sorod ac anghysuron,  
O hyd i'w brŷd a'i bron:—cwyno'n wastad  
Wna am ei chariad, prif *em* ei Choron.

Pa les i fonwes y Fanon—yw holl  
Allu Ynys Albion?

\* Dywediad y Frenhines, "He was the life of my life."

Ni wna trysor ei Choron  
 Na dawn llu ei byd yn llon.

Briwiedig mewn unigedd  
 Yw mewn poen heb hoen na hedd ;  
 Mae'n crwydraw mewn braw yn brudd  
 Yn y Castell mewn cystudd :  
 Hiraeth a leinw'i horiau,  
 Yno o hyd i'w gwanhâu ;  
 A hiraeth wna ei haros  
 Fel gwlydd yn nydd a nos.

880

Y gu Loer sy'n galaru.  
 A gwasg ddwys, yn ei gwisg ddu :  
 Gwêl hardd bictiwr o'i gwr gwiw,  
 Ei arlun mewn ffrâm eurliw ;  
 Cofia y geiriau cyfiawn  
 O'i wefus, a'i ddênus ddawn :  
 Cofia rfn ei ddoethineb,  
 A'i waraidd lais, â gruidd wleeb,  
 Hael wawl ei wên oleulwys,  
 Ac uno llaw a'i law lwys,  
 Ei fwynder, ei dyner dôn,  
 A gwylaidd serch ei galon.

Ond yn awr o dan hiraeth,  
 Afar, a hwyl erfawr aeth,  
 Y mae hi'n dihoeni heb  
 Wawr a gwên ar ei gwyneb ;  
 A chyni dwfn a chwynion  
 A gwae braidd yn rhwygo'i bron.

Hiraeth a hiraeth o hyd  
 I'w chalon sy'n dychwelyd ;  
 Cwyn hyd dranc yno a drig  
 Yn iasau drwy'i bron ysig ;  
 Iasau sy'n dwyn anghysur  
 Einioes boen i'w monwes bur.

Arwydda gwawr ei grudd gain  
 Ol afar a wylofain :  
 Mae anfad hwyliad helynt,  
 Fel môr tan ddygyfor gwynt,  
 Yn dôn a thôn yn ei thŷ,  
 A galar yn ei gwely.

Ei theimlad yn wastadawl,  
 Trwy ffydd yn Nuw, Gwir-Dduw gwawl,  
 Yw meddwl am ei ddilyn,  
 Ar elawr dan glawr y glyn,  
 O'i Llys yn ol Wyllys Ion,  
 I gyrhaedd nefol Goron,

'Mhlith angylion gloywon glwys  
 Ei bur odiaeth Baradwys,

O! Dduw mawr, enfawr, anfon—ras a rhâd  
 Drwy gariad i'r Goron,  
 A dwyn benyd ein Banon ;—  
 Addaw hedd i'r Weddw hon.



AWDL

BRWYDR

MAES BOSWORTH.

---

GAN ELIS WYN O WYRFAL.

---

**Cremadog:**

ARGRAFFWYD GAN R. I. JONES, SWYDDFA'R "BRYTHON."

—  
MDCCLXIX.

Digitized by Google





## A N E R C H I A D .

---

**BARNWYD** yr Awdl hon yn oreu ar destun y Gadair yn Llangollen gan Caledfryn; a ganlyn sydd dalfyriad o'i Feirniadaeth :—

“Nid ydyw awdwr yr oreu o'r Awdlau, sef Ieuan Brydydd Hir, yn ddifai. Efe yn ddiau yw y goreu, canys y mae yn gyflawnach fel hanesydd; y mae ganddo fwy o grebwyll nag sydd yn un o'r lleill, a mwy o deithi cyffredinol yr awen; ond y mae yn euog o fyned dros yr un peth fwy nag unwaith, yr hyn nid ellir ei ystyried yn rhagoroldeb; ac ni fedd radd-esgyneb rymus bob amser, yr hyn a allasai gael yn hawdd. \* \* \*”

“Y mae ei linellau o gyfansoddiad naturiol. Nid ydyw yn ymddangos ar ei oreu yn eu cyrhaedd; ond y mae iaith, a chynghanedd, a mesur fel yn talu teyrnged iddo. \* \* \*”

“Ymdroi cryn lawer ar hyd y ffordd y mae yr yngeisydd hwn, fel hoglanc diofal ar ei neges; ond rhaid addef, gyda'r holl ddiffygion a nodwyd, ei fod ef yn rhagori yn fawr ar y ddau ereill sydd yn yr un dosparth ag ef; oblegid y mae ei gynllun a'i ddefnyddiau yn helaethach, ac y mae yntau yn fwy medrus yng ngosodiad allan ei feddylddrychau. \* \* \*”

Gellir gweled Beirniadaeth Caledfryn yn llawn yn y **GWRON** am Tachwedd 13, 1858; a Beirniadaeth Gwilym Hiraethog, a'r hon y cytunai Nicander, yn y rhifyn cyntaf o'r **TALIESIN**.

**YR AWDWR.**



# AWDL

## "BRWYDR MAES BOSWORTH,"

*Trwy yr hon yr adennillodd y Cymry Unbenaeth Ynys Prydain.*

---

"ARMA VIRUMQUE CANO.—VIRGIL."

---

### BOOK I.

THE SUBJECT PROPOSED—Invocation of the Muse—causes which led to the battle—condition of Wales—condition of England at the time—Henry's fleet appears off St. David's Head on the evening of the twelfth day before the battle with auxiliaries from Brittany—his countrymen flock to welcome his arrival—darkness sets in—the "Beacon Lights" spread the tidings throughout Wales—the different chieftains collect their retainers—Sir Rhys ap Thomas sets out to meet Henry with his forces—morning dawns—Henry disembarks his troops—they are entertained by the peasantry on the beach—Henry marches on to Haverfordwest—he is joined by Rhys—saluted as king there—the Red Dragon unfurled—night intervenes—Henry receives messengers from all parts of the country, promising support, and directs them where to meet him with their forces—second morning—the army marches for Carew Castle, and is there entertained by Sir Rhys ap Thomas—third night.

BOSWORTH, ymladdfa bwysig,—a'i harwyr  
Gwrol, uchelfrydig;  
Cymmeriad dewr Cymry dig,  
A'u hymroddiad mawreddig  
'N ennill Unbenaeth Ynys  
Prydain Fawr, ei llawr, a'i llys,  
I'w llin eu hun a'u llaw'n ol—a ganaf,  
Hyn a ddilenaf yn ddylynol.

Adgana, deg Awenydd,—yr achos  
 O'r ymdrechion 'splenydd ;  
 Ddybenwyd i dda beunydd,  
 Yn aerfa dost eirf y dydd.

Cyn hyny y cawn hanes—ein cenedl  
 Yn cwynaw gan ormes ;  
 Edwi yn brudd dan iau bres,  
 Tra anferth Iorwerth eres.

Glyn Dwr, a'r glewion dirus,—o'i amgylch  
 Yn eu hymgais glodus,  
 Syrthiasent yn swrth eisus,—a'u lliidiog  
 Hyf luoedd enwog yn aflwyddiannus :

A'u gwlad oll dan galed iau,—rwymasid  
 A grymusach tidau ;  
 Eto eu nerth yn tynhau,  
 Niweidiol gronai'r nwydau.

Ryw fewnol benderfyniad,—un tymmer  
 Faentumid yn wastad ;  
 Ymrodidi hyf am ryddhâd,  
 A thori'r llyffetheiriad.

Ail cynnyd ryw *volcano*—a ysai  
 Ei gynnwysiad ynddo ;  
 Ac eira llyfn dyfn yn dô,  
 Yn ei addoer enhuddo.

Ond o'i fynwes dufewnol—yr agerdd,  
 Ddyrwyga yn nerthol ;  
 A chyda'i fwg chwyd o'i fol,  
 Ei dân wastraff dinystriol.

A gŷr ei *lava* gorlifol—yn ferw,  
 Lifeiriant llosgfâol ;  
 A'i ofwyad difâol  
 Dry wlad yn dŵr ulw o'i ol.

Un agwedd ymffyrnigai—ein hyfion  
Henafiaid ; a brydiai  
Natur o'u mewn, tra trymhai  
Y tra cesol a'u treisiai.

Nwyf eu hangerdd cyfyngol,—a addig  
Ymchwyddai'n feunyddiol ;  
Gwysiai nerth i geisio'n ol  
Eu bonedd annibynol.

Parod oedd eu pybyrwch,—i danio,  
Gwneyd dinystr, a thristwch ;  
Dilëu trais, a dial trwch,  
Yn eu gorwyllt eiddgarwch.

Ond tra gwyliai'r trigolion,  
Eu harlwy dig trwy'r wlad hon,  
Dylenwi, dal eu hanadl,  
Gan ddyheu i ddechreu'r ddadl.

Lloegyrr ddyrchafai ei llygaid—athrist,  
Yng ngorthrwm ei henaid ;  
Yn ei dydd blin nid oedd blaid  
A dawelaj ei deiliaid.

Dyryswch ei dau Rosyn,—a'u heiddig  
Ymladdau diderfyn ;  
A sarhâd difesur wÿn,  
A'i gwyrasai'n llawn gresyn.

Ei annhymmig blant amhwyll,  
Yn nydd eu bâr yn ddi-bwyll,  
Yn warthus bleidiau gwrthun,  
Yn claddu eu cledd eu hun,  
Yn eu mynwes dumewnl,  
A'u hegni chwai, gwänu'i chol.

A thaiog law-ruddiog wr  
Dan nawdd y dienyddwr,

A'i dreisiog law, a'i draws gledd,  
 Ag arswyd ar ei gorstedd,  
 Yn dal awenau dylanwad,  
 Yn deyrn lyw y druan wlad.  
 A Lloegr brudd, a llwgr ei bron,  
 Oll ogylich mewn llewygon;  
 Glew arwyr Gwalia irad,  
 A'u bryd ar gwedd brwydr y gad,  
 Oedd a'u llym, hir, gledd i'w llaw;  
 Newydd hanner ddiweiniaw,  
 Yn dysgwyl buan laniad  
 Arwr gwych flaenrai'r gad;  
 Nodedig lin hen Dudur,  
 Yn eofn ben, o Fen bur.

At dawel Ben Sant Dewi—yr hwyllad  
 Dros yr hylithr weilaf;  
 O dan lawnon dyn leni,  
 Yn rhwygo hatlir frig y lli.

A deuai o'r Llydawiaid,  
 Yn llu blwng, a'u llaw o'i blaidd,  
 Ddwyfil o'r un epil a  
 Thrigolion llethrau Gwalia.

Eu llongau yn un llynges,  
 Yn eu rhawd nesaent yn rhes,  
 Lledynt eu hwyliâu llydain,  
 Mewn mawredd a'u gwedd yn gain;  
 Ac ewyn hallt, gwyn, o'u hol,  
 A ferwai yn lifetriol,  
 Y lariaidd awel hwyrol,  
 A theg, yn esmwyth o'u hol,  
 Adawai fron y dwfr unwedd,  
 A glas wydr mor glws ei wedd.  
 Yr haul a'i belydr olaf,  
 Yn araul hin siriof haf,

Daenai wrîd ei dyner wawî,  
Hyd ei wyneb ymdaenawl ;  
Tywynai ar y tonigî  
Hwylïan cân gan heulo'u eol.

Brwd yroedd o'r brodorïon— a dyrynt  
Hyd oror y wendon,  
A'u bloeddiadau, llefau, llon,  
Yn rhwygo trwy yr eigion.

Rhai a edrych trwy wydrau,— a hoffus  
Graffiant ar wynebau  
Y gweis heirdd yn agoshâu,  
Yn galonog i'w glanau.

Ereill, yn hyfryd chwarau,— a hafaidd,  
Gyhwan baneraz ;  
A rhai dynant aur dannau,  
I'w gwahodd o'u bodd i'r bau.

Yr hynaws Harri, yn sirïol,— ar ben  
Ucha'r bwrdd feddhaol  
Syllai, ac amneidiai'n ol  
I'w hanerchïon eysardhol.

Y bywiog, wresog, groesaw,  
Gan y llun llon bob llaw,  
Lawenhaj ei galon ei  
Na wyddai'r modd i'w addef.

Yn awr ai y llongau'n rhes,  
I fawn i dawel fynwes,  
Yr ason aber rysedd,  
Diogel hafa y Dau Gledd ;  
Eang, hirfaith, angorfa,  
A thawel, ddofn borthladd dda.

A rhedai llu brwdfrydig— o'u hol liwy,  
Hyd y lau belleng ;

A rhi o fodau rhwyfedig,  
Yn ddifyr aent dros lariaidd frig  
Y llyniog Aber llonydd,  
Gan chwaraeu eu rhwyfau'n rhydd.

O'r olwg âi yr haulwen,  
Ysgawn rudd wisgai y nen.

Y nos llyner, sidanaidd,—a lonydd  
Ddilynai yn wylaidd ;  
A thros y wlad lladradaidd—daenai hug  
Dew o gaddug yn amdo gweddaidd.

Angorai meib llongwriaeth,  
Yn eu trefn, ar fin y traeth,  
Gyda'r lan yn gadr linell,  
O gyrhaedd môr gwrdd ym mhell,  
Er aros y wawr eirian  
I arlwy oll tua'r lan.

Ar hyn gwelid y "carnau gwylarth,"—oll  
Ar dân trwy'r Deheubarth ;  
Pob tal-fryn, coryn pob carth,  
Heibio Eppynt i bob-parth,

Yn olynol hir linell  
O dân byw dywynai i bell ;  
Nes ammheu'r creigiau'n symmyd,  
Yn anferth goelcerth i gyd.

Yn ewybr ogyloch y banau brigog  
A fyw wreichionent trwy wlad Frecheiniog ;  
Tyrau o wladwyr, lluaws taer-lidiog,  
A'u trem i benau y trumau banog,  
A chwai unent yn chwanog—i hyfion  
Wynebu gâlon, ÷ofn bygylog.

Y trumau heulog, tyrau, a moelydd,  
Hoew anfonent o fynydd i fynydd,



Ar edyn awel, yr hyfryd newydd ;  
Hir oddaith hyd foreuddydd—yn parhau,  
Deg oleuadau ar led y gwledydd.

Olynol ymaith, o ben Plinlimon,  
Heibio ael Idris âi ei belydron :  
A'i choryn hithau, a'i chernau weithion,  
Eto'n oruchel saethent dân-wreichion ;  
A'i goleu hael dreiglai hon,—hwnt ar led,  
A'i threm i wared ar lethrau Meirion.

Ei hufel eurai holl fol y Werydd,  
Yn wyneb goleu o lan bwygilydd,  
Eglur âi ei gwawl rhydd—â'r hanes  
Acw i fynwes Lleyd ac Eifionydd.

Ar hyny'r Eifl goronog—a'i hadrawdd  
Trwy holl odreu Clynnog ;  
Rhoddai lewyrch rhudd-liwiog—ar y lli  
Ym mhell o tani yn lluch mellitenog.

Ael y Wyddfa, dal, addfain,—a lenwid  
A goleuni disglain ;  
A'i chwaer drumau, copâu cain,  
A wrident awyr Prydain.

Un oddaith, trwy'r mynyddau,  
O wrym i wrym yn parhau,  
A redai oll o Gaerdydd,  
I fanau Paris Fynydd.

Mon a lanwyd â thwymyn oleuni,  
Yn y têr oddaith ennynai trwyddi ;  
Nifer o gedyrn gan foreu godi,  
A'u trem ar oror trumau Eryri,  
Frydient heb ofer oedi—i orwych  
Uno eu dewrwyh Benciwdawd Harri.

Nid hyfrytach llawenach llawenydd  
A daenai awel y lleuad newydd ;

O freiniol awyr hen Fryn Olewydd,  
 I dawel wyneb Iudea lonydd;  
 Pan nodai'r lleufer terydd—ar redeg  
 I luoedd adeg Iubili ddedwydd.

Gwalia, o ben bwygilydd,—arfogai  
 Rif egin y meusydd,  
 O'i hantuiol blant terydd  
 Yn glew, daer, ddysgwyl y dydd.

Y dewr Rys, a'i hyfedr weision,—godent  
 Eofn giwdawd ffyddlon;  
 Gwiw wehelyth, un galon,  
 Fel y dur yn bur i'r bôn.

Eu heirf ydoedd brofedig,  
 Wedi dal mewn cadau dig:  
 Pob gwr yn filwr di fai,  
 Yr addas awr a wyddai,  
 Yma ys i ymosawd  
 Ar y rhestr mewn chwerw rawd;  
 Anturio'n llawn trwy un llinell  
 Heb oed, a'i hyrddio i bell:  
 Acw eilwaith, lle y ciliai  
 Yn araf, lesg, ryw dorf lai;  
 Er chwalu y trech elyn,  
 Parod oedd pob un pryd hyn,  
 I gywrain gau yn grwn gylch,  
 A'u gwgus olwg ogyrch;  
 Troi wyneb y tarianau  
 Hwnt yn un, a'u cyd-dynhau,  
 Yn fur o eirf dur, i'w dal  
 O'r ddeutu, a'u gwrdd attal.  
 Ac o honynt pum canwr  
 Ym mlaen y gad mal un gwr—

Farchogent ar feirch hygar,—yn lluaws,  
 Llewaidd, ac ymladdgar;

Llewychiad eu heirf llachar—i bell ffordd  
Yn yr osgordd daenai ar wasgar.

Ys enwog Rhys ei hunan,—a wrol  
Flaenorai y cyfan;  
A'i ddurwisg a'i gleidd eirian,—a gemog  
Ar wych a bywiog gadfarch buan.

I w ffordd âi'r osgordd wisgi,—yn orfalch  
I gyfarfod Harri;  
Er ei anwyl goroni,  
Eu teyrn rhad, tarian, a rhi.

Y dlos wawr yn awr eurai—y bryniau  
Wybrenol; cynhyrfai  
Y niwl oer lledaenol âi,  
O'u huchelion, ymchwalai.

Y llwyd nudd o'r drymlyd nant,  
Neu agenau'r dwfn geunant.

Yn araf gynniweiriai,—ar un ochr  
Tua'r nen esgynai;  
Y tu arall pentyrai,  
A throi yn ol ar lithr wnai;  
Nes i wres cynnes yr haul  
Ei yru â'i wrid araul,  
Ar wasgar yn llwyr ysgawn,  
Hyd y nef yn deneu wawn.

Cain huan y cynhauaf—a wenai  
A gwyneb siriolaf,  
Nes urddo mynwes harddaf  
Daiar werdd yn ngwychdar haf.

Ein herodr, pryd hyn, wrol—laniasai;  
A'i lan weision nerthol,  
Yn eu rhwysg yn awr o'u hól  
A lanient yn olynol.

Llu diofn y Llydawiaid—fawrygent  
 Fro'u bagwrdd henafiaid ;  
 A'r Brython, union enaid,  
 Yn gylch i'w croesawi gaid.

Hyf redent ail i frodyr,  
 Oll un wedd yn llawen wyr,  
 I delaid ysgwyd dwylaw ;  
 Yna yn llon, law yn llaw,  
 Ymholynt am helynt hir  
 Y ddwy frawdol, dda, frodir.

Dygai y cymmydogion—oll weithion,  
 Eu llwythawg ddanteithion,  
 O'u teiau ychain tewion  
 Yn helaeth, pob lluniaeth llon.

Lluaws yn dwyn caws ac yd,  
 A rhif ddyg fara hefyd ;  
 Y lleill, eu costrellau llawn,  
 O noddlyd fêdd pereiddlawn.  
 Hardd hulient fyrddau helaeth  
 A'r rhai hyn ar fin y traeth,  
 Er gweddus roi gwahoddiad,  
 I wychr lu eu hen chwaer wlad.

Eisteddai y gwestyddion  
 Ar y llawr yn dyrau llon.

A'r rhelyw, mewn trefn reolaidd,—ogylch  
 Ddygent ymborth gweddaidd ;  
 Eu bara yn wyn, beraidd,  
 Enllyn, ymenyn, a maidd.

'N ol hollol ymddiwallu,  
 Ar y llwybr ymrestrai'r llu ;  
 Yn hir fyddin arfeiddiawg,  
 Rheng ar reng ddringai y rhawg  
 O'r godreu, gan ragedrych  
 Hyd Hwlfordd yn esgordd wych.

Ein Harri, eu blaenorydd,—farchogai ar  
 Farch gwyn ysplenydd,  
 Chwareuai & chry awydd,  
 Yn y rhawd, gan droedio'n rhydd.

Y ddinas hardd a wenai,  
 Yn dorf i'w gyfarfod âi  
 Y bobl, mewn dyledus barch,  
 A'u gofal i'w lon gyfarch.

Yno, rhif o wryfon,—yn eu rhwysg  
 Mewn claer wisgoedd llaesion,  
 A hulient flodeu'n haelion,  
 Ar y llwybr yn dyrau llon.

Yma Rhys, â'r Cymry iesin,—a falch  
 Gyfarfuynt eu Brenin ;  
 Un o lwys ddymunol lin  
 Eu henafiaid cynhefin.

Y pryd hyn, *hawl* Prydain oll  
 Ei hun ddygai yn ddigoll.  
 Yn awr hoff anerchai Rhys  
 E'n Frenin y fawr Ynys.

A'r lluaws Cymry llawen,—ar unwaith  
 Daranent un achen,  
 Eu hie mawr, a'u hamen,  
 Hedai ebrwydd hyd wybren.

Yna eu baner unbenawl,—orchwim  
 Gyrcient yn unfrydawl ;  
 A'u llw i ennill eu hawl.  
 O tani yn gytunawl.

Y duwiol Esgob deuai,—yn ei law  
 Y faner dios ddadlenai ;  
 Ar Dduw nef ber weddi wnai  
 Am lwydd lle'r ymluyddai.

Ei hymylau, "coch a melyn,"—daenol  
 Ymdonient gyferbyn ;  
 A llun Draig, yn llawn dir wyn,  
 Arni wyliai'r chwyrn elyn.

Y dorf frwd, i gyd ar frys,  
 Drwy wyneb lled yr Ynys,  
 Hyf redent â'r brwdfrydedd  
 I'w llawenhau oll un wedd.  
 Cenhadon cain ehedynt  
 I bob pau ar gamrau'r gwynt,  
 Yn hoew gludo'r newydd  
 I glyw'r oll o'n Gwalia rydd.  
 Y nos lwyd a mynwes laith  
 A ddaliai'r lluoedd eilwaith :

Ac yno bawb eu cân bebyll—hulient  
 Yn rheolaidd wersyll,  
 A'u tŷau yn y tywyll,  
 Yn ysgafnhau godrau'r gwyll.

Gwasgodai trymgwsg hudol—y dynion  
 A'i hadenydd swynol ;  
 Pob milwr, arwr, gwrol,  
 A hunai'n chwai yn ei chol.

Ond eu hiesin Dywysog—ni hunai  
 Trwy y gyfnos wllithog ;  
 Ei anturiaethau toreithiog—beunydd,  
 Ai a holl awydd ei ddawn galluog.

Negeswyr syw yn gyson,—o lwyswych  
 Lysoedd y boneddion,  
 Chwai wibient â'u harchebion,  
 Yn hoew ar frys ger ei fron.

Yntau hyber roddai atebion,  
 Holai hanes ei hy' elynion,  
 A bwriad arab y brodorion ;

Llonai weled ei holl anwylion  
Yn llewaidd uno eu lluoŋ—grymus,  
Mor hyderus yn Nghymru dilyn.

Rhod dai wedyn gyfarwyddiadau,  
Yn llawn nodwedd ei gynlluniadau,  
Y dwthwn ar ei deithiau—cynnullent,  
A'r lle ymument a'r llumanau.

Y wawr swynol, rosynaidd,—a gwridog,  
Ar edyn porphoraidd,  
A dorai yn ffrwd euraidd—ymledol  
O'i dorau nefol y Dwyrain hafaid.

Y lluoŋ oll, yn llawn aidd,  
O felus hŋn nefolaidd,  
Yn gadau effro godynt  
I barhau eu pybyr hynt.

Yr ymladdwyr ymlwyddol,—yn ddoŋn  
Golofn ddu, unffurfiol,  
Arweinient gamrau unol,  
Mal un gwr yn mlaen ac ol,  
Gan ysgawg yn gain osgordd  
Gyfangdull, heb ffull i'w ffordd.

Trwy y daith tyrai dethol—wroniaid  
Er unaw'r gad feiddiol;  
A gwerin lu gwasgarol  
Yn dorfeydd dirif o'u hol.

I'w dilyn ai'r medelwyr,—o'r meusydd,  
Y grymusol sawdwyr  
Tra hyfion; a'r pentrefwyr,  
Drwy y fan y'ng hyd ar fyr.

Eu twrdd a'u dadwedd didaw,  
Heibio yn llifo bob llaw,  
A'u hwre i'w Harri oedd  
Yn noŋio hyd y nefbedd.

Yr haul obry o'r loew wybren,  
 Lithrai yn uw'r ar lethrau nen,  
 A'i lydan gan ymledawl  
 A daenai wych deneu, wawl  
 Ar osgo, fel aur wisgiad,  
 Ar drumau heirdd lethrau'r wlad :

Tra nesai'r Teyrn a'i weision,—annedd  
 Yr enwog Rys ffyddlon ;  
 Ar dawel frig ryw dal fron—yn mawrwydh  
 Loew edrych o'r haul belydron.

Iraidd lwyn annhreiddiol wig,  
 A godai'n amguedig,  
 Gysgodol wregys-gadwen  
 Heb un bwlech o ben i ben,  
 Oll o'i gylch, gan dywyll gau  
 Yn rhagorol rag-gaerau.  
 Ac iraidd faes agored,  
 Yn grwn ei lun o gryn led,  
 O'i ganol yn gwiw wenu,  
 Yn wyneb teg o bob tu.  
 Un hir, fain, agorfa oedd,  
 Yn y lle hwn i'w lluoedd,  
 I wneyd taith trwy'r dryslwyn tew,  
 I'w cywrain Gastell Carew.

Yna dros y ddyfr-ffos ddu,  
 I agosach wregysu  
 Ei gaerau oedd agored,  
 A'i safn rwth yn lwth ar led,  
 Y wych bont yu nghrog uwch ben,  
 A godid wrth ddwy gadwen,  
 Ollyngent, i'r llu engyrth,  
 Gyraedd bawb i'w gawraidd byrth.  
 Torf ar dorf ar rawd tyrfawg,  
 Rheng ar reng ddylifai rhawg,  
 Drwy y pyrth, i dyrau pell  
 Y gwestawg, eang, gastell.



Yn y llanerch werdd, feillionog—o fewn  
 Y tàl fur godidog :  
 Llethynt y byrddau llwythog—o ddenol,  
 Ac o faethol seigiau cyfoethog.

Yno y dorf, o'r flin daith,  
 A arweinid ar unwaith,  
 Yn gannoedd, i'w digoni  
 A bara'n llawn, bir yn lli.  
 Y breiniog lys â brwyn glân,  
 Bob cell neu gafell gyfan,  
 Huiasid ; a'r glew weision  
 Aent i orwedd o'r wledd lon.

Llu mawr ger llaw y muriau—a ledynt  
 Eu clydion babellau ;  
 Llawn oedd yr holl neuaddau,  
 Bob ystafell, neu gell gau.

Tawelai hân y tylwyth,  
 O dan ei mel edyn mwyth.

Harri, eilwaith, hir wyliai,—â'i oreu  
 Arwyr ymgynghorai ;  
 Y lle addas lluyddai,  
 A rhifo nerth ei eirf wnai.

Gweilch enwog, o'r wlad gylchynol,—gedyrn  
 Gadau yn olynol  
 Gyrhaeddent : heidient o'i ol,  
 Yn orhoew barhaol.  
 Nes i'r wawr, dyner, siriawl,  
 Roddi gwen ei rhuddog wawl,  
 Ar ddorau yr hardd Ddwyrain,  
 Daenog lif ar edyn glain.

## BOOK II.

GAMES and Festivities in honour of Henry's arrival—the horse race—foot race—wrestling—leaping—archery—fencing with a sword and buckler—the feast—Jasper Tudor extols the heroic courage of his countrymen—deprecates their feuds in the Anglo-Norman Wars of the Roses—points out their wrongs—recounts the sufferings of Henry Tudor during his exile—exhorts them to fight for their ancestral rights—Sir Rhys ap Thomas expatiates on Henry's rights to the British throne—fatal effects of divisions among his countrymen—their consequent oppression by the Anglo-Normans—he expresses the determination of his countrymen to regain their ancient rights, or die in the attempt—Lewis, the Countess of Richmond's Physician, arrives from England, and explains the position of affairs there—the general consternation—Richard's anxiety—his increasing cruelty—sinister rumours of some great disaster approaching—Richard collects his army in the middle of England—Henry Tudor expresses his pleasure in meeting with so many of his countrymen ready to draw the sword in his defence—he explains his title to the throne of Britain—exhorts them to refrain from plunder and cruelty in their expedition—shews the righteous retribution of God upon the Romans—Anglo-Saxons—Danes and Normans—explains his future line of policy—an old minstrel comes in—he is introduced to Henry's presence—encouraged to play on the harp—he details the oppression of his race since the death of Owen Glyndwr—foresees the dawn of better days—explains the fulfilment of the ancient prophecies of Taliesin, Merddin, &c.—God's judgments upon the oppressors of his country since the fall of Llewelyn—miserable end of Edward I., Edward II., and Henry III.—calamities of their posterity—the ancient race prepared for the high destinies before them in the school of suffering—he predicts the subjugation of England by Henry—his marriage with the Princess Elizabeth—glory of England under the Tudor dynasty—military prowess—revival of letters—Protestant Reformation—discovery and colonization of North America—extension of the British power in the East—union of Scotland through Henry's lineal descent—Naval greatness of Great Britain—glorious reign of our Most Gracious Queen Victoria.

DIHUNAI y gad hoenus,—ymlenwynt  
 Ag aml luniaeth hoffus,  
 A Rhys, hoew roesawus,  
 Wahoddai'r rhai'n, " Yn ddi rus,

Un dydd, i anrhydeddu—ein rhyddid,  
 O, rhoddwn blant Cymru!  
 A hyf, arab, ddyfyru  
 Bron ein cad, a'n brenin cu.

Yn ystig faes gorchestol,—ein huchel  
 Ymdrechion milwrol ;  
 A gorwych ' gampau gwrol,'—a medrus  
 Chwareuon nwyfus ein gwychr henafion."

Ai y lluaws i'w lleoedd,—ymresynt  
 I'r ymryson, filoedd ;  
 A'u blaenoriaid gaid ar g'oeedd  
 Yn llywio eu galluoedd.

Anfonai Rhys faner wen,—i'w chwifog  
 Ddyrchafu'n arwyddlen,  
 I nodi'r pwynt ar y pen,  
 I'r llu rhedegwyr llawen.

Tri marchwr a'u trem orchwim  
 Yn gyfochrog, chwanog, chwim,  
 Yn y rhestr ar ben yr *ael*  
 Ymhedynt ar ymadael.

Yr awenau ar unwaith—ollyngynt,  
 A'u holl angerdd ymaith  
 Cychwynent, twymnent i'w taith,  
 Hyd derfyn y rhawd hirfaith.

O tanynt ymestynai  
 Y meirch chwyryn ynghyd ; mor chwai  
 Na adwaenid traed danynt,—ar eu llwybr,  
 Prin â'r llawr cyffyrddynt ;  
 Ni enwir un o honynt  
 Ar eu carlam gam yn gynt.

Ar fynyd y nesaf i'r faner,—graff  
 Drydd yn grwn ar fyrder ;  
 Ond yr ail â draw o'i rôd,  
 Yn ei hylltod i bellter.

Y tro edwyn y trydydd,  
 Heibio rhed mewn bwa rhydd,  
 Ac ennill ar y canol,  
 Ar un naid try hwn o'i cl.

Annelant yn eu holau,—a lleinw  
 Gwyll anadl eu ffroenau ;  
 Gwŷn ewyn o'u geneuau—ollyngant,  
 A dir y chwysant dor a choesau.

Y ddau flaenaf, a ddifinaw—yrant  
 Yn orwyllt heb beidiaw,  
 Ysgubant yn frysg heibiaw,  
 Ar ail ddyn ar ol a ddaw.

Am ei *ael* llacw Meilir—ar gyrhaedd  
 Ar goron ddamlygir,  
 Fe lwydda hwn y floedd hir  
 Drwy y gad draw a godir.

Eto yr ail hwnt, ar eiliad,—eilw  
 Ganmolus lon-floeddiad,  
 A'r olaf, gwaelaf, trwy'r gad,  
 A'i warth ennyn chwerthiniad.

Penai Harri gwpan eurawg,—gerfflog  
 O arfwaith godidawg,  
 Addurnol ragorol, gawg  
 I'r rhedwyr buan-droediawg.

Neidient i'r *ael* benodol,—a hyfion  
 Safent yn gyfochrol ;  
 Edrychent y maes ymdrechol  
 O'i lawn gŵr, y'mlaen ac ol.

Egorai Harri'r geiriad—i gychwyn,  
 Ac awchus ar eiliad ;  
 Oll ymaith âg un llamiad—anelynt,  
 A mwy hydr redynt, ar gyflym droediad.

Dau o hoewon Lydawiad—ymlonynt,  
 Ym mlaenaf am yspaid ;  
 Tri o Gymry gwisgi gaid  
 Yn eu dilyn yn delaid.

Dyheuent mewn brwd awydd—weisedlym,  
 Ar sodlau eu gilydd;  
 Cyflymynt, rhedynt yn rhydd  
 A naw hoewach o'r newydd.

Heibio oll yr *ael* bellaf—dirwynant,  
 Dewr ennill yr olaf;  
 Blina y rhedwr blaenaf—syrth yn ôl  
 Yn wan a llethol ei allu eithaf.

Meredydd gyflym rodiad  
 Ar ei ol yn awr a âd  
 Y blaenaf o'r rhai blinion  
 Nesâ fry, cynhesa 'i fron,  
 Gawr heinif, a'i gry anadl,  
 Y wobr dddwg heb air o ddadl.  
 Yn y pen cwymp, â'i wyneb  
 I lawr ar y ddaear wleb;  
 Eto yr ail, yn y tro,  
 A swrth, drwstan, syrth drosto.  
 Yr olaf redwyr eilwaith  
 Buan doent i ben y daith  
 Yn weinion bawb o honynt.  
 Oll un wedd allan o wynt.

Rhodddai Harri 'r rhodd eurawg  
 I Meredydd, gelfydd, gawg;  
 Ac ail wobr ddygai â'i law  
 I Lwydiarth Wyn o Lydaw.

Hyspys gyhoeddai Jasper—  
 "Unrhyw un a ddyru her,  
 Ac ennill 'Codwm canol'  
 Ar ei ddyn yng nghwr y ddôl,  
 Y gadwyn hon, llon o'm llaw  
 Ei rhoddaf yn wobr iddaw."

Y cadarn Feurig godai—yn ei gylch  
 Ger bron y gad safai;  
 Pob arwr, pawb a heriai,  
 A'i fawr nerth, ciodfori wnai.

Ei fawr wychion, hir freichiau—a godai,  
 Ei gedyrn ysgwyddau  
 O freiniog led; ei fron glau,  
 A'i gawraidd braff esgeiriau.

Iestyn neidiai o'i eistedd,  
 Oddi ar ei glun ei ddur-gledd  
 Ddiosgai, a'i ryld wisgoedd  
 A chwai wregysai ar goedd.  
 Gwedai y gŵr, gyda gŵen—  
 "Ymgydiaf am y gadwen,  
 Taw, ynfyd. a'th fost anferth  
 Tyr'd yn hyf, treia dy nerth."

Gofalus deg, afaelynt—yn awchus,  
 A'u breichiau gymmhlethynt  
 Am eu gilydd; ymogelynt—bob tro,  
 Dan ymgydio yn dŷn ymgodynt.

A'i nerth mawr a swrth Meurig—a wasgai  
 Ei esgyru plygedig  
 Ond Iestyn ar naid ystig—i'm gadw  
 Ar ei droed hoew, ro'i dro dehëuig;

A'i ystwyth lin wnai estyn—tan ei ar,  
 Tynai hwnw yn sydyn  
 A rholiai ei gawr elyn—amrosgaw  
 Tan ei ddwylaw—yntau 'n ei ddilyn;

A'r llun llon ar bob llaw  
 Yn dal i guro dwylaw.

Ai yr hoff chwareuon rhydd  
 Ym mlaen mewn syml lawenydd.  
 Chwyrn gyflawnai rhai yn rhydd  
 Hir naid ail "Abernodwydd."  
 Arall i'r nod gyfeiriai  
 Y saeth chwim, yn syth, a chwai;  
 Neu acw dafiai bicell  
 Haiarn bwynt, yn chwyrn i bell.

Rhai & gloew, ddur, gleddyf  
 A tharian yn meithrin hyf  
 Arferiad o'u heirf eirian,  
 Mewn gwychder, a glewder glân,  
 Yno oeddynt yn hyddysg,  
 Ymdrin â'u medr yn eu mysg.  
 Eraill a hoffynt chwarau  
 Yr enwog gledd deuddwrn clau.

Ar ôl hir ymdrechol drin  
 Eu pwysig gampau iesin,  
 Y llun aent oll yn ôl  
 I'w da giniaw digonol,  
 Oddi fewn i'r neuadd fawr  
 Dèn dorf, a dwnad dirfawr.

Y naill wr yn gwthio'r llall  
 A thwr yn llethu arall,  
 Gwedi astud gyd eistedd  
 Yn hardd lu wrth fwrdd y wledd,  
 Diwellynt hyd ewyllys  
 Eu newyn llawn yn y llys.

Ac yna dygid gwinoedd—o'u blaenau  
 Byw lonynt yn lluoedd; [hau,  
 Eu fflwch wladgarwch ar goedd—yn cryf-  
 A berwi nwydau eu bronau ydoedd

Cyd-wleddai'r Cadlywyddion—a molent  
 Eu milwyr dewr galon,  
 Eu chwai, ystig, orchestion,  
 Awydd brwd, ac aidd eu bron.

Y tadol Jasper Tudur  
 Yn llawn o bwyll â'i wên bur,  
 Yn gudeg yno godai,  
 Ust o gylch, a gwesteg gai,  
 A gwedai—"Gymry gwiwdeg  
 Fy ngwlad hoff, fy Ngwalia deg;

Bro dirion y brwd arwyr,  
 Daiar ein hen "Gedyrn-wyr;"  
 Pau orenwog bob rhinwedd,  
 A hardd-dud Rhyddid, a hedd;  
 Gwlad yr eirf ar glew, glew drin,  
 Yn fedd i estron fyddin;  
 O mor hoff im' awyr rydd  
 Môr lanau Cymru lonydd!!

Wroniaid a charenydd—ie rhai  
 Mewn liawer brwydr derydd  
 A welais fy hun eilydd-  
 Llewod yn ennill y dydd,

A galw buddugoliaeth—i fanwl  
 Derfynu llywodraeth  
 Lloegr ei hun (yn ei holl egr aeth)—i'r neb  
 A geisiai wyneb eich gwasanaeth.

Dylifodd eich gwaed ail afon—y wlad  
 Dros groes bleidiau'r Saeson,  
 Fe welwyd eirf y wlad hon,  
 Yn cario llawer coron:  
 Ond pa les fu codi plaid?  
 Er ennill i estroniaid  
 Newid meistr a wneid am waeth,  
 Llwrfr oddef pob llofruddiaeth;  
 Y naill wr yn gwanu'r llall  
 Llwyth ir yn llethu arall.  
 Y llofrudd erchyll Efracw\*  
 A'i fawr wŷn a gofir rhawg.  
 Ba artaith i'ch Herbertiaid  
 O'i law goch, ddifäol, gaid;  
 A gwers hyll gwyr Essyllwg,  
 Dan warth ei anhydyn wŷg,  
 Ban barodd maes Banbury  
 Arw frad i gawri o fri.

---

\* Richard the leader of the house of York.



A-dir anffawd brwydr Henffordd—ddilëodd  
 Lawer hardd welygordd ;  
 A gwasgwyd llawer gosgordd  
 Draw ar fiull i droi o'r ffordd  
 Brwd wastraff a brâd estron  
 O'n llaw hyf ennillai hon.

Ni adawai fy nhad Owain—ei le  
 Yn ddeng mlwydd a thrugain ;  
 Ond caled ddyrnod celain  
 A'i law roes i lu o'r rhai'n.

Lluddiedig yn lladd ydoedd—ei hunan  
 Yng nghanol eu lluoedd ;  
 Yn y taiog finteioedd  
 Syrthiai ; i'r llawr â'i lle'r oedd.

Yno Iorwerth annhirion—ow erchyll,  
 Ni pharchai 'i ddewr galon  
 Na'i wÿn frig ; ond gwanai fron  
 Wladgarol, y dig wron.

Yma ei wÿr gymmerais—yn fochgoch  
 Fachgen bychan, llednais  
 A diogel ei dygais  
 O ddial trwm ddwylaw trais.  
 Eu llid dwys 'nôl colli 'i dad\*  
 Oddefodd yn amddifad.  
 A ffoadur anffodus  
 Hir barhâi ar wib, a rhus ;

Ail hoew, eiddil ewig—o ddwylaw  
 Gwrdd helwyr mileinig ;  
 Neu wan aderyn unig  
 O eglur dwrf maglwyr dig.

---

\* Edmund Tudor died when Henry his son was only three months old.

Arweiniais ef ar unwaith  
 Dros ddwfn oror y mor maith  
 I bellter llom bau alltud,  
 O'i wlad hoff ddymunol dud.

Erlidiog fyth drwy Lydaw  
 A Gâl brudd dan gŵl a braw,  
 Ar enw Jasper, anhysbys  
 Isel â'i o lŷs i lŷs.

Arian Lloegr oedd ar un llaw.  
 Yn denol wneyd am danaw,  
 A llwgr weision, lyfrion lu,  
 Yn awchus i'w fradychu,  
 Y tu arall bentyrrynt  
 I beri ofn bob rhyw hynt.

Yn Llydaw erchyll adyn—un LANDAES,  
 Lawn o dwyll, i'n herbyn,  
 Yn ei frâd, a'i enfawr wŷn—fu'n ceisiaw  
 Ein cau i ddwylaw y ciaidd elyn.

Ond y iesin Dywysog—a'r tyner  
 Frutaniaid godidog  
 A ddensis yn fyddinog—i'n helpu  
 I ail feddu ein Gwalia foddig.  
 O erchyll ddeuddeg carchar  
 O lid byd, erlid, a bâr ;  
 O gwyn deuddeng mlynedd gaeth,  
 O hallt adeg alltudiaeth,  
 Duw'r nef o'i dirion ofal  
 Ir fynyd hon ddarfu'n dal.

A daeth yr enyd weithian i ennill  
 Ein cyn-fonedd eirian  
 Ac anrhydedd gorsedd gân,  
 Gorenwog Loegr ei hunan.

Yn enw Duw Ior, a'u Iawnderau—awn  
 I ennill ein breintiau,  
 Daw oes o hedd i deshâu—ein hoer fyd,  
 A gwyl ddaw hefyd i'n hir gleddyfau."

Terfynai—Ac eiliai'r gad  
 A llon sain ei llawn syniad :  
 Daliant i guro dwylaw  
 Iddo ef un llef bob llaw.

Rhys godai'n wresog wedyn  
 Egorai y geiriau hyn.

"Ein dewr hygar, Bendragon—o deilwng  
 Waedoliaeth y Brython  
 Y dorf frwd a dirfawr hon—yn llawn serch  
 A'th dirion anerch eu doeth Deyrn union :  
 Dygynull De a Gwynedd  
 Yn dwyn eirf i gyd un wedd.

Ynot dodwyd hawl Owain Tudwr,—hawl  
 Llewelyn ac Arthur ;  
 Daliwn hwn er pob dolur  
 Yn hyf o dan arfau dur.

Ymryson amryw oesau—a wnaethom  
 Yn chwithig, groes, bleidiau :  
 Rhwygo yn hir, a gwanhau  
 Ein hunain trwy gynhenau.

Uno rhestr meibion estron,—ymyraeth  
 A'u marwol ddadleuon,  
 Ymresu i'w hymryson,  
 Nerthu y Sais—mae'n warth sôn !!

Dal afrad deulu Efrog—yn ein plith  
 Fynai plaid alluog ;  
 Eraill hen dylwyth enwog—Caerhirfryn,  
 Aent iw dilyn bob hynt yn dalog.

Dynodd ef o dan ei ddaint ;  
 A'i gyneſ wraig a wanodd  
 Yn eu mysg hwy yr un modd.  
 Ond daeth i'w glustiau weithian  
 I ryw lu dan Harri lân  
 Hwyllo draw o Lydaw rydd  
 I oror môr y Werydd.  
 Gyda hyn i'w go y daeth  
 Y deilwng brophwydoliaeth  
 Ddywedir mewn traddodiad,  
 Yn fanwl, o fewn y wlad,  
 Yr ennill gwr o Wynedd  
 Yr ynys a'i heirian sedd.  
 A dirgel si dreigl a sôn,  
 Gwan sisial gan y Saeson,  
 Y sonir i'r Rhosynau  
 Ynddo ef uno, y ddau  
 Yn dwyn hyn i derfyn da,  
 Yn y lwys Fun Eliza.

Yn gyfrwys tuag Efrog—i godi  
 Ei gadau anfoddog  
 Y cychwyn a'i wyr cuchiog—mewn dychryn  
 Yn llwfr ddilyn y llofrudd halog

Deallaf fod ei 'wyllys—i gynhull  
 I ganol yr ynys  
 Ei gadau broch gyda brys,—a rhoi her  
 Iw elyn Iasper a'i lu anhysbys."

Hyn syniai Lewis swynol—  
 Harri ei hun ar ei ol  
 Ddywedai,—“ Ddedwydd adeg !  
 O funyd hoff ! cyfnod teg !!  
 Mae un awr fel hon mewn oes  
 Yn lloni gwae holl einioes ;  
 O'i hiesin fwynhau eisioes  
 I angof aeth ing fy oes ;  
 Croesawiad y wlad sydd wledd  
 I'r enaid mewn gwirionedd.

Ni welodd un dreng elyn,  
Egr ddwfr ar y gruiddiau hyn,  
Heno a geir yn eich gwydd  
A dagrau caredigrwydd,  
Yn treisiog lifo trosodd  
Yn lli mawr bob dull a modd.

Yma awel ammheuaeth  
A braw a nych o'm bron aeth,  
A gwelaf fuddugoliaeth—o'm deutu  
Yn syw wenu yn eich gwasanaeth.  
Ni ymrysonwn am Rosynau,  
A'u hofer arogl dros fyr oriau,  
Na; Ymholwn am hawliau—o hoff rin,  
A mawredd iesin myrdd o oesau.

Hawl ein Taid hael, Owain Tudur—a'n dig  
Lyn Dŵr sydd yn eglur;  
Hawl ein balch Lewelyn bur,  
A diwrthddadl dy Arthur:

Curwn am hawl yn cyrhaedd  
Hyd ein pen Prydain ap Aedd.

Yn nrheigl hynod Rhagluniaeth,  
Yr auraidd ddydd ac awr ddaeth.  
Yn ôl glân brophwydoliaeth—o lys nef,  
I ennill adref ein llywodraeth.  
Ond O anwylion! geilw dynoliaeth,  
Dyngarwch ofyn pan daw'n goruchafiaeth,  
Na chreulonon mewn chwerw elyniaeth,  
I ofer beri unrhyw farbariaeth;  
Hyfrydu mewn difrodaeth,—a chyni,  
Neu greu trueni a'n garw driniaeth.  
Na fydded i lofruddiaeth—na thrawster  
Ddiwyno baner ein hardd unbenaeth.

In Duw y perthyn dial  
Ei ofwy dwys Ef a dâl;  
A ddwg drais, ei ddigter Ef,  
A'i law, odrist dâl adref.

Rhwyf anwar y Rhufeiniaid  
 A thrâ eu llu aeth i'r llaid ;  
 Tra Saeson, eu trais, oesoedd,  
 A'u gormes hwy grymus oedd.  
 Dan eu traed yr adyn tru  
 Ar Dduw fu'n hir riddfanu ;  
 Llethwyd eu gallu hwythau  
 I chwerw nych yr un iau,  
 Lleu dinystr y Llu Danaidd,  
 Yn ein bro ni allwn braidd.

Gordowyd y Gwyr duon"—yn eu tro  
 A'r un trais echryslon ;  
 A'r un briw, trueni bron,  
 Ysodd eu truenusion.  
 I mewn daeth y Normaniaid  
 Gan drechu, plygu, pob plaid ;

Eu rhwygo o'u tiriogaeth—a'u rhwymo,  
 Dan rymus warogaeth ;  
 Eu dwyn i gyd dan iau gaeth  
 Eu hanffodus flin Ffeudiaeth.

Ond dilyn llaw dialedd—eu holl hil  
 I'w lladd yn ddiiddiwedd  
 O'u mewn glŷn y miniog gledd,  
 A dufrad pob difrodedd.

Barn Ion ar eu brenhinoedd—a arllwys  
 Yn orllif trwy'r oesoedd ;  
 Rhywf, a blin gynnhwrf, a bloedd,  
 Fwrw anwar, pob trinoedd.  
 Y naill yn gwanu y llall,  
 Traws wr yn treisio arall :  
 A gwaedlyd o'r byd i'r bedd  
 Y syrthiant yn eu serthedd.

Trwy ofwy rhyfel gartrefawl—y llas  
 Eu holl hil Frenhinawl  
 Na ddeil un ei eiddil hawl  
 Onid Rhisiart law dreisiawl.

Yr un wedd o Farwniaid—trausfalch  
 Y treisfawr Normaniaid  
 Salw a blin yw'r isel blaid,  
 A weddill y lleiddiaid.

A Rhisiart mae'n hymryson—a'i lidiog  
 Bleidiau anghymodlon ;  
 Y gwyr sy'n dwyn y goron  
 O law hael y genedl hon.

Yn hyn rhaid i'w hen anrhydedd—gael  
 Ain ddwfn glwyf ei bonedd ; [iawn  
 Ac yna hoff ddatgan hedd,  
 Têr wena mewn tirionedd.

Nid drygu wnai Pendragon—ein gorwych,  
 A gwrol henafion ;  
 Ond dal eu breintiau hylon  
 I wneyd lles i'r deiliaid llon.

Eilydd fydd ein Rheolaeth—dileu trais  
 Dal trefn mewn llywodraeth ;  
 Crymu brig pendefigaeth—y Norman,  
 Achles hunan ac uchel syniaeth ;

Er ennill y Weriniaeth  
 O ddyfnder cyfyngder caeth ;  
 A rhwygo y warogaeth—Farwnol,  
 Hyrwyddo swynol, a rhydd wasanaeth.

Os â hyn y cydsyniwch—hyf frodyr  
 Brwdfrydig arfogwch ;  
 Un frwydyr—yna hyfrydwch—durfig  
 Un wers addig—hir oes o heddwch.”

Harri dewai—a chymmeradwyaeth  
 Iddo a eilid trwy'r neuadd helaeth ;  
 Cynhyrfu agwrdd—tincian arfogaeth  
 Neu guro dwylaw rhwng gwyr y Dalaeth  
 I fynegi eu cefnogaeth—ffyddlon,  
 Yn lluoan taerion oll i'w anturiaeth.

Ar hyn ryw ddwys wr hen, urddasol wyl  
 Nesâi yn bengrymol  
 A'i deneu wallt cydynol—yn chwarau  
 Ar ei ysgwyddau 'n droau modrwyol.

A'i laes farf, o dlysaf wedd  
 Cnu arian yn cain orwedd,  
 A rhywiog, wen, grogi oedd  
 Ar wasgar ar ei wisgoedd.

Eiddil iawn ei ddelw oedd,  
 A hynodawl hên ydoedd.

Yna o'i ôl bachgen gwylaidd—yn dwyn  
 Ei deg delyn euraidd,  
 A droediai yn lladradaidd,  
 A'i wna bryd, yn crynu braidd.

Hardd olwg y Bardd alwai  
 Ddistawrwydd rhwydd bob lle'r ai.

Rhys hoew a'i croesawol—arweiniai

Ger bron y Llyw breiniol;  
 Ac yno yn y canol—eisteddai  
 A hudol seiniai ei odlau swynol  
 Arhosai wedyn arswydol—ofnai  
 Na chywir wëai 'r tannau chwareuol.

Harri a'i cysurai ef,  
 Toddai yntau i addef,  
 “Ow edeu fer hyd fy oes  
 Ddirwynodd i hwyr einioes;  
 Dirywiodd y der Awen,  
 Anghofus, poenus yw'r pen;  
 Gwan a llesg heno y llaw  
 I ddilyn peraidd alaw;  
 A chwithig, chwithig, och weithian!  
 I dynu mêl o dannau mân.  
 Ym Mreinllys Owain gain gynt  
 Y tannau hyn gytunynt,  
 A hen ffrwd yr Awen ffraeth,  
 Yn unllais ym Machynllaeth,



I groesawi'r Arwr gwrawl—adref  
 O'i frwydrau buddugawl;  
 Eilio ei fyw haeddol fawl,  
 A'i wyrhydri herodrawl.

Ond dyhiraf fradwriaeth—a malais  
 Ymwelodd a'r Dalaeth  
 A'n Olaf Lyw mewn alaeth  
 I drist fedd o'i orsedd aeth..

Yna Harri annhirion—i oeri  
 Ein gwladgarwch ffyddlon,  
 Hyf waharddai i Feirddion  
 Dynu llaw ar dannau llon;  
 Na geiriaw cerdd wladgarawl  
 Neu Awdl fwyn o hyawdl fawl.

I agen hen glogwyn is  
 Hir odreu Cadair Idris,  
 Diengais o'r flin dynged,  
 Ar oer ladd barhai ar led.  
 Oesi yn ei mynwes hi  
 Hir dymmor fu raid imi,  
 Yn ddystaw, yn brudd, astud,  
 Y delyn fwyn odl yn fud,  
 Mewn braw arswydaw i sain,  
 Yn gydsill a'r graig adsain,  
 A chlyw'r fradychol awel  
 Fynegi am y fan gèl;  
 I gwyno mewn lleddf ganiad  
 Am chwerw groes loes fy ngwlad.  
 Rhwad afon oer Dyfi;  
 Y barcud glâs a'i gras gri,  
 Chwiban gwynt uwch ben y gell  
 Annistewai'r nos dywell;  
 A dir nâd adar y nos  
 O'r ogof lethrau agos,  
 Hyn o gylch yn unig oedd  
 I'w glywed trwy'r gwag leoedd,  
 Ond pa les rhoi cyfres cy'd

D

O waeau fy ngwael fywyd ;  
 Y noeth drais hwn aeth drosodd  
 Pob penyd, a phyd a ffodd,  
 Gwawr Rhyddid gwir, a Heddwch,  
 Drwy y traws gyfyngder trwch,  
 Dyr yn wan; a'i dirion wedd  
 Wena ail i anwylwedd  
 Y bore gwyneb euros  
 Yn gwenu ar w̄g y nos.

Wele weithion hen brophwydoliaethau  
 Caniadau hudol, hoff, ein cyn-dadau,  
 Fel yn ehedeg i'w cyflawniadau ;  
 Gloewa eu hedyn yn eu treigladau,  
 A diball dyrant o'r du bellderau,  
 Tîrf ymddelwant trwy fy meddyliau,  
 O am eu pur eglurhau—yn ffraethber,  
 A'u geiriau'n dyner ar gywrain dannau,  
 Mae'r dymuniadau gorau 'u gwiw-rin  
 Anadlasai yr Hen Daliesin  
 Tra ÷on faeddai estron fyddin  
 Bryd hynawsaf ei Brydainiesin  
 A mawrddoeth Frudiau Myrddin—ar esgor  
 Drwy wen oror brodir Aneurin.  
 Difyr yw adwaen yn y da Frudiau  
 Y daw ail linach yn dâl awenau  
 Grymus lywodraeth ehelaeth olau,  
 Yr unol Ynys, o Freiniol Iwynau  
 Ein nodedig gyndeidiau—gwladgarol,  
 Yn hardd, ddewisol dros fyrdd o oesau.  
 Wele ein Arthur o ddelw nerthol  
 Yn ei holl fawredd o wlad allforol ;  
 Eto a arwain ei fintai wrol  
 I gyrchfa agwrdd brwydrau gorchfygol  
 Taenant eu lluman tonniol—mewn gwycheder  
 Ennilla'n Baner allu unbenol.  
 Nid marw Arthur, a wnaed mor wrthiol.  
 Byw yw ei Enw, byw ei Fab hanol ;  
 I'w wlad e foriodd ; a'i lu adferol,  
 Y rhai hunasent rhwng bryniau oesol

Ei hen frodir hyfrydol—gyfodant  
 A'u heirf a ddygant yn dorf fuddugol;  
 Ein mawr henafion, meirw ni fuant,  
 Yn eu llwch weddill llecha eu haeddiant;  
 Myrdd o'u hiliogaeth, mawredd olygant,  
 Ac yn eu haddysg ymogoneddant;  
 Yn ein plith hwy yn eu plant—i'n rhydd.  
 O ddig ofidiau heddyw gyfodant, [hâu,  
 Duw addfedodd ein dyoddefiadau,  
 Yn llaw'n Brenhin i ennill ein breiniau:  
 Y gwael gyfodir trwy ysgol gofidiau  
 I wychawl fonedd ar uchel fanau;  
 A'r balch annhirion, greulon hagr aeliau,  
 A ysol dorir i'r iselderau  
 Fel y clir adwaenir doniau—y Naf  
 A'i allu drwy eithaf llywodraethau.  
 Mor ofnadwy gofwy 'r farn gyfion  
 Ddilynai Iorwerth, a'i lu annhirion,  
 Y rhai fu 'n difa Hen Walia wiwlon,  
 Lluddio ei barddas a lladd ei beirddion  
 A'i rhoddi i'w llofruddion—yn wobr llwyr,  
 A rhan i'w rhwygwyr anrhugarogion,  
 Ow eu pell alar er cwynp Llywelyn  
 Barn a dialedd barha 'n eu dilyn;  
 Gwel un gwr adref, ddigalon grwydryn,  
 Yn brysio o olwg Bruce ei elyn,  
 Ond darfod ar y terfyn—gan wylaw,  
 Wedi 'i ysgytaw yn wawd Ysgottyn.  
 Wylodd hên Hafren wrth floedd anhyfryd,  
 Nadau a llyfon, mab ei dwyll hefyd,  
 Yn llif ei waeau, pan gollai 'i fywyd  
 O tan allu ei fleidd-wraig buteinllyd;  
 A hyll grynodd Lloegr enyd—gan y briw  
 Yn rhwyf ac edliw y cynhwrf gwaedlyd.  
 A diwedd adyn i'r Trydydd ydoedd  
 Yn egwan, afiach dan wg y nesoedd;  
 A'i hil anniddan trwy'r hir flynyddoedd  
 A amrafaeliant mewn llym ryfeloedd,  
 Dadleuad ei deuluoedd—a'u ciprys

Anrheithia'r ynys ym mhob gwrthinoedd;  
 Fe wasga eu terfysgoedd—y penaf  
 Yn druenusaf o'r holl deyrnasodd.

Ar ol un ammhur o'r hil anhymmig  
 O naws annynol erys yn unig  
 A hwn a chwydir ym mhen ychydig  
 O'i thir i'w adael yn beth sathredig;  
 Adennill yr hen âl Brydeinig—hi,  
 Er ei chyfodi yn dra dyrchafedig.

Yma yr henwr i dymer wanaidd  
 A wiw dynerai ei dannau euraidd  
 Dwyrëai alaw ddystaw, reolaidd,  
 O'i effro delyn yn firwd eolaidd,  
 Aml leisiau syml eosaidd—a melus,  
 Yn dlws, orhoffus, odlau seraphaidd.  
 Y bardd ddilynai, ebrwydd lawenydd  
 A ymagora dros ei amgeurydd;  
 Ty'r yn awyr "Llin Troia" o newydd,  
 A'u mawr ogoniant â mwy ar gynnydd,  
 Harri fwyn o Gymru fydd—deyrn enwog  
 Ar wych odidog wrthrychau dedwydd  
 Dos ym mlaen enwog d'wysog dewisol  
 Arfau ddygai dan Faner fuddugol  
 Y man y chwifia'r lluman uwchafol  
 Yno y baeddai y gelyn beiddiol;  
 A boed ei wlad arbedol—mewn traha,  
 Na ddiöfryda hi yn ddifrodol.  
 Eres yr egyr Aeres yr Eigion  
 Ei mur a'i dorau i'th Gymry dewrion,  
 A hynaws dyru i'th fynwes dirion  
 Y forwyn Lavinia, Freiniol Fanon,  
 A thrysawr dirfawr y don—yn waddol  
 Drwy eitha' nofiol lywodraeth Neifion.  
 Y forwyn lanaf o'th freiniol lwynau  
 A ymddyg freinlin iesin, am oesau  
 I fynu arwain ein gwych fanerau  
 I ennill helaeth allu a hawliau [iddynt  
 Dros y byd; pob ryw draws bau—grym

Yn llwyr o tanynt lle rhua tonnau.  
 Yna priodol gyn-enw Prydain  
 A glau adeirir trwy glyw y dwyrain  
 A llawen egyr y Llewain hygain  
 O ludoedd mawrwydych ei wledydd mirain;  
 O newydd hoff lin Owain—groesawa,  
 I'w wahawdd lleda 'i borthladdoedd llydain,  
 Goleua siriol ac ail "oes auraidd"  
 A gloew estyn ei goleu Awstaidd;  
 O'i flaen y ffoa, diflana ffaidd  
 Wrthyni moesol, a syrthni maswaidd  
 Naw canrif drist; cynhwrfdraidd—a byw wres,  
 Holl oeraf fynwes y gwyll Rhufeinaidd.  
 Yn nydd cynnadle'r drydedd genedlaeth  
 Daw hael Frodor, mewn duwiol efrydiaeth,  
 I weithio allan y doeth ddiwylliaeth  
 Ddechreuodd ei dad; trwy fraid drafodaeth,  
 Diwygia weinidogaeth—Eglwys Ion,  
 O'i hofergoelion, anfri, ac alaeth,  
 Gwryyf Frenines, gywir fron, enwog,  
 Ddaw i'w pherffeithiau, a llaw alluog;  
 Pryd hyn dedwydd fydd Prydain odidog  
 Yn ei byw ddoniau, a'i nerth byddinog  
 A rhydd y byd gwareddog—warogaeth  
 I fonedd helaeth y Fun ddihalog.  
 Yna fe newid—O'th hil fenywaidd  
 Una y benaf y Llin Albanaidd  
 Celyddon arfog, flagurog, gawraidd,  
 Yn fwyn a eiriol am fyw yn waraidd  
 O dan yr iau Brydeinaidd—a'r Ynys  
 O hyny erys mewn rhwymyn auraidd.  
 Ymrolia oesoedd gyda mawr lesiant  
 Ac yn eu heddwch y bobl gynhyddant;  
 Y Llewain helaeth yn llawn a hiliant  
 Ac am y dwyrain acw ymdorant  
 A'r heli mawr a hiliant—yn llengoedd,  
 Drwy ei ynysoedd yr hir deyrnasant.  
 A daw ail Fuddyg & delw foddliol,  
 Yn nadleniad yr oesau dilynol,

Lleinw ei bonedd, a'i gallu unbenol  
 Y cyfan wyddys o'r byd cyfaneddol;  
 O gau goluddion y mor Gogleddol,  
 I enbyd duedd y byd deheuol.  
 O'r anwar fro Ddwyreiniol—draw acw  
 I gaerau y llanw mawr Gorllewinol.”  
 Y gŵr hen dewai, a'r llu gwrandawol  
 Yn eu hust ogylch yn llwyr ostegol  
 Eto arhosit fel yn betrusol,  
 Fyth yn eu clustiau ei donau denol  
 Yn aroïan chwareuol—hoff dybient  
 A barhaus seinient yn ber a swynol.  
 Chwalai'r swyn, a chiliai'r si—yn raddol  
 A'i y dorf wrol gan ymdryferwi,  
 A rhyfeddu yn wir foddol—eto  
 I orphwyso yn orhoffusol.

---

 BOOK III.

THE army sets out for England—is supplied with necessaries on the march by the peasantry—crosses the Cardigan Mountains—descends the valley of the Severn—Henry is joined by the Monmouthshire, Glamorganshire, and North Wales Forces—they march upon Shrewsbury—deputations from the town meet him—the Red Dragon is seen waving upon its ramparts—the passage of the Severn effected—Henry halts his troops to afford time for the stragglers to come up—sends out scouts and videtts to scour the country—episode of the Battle of Shrewsbury—Henry harangues his troops—resumes the march—Stafford, Lichfield, and Tamworth open their gates to him—Richard is descried setting his army in order of battle near Bosworth—Henry gives order to concentrate his troops—sets out himself to reconnoitre—night closes—the sentinels go out to their duty—night adventure of Rhys ap Meredydd of Hiraethog and his companion—they surprise one of the enemy's sentinels, and bring him to the camp—Henry arranges the order of battle—the prisoner is brought before him, and discovers the disposition of Richards forces—Lord Stanley's quarters described—Henry's conference with Stanley—his meditation and prayer for the assistance of the Almighty—sleeps—Richard's restlessness, doubts and foreboding—night visit to the advanced posts—He surprises a sentinel asleep and stabs him—retires to his tents and drinks himself to sleep.

Y deneu wawr, edyn euraidd—a deg  
 Adferai'r dydd hafaidd,  
 Anian lwys baradwysaidd—d deffroai,  
 A chyniweiriai chiwaon iraidd

Pan y codai'r penciwdaud—a'i lewion  
 Lloedd lawer catrawd,  
 I beri rhydd barhau eu rhawd  
 Dan arfau yn gad anorfawd.

Y Ddraig Goch yn hardd i'r gwynt  
 A archwifol ddyrchefynt.  
 Llon daenai y llên doniawl,  
 A lledai yn y llwyd wawl,  
 A graddol ar gyrhaeddiad  
 Yr haul i euro y wlad,  
 Eurwych, hardd, edrychai hon  
 O odrau ei belydron.

Hyf rodiai y dorf fawrydig—ym mlaen,  
 Aml lu detholedig,  
 Yn gadau arfogedig  
 A chlau fron ac uchel frig,

Sain trydar, a swm troediaw  
 O bell oedd ar led bob llaw ;  
 Llais siarad lluaŵs siriol  
 Aml yn gweu ym mlaen ac ol.  
 Yna y meirch yn eu mysg  
 Wnaent dwrf, enynent derfysg,  
 O'u llawn nerth yn llawenhau,  
 Gweryrent trwy'r gororau ;  
 A swm eirf yn adsain oedd  
 Yn eu gweiniau yn gannoedd.

Dibaid dincian tarianau—neu estylch,  
 A darstain llirugau ;  
 A godwrld ysgogiadau—lluoedd chwyrn,  
 Y dirus gedyrn mewn dur wisgiadau.

Ac ar ol hyn gwyr y wlad  
 Niferi'm mhob cyfeiriad,  
 Ddygent luniaeth, maeth a medd,  
 Yd, a gwin, eu digonedd  
 I'w harwyr dewr ar y daith,  
 I'w hwylio i'r rhyfelwaith.

Draw annelynt yn dwr aneilydd  
 Ar ol eu baner siriol beunydd  
 Ar y daith am lawer dydd—trwy ganol  
 Gwalia unol mewn gwiw lawenydd.  
 Tua'r Amwythig troent eu trem weithion  
 Trwy ardal fynyddig Ceredigion  
 Hyderus âi miloedd dros ymylon,  
 Nen heibio gorwel y cribau geirwon,  
 I wared cymmoedd hirion—yn wisgi  
 Yn eu treigl wedi tua'r gwaelodion  
 Aneirif luaws o'u cartrefleodedd  
 Yn awyddus rhwng bylchau'r mynyddoedd  
 Hoew ddylifent ; disgynent yn gannoedd  
 Eto i waered dros lethrau'r tiroedd  
 Ar unwaith i ddyffrynoedd—yr Hafren,  
 Yno yn llawen i uno'u lluoedd.

Nesâi holl wŷr Essyllwg—tu arall  
 Pentyrent i'r amlwg,  
 A mawr gynnull Morganwg—wedi hyn  
 Yn eu dilyn â hyfryd olwg.

Hen orhyglod lin Raglan—o hirbell  
 Plaid Herbert a Vychan  
 A'u harferol eirf eirian—adwaenid  
 Man y gwelid y lluman gwiwlan.

Ac yna milwyr Gwynedd—a fawrwyd  
 Gyfeirient o'r Gogledd ;  
 Penderfynol, wrol wedd,  
 Eon wisgent un osgedd.

Dirfloeddai'r dorf luyddol—yn orfalch  
 Cyfarfod mor unol ;  
 A'u brwd anerchion brawdol—yn effraw  
 Barhau i nofiaw trwy'r wybren nefol.

Yn y dull hwnw gyda llawenydd  
 Dewr ymument dan odreu y mynydd ;  
 Yna 'mlaen elynt yn aml aneilydd ;



Mawrwydych ardaenai'r meirch i'r adenydd  
 Mal nifwl dwl dros haul dydd—yn hofian,  
 A chwyddog lydan orchuddio gwledydd.

Ysgubent mewn rhwysg heibiau,  
 Ymdaenent, lledent bob llaw  
 Yn eu grym fel afon gref  
 Yn nhroad rhod yr Hydref.

Y cyhydedd cawodog—yn arllwys  
 Ei orllif pistyllog  
 Ar lechweddau cribau crog,  
 Neu benau'r trumau banog ;

A channoedd o drochionog—aberoedd  
 Yn bwrw eu llif chwyddog  
 O agenau clogwynog—y mynydd,  
 Ochrawg ellydd, a chreigiau holltog.

Ys llithrant dros y llethrau,  
 A'u gyrfa yn ymgryfhau  
 Ar ogwyp gan ymrwygaw,  
 Codymant, llifant bob llaw  
 Yn eu treigl oll tua'r glyn  
 Heb aros yn llif berw-wyn ;  
 Acw o danodd cydunant  
 Yn llenwi y dywyll nant.

Ymwthia yn gyflym weithion—yn llif  
 Llawn trwy y gwaelodion  
 Gan hael fwrw gwyn lafoerion—ar led  
 A hyrddio i wared ei ddyfroedd oerion.  
 Tyr ar wastraff trwy rwystrau,  
 Rhed i bell ar hyd y bau.

Chwai gluda gynnyrch y gwledydd—o'i flaen  
 Fel us trwy y dolydd  
 Ysgrublaid, defaid un dydd—a dodrefa,  
 Ow! pa annhrefn wna'r dylif penrhydd!!

Oferedd i'r llafurwr  
 Dreio dal, neu droi y dwr  
 O dueddau ei dyddyn,  
 I'w yrfa ä, a'i lwybr fyn,  
 Nes dodi y gwastadedd  
 Dano oll yng nghyd un wedd.

Un olwg yr annelai—y fyddin  
 Hyf addig, lle cyrchai  
 Am y wlad yr ymledai,  
 A thrwy nerth ei mathru wnai.

Amaethon yr Amwythig—a nesynt  
 Yn isel grymedig,  
 I fewn i'w dwyn rhag ofn dig  
 I'w dinas ; ar llen Brydeinig,  
 Yn chwifio oedd uwch y fan,  
 A hafaidd ymgyhwfan.

Dros Hafren llawen äi'r llu  
 I'r ddinas gan hardd wenu.  
 A dynesai'r dinaswyr  
 Dinawdd, er gwañhawdd y gwŷr,  
 A'u llenwi â phob lluniaeth  
 Oedd chweg a pheraidd ei chwaeth.  
 Am oriau heb ymaros  
 At y dref pentyrynt dros  
 Yr hen bont a'r haiarn byrth.  
 Eangent yn gad engyrth  
 A rhawd di daw ar hyd y dydd  
 Tra'r elynt trwy yr heelydd.  
 Yma enyd dymunol  
 A rhoent y rhai hwnt ar ol  
 A lusgent fel ologordd  
 Yn dra phell gan feithder ffordd.  
 Y da flaenor diflinaw  
 A yrai dros y fro draw.

Y bywiog flaen—ysbiwyr—ar wasgar,  
 A'r ysgeifn feirch-filwyr,  
 I chwalu yn ymchwilwyr  
 Trwy'r cyfan o'r fan ar fyr.

O'r milwyr rhai ymwelynt—a'r ddinas,  
 Rhai ddenol orphwysynt;  
 Ond eraill hoewon dyrynt  
 At lan Hafren hen ar hynt.

Ryw henwr a arweiniai—yn eu mysg  
 Ei ddeng mab; a nodai  
 I'r rhai hyn, ma'n lle yr âi—bob denol  
 Olygfa ryfeddol gyfarfyddai.

“Da,” meddai ef, “dyma ddor  
 Lloegr wan yn egwan agor,  
 I ollwng ein dewr allu  
 Dros y wlad yn dreisiol lu.  
 Drwy eithaf cyfyng drothwy  
 A mur hen eu Hafren hwy.  
 Aml waith ar ymylau hon,  
 Ymladdai'n chwim luyddion:  
 A mynych iawn mynai chwydd  
 Ei deifr, a'i rhydiau afrwydd,  
 Uno'r estron i'n rhwystraw  
 Ennill Lloegr yn ol i'n llaw.  
 Ein Glyn Dŵr, galon derydd  
 Ar fin ei dwfr fu un dydd,  
 Oddi ar y dal dderwen,  
 Uwch y ffordd a ddyrch ei phen,  
 Yn edrych ar frwydr chwerw—i'w wrol  
 Gyngrheiriwr draw acw  
 Oedd unig y dydd hwnw—mewn ymdrech-  
 O flaen ei alon yn flin, welw. [ion  
 Hotspur orbybur o bell  
 Yn fywiog gyda'i fwyell  
 A'i holl rym ym mhob lle yr âi  
 Yn tyru dinystr adwaenai.  
 Yna rhan o'r gad freiniol  
 Chwalai'n wan a chiliai 'nol;  
 Ond Harri y Pedwerydd—a'i weision  
 Lluosog o'r newydd,  
 A dynent o'r adenydd  
 O'i ddentu—darfu y dydd:

Gwela Owain y glewaf—Hotspur draw  
 Yn eu dwylaw ei fynydd olaf.  
 A'i wyr esgyd ar wasgar  
 Erlidid, bwyd, mewn bâr.  
 Yntau a'i wyr tu arall  
 Ar led yn gweled y gwall  
 Yn iwin yn eu hawydd  
 I fynu adferu 'r dydd.  
 Rhai 'n hyfion dreio nofiaw  
 Y llif, a'u heirf yn un llaw  
 Ond y cerhynt a'i cariai  
 Heibio 'n wyllt, a'i 'sgubo wnai  
 I lawr; a'u tarianau ar led—acw  
 Yn ei ferw yn nofio i wared.  
 A rhai wedy'n i'w rhydiaw  
 Gynnilluent, ymdrechent draw.  
 Eto nerth y rhyferthwy,  
 Och yno oedd drech na hwy;  
 Y dylif mawr a'u daliai  
 Yn ol, a'u gorchfygu wnai."

Wedi aros i dyru—ei olaf  
 Filwyr, ac iawn drefnu  
 Ei holl weis yng nghyd yn llu  
 I'w chwanog amgylchynu,  
 Harri a lefarai hyn :—  
 "Yn y golwg mae'n gelyn,  
 Ond ar gil yn dirgelaidd  
 Lithro'n ol, heb wrol-aid,  
 Draw o'n ffordd yn druan ffy,  
 A'i wlad i'n dwylaw edy,  
 Awn o'i ol ef, anwylion,  
 Heddyw yn gref fyddin gron,  
 I frwydr yn barod ar frys  
 Er ennill Llyw yr Ynys.

Y rhai egwan, a'r gwragedd—y werin  
 Anwrol trwy'r duedd;  
 Ad o'i ol i'n dialedd,  
 Ac i lasn ein miniog gledd.

Ond O! arwyr hoff, a dewrion—na rwth  
 Anrheithiwch y gweinion  
 Neu ddinawdd werin ddynion  
 Ac eiddil hil y wlad hon.

Y dorf a gyfyd arfau—cawr luocedd  
 Caerloeyw a'i bleidiau  
 A ddifawn â'n cleddyfau  
 Na bo eu hol yn y bau.”  
 A'i air cydunai'r dynion,  
 Cychwynent, llament yn llon.

Rhoddai Harri o'i ddewrion—a'i gedyrn  
 Rai i gadw yr afon,  
 Er rhwystraw unrhyw estron  
 Feiddio hyf adfeddu hon.  
 Ereill ym mlaen a yrai  
 Ar eu chwynr ysgeifn-feirch chwai  
 Fel yn esgud flaen osgordd  
 I lanhau cyffiniau'r ffordd.

Tynai yntau ei hunan—yn foddus  
 Gyda'r fyddin gyfan;  
 A bywiog gamrau buan  
 Yn heinif oll i'r un fan.  
 Lloegr o gylch oll ger eu gwydd  
 Wyrain mewn gostyngeddwydd,  
 I roi egwan warogaeth  
 I Harri hyf mewn sobr aeth.  
 Brys agor ei dor i'w daith  
 Wnai Stafford; a'r drist effaith  
 Barai i Lichfield ildiaw  
 Yn llwfr ei hallwedd o'i llaw.  
 Fel hyn heb wrthwynebiad  
 Prysurai ymgyrchai'r gad  
 Trwy Tamworth i Bosworth bell  
 Yn olynol hir linell.

Yno gwelai y bywiog wylwyr—Rhisiart  
 Yn rhesu ei filwyr  
 Arwain a ehrynhoi ei wŷr  
 Yn fawrhydig i frwydyr.

Rhai yn ol wychr annelynt—yn hoew  
 A'r newydd hysbysynt  
 I Harri; ereill yrynt—ar bob llaw  
 I ddystaw wylaw yr hyn a welynt.

Hydr ogylch y Pendragon—anfonai  
 Ei fanwl archebion  
 A'i addysg i'r Llywyddion  
 I gyd drefnu eu llu llon;  
 Ac arwain eu gwŷr yn nes  
 Yn gydryw, unol gadres.  
 Chwai ei hun ar farch heiniſ  
 Ym mlaen ai, arholai, rif  
 Y galon; hir eu gwyliai,  
 Deall eu nerth a'u dull wnai.

Eu rhif oedd yn rhyfeddol—yn llenwi  
 'R holl wyneb cylchynol;  
 A heigiau ychwanegol  
 Y rhawg yn tyru o'u hol,  
 Ac estyn fel locustiaid  
 Oedd i bell yn dorf ddibaid.

Ond deuai'r nos i deyrnasu—a huliai  
 Yr olwg o'r ddeutu;  
 Huddai i lawr y ddau lu  
 A'i llen nudd i'w llonyddu.  
 Dirgelaidd droe y gwylwyr  
 Oll i'w rhawd trwy wyll yr hwyr.

Ymrodiai Rhys\* ap Meredydd—o gylch  
 Gyda 'i gar ap Gruffydd  
 Dewr weilch o gyflymder hydd  
 Yn gwyllo gyda 'i gilydd.

Tr golwg tânau'r gelyn—a roddent  
 Wawl rhuddog gyferbyn;  
 Nid oedd o enau un dyn  
 Ymatteb er ysmeityn.

---

\* Rhys ap Meredydd,  
 See Note Book IV Line 596.

Yr adeg hon Meredydd—ddywedai  
 Tyr'd ddiöediog Ruffydd  
 Gwelwn sawl o'n gálon sydd  
 Yn y lle yna'n llonydd  
 Awn hyd yr hesg lwyni draw  
 Yn ochelus i chwiliaw.  
 Y ddau ystig yn ddistaw,  
 Yna a'u llym gledd i'w llaw,  
 A'u tarian, a anturiynt,  
 Yn wyr glew, i'r ddirgel hynt.

Ymwyrent yn grwm, araf—i gadw'  
 Y cysgodion t'wllaf ;  
 A nesent gyrion isaf—y gwersyll  
 Yn y tywyll brysglwyni tewaf.

Yno gwelent ddau'n gwylio  
 Yn eu trefn : tro yn ôl tro  
 A roddent gan arwyddaw  
 Distawrwydd, a llwydd bob llaw.  
 Y llu yn y gwersyll oedd  
 Ar wasgar mewn dur wisgoedd  
 Yn llonydd a dall hunaw ;  
 A'u holl eirf yng nghyd ger llaw.  
 Yna y meirch yn rhwym oedd  
 Ar uchaf gwr y gwrychoedd,  
 Un a'i yn pori mewn hedd  
 O'u gweiriau, a'i yn gorwedd.  
 Yr iraidd ddau eryron  
 Yn öofn weilch y fan hon,  
 A wylent am gyfle i  
 Ryfygus ddiarfogi  
 Hoew ddal y ddau wyliwr  
 Yn ddistaw heb waedd a stwr.  
 Ail y llew ym mol y llwyn  
 Neu gil agos ryw glogwyn  
 Dan y wig ; od edwyn wedd  
 Dwy ewig ar y duedd ;  
 Hwn lecha yn ei loches

I ddenu y ddwy yn nes ;  
 Wedy'n annisgwyliadwy  
 Dyru naid, a darnia hwy,  
 Yr un-wedd y gwroniaid  
 Yn dyheu am gyfleu gaid.  
 Hoew neidient un nodwedd  
 Yn chwareu eu glâs-wychr gledd,  
 A dalient eu dau elyn  
 Yn ddystaw, â'u dwylaw 'n dyn.  
 Dan eu llaw un dewai 'n llwfr,  
 Llawn ddaliai'r llall yn ddi-lwfr,  
 A dig, lym godai ei gledd.  
 Ond Rhys am ei frwd rysedd,  
 A nyddai hwn yn fân ddellt  
 O'i ddwylaw fel eiddil-wellt.  
 A rhoddai ef ar y ddol  
 I orwedd yn gorff marwol.  
 Chwai eilwaith y dychwelynt  
 Yn ol o'u anrheithiol hynt  
 Yn dwyn y gwyliwr dinawdd  
 Gyda hwy yn esgud, hawdd.

Harri y cyfamser oedd  
 I'w lle yn trefnu'r lluoedd ;  
 A rhif o'i arwyr hyfion  
 Yn barhaus yn dod ger bron  
 Nodai Jasper i dosbarth  
 O ddewrion, pigion pob parth,  
 I'w cynnull yn y canol,  
 A rhai meirch yn rym o'u hol.  
 Yn Ober gwrthwynebiad  
 Neu graidd gwych yr agwrdd gad.  
 Y ddwy adain a ddodai  
 Yn eu trefn drachefn yn chwai  
 I wrol gael ei harwain  
 Gan Herbert a Gilbert gain.  
 O ôl hono ail linell  
 Yn balch ymestyn i bell  
 O weddill ei' wyr addig,



A phlaid y Llydawiaid dig,  
 A ranai dan arweiniad  
 Llywyddion glewion eu gwlad.  
 Rhys\* a'i feirch a'u gorsaf oedd  
 Ger llaw wrth gwr y lluoedd  
 Yn eorth gymhorth i'r gad  
 Man ei gwelai mewn galwad.

Yna Rhys† a'i gar i'w wydd—a wthient  
 Eu caeth-ddyn yn ebrwydd,  
 Adroddynt helynt hylwydd  
 Holl waith eu hymgyrch a'u llwydd.  
 A rhoddai HARRI iddynt  
 Wobr hardd am eu pybur hynt.  
 Yna holai yn helaeth  
 Y gwr ddygasid yn gaeth;  
 Gwnai iddo egwan addef  
 Yn ddioed a wyddai ef.  
 Y carn adyn crynedig  
 A waeddai, "O, yn dy ddig,  
 Na wana fi :—yn y fan  
 Yr holl ddadguddir allan.  
 Ar fin dwr afon DERWENT,  
 Lle y traidd ei lli y TRENT,  
 Ym magwyd yn llwm hogyn,  
 Ond cyflym ddaethym yn ddyn ;  
 Yna tröais, trwy awydd  
 I ennill llawn glod a llwydd,  
 I luoedd DUC CAERLOYW,  
 A'i allu ef ar fy llw.  
 Trwy ddiwyd aidd gwraidd ei gred,  
 Neu ddorau ei ymddiried.

A enillais yn hollol,—a rhanaf  
 O'i gyfrinach fanol,  
 Yr unig wr yu ei gol  
 Fÿn noddi yn feunyddiol,

---

\* Sir Rhys ap Thomas.

† Rhys ap Meredydd.

Yn y maes â deunaw mil  
O addig wyr dieiddil,

Mae Rhisiart i'r ymryson—yn ofnus  
Drefnu ei arfogion ;  
Ac ysig fraw 'n gwasgu'i fron,  
Ymwywa mewn amheuon,  
Y dichon fod bradychwyr  
Aml lwythau ym mblith ei wyr.

O gil iddo yn ogleddol—Barwniaid\*  
Brynaich a'u gwyr dethol,  
Arosant yn petrusol  
Ymdaeru wnant am droi'n ol.

Pr Deheu ar ei duedd,—STANLEY, a'i  
Estynol lu orwedd,  
Mwys ei air, amhetus ei wedd,  
I'n brenin, a braw unwedd.

I'w wylaw ef, ymwelais—a'i wersyll,  
Yn ei orsaf syrthiais,  
I'th law, trwy noeth ddwylaw trais,  
Galon lle na ddysgwyliais.

Llonydd babella'i hunan—yn agos  
Mewn unigol drigfan,  
Heb yno mwy neb, un man,  
O'i lu oll wylia allan.

HARRI yna ar unwaith—yrai am  
GRUFFYDD a RHYS ymaith  
Mewn brys, i'w dywys ar daith  
Yn ol i'r un fan eilwaith.  
Y ddau wron ddiaros  
Allan aent trwy wyll y nos:

---

\* The Earl of Northumberland, who commanded one of the wings, stood without motion, having first commanded his men to throw down their arms.—*Rapin.*

Eu HARRI a flaenorynt  
 O newydd i'r anhawdd hynt.  
 A'u gwan garcharor dan gël  
 A ddygynt yn ddiogel  
 I olwg lle bu'n gwyliaw  
 Yn llon cyn syrthio i'w llaw.  
 O wag orsaf y gwersyll,  
 Yn llwyd yn y trymllyd wyll,  
 Estynol *lên* Stanley a'i  
 Weision a ymddangosai:  
 Nodai y llwybr gyda llaw  
 I estyn yno'n ddystaw.  
 Yna HARRI yn wrol,  
 Gyda Rhys yn gadroi ol;  
 A'i heibio tua'r babell,  
 A'i lew gar mewn dirgel gell  
 Adewai ar wyliaidwriaeth,  
 I gadw'r gwr oedd yn gaeth.  
 Ychydig o warchawdwyr  
 I'w gweled oedd, yn gysglyd wyr,  
 Ar y welltog ddeiliog ddol  
 Yn gorwedd yn wasgarol.  
 Y babell dywell ddidân  
 A ofwyent yn fuan.  
 Harri i fewn araf âi,  
 A Rhys gerllaw arosai.  
 Stanley wyllt estynai 'i law  
 A'i gleddyf i'w ddig luddiaw.  
 Ond "Dir," dywedai Harri,  
 "Dy arab fab ydwyf fi,  
 Ar dy glun dyro dy gledd,  
 A hwn 'fory gwnei fawredd."

Yn ol ar hyn Stanley ro'es  
 Ei anerchfwyn gyfarchfoes,  
 A'i wawdd wnai i'w wydd yn nes,  
 Yno i agor ei neges.

A Harri, hyn geir ei iaith.—  
 “Afraid, fy nhad yng nghyfraith,  
 Rhoddi hanes hir-ddenol—o'r anwyl  
 Dderbyniad croesawol  
 Yn unllais gefais trwy gol  
 Gwiw lenyrch Gwalia unol.  
 Fy addig, a chref fyddin,  
 A orwedd draw, i hardd drin  
 Yn barus gledd y boreu,  
 Y barod ddewr, brwd ddyheu.  
 Pa ryw eirf darperi i  
 Ein hagordd galonogi.  
 I ysu y gormesydd,  
 A dwyn yr holl wlad yn rhydd?”

Ail ateb Stanley etaw  
 Oedd hyn,—“Y dreng elyn draw  
 Yn ammeu 'n hoff ddymuniad,  
 I uno 'n gwyr yn un gad,  
 I'w daro ef, a'i holl dras,  
 A'u hyrddio 'nghyd o urddas,  
 Eirian sedd yr ynys hon  
 A dreisiwyd gan ei drawsion,  
 A dynodd dy frawd dinam,  
 O gynhes fynwes ei fam,  
 Diau 'n wystl, i'm cadw 'n ol  
 Yn ei fyddin lofruddiol.

Darwain dy wyr ar doriad  
 Y wawr, i gyrch chwerw y gad.

Ymosod yn rymusol,—a byrbwyll,  
 Heb arbed, i'r canol;  
 Ond dal nerth dy lu yn ol  
 I'r adeg angenrheidiol.

O herwydd tra nifeiriol—yw 'm galon,  
 A gwyl:ant yn fanol  
 Am egwyl i 'mgloi o ol  
 Y sawdwyr ymosodol.

A minau yma ennyd—a oedaf,  
 Nes i'r adyn gwaedlyd  
 Gyfeirio ei wg a'i fryd  
 I ofwy y gad hefyd;  
 Na rodder i hwn ryddid  
 Yna i ladd Sior\* yn ei lid.

Yn y fan deuaf finau—i wyneb  
 Ei anwar gatodau;  
 Arno wed'yn dyrnodiau  
 Gyd-hyrddiwn, dyblwn ein dau.  
 A'r addig faedd a roddwn,  
 A'i luoedd gau, 'n wledd i gwn."

Y diwall Stanley dewai,  
 A Harri'n ol ar hyn ai,  
 A'i fewnol benderfyniad  
 I dynu 'i gledd o du'n gwlad;  
 A hyderu i dirion  
 Nerth ei wyr a chymhorth Ion,  
 Tynai i'w letty yn ol  
 Yn araf adfyfyriol.

Yno 'i hun penliniai ennyd—o flaen  
 Dwyfol lyw yr hollfyd;  
 I'w ofal rhodda! hefyd  
 Ei gŵyn a'i ofal i gyd.  
 A hŷn dawl yn diwedd  
 Wysiai hwn i tynwes hedd.

---

\* George Stanley, half brother of Henry, son of the Countess of Richmond by Lord Stanley.

Ond Rhisiart mewn dyryswch—hir roliai  
 Ar wely anheddwch ;  
 Anhoew droi mewn hûn drwch,  
 Yn fawr ei annifyrwch.

Codai wban cydwybod—afionydd  
 Fw flino 'n ddiddarfod,  
 A nwy fwy amheuai fod  
 Ei ddu ofwy ar ddyfod.

Brwd daerai fod bradwriaeth—ar agor  
 Ogylech trwy'r wladwriaeth ;  
 A'i fynwes oer ofnai saeth  
 Afrwyddaf cudd lofruddiaeth.

Ymsoniai, " Paham synaf—heno yr  
 Anwrol lesg ofnaf ?  
 O'i gadwyn ymysgydwaf  
 I'm hail nerth ymloewi wnafl.

Nid oes im' un dewisiad—ond enuill,  
 Neud annog gorthrechriad ;  
 Yna gwell marw'n y gad  
 Na llwfr oddef llofruddiad.

A haeddaf fi 'r cyhuddiad—am edliw  
 Am waedlyd lieiddiad,  
 Ar goeg lef trwy geg y wlad  
 Sydd am fy niorseddiad ?  
 Ni feddyliais hyf ddilyn  
 Yn barhaus y llwybrau hyn.

A chywir awydd dechreuais—ymroi  
 Am yr hawl ennillais,  
 Er i'w feddu gorfyddais  
 Fyned drwy ryw ysgafn drais.  
 O herwydd fy ymddiried  
 Oedd gryf am diduedd gred.

Croch ydoedd ysgrechiadau—niferi  
 O dan farwol glwyfau ;  
 A thaer odwrdd rhuthriadau  
 Y cawr feirch oedd yn cryfhau.

Rhyw fföadur ar ffwdan,—i Risiart,  
 Brysur nodai allan  
 Y wylofus gyflafan,  
 A'r llefau oedd trwy'r holl fan.

Yntau yr un amrantiad—a alwai  
 Syr William\* ar eiliad ;  
 Gyrai lwn äg arweiniad  
 Mawrwyh gorff gwyr meirch y gad,  
 I yru'n ol ddewrion wyr  
 Y sydyn ymosodwyr.  
 Yna gorchwim ddig archai  
 I'r holl ryfelwyr bob rhai  
 Arfo'i, yn dorf wgus,  
 A du reng ar reng di rus,  
 Lledai hwy yn gorff llydan,  
 A difwlch, ar led y fân ;  
 Yn gad-wregys gadr ogylch  
 Ail i gant tumewnol gylch.

Ond eisoes llwyr ddifrodasai—Gwilym  
 Galed lawer mintai ;  
 Nid oedd neb a'i gwynebai  
 A MILAIN NERTH YMLAEN ai.  
 A'i Eryron arwrol  
 Yn llu oedd yn lladd o'i ol.

Fel addig haid o fleiddiau,—yn difa  
 Defaid y corlanau  
 Heb rwystr, gan waedlyd barhau  
 Eu rhaib barus trwy'r borau.

---

\* Sir William Conyers.—*Rapin.*

Syw ar eiliad, Syr William—a'i erchyll  
 Farchwyr ar wyllt garlam  
 Ddynesynt, a gwelynt gam  
 Eu rhaglu, a'i mawr ddryglam.

Y Brython ewybr, hwythau,—a welynt  
 Y galon o'u blaenau ;  
 Yna o gylch gan ymgau  
 Arhosynt yn eu rhesau.  
 Osgoi ym mysg y gwrysg mân  
 Wnai'r bywiog saethwyr buan ;  
 Yno gwanent ugeiniau  
 O'r gelyn tra'n syn nesâu.

A chyda rhuthr aruthrol—hyf, erfawr,  
 Gyfarfu 'r meirch nerthol ;  
 De arion a di droi yn ol,  
 Hyrdient mewn nwyd angherddol.

Wyneb yn wyneb anwar,—a gorwyllt,  
 Gurent eu heirf llachar ;  
 A diau crynai daear  
 Gan bwys eu hegni a'u bar.

Meirch agwrdd a'u marchogion—a athrist  
 Fethrid yn ysgyriion,  
 Ysgeler gymmysg alon—ffyrnigwedd,  
 Yn ymorwedd yn hanner meirwon.

Y byw weddill yn fwy beiddiol—daenent  
 Y dinystr cynnyddol ;  
 Digilio ynghyd, gol yng nghol,  
 Ymgodent yn ymgydiol.

Llwyr rwygent y llurygau—â'u dyrnod,  
 Eu darniawg gloddyfau,  
 A'u hestyleh o gylch yn gwau,  
 Ehedent yu gawodau.



Edliwiai eu dau lywydd—eu hunain  
 A'u cenedl i'w gilydd,  
 Yn filain anhefelydd,  
 'Ill dau am ennill y dydd.

Arwr-falch Eryr Arfon—annelai  
 Ar Syr William d'tigllon,  
 Ag un frath gwanai ei fron—  
 Ai ei gledd i'w golyddion ;  
 A neidiai ei enaid dig  
 Fry o'i adail friwiedig ;  
 Yno y dreng gorff dan draed  
 A adawai mewn du-waed.  
 Y llyw eöfn galluawg  
 Laddai ac anrheithiai rhawg.

Delw ei gawraidd dal *Geirw*\*—o aur hardd  
 Ar ei ddur helm gloew ;  
 Ei rymus, faintiolus dw,  
 A'i ddiöfn osgedd hoew,  
 A darawai fraw drwy fron  
 Yr olaf o'i ddewr alon ;  
 A gyrent yn wasgarol  
 O'i wydd ef ar led y ddol.

Aethai'r niwl o lethrau nen,  
 A hael ddechreuai 'r haulwen  
 Estyn ei belydr gwastad  
 Yn ddigudd ar y ddwy gad.

Y gref fyddin freninol—oedd agos  
 Yn ddu-gorff bygythiol,  
 A'i hadenydd estynol—o'r ddeutu,  
 Yn lledaenu yn llinell doniol.

---

\* Sir William ap Gruffydd's coat-of-arms was, "Gules, a cherron ermire between three buck's heads, caboched argent."—*R. Lloyd.*

Ysgydwol hir gysgodau—y milwyr  
 Ymylent o'u blaenau,  
 Yn eangol ddwfn rengau "  
 Nes oedd eu gwedd yn nesâu  
 I wyneb brwydr, yn eu bri,  
 Ail gwrol-âl a gawri.

Gerllaw, o du 'r gorllewin,  
 Ein gwladwyr hoff yn glew drin  
 Eu gloew eirf dros eu gwlad  
 Ag iesin ymddangosiad  
 Ddeuai yn gref fyddin gron  
 Yn edrych ym mhelydron  
 Y wawr deg fel mur o dân,  
 Neu serog resi arian.

Y Ddraig Goch oedd ddewr ei gwedd  
 Yn hofiaw mewn tangnefedd;  
 Gan oedfawr, gain ehedfen  
 Yn doniol, hir daenol len,  
 O'u blaenau mor ysblenydd  
 Yn euraidd wen y wawr ddydd.  
 Dirfawr ennynai y dorf Freninol,  
 Hyrddiai i waered â godwrdd heriol;  
 Ymloewai hyder y gad ymledol  
 Yn eofn fawredd eu rhif nifeiriol;  
 Ond ystig, arab, dystaw, a gwrol  
 A'u heirf i ennill yn benderfynol;  
 Mawreddig ac ymroddol—â'r lliidiog  
 Hen Gymry enwog ar gamrau unol.

Hyf rodient oll yn fawrhydig—i'w ffordd  
 A'u gwaewffyn dyrchedig,  
 Ail i wedd symudol wig,  
 Neu goedfron dew, gauadfrig.

Yn awr äangent, ac o'r blaen rengau  
 Hwnt y saethwyr gyfeirient eu saethau  
 Ewybr annelynt trwy 'r wybren olau,  
 A'r suawg edyn yn groes gawodau,  
 Ar wyneb y tarianau—disgynert,  
 Fry ehedent ym mbob cyfeir adau.  
 Llawer a wenid—y lleill ar un waith  
 Gyd-ymffyrnigent—annelent eilwaith,  
 A llaw-law unent mewn hyll elynwaith;  
 Hyfrydent mewn difrodwaith—a chyni,  
 Rhwygo, archolli. pob drwg erchyllwaith.  
 Ail eu hawch oeddynt i'r awel chwyddol  
 A frig ewyna y cefnfor gwenol;  
 Yna yr eiddig gryfha yn raddol,  
 A'i hedyn lania donau olynol;  
 Cynnydda yn anferth gorwynt nerthol,  
 Rhwyga ei wyneb, rhua o'i ganol,  
 A rhed ail wenyg ar rawd dilynol,  
 A moryn ar foryn mawr anarferol  
 A hyrddiant mewn angher'dol—wylltineb  
 I olchi wyneb y lan gylchynol.

Felly mewn cynhwrf hyllig  
 Unai y ddwy fyddin ddiig.

▲ llym luydd' ai y llu ymladdol  
 Tarian yn nharian—taer uno'n wról  
 Mynwes ym mynwes—y rhai dynesol  
 O'u blaenau yrent y rhai blaenorol  
 I'r adwy fawr adifrodol—pentyrent,  
 Y naill a wthient y llall yn llethol.  
 Hir ymladd ydoedd, a thrwm laddiadau,  
 Rhwygo arosol yn y rhag-resau;  
 Un dyrfa hyllig â'u dur fwyellau  
 Yn lladd a welid—lluoeedd o'u holau  
 A unent dros eu penau—trwy'r cyfrwng,  
 Acw i ollwng eu chwyryn bicellau.

Arwyt dewrion yn dyrau ar dyrau,  
 A glewion oeddynt yn gelaneddau  
 Llonydd. a'u gwaed yn llynau—neu lithrig,  
 Hanner fferedig, a du bwdr ffrydiau.

Claf udai'r rhai clwyfedig,  
 A gawriai'r dewr gurwyr dig;  
 Hir ochain a mawr eichiau  
 Taer o'u mysg oedd yn trymhau.

Harri i'w gad-flaenoriaid—a roddai  
 Gyfarwyddid dibaid;  
 A thaniai ei Frythoniaid  
 I ddyblu eu haidd o'i blaid.

Y lle y gwelai allu y galon  
 Yn addaw ennill oddiar ei ddynion,  
 Yno o'i wrthol dygai gyfnerthion—  
 I'w ysgwar dygai'r gwasgaredigion.  
 A gwyneb y rhai gweinion—a nerthai,  
 A bywiol lonai y clwyfus blinion.  
 Y lle yr elai bob llaw ar eiliad,  
 Dwyreai unol, a hir daraniad  
 O hwre iddo, a mawr wahoddiad;  
 Yn rymus wed'yn i'r ymosodiad,  
 A newydd ymegniad—äent yn ol  
 Yn dyrfa unol, llawn penderfyniad.

Y blaenaf o'i bobl enwog,—Meredydd,  
 Ymwrodai yn gefnog,  
 A'i fwyell hoew, fywiog,—ddifrodai,  
 A hyll ysai elynion lliosog.

Ai ei hunan i'w canol,  
 Galwai ei wyr glew o'i ol  
 I'w chwalu a'u dymchwelyd,  
 A'u herlid ar led o hyd:  
 Y Saeson llyfrion yn llu  
 Chwai welid draw yn chwalu.

## MAES BOSWORTH.

Ail i ddof lu o ddefaid—o afael  
Yr ysglyfiawg fleiddiaid  
A dyrent, ar gyrch diriaid  
A chwai, i'w mysg yn chwim haid.

Ymwylltai y llym Wallter,—o Fferes,  
A pharai ar fyrder  
I'w wyr ei hun ail roi hêr,  
Ac ammeu hen lân Gomer.

Hyf alwai ar ei filwyr,—  
“Beiddiwch hwy a byddwch wyr,  
Ymledant yn ymlidiol,  
Eu trechu wnawn—trowch yn ol.”

Ail drefnai ei wladwyr ofnog—yn ddofn  
Golofn, ddu, bicellog ;  
A llu o feirch galluog—o'u deutu,  
I'w cau i fynu 'n gyfan-gorff cefnog.

Hoew i'r maes ammeuol  
Etto yn un aent yn ol  
Megis cwmwl dwl a du,  
Niwl isel yn ymlaesu  
O ael agos rhyw glogwyn,  
Ar osgo i lawr dros y glyn,  
Yn addaw goddiweddyd  
Y bugail a'i gail i gyd.

Meredydd â mawr hyder,—ad-unai  
'R gwyr dano ar fyrder ;  
Eofn ail drefnai hwy  
I'r gofwy ar ei gyfer.

Gorchwim i'r marwol gyrchiad—ar wrthrawd  
Tryruthrai y ddwygad,  
Dwyreai'r gwrthdarawiad,  
A'u treisiol lef tros y wlad.

Ar unwaith y tarianau—a holltid,  
 Ymddelltai 'r picellau,  
 A rhwygid y llurygau  
 Tan eu heirf yn cyd-dynhau.

O danynt meirch a dynion—a drengynt  
 Drwy ingawl archollion ;  
 Ac ysig glwyfedigion—ar wasgar  
 Yn hulio daear yn aml dewion,  
 A doent yr holl duedd  
 Yn eu gwaed yn wan eu gwedd.

Parh i, hir ddyblai'r ddwyblaid—eu hawchus  
 Ymdrechion yn ddibaid ;  
 Gw anu a mathru gweiniaid  
 Ar rawd llym trwy waed a llaid.

Deuai Rhys a'i feirch drosodd,—o'r maes holl  
 Rym y Sais ddymchwelodd,  
 Ar led eu meirch erlidiodd—o'u gorsaf,  
 Ac edyn eithaf y gad a noethodd :  
 Gordanbaid gewri Dinbych  
 Yn awr ymladdent yn wych.

Oddeutu'r osgordd taer wasgent,—bywiog  
 A'u bwyell dyrnodient ;  
 Llauer dewr i'r llawr dorent—yn dra chwyrn,  
 O ! mor gedyrn y trwm ergydient.

Y Saeson gwychion i gyd  
 A hyf ymladdent hefyd  
 Yn hyderus lu durol,  
 A glew yng nghyd, gol yng nghol ;  
 Er rhedeg llawer adwy  
 Rhwng eu heirdd gad-rhengau hwy.  
 Myg, hoew, yr ymgauynt  
 Yn un corff di fwch fel cynt ;  
 Y naill wr lle syrthiai'r llall  
 A wynebai yn ddiball.  
 Ar hyn Wallter o'r neilldu  
 (Yn gawr llon wrth gwr y llu)

A gyrchai yn llawn gorchest,—hêr wawdiai  
 Meredydd i'r ornest;  
 Taerai na anturiai neb  
 I'w wyneb mewn brwydr onest.

Y nwydwyllt Gymro neidiai,—a dyrnod  
 Arno chwyrn gynnygiai;  
 Ond Wallter mewn chwinder chwai  
 Yn gywir a'i osgoi;  
 Yna â phwynt ei waewffon  
 Annelai at ei galon.

Ond esgud ar led osgaw—â'i darian,  
 Gwyliadwrus ettaw,  
 Yntau a droes y pwynt draw;  
 Ail ddyrnod diludd arnaw  
 A roes yn hoew, brysur,  
 A naddai ei helm o ddu;  
 A dir y bwlch drwy ei ben—  
 Holtai ar d'rawiad mellten.  
 Llesg welwai'r lliaws galon  
 I gyd wrth yr olwg hon,  
 Ac ofius dröent eu cefnau  
 Yn draws i bell dros y bau.

Tra yr oedd y taer wŷr hyn  
 Ar gil yn troi y gelyn,

Y dewr Risiart dorasai,—ar y dde,  
 Trwodd, a chwalasai  
 Y lluoedd oll; mewn llwydd âi,  
 O'u hol enwog ddilynai.

Y toredig gatrodau—a lethol  
 Wthiai yn eu holau  
 Yn dra chwyrn; ymdrechai hau  
 Dyryswch trwy'r cadresau.

Dewrion y cyffindiroedd—a arfog  
 Ffurient yn fân dyroedd;  
 Yno'u taiog finteioedd,  
 Glewion wyr yn glynu oedd.

Wedy'n trwy'r cysylltiadau—hyf rwygai

'R Efrogiaid yn heidiau,  
Eangent rhwng y rhengau  
Am y gwyr yn cyflym gau.  
Gilbert gyda Herbert hyf,  
A'u Lloegrwys, dewr a llawgryf,  
Ymdrechent, feiddient fwy-fwy,  
I wrthddal y rhyferthwy ;  
Er hyny eu cario'n ol  
A fynai'r cenllif unol.  
Y gwrol FEURIG gawraidd  
Wynebái lu â gwyn blaidd ;  
Hynod oedd a'i gledd deuddwrn—  
Dyrnodiai o dwrn i dwrn  
Yn ddilesg nerth ei ddwyllaw  
I gadw'r holl giwiad draw.  
Glew ysai hwynt fel glaswellt,  
A naddai eu heirf yn ddellt.  
Tarawai fin ei gledd trwy farch,  
Gan ddifa yn ddygu ddihafarch.

Yno llawn ymgonnai llu  
Gweilch enwog i'w gylchynu.

Ymdyrynt am y dewraf—ar bob llaw,

Ymroi i'w geisiau am yr agosaf,  
Yntau ei hun yn y twr,  
Edrychai'n gadr ymdrechwr ;  
Ail llew yng nghanol llauws  
O waedgwn hyf, dig eu naw.  
O bob parth cyfarth eu cad  
Fw fwgwth â mawr fugad ;  
Er hyny hardd deyrn y wig  
Yn gadarn amahlygedig,  
A'i eidiawl drem a'i deil draw,  
Neud ystig a'i balf ; dystaw  
Tery y mwyaf taerion  
Yn feirw wael ger ei fron.



**A mawredd hafal Meurig—a luddiai**  
 Yr ymladdwyr Seisnig,  
 Llanwai y rhai pellenig  
 Unwedd oll ag ofn ei ddig:  
 Torai bob glew anturiol  
 O'i wydd i lawr yn ddi lol.

Gwthiai un dorf fygythiol  
 Yn awr i grynhoi o'i ol;  
 T'rawai yntau ar antur  
 I'w harfod hwy a'i arf dur.  
 Torai hwn trwy eu hamner  
 Yn y fan—un gyfran fer  
 Yn ei law a ddaliai ef;  
 A'i alon a chroch ddolef  
 Chwai thent i'w gylehynu,  
 Brys-redent, tyrent bob tu,  
 I'w gyrhaedd am y gorau,  
 A'u harsau yn mawr hyfhau.  
 Efrogwr ymfawrygus  
 Ddwyreal arf yn ddi rus  
 I'w ladd;—yntau a luddiol  
 Gymmerai naid gamraw 'n ol;  
 O'i ddiuawg law y darn gledd,  
 Hyrddiai yn hër i'w ddannedd.

**Am faen chwyrn ymofynai,—yn ei law**  
 Hwylus ei mantolai;  
 A hylig ei chwyrnellai—yn erbyn  
 Y taer, lew adyn, a'i brwit eflidiai:  
 Agorai hwn gwr ei fad,  
 A rholiai ef ar eiliad.

Ar hyn Harri arweiniai wrol  
 Lu i'w nerthi yn mlaen o'i wrthol,  
 Bywiog wthiai i'r bwlech bygythiol;  
 A chwai eilwaith y rhai dymchwelol  
 A'i dirion aidd a drôai 'n ol—i'w ddilyn  
 I'r maes wedi'n yn wfr ymosodol.

Ymnesai y Monwysion,—Hugh Conwy,  
 Ac enwog wŷr Arfon;  
 Lluon celyd llawn calon  
 Yn Æofn weilch i'r fan hon.

Dewraf wasgent trwy'r dorf derfysgol  
 Yn un corff arfog—cywir ffurfiol;  
 Lliaws trinawg y llu estronol  
 Yn awr adwaenai 'r faner doniol;  
 A'r ymlidwyr ymledol—encilient,  
 Hoew ail dyrent yn gadlu durol.  
 Etto y Brython dewrion a dorynt  
 Ar eu gwarthaf—a'u rhagwyr a wthiynt,  
 Ar eu hol resau—rhyw lawer ysynt,  
 Ac yn y terfysg i'w nysg ymwasgynt;  
 Yr egwan rengau rwygynt,—a'r dynion  
 Yn hyll ysgyrion bob llaw wasgarynt.  
 Yna trwy ganol y tyrau gweinion  
 Chwai y taranai y meirch terwynion;  
 I lawr o'u blaenau y milwyr blinion  
 Dan draed a fathrent, fwrient yn feirwon,  
 A'u herch, wgus farchogion—yn hyf hau,  
 A phwyo degau o'r ffœdigion.  
 Oferedd oedd i Risiart lafuriaw  
 Uno holl weddill ei wŷr i'w lluddiaw,  
 Yr ofnus wibiaid annhrefnus heibiau  
 Yn yroedd hwtient i'w hyrddio ettaw,—  
 Trwsgl ledyut yn traws gludaw—y rhai hyn  
 O wŷdd y gelyn un ffordd i giliaw.  
 Harri a'i farchwyr gyda thwrf erchyll  
 O ddeutu yrent yn lluoedd teryll,  
 Llefain oedd, a llyfon hyll,—gwae, a gwyd,  
 Erlid ac arswyd, ar led y gwersyll.  
 Annelai Rhisiart at ei ol resau,  
 Yn wyneb lidiog, i ddwyn ail bleidiau.  
 A Harri eilwaith ar fyr o'u holau  
 Wysiai ei bleidwyr o'u hyspeiliadau,  
 I'w herfyn at eu harfau,—yn ddichlyn  
 Edrych wed'yn am ail ymdrechladau,

Draw i'r aswy ymfrwydraw arosol  
 O ddeutu'u cynen oedd etto'n y canol,  
 Yno y brig aerwyr, ewybr, a gwrol,  
 A ymröus unent yn fwy ymrysonol,  
 Lluddio a difrodi—lladd döofrydol—  
 Parhau i senu—mewn ymladd personol .  
 Cloi yn un—encilio yn ol—ac wedy'n  
 Athrodi—ail enyn rhuthrau dilynol.  
 Un llu ar ddamchwa i'r llawr a ddymchwel  
 Ei elyn ysig, i'w daflu'n isel ;  
 A lloedd awchus, y llall a ddychwel,  
 Ennill ei ochr gyda llaw uchel ;  
 Rhwyfant ym merw ufel—llid oesoedd  
 Naw o ganrifoedd o gwyn a rhyfel.  
 Pan treisiasai pentyrau y Saeson  
 Yr aden ddeheu, diau 'n adwyon,  
 A hyrddio llawer i ffordd o'i luon,  
 Y Craidd noethasid—gwelid y galon  
 Yn neshau'n döau duon—o'r ddeutu,  
 Yn daer i lethu ein dewr lu weithion.

Ond dodai Jasper Tudur  
 Ei luoedd ail gwal o ddur,  
 A'u picellau yn gau gylch,  
 Neu bigog wyneb ogylch,  
 Yn ddidor annhreiddiadwy,  
 Gaer i ddal ei gorddwy hwy.

Arno rhyfygus gedyrn arfogol  
 Yn heidiau ffyrnig mewn nwyd uffernol  
 Hyf ymosodent, herient yn wrol ;  
 Erch y gorawrient, a'u meirch gweryrol  
 Yn rhuthro—rheng-hyrddio, mewn bar angerddol  
 Ar y picellau 'n gadau ymgodol ;  
 Etto, er hyny, y tyrau unol  
 A gwgus, anysogol—gyd-ddalient,  
 Nes eu gyrent bob llaw yn wasgarol.  
 Wed'yn awyddus ac adnewyddol  
 Eofn y tyrynt yn fwy anturiol ;

Yn ol dyrwygynt, gan feddwl dreigiol  
 Dori i fewn trwy'r llu penderfynol ;  
 Ac heilbiau yr ysgubol—ddychwelynt,  
 Hoew cyfeiriynt yn llu cyforiol.

Ail i ferwog lifeiriant  
 Olcha o gylch bylechawg gant,  
 Craig y mor pau dyrfo'r dôn  
 Ym mol y llym awelon,  
 Ffroch egyr gan fforchogi,  
 Chwerw yllch o'i hamgylch hi ;  
 Naid i wyneb ei dannedd,  
 Ond yn ei ol daw un wedd  
 Ar led o'r galed geulan  
 Fry yn mhell ddyferion mân.  
 Taer estyn eilwaith trosti  
 Ei chwydd hallt a chuddia hi ;  
 Etto 'n deithion trochionol  
 O'i serth nen y syrth yn ol ;  
 A'i brig bardd o'r berw gwyn  
 Odidog gyfyd wed'yn.

Eilydd holl luoedd hyllig—y gelyn  
 Digilio, ystyfnig,  
 O gylch dewr gyfangylch dig  
 Ein gwladwyr yngloedig  
 A ferwent yn gyforiol  
 Yn eu gwyn ym mlaen ac ol.  
 Ond ofer gwyn a dyfais,  
 Aruthr swm a rhuthrau Sais  
 I yru rhengau durol  
 Glewion wŷr Gwalia yn ol.  
 Dilysol y daliasant  
 Yn wrol ymgydiol gant,  
 Nes gwrthddal pwys dwys y dydd, .  
 A'i dynu o'r adenydd.  
 Yna yr iesin fyddin arfeiddiol  
 Etto unai yn llinell estynol ;

A glew i wyneb y llu gelymol  
 Ai, a chilwthiai hwy yn chwai lethol ;  
 Ac heibio yr ysgubol—brysurai,  
 Hoenus eu gyrai holl yn wasgarol.  
 Stanley oediog estynai law wed'yn,  
 A'i heinyf ddeiliaid yn hyf i'w ddilyn,  
 I wychr gau eilwaith ar ochr y gelyn.  
 A bywiog, fyrbwyll heibio gyferbyn,  
 Plaid y Llydawiaid a dyn—ymwasgent,  
 Yno brwd ochrent gan beru dychryn.  
 Y llu mawreddol yn llym, oraddig,  
 Yn eu rhwyf neidient a'u heirf unedig  
 Drwy holl heidiau y Saeson drylliedig,  
 Gan ddifrodi, yn ddygn ddiodydig :  
 Haffiaw arnynt, a'u ffyrnig—drywanu,  
 Uno i'w gwaedu yn angauedig.

Dyrwygai y Pendragon—ar y blaen,  
 Draw i blith y galon,  
 Gan fwrw degau yn feirwon,  
 A tharaw braw i bob bron.  
 Iê, i'w mysg ai ym mhell ;  
 Mileinig drwy aml linell,  
 Hirfwlch â'i "Galedfwlch" glas—a dorai,  
 A llawer gwmpai i'r llawr o'i gwmpas.

Ei wisgi, dâl, esgud olwg,  
 Ei drem lem, a'i drymawl wg ;  
 A llun byw y Llew\* yn balch,  
 Ddewr eistedd ar ei ystalch,  
 A lanwai ei elynion  
 A mawr gyffraw a braw bron.

Ar y llaw arall, lloerig—a dirwyllt  
 Awriai Rhisiart ffyrnig  
 Yn ddall gan angerdd ei ddig,  
 Ffei wawdiai y ffœedig.

\* Henry "wore a steel basnet with the Lion—the Llewelyn crest  
 on front."—*Morgan's C. History.*

Agwrdd ai i gwrdd ei wŷr,  
 Er eu hudo i'r frwydyr,  
 Chwai alwai i'w dychwelyd,  
 Dieffiaith y gwaith i gyd.  
 Heibio rhawg ar wib a rhus  
 Ffoai dynion ffwdanus ;  
 Yntau yn wyllt etto 'n ol  
 Hyrddiai yn fwy angerddol  
 I wrthladd yr anferth lu  
 Oedd yn ysol ddynesu.

Gorlenwol ymgreulonai,—a llawer  
 O'u lluoedd ddifrodai ;  
 Am y Ddraig ymdlyrwygai,  
 Herio ein hyf Harri wnai.

Llamai hyd at y lluman,—a'i lewdeg  
 Gludydd, Brandon wiwlan,  
 Wânai efe yn y fan,  
 Honai ei ddwyn ei hunan,  
 Nes wed'yn i Rys eiddiol  
 Ar naid ei adferu'n ol,  
 A diweddol wneyd iddaw,  
 A glewder hyf gilio draw.

Y traws deyrn anturus, dig,  
 A ofnai ; ond ystyfnig  
 Enciliai, llech-syllai'n sar,  
 Ail baedd gwyllt—rhuthrol, beiddgar,  
 Yn cilio rhag ei helwyr,  
 Taiog gad huaid a gwyr :  
 Drach ei gefn edrych o gylch  
 A'i lygaid cochliw ogylch.

Cynnyg yn aml i'w canol—& dir naid,  
 Darnia wyr o'i ledol ;  
 Er iddaw gilio'n raddol  
 O flaen eu heirf tafll yn ol.  
 Yr un drych y traws—deyrn drwg  
 Giliai a ffyrnig olwg ;

Gan frathu a gwnâu'r gwyr  
 O'i ledol a'i ymlidwyr.  
 Harri o draw ganfu'r drych,  
 A gyrai ei farch gorwych :  
 At Rhisiart hyrddiai trosodd,  
 Yntau ei drem atto drodd .  
 Hyderus, ddewr, droes y ddau,  
 Hwnt rhyngynt aent a'r rhengau ;  
 A galwent ar eu gilydd  
 I dori dadl daer y dydd.  
 Ymladdent, dyblent eu dau  
 Eu nwydwyllt, chwyrn ddyrnodiau ;  
 Hoenus dyrnent nes darniaw,  
 Eu heirf llyn mewn twrf o'u llaw.  
 Etto y'nghau aent y'nghyd  
 I filain ymafaelyd ;  
 Yr awchus Harri drechai,  
 A'i elyn hyf ddigalon âi ;  
 Ffei y drych ! hwn ffoai draw  
 O ddialedd ei ddwyllaw.

Ail unai ei ffyddlon wyr,  
 A'i ofalus feirch filwyr.

Dewisol wŷr adawsai—i aros  
 Unrhyw berygl godai :  
 A chwai eilydd dychwelai  
 Mewn nwyd, am Harri ymwnai.  
 Erchai i bob rhyw farchwr  
 Gyd-ruthro am dano'n dŵr.  
 Cipiai, trafl yncai, gwpan  
 O win neu fedd yn y fan :  
 Ewynai a gwedd wynias  
 Yn afrywiog, guchiog gas.

A du fwriadau'r llu dïofrydig  
 Arweiniai yna am Harri'n unig ;  
 Gorbyfion neidient âg eirf unedig,  
 Ewybr hyd wyneb y llen Brydeinig

Dewr droedient drwy doredig—catrodau,  
 Yn chwalu heidiau yn ddymchwledig.  
 Ar amrantiad grym Harri, yntau,  
 Dorai i'w hwyneb fel erch daranau  
 Rhys hy, a diofn ddewr—weis y Deheu,  
 Yno a'u torent i lawr yn bentyrau,  
 Rhai awchus nerth eu breichiau—ymladdent,  
 A rhai annelent draw yn eu holau.  
 Heibio meirch agwrdd heb eu marchogion  
 A hoewon felltiynt yn heinyf wylltion.  
 Yn eu lle gwelwai, lleihai y galon,  
 Ammheuai Rhisiart, ofuai'r ymryson.  
 Ond ar hyn neidiai Rhys, a dyrnodion  
 A hylaw gurai, nes treiglo'i goron,  
 Ar ei frig—a thrwy ei frou—ei gwânodd,  
 Yno ymwyrodd i blith y meirwon.

Y rhyfel a arafai—ac addig  
     Gigyddio a beidiai,  
 Ei dialedd dawelai  
 A'i huchel nwyd chwalu wnai.  
 Harri yno goronid  
 Yn y lle ar faes y llid.

Yna'r ddolef fawr, ddilys.—a'i gweddus  
     Gyhoeddai yn hysbys,  
 Yn iesin Frenin ar frys,  
**LLYW ENWOG YB HOLL YNYS;**  
 Y llu eirian yn lle y llawrwydd  
 Etto lawen ddygent olewwydd  
 Yn awgrym o ddiddigrwydd—er boddiol  
 Gofnodi hudol gyfnod dedwydd.

IEUAN BRYDYDD HIR.

*Mehesfin 26ain, 1858.*



# AWDL Y CAETHWAS.

---

Dwg Awenydd dy ganiad,—a llanw  
Bob llinell â theimlad,  
I'r Caethwas du sy'n wastad  
A'i einioes rwym dan sarhad.

Myn olrhain mewn manylrwydd—ei hynod  
Hanes i amlygrwydd,  
Hir edwi dan waradwydd,  
Yn wan, a gwael, bu'n ein gwydd.

Noeth ydyw a methodig,—yn llusgo  
Yn llesgaidd grymedig;  
A gwar nodwedd grynedig  
Gwywyd ef mewn gwaesu dig.

Is tewynboeth wres tanbed—haul y dydd.  
Ei galed waith sydd ddibaid;  
Dihoen a ei gnawd a'i enaid,  
Gan bwys ei gynt heb baid.

Ei filain feistr o'i flaen fydd,  
A'i boenus fflangell beunydd;  
March yra a mawr chwerwedd;  
Ni ad hwn amnaid o hedd.

Mewn dwys afar y mae'n deisyfu  
Gweled noswyl yn pyglyd nesu;  
Er nad oes i'r truan du—ond newid  
Berw ei ofid heb ei arafu.

Amser braidd ar drymaidd dro  
An'wyllysgar, yn llusgo,  
Hir oeda yn ei rediad;  
Braw yw hwn yn ei barhad.

A'i gyd weithwyr, gad aethus,—yn erwin  
Anwariaid truenus,  
A sarug anghysurus—o'i ddeutu,  
Gaed i'w nyehu i gyd yn awchus.

**E**s eul drueni, a'u caled driniaeth,  
**E**n wir a'u bwrient i ddwfn farbariaeth,  
**A** thosturi a aeth o'u hystyriaeth,  
**N**es eddin weithian suddo yn waethwaeth  
**I** ofer 'styfnig' afaeth,—di deimlad,  
**O**ll o un fwrriad yn llawn o fariaeth.

Eu gwarthrudd mawr, a'u gorthrwma,  
 Eu trais, a'u holl lafur trwm,  
 Amharent eu tymerau,  
 Yn afrywiog guchiog gau.

**E**drych yna drychineb—y Caethwas  
 Ac eithaf creulondeb,  
 Yn iselder moesoldeb;  
 Eu mydru'n wir nis medr neb.

**O**l hyll ofid aml a llafur—arno  
 A hirnyeh sydd eglur,  
 Ing oesol ac anghysur,  
 Mewn och gaeth a mynyeh gur.

**T**rwy benyd ei hir boenau,—eiddilwch  
 A ddaliodd ei gamrau  
 Cyn nawr oes, cwynion eisiau,  
 Braidd o hyd oedd i'w bruddhau.

Ar ol dŵyn holl draul y dydd  
 Ar y maes i'w ormesydd,  
 Troi a wna y truan noeth,  
 Adre' yna hyd dranoeth;  
 I'w daeog feistr dwg ei faich,  
 Hwn iddo ofyn ddeufaich;  
 Rhegu wna y rhawg yn wyllt,  
 Ffonodio, ffei yn nwydwyllt!  
 Gorchymyn a gair chwimwth  
 Y truan i'w fychan fwth,  
 I'w gadw yn ei gadwyni,  
 Yn dynach caethach na'r ci.  
 Yn ei gell unig allan,  
 Heb liw dydd, heb le i dan,  
 Edwa yn wael o dan wŷn,  
 Dig gnôad, a dygn newyn.  
 Ni wiw gweud i un ei gwyn,  
 Nag ochus gynyg achwyn;  
 Gwell iddo tra gall oddef  
 Ei chwerw loes, a'i groes gref.

A'n araf, i hen weryd  
Gwyw y bedd, o ddirmyg byd.

Y gwres oddefodd yn gras i'w ddeifio,  
Ei rymus aethau, a'i ormes weithio,  
Yn ysig ddirnych a wasgodd arno,  
Yn gryd aflonydd, yn gŵr difino,  
Nes gwelwn i'w gwsg gilio—trwy alaeth,  
Ei aflan driniaeth, a'i flinder yno.  
Cynydda 'i ofid, cnôa ddeufwy,  
Yn waew llidiog anwelladwy;  
Wrth afar y certh ofwy—troes allan  
I chwerw gwynfan â chŵr ugeinfwy.

Yn iâs olaf ei salwch,  
Druan llesg ymdru'n y llwch.

Gwel fawr resyn ei glwyfau hir ysol,  
Yn meddwi 'i reswm yn ymddyrysol;  
A chwyd ing arddwys syched angerddol,  
O'i fewn i'w ddifa'n fwy anoddefol,  
A'i ergydion rhwygiadol—heb beidiaw  
Yn gwânu trwyddaw ag yni treddiol.

Ond yn ei waelder, a'i frwd anhwyldeb,  
Ni ddaw i'w anedd, garuaidd wyneb  
I edrych yno ar ei drychineb,  
Neud i ddewisol nodi ei ddeiseb,  
Heddyw yn wir ni ddaw neb,—mewn eisiau,  
A dwr i'w enau, yn ei daerineb.  
Mae ei wraig anwyl, dyner, gynes,  
A fu unwaith yn Oen ei fynwes,  
Oni all hon weini lles—mawr iddo?  
Yn wir heno ni wyr ei hanes.

Chwaer yno na charenydd,  
Un nid oes ynghwyn y dydd,  
Yu ei unig, a i ddwfn angen,  
A ddeil bwys ei eiddil ben.  
Dyngarwch o dan gerydd,  
O'i wydd a ffoes yn ddi ffydd,  
I ddirmyg ciaidd ormes,  
Eto wneud ato yn nes.

Ai cyni melldith Canaan—a'i beichiodd  
Ai'i bechod ei hunan?  
Neu ryw anfoes roes ei ran,  
A mawr drôad mor druan!

Hoew yn nyffryn hen Affrig—bu unwaith  
 Dderbyniol nodedig;  
 Hardd iawn yn ei hiraidd wig,  
 Hyf rodiai yn fawrydig.

A'i odidog dref dadaeth—yn estyn  
 Yn wastad fro helaeth,  
 A naturiol ddwyn toraeth  
 O bob moethus felus faeth.

Eisiau manwl hwsmonaeth—yn ei dir  
 Nid oedd, na llaw amaeth;  
 Yr eiddil wig roddai laeth,  
 A'r llwyni i'r eu lluniaeth.

'R olewydd, a'r palmwydd per,  
 O tan eu ffrwythau tyner;  
 Ogwyddent eu brig eiddil,  
 A'u hebyrth mad—ymborth mil.

Yntau ei hunan mewn mwyniant hoenus  
 O'u holl ddaioni, wnai fyw'n llwyddianus;  
 Am hyn ni chwyddai mewn awch awyddus,  
 Uwch law ei frodyr, yn uchelfrydus;  
 Cywir ydoedd, cariadus;—lle trigai  
 Diyngan fyddai, yn dangnefeddus.

Ni bu yr un wyneb braidd,  
 O'r genedl Affriganaidd.

A'i ymarweddiad mor addas—ag oedd  
 Egwyddor ein Caethwas,  
 Nid oedd o'i fewn duedd fâs,  
 Gelyniaeth, na galanas.

Ei briod dawel bob awr y deuai  
 O fewn ei anedd yn fwyn a wenai,  
 Ei hedd, a'i gysur garusidd geisiai,  
 A'i les gwastadol ddilesg astudiaai.

Nid oedd un anedwydd air  
 Gwenwynig, nag un anair,  
 Ger eu bron a wnai greu braw,  
 I gynen gael eginaw;  
 Cariad hoff mewn cred o hyd,  
 Oedd eu diddan ddedwyddyd.  
 A thyner ffrwyth eu huniad,  
 Oedd un maban, mwynlan, mad.

Efe ydoedd cuaf hedyn—eu serch,  
 Tyfai'n syw fachgenyn,

Gan addaw y gwnai iddyn'  
Yn dda, pan y deuai 'n ddyn.

Ond O!r siom trwy 'n daear sydd,  
I ddyinion, byr ddywenydd.

Eu holl anwyl gynlluniau,—eu gobairth,  
A'u gwibiog bleseran,  
A doddant yn eu dyddiau,  
O'u gwydd, fel breuddwydion gau.

Ah! dïofal diau hefyd —weithian  
Fu'r Caethwas un ffunyd,  
Iach ei fron, di och ei fryd,  
A'i noddfa yn ei hawddfyd.

Llawen iawn, a llon ei wedd,  
Y tynai at ei anedd,  
Yn araf o'r llwyn irwydd,  
Yn awyr deg hwyr y dydd.  
Y BYCHAN diddan ar dwrdd  
A gofiai am ei gyfwrdd;  
Yn y drws, wrth swm ei droed,  
Hwn oedd hoew yn ddioed.  
A'i wraig gu â rhywiog wen,  
Yn ei lluest yn llawen,  
Ydoedd esgud i'w ddisgwyl  
A'i lluniaeth helaeth mewn hwyl.  
Dedwyddwch yn dod iddaw,  
Yn ddi rif mal llif llaw.

Ond ebrwydd duai wybren—ei heddwch,  
Ac eiddig dynghedfen,  
A mawr bwys, mwy ar ei ben,  
Ymwelai a throm wialen.

Llu o wylltiaid teryll allan,—orchwina  
Gyrchynt tua'i drigfan;  
A'u dieflig fryd arian  
I roi ei deg fwth ar dan.

Hyf aethant at ei fwthyn,—a'i danio,  
Gwneud dinystr, a dychryn;  
I ddwyn ef mewn tyn efyn,  
Diau yn gaeth, i'r dyn gwyrn!!!

A'i anwylid yn welw—o'i fynwes  
Ar funud hwynt acw,  
A chwai yrynt yn chwerw,—tua'r môr,  
Draw o'u goror ryw feithder garw.

Llym ubai golli ei maban,—Ow! hwn  
 O'i hol oedd yn rhywfan;  
 Gan y twrf a gwyn y tan,  
 Ni ellai ei ddwyn allan.

A'i phriod a gyffroai,—am ei fab,  
 A'i fam fwyn ymholai;  
 O'i holl gur yn ddrylliog ai  
 Gan alar a gwan wylai.

Aethus adeg i'r Caethwas ydoedd,  
 Yno ar law yr anwar luoedd,  
 A'i hallt arwain am hir filltiroedd,  
 O'r giwed wgs drwy goedwigoedd.  
 Heb aros, i aberoedd—y môrllyn,  
 Lle rhaid dilyn, i bell ardaloedd.

Yno ei daeog anrheithwyr duon,  
 I gyd yn orwyllt gadau annhirion,  
 A rhwth enynynt i'w werthu'n union,  
 I rai o genedl y morwyr gwynion,  
 Oedd ogyrch o'r gwyrdd eigion—yn ymbel,  
 A mynu iael lân Ham, yn weision.

Y gaeth long, fygythiol wedd,  
 A foriai'n llawn o fawredd  
 Tua'r lân; anturiol oedd,  
 A difraw ar y dyfroedd.  
 I'r lân yn wrol heini  
 Yn ebrwydd iawn o'i bwrdd hi,  
 Hyf neidiai y trafniwyr,  
 I effro *furgenio* 'r gwyr.  
 Bÿr gawod braw a gwewyr,  
 O uthr wedd y dieithr wyr,  
 Feddianai'r dorf ddu enyd,  
 A gwan ddistewynt i gyd.  
 Y trafniwyr ofnadwy  
 Oedd fel eu hen ddiabol hwy;  
 Lliw a gwedd yr ellyll Gwyn,  
 Oedd eilydd eu gwrdd elyn.  
 Troai sylw y traws helwyr,  
 Wrth eu gwaith i werthu gwyr,  
 A'r dyn gwyn, a'i fryd yn gaeth,  
 Fynai wedyn *drafnichiaeth*;  
 Ond i'r Caeth ni chaed, er cur,  
 Un i'w ddal yn ei ddolur.  
 Ei anwylyd yn wylaw,  
 Yn welw drist welai draw.

A llu o weiniaid y *llwyni*,  
 Yn sobr gylch o'i hamgylch hi,  
 Yn eu gefyn a gafwyd,  
 Yn dristfawr ar y llawr llwyd;  
 Heb allu ynddynt bellach,  
 Weini budd i fawr na bach.

Yn ei fceddwl canfyddai—y dynged  
 A'i hingol arhosai,  
 O fewn yn wir ofni wnai,  
 Wrth ddeall pa warth ddeuai.

Swm uchel y masnachwyr,—ar funud  
 Derfynai ei fyfyr,  
 Tra'n nesu i gyrchu'r gwyr  
 O ddwyllaw'r ciaidd helwyr.

Tua'r llong rhaid troi y llu  
 O'r golwg, a'u dirgelu,  
 Yn y gwaelod o'r goleu,  
 Ynghyd mewn tywyll gell gau.  
 Diyngan godi angor,  
 Draw er ymadaw i'r mor.  
 Wnai'r llongwyr yn hwyr y nos,  
 A morio'n ddiymaros,  
 Mynu hwylio mewn helynt,  
 I wneud am y **MARCHNAD HYNT**.

Pwy all ddirnad teimladau—y duon  
 Adawant ei glantau,  
 Heb hanes dod o'u poenau,  
 Yn ol byth i'w hanwyl bau.

Yma ein Herodr mewn hiraeth,—a alwai  
 I'w wylaidd ystyriaeth,  
 Drymder y cyfyngder caeth  
 A'i gwyliai mewn dig alaeth.

Adgofiai fyd ei gyfoeth,  
 A rhywiog ddull ei wraig ddoeth,  
 A'i faban penaf obaith  
 Eu llwyddiant a'u mwyniant maith.

Ond heno ni cheid hanes—anwylion  
 Manylaf ei fynwes,  
 Dan ddirmyg dinawdd ormes  
 Y gelyn brwnt galon bres.

Gwyddai fod ei wraig odiaeth  
Yn mysg y gymysg dorf gaeth;

Er hynny gwawr ei hwyneb—ni welai,  
Dan niwliog drychineb;  
Na gwaraidd lun ei grudd wleb  
Yn nylder ei hanhwylddeb.

Dwfn ochain adfynychol,  
Aml iawn gaed yn mlaen ac ef.  
Tinc dyniad hen gadwynau  
Yn troi o fewn, a'u tyrfau  
Ddychwelai'n ddau uwch eilwaith  
Bob enyd o'u dybryd daith.  
Sŷr don ddigysur dano  
Yna a'i thrwst yn ei thro,  
I ddilyn, yrai ddolef  
Ei hystwr i'w glustiau ef.

Fel hyn dirwynodd ei flin drueni,  
Dymor ei gludiad, a mawr galedi;  
Weithiau ystyriol boen a thosturi  
Am ei anwylyd yma'n ei welwi;  
Yn hynny gwenwyn ei hunan gyni,  
A gwyn ei ddrygwyr i'w gynddeiriogi  
Nes enyn o'i resyni—a'i deimlad,  
Ei ddeall gwiwfad braidd i'w wallgofi.

Naw chwerwach na nych hiraeth.  
Holl ing a gwg y llong gaeth,  
Cyni mawr cwyn y moryd,  
A'r hyll fraw ddrylliai ei fryd,  
Oedd ei driniaeth druenus,  
Ar ran y morwyr di-rus.

Eu lliidiog fflangelliadau,—en coegni,  
A'u cignoeth gernodiau,  
Yma o hyd fu'n trymbau  
Ei alarus ddoluriau.

Ar y lliidiog for llydan  
Dymor hir, dyma ei ran,



Ooh, amser ! syber yn syn,  
 Hir oedai ar ei edyn;  
 Arafu wnai terfyn nos,  
 Ac ofnau y ddu gyfnos;  
 Boreu a hwyr heb awr o hedd,  
 Yno a wgynt un agwedd;  
 A'r llong ar derfynau'r lli,  
 Ydoedd yn hirfaith oedi.  
 'Rol hir ymdroi o hon  
 Ar wguſ donau'r eigion,  
 Tawelai ei thrwst eilwaith,  
 Yn ewybr ar ei llwybr llaith.  
 A neidia'r Caethfarchnadwyr  
 Yn ol at y duon wyr,  
 I'w tyru bawb tua'r bwrdd,  
 Yn ddiōedi, gan ddadwrdd;  
 A'u hylig hyrddio allan,  
 I'w harlwy oll tua'r làn.  
 Yr ufuddaf dorf eiddil,  
 Yn y fan, ag ofnau fil.

A wolid ar hyd heolydd—enwog  
 Ddinas Orlans Newydd,  
 Yn dod yn ngwyneb haul dydd;  
 Wrth rwymau y gorthrymydd.

Heddyw frodyr Rhyddfrydig,—hyf ddynion  
 Prif ddinas Amerig;  
 Dattodwch darniwch mewn dig  
 Holl didau'r trallodedig.

Diraddio daear rhyddid—y mae'r caeth,  
 Mawr y ewyn o'i blegid;  
 Aeth braw dros ddynoliaeth brid  
 Wrth afar y swrth ofid.

Eich DUWIES gynes o'ch gwydd  
 A wrida dan waradwydd.  
 Cyfiawnder drwy'r CYFUNDEB,  
 Yn awr, O ! mynwch, er neb.

O! na, drwy'r ddinas yn wir,  
 Nid aml y cydymdeimlir

A llin Ham, er y cam a'r cur  
 A f'o i'w hysu'n ddifedur.  
 Yn nghanol prif heol hon  
 Hwy a dyrid, gad wirion!  
 Ol gwastad isel gystudd  
 Oedd rwth ar bob gwaraidd rudd ;  
 Meithder eu cyfyngder fu  
 Yn achos o'u gwanychu.

Ond eto ni wneid atal—trueni  
 Eu triniaeth ddihafal;  
 Pob creulondeb heb wahan  
 Wnai eu difa'n fwy dyfal.

Y caethwas yno âg aethus enaid,  
 Yn wan ddiobaith, dremiai yn ddibaid,  
 I barod wylio ei briod delaid  
 Oedd wael ei hagwedd yn ngwydd ei lygaid,  
 Yn ngalla y dreng wylliaid—annynol,  
 Anystyriol, rymusol ormesiaid.

Nodwedd anwar y trafuid ddynion,  
 A lluaws garw yr holl segurion,  
 A barai fraw bob awr i'w fron—a thristwch  
 Yn nirgelwch ei dyner galon.

Oriau ei bryder heibio a redynt;  
 Llu o ddinaswyr i'r lle ddynesynt;  
 A chan eu chwalu y caethion chwiliynt ;  
 Rhifo a honi y rhai a fynynt,  
 A'r addasaf rai ddewisynt—heb gel,  
 Yn hyf ddiogel adref a ddygynt.

Ar fyrder pob pryder prudd  
 Oúdiar ei wael ddwy-rudd  
 A fileinig ddiflanodd,  
 A'i holl drem yn orwyllt drodd.

Pan welodd mewn poen eilwaith—ei unig  
 A'i anwyl gydymaith,  
 Trwy anmharch yn troi ymaith  
 Yn y dorf i'w gerwin daith.

A'i addewid i ddial—ei mawrion  
 Gamwri'n ddiatal,  
 Neidiodd ef; ond ow! i'w ddal  
 Ei efyn oedd rhy ddyfal.

Yntau yr un amrantiad,  
 Ar dda fwrdd rhyw agerdd fad,  
 A rwydd yrid ffordd arall,  
 Gan greulon feibion y fall.  
 Ar y dwfr am lawer dydd  
 I fynu yr afonydd  
 Mordwyent, amryw duedd,  
 Yn ewybr iawn, a sobr wedd.

Weithiau awelog a phrydferth ddolydd,  
 Neu hardd wig lwyni, urddai y glenydd;  
 Ac yna banawg greigiawg greigydd  
 Oddeutu'r afon; aneddan, trefydd,  
 Yn y fan, a phlanfydd—ddoent yn amlwg  
 Heibio y golwg o gwr bwygilydd.

Lluaws o deithwyr llawen,  
 Yma yn aml, a mwyn wên,  
 Ddidanawl ymddiddenynt  
 Am y rhai'n ar amryw hynt.  
 Ond i'r caeth, cyfyngder cur,  
 Ing iasol ac anghysur,  
 A chwyddent mewn awch eiddig  
 Ei galon a'i ddwyfron ddig.

Llu arall gerllaw orwedd—yn ddistadl,  
 Diystyr, mewn gwaeledd;  
 Isel a gwan, salw eu gwedd,  
 Dihoenant mewn dihunedd.

Yr oeddynt i ryw raddau—i'w olwg  
 Yn ail iddo yntau;  
 Ac arwyddion ar eu gruddiau—eu bod  
 Dan fawr benod annifyr boenau.

Y gwragedd a gwawr egwan  
 Yn mhell oddiwrth eu plant man,  
 Dywalltwyd ffrydiau heilltion  
 Yno yn brudd iawn eu bron,

Rhai o honynt a rhinwedd  
 PENELOP, o anwyl wedd,  
 Am eu gwyr yn drwm a gwan  
 Ni ellynt wylo allan,  
 Yn dwyn eu galar dan gela,  
 Ysig oedd eu mynwes gu.  
 Rhieni a rhai anwyl,  
 Un wedd yn eistedd yn wyl,  
 Dan ddwyllaw y dyn ddulwyr  
 F'ai'n prynu a gwerthu gwyr.

Yno y Caeth yn ei aethau—a welai  
 Rai'n wylaidd mal yntau;  
 Clywodd, nododd eu nadau,  
 Foreu a hwyr heb fyrhau.

Adnabod eu wynebau,  
 Eu bod o hen Affrig bau,  
 Yr ydoedd,—ie'n frodyr,  
 Weithian, ow! 'u gaethion wyr!  
 Ymholi am eu helynt,  
 Pe gallai, hoffai ryw hynt,

Mewn gobaith mynu gwybod—eu hanes  
 Eu hunain a'u trallod;  
 A pha anach a phenod  
 Iddo efe oedd i fod.

Yn fwynaidd ymofynai  
 A rhyw un yn mblith y rhai  
 Eisteddynt yn gystuddiol  
 Gerllaw; ond effraw o'i ol  
 Noeth araith y caethyrwyr  
 O'r fan a'u galwodd ar fyr.  
 Yma'n dorf yn mhen y daith  
 Anelynt i'r lan eilwaith;  
 A thaenai y caeth ddynion  
 Ar hyd y lwyd ardal hon,  
 Pob un i'w ffordd ei hunan,  
 Yn un a'i feistr yn y fan.

Y lle ydoedd yn anniwylledig,  
 Perthi, anialwch, parthau anclwig;

A hin wasgawdwydd yn gymysgedig ;  
 Heirdd eang ddolydd, coedydd caëdig.  
 Yn eu tyfiant cyntefig—a'u berthedd  
 Yn fri a mawredd l fro Amerig.

Yma hirion dymhorau—y Caethwas  
 Cu weithiodd dan rwymau ;  
 Yn dyoddef cystuddiau,  
 A'i lafur hir heb lwfrhau.

Dealodd dynged hyllig—ei frodyr ;  
 Diofrydol Affrig  
 Adwaenodd ef o dan ddig  
 Ym marwol dir Amerig.

Lluaws truenus yn llaw estroniaid,  
 O'i hen hiliogaeth o flaen ei lygaid,  
 Yno a welodd, mal anifeiliaid,  
 O dan rymusol gyndyn ormesiaid ;  
 Gweithio a byw'n gaeth heb baid—oedd eu rhan,  
 O fewn ac allan, yn ofnog wylliaid.

Eu llafur a'u holl ofal—a droes wedd  
 Pob dyrus wig anial,  
 Y coedtir a'r sychdir sâl  
 Un nodwedd a'r hen Eidal !

O wawr boreu, heb aros,  
 Hyd yn hwyr y byglyd nos,

Hwy yrid yr holl oriau—i'w llafur,  
 Mewn llefain a dagrau ;  
 A'u niweidiol gernodiau  
 Lluosog oedd i'w llesgau.

Ond O ! alar du eilwaith  
 Na fu ar y ddaear faith

Un o'i ail ar ddynoliaeth !—y gwerthu,  
 A'r gwarthus drafndiaeth ;  
 Ofnadwy gyfnewidiaeth—  
 Eneidiau gwŷr, fu nod gwaeth !

Pwy yw'r hwn all eu prynu—a sorod,  
 Megys aur, a'u gwerthu !  
 Onid iawn yr enaid du  
 Yw dewisol waed Iesu ?

Rhwygo oddiwrth y gwragedd—y gwŷr,  
 A'u gyru o'u hanedd ;  
 Eu hanfon i fyw un wedd  
 At eraill yn eu taeredd.

Tynu y gwan blentyn gŵyl  
 O fynwes mwyaf anwyl  
 Ei fam, a'i werthu ar fyr  
 I ddwylaw y dyn ddeilwyr.

Yno fe dynant fywyd dihoenus,  
 Yn hir eu dyoddef yn waradwyddus ;  
 Nes y dirwyna eu hoes druenus.  
 Yn araf i ben eu gyrfa boenus ;  
 A suddant yn droseddus—yn angau,  
 Wed'yn i'w beddau yn snadnabyddus.

Fel hyn addig flynyddau—yn dystion  
 O'u distadl gyfyrâu,  
 Hwylt aethant o'u harteithiau  
 I wydd eu lor yn ddiâu.

Ail ddeffro teuluoedd Affrig—a ddaw  
 Ryw ddydd yn Amerig ;  
 Y gadwyn felldigedig  
 Drydd yn gledd dialedd dig.

Naw gwaith ar ei daith i'r de,  
 Ar dro eglur ei dreigle,  
 Ymwelai y llem heulwen,  
 Yn y iach bwnc uwch ben,

Gan weled gwae aneilydd—ein arwr,  
 O oriau bwygilydd ;  
 Ei lafur gur, a'i gerydd,  
 Yn drymach, dostach bob dydd.

Nes heno yn resynol—yno'i gael  
 Yn ei gell ddi'styrol,  
 Yn min angau, mewn ingol—galedi,  
 Yn fwyd i gyni ei ofid gwânoł.

Y nos enciliai o'r nen,  
 Gwawl obry o'r glau wybren,  
 Yrai tan agenau'r tŷ  
 Wawr wylaidd ar ei wely.

Ust ! gawria mawr drwst y gyrydd  
 Yn rhwygo i fewn â rhegfydd.  
 Y caethion llymion yn llu  
 Ar funyd gyr i fynu.

Wrth ei floedd a'i araeth flin  
 Syn agorai swn gerwin ;  
 Y gweis oedd o'u celloedd cau.  
 Yn codi yn eu cadwynau ;  
 Hyrddio oll un ffordd allan  
 I'w garwaf gyrech, gryf a gwan.

Y ffyrnig yrwr ffroen gawraidd—ogylch  
 A llygaid eryraidd,  
 Fynai wyllo'n fanylaidd  
 Ei holl wŷr â diwall aidd.  
 Un ar ol yn awr welai,  
 A'i geisio'n wyllt wguŷ wnai.  
 Canfu ef mewn cnofa wyllt  
 O ysol waew ias-wyllt,  
 Ar y llawr yn nghwr y llwch,  
 Yn dra isel mewn d'ryswch,  
 A ffyrnig awffiai arnaw  
 A llais broch yn arllwys braw.  
 Ar ei chwimwth orchymyn  
 Ymdroai a syllai'n syn,  
 Y gwan ŵr, mor egwan oedd  
 Yn ei angen a'i ingoedd !  
 Ni allai ddal yr holl ddig,  
 Neu godi yn llwgedig.  
 Un eiliad, yna'i olaf,  
 Canfu, ie clybu'r'claf  
 Ei filain feistr o flaen y fan,  
 A nwyd hyll yn neidio allan.  
 Rhuthrai hwn, ag aruthr wedd,  
 I mewn yn ddiamynedd ;  
 Rhodd ddyrnod cawraidd arno  
 Hyd y llawr, ar drystfawr dro.  
 Pan syrthiodd ymdreiglodd draw,  
 Y ddiweddaf oedd iddaw.  
 Yr enaid byw ar naid bell  
 Ai heb wybod o'i babell ;  
 Dan ei ddwrn adeiniodd ef  
 O'i fraw odrist fry adref :  
 Gadawodd (mewn gwawd diau)  
 I'w feistr syn ei briddyn brau.  
 Hwn arafai yn rhyfedd,  
 A chwai newidiai ei wedd,  
 Pan sylwodd mewn poen salw—ei Gaethwas  
 Gweithiol yno yn marw ;  
 Mawr alar am yr elw—gollododd  
 A'i digalonodd y dygwyl hwnw.  
 Ac archodd i'w weis gyrchu—ei gelain  
 O'r golwg i'w gladdu ;  
 Yna trodd ei wyneb tru  
 Yn ei hallter o'r neilldu.  
 Aeth o'r fan dan affan nod,  
 Gan edifar gnoi'i dafod.

Dau gaethwas dan werddlas wig,  
 I lanerch dawel unig,  
 A isel hebryngasant—ei wael lwch  
 I wlad ebargofiant ;  
 Uwch ei oer dŷ un chwerw dant  
 Ni phrysur gyffroasant ;  
 A llinell ni ddarllenwyd,  
 Pan roed e' i lawr i'r llawr llwyd,  
 Arwyddai fod o'r briddell  
 I'w gorff ADGYFODIAD GWELL ;  
 A ni adawyd yn diwedd  
 Faen i nodi ei fedd !  
 Yr adar cyffroedig,  
 Yn ol i'r awenol wig,  
 Yn chwai eilwaith ddychwelynt  
 I eilio cân oll mal cynt ;  
 Uwch ei fedd eu mynych fawl  
 Braidd seiniai yn brudd swynawl !  
 Ac arno ef deigr y nos  
 Wylai enyd ei wynos !  
 Trwy y tywyll wyll allan—O ! edrych !  
 Ryw grwydrad annyddan  
 Ar fyr ddynesa i'r fan,  
 A hono wrthi ei hunan.  
 Melltena llym wylltineb—yn ei phryd,  
 Yn ffrom gan anhwylddeb ;  
 Try yno mewn taerineb,  
 Gorwedd i lawr a grudd wlebl !  
 I'w monwes ddiamynedd  
 Hi locha fan lwch ei fedd !  
 Nych ei hiraeth a'i chwerwaf—orchfygodd,  
 Ac arno wylodd ei deigr yn olaf.  
 Angau yna y'nghanol—ei gofid  
 Yn gyfaill tosturiol,  
 Hebryngodd o'i braw ingol  
 Hon i'w gŵr fel yn ei gol !  
 Y rhai hyny hir wahanwyd—yn awr  
 Yn ol a gydunwyd ;  
 Ac o'u mawr wae cymerwyd  
 Y ddau yn awr i'r llawr llwyd !

“ RHYDDFRYDWR.”





as they  
Hiraethog aeth droo  
Kwau man an ier ingan  
Dny i (hard hweg) in l  
Homa! De afrijnd





This book should be returned to  
the Library on or before the last date  
stamped below.

A fine of five cents a day is incurred  
by retaining it beyond the specified  
time.

Please return promptly.

